# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
# The National Assembly for Wales

## Cofnod y Trafodion
## The Record of Proceedings

**Dydd Mawrth, 8 Ionawr 2013**
**Tuesday, 8 January 2013**

**Cynnwys**
**Contents**

3 Cwestiynau i’r Prif Weinidog
Questions to the First Minister

33 Pwynt o Drefn
Point of Order

35 Cwestiwn Brys: Maes Awyr Caerdydd
Urgent Question: Cardiff Airport

39 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes
Business Statement and Announcement

47 Datganiad: Cymwysterau Cymru
Statement: Qualifications Wales

350 Datganiad: Yr Ymgynghoriad ar Raglenni’r Cronfeydd Strwythurol ar gyfer 2014-20
Statement: The Consultation on the Structural Fund Programmes 2014-20

77 Datganiad: Ailddechrau Defnyddio Eiddo Gwag: Cynllun Troi Tai’n Gartrefi
Statement: Bringing Empty Properties Back into Use: the Houses into Homes Initiative

93 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Atal Twyll Tai Cymdeithasol
Legislative Consent Memorandum on Prevention of Social Housing Fraud Bill

98 Setliad Llywodraeth Leol
The Local Government Settlement

120 Cyfnod Pleidleisio
Voting Time

121 Dadl Fer a Ohiriwyd o 21 Tachwedd 2012: A yw Cynlluniau Datblygu Lleol yn Addas i’r Diben?
Short Debate Postponed from 21 November 2012: Are Local Development Plans Fit for Purpose?

Yn y golofn chwith, cofnodwyd y trafodion yn yr iaith y llefarwyd hwy ynddi yn y Siambr. Yn y golofn dde, cynhwyswyd cyfieithiad.

In the left-hand column, the proceedings are recorded in the language in which they were spoken in the Chamber. In the right-hand column, a translation has been included.

*Cyfarfu'r Cynulliad am 1.30 p.m. gyda'r Llywydd (Rosemary Butler) yn y Gadair.*
*The Assembly met at 1.30 p.m.with the Presiding Officer (Rosemary Butler) in the Chair.*

**Y Llywydd:** Prynhawn da. Blwyddyn newydd dda i chi i gyd. Galwaf Gynulliad Cenedlaethol Cymru i drefn.

**The Presiding Officer:** Good afternoon. Happy new year to you all. I call the National Assembly for Wales to order.

## Cwestiynau i'r Prif Weinidog
## Questions to the First Minister

### Menter Tocynnau Teithio Rhatach ar Drafnidiaeth Gymunedol

### Community Transport Concessionary Fares Initiative

***1. Rhodri Glyn Thomas:*** *A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y fenter Tocynnau Teithio Rhatach ar Drafnidiaeth Gymunedol. OAQ(4)0831(FM)*

***1. Rhodri Glyn Thomas:*** *Will the First Minister provide an update on the Community Transport Concessionary Fares initiative. OAQ(4)0831(FM)*

**Y Prif Weinidog (Carwyn Jones):** Mae'r Gweinidog dros Lywodraeth Leol a Chymunedau yn ystyried adroddiad gan swyddogion yn dilyn gwerthuso'r fenter tocynnau teithio rhatach ar drafnidiaeth gymunedol, a bydd yn cyhoeddi ei benderfyniad yn y man.

**The First Minister (Carwyn Jones):** The Minister for Local Government and Communities is considering a report from officials following the evaluation of the community transport concessionary fares initiative, and will announce his decision in due course.

**Rhodri Glyn Thomas:** Diolch am yr ateb hwnnw, Brif Weinidog. Codais y mater hwn yn y lle cyntaf gyda'r Gweinidog â chyfrifoldeb dros drafnidiaeth ym mis Tachwedd 2011. Yr oedd Llywodraeth Cymru'n Un wedi gwneud asesiad, ac wedi penderfynu parhau â'r cymhorthdal hwn, oherwydd ei bod yn ystyried bod y gwasanaeth yn un hanfodol. Bellach, gwelwn sefyllfa lle mae nifer o wasanaethau bysiau yn cael eu colli, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, oherwydd bod y cymhorthdal i bobl sy'n rhedeg y gwasanaethau hynny yn cael ei gwtogi, ac yn awr gwelwn nad oes sicrwydd ynglŷn â'r cymhorthdal hwn. A ydych yn barod i dderbyn sefyllfa lle y bydd rhannau helaeth o Gymru yn gweld bod gwasanaethau o bob math yn diflannu yn eu cymunedau?

**Rhodri Glyn Thomas:** Thank you for that response, First Minister. I raised this issue in the first place with the Minister with responsibility for transport in November 2011. The One Wales Government had carried out an assessment and had decided to continue with this subsidy because it viewed it as a vital service. By now, we see a situation where a number of bus services are being lost, particularly in rural areas, because the subsidy for the people who run those services is being cut, and now we see that there is no guarantee about this subsidy either. Are you willing to accept a situation where substantial parts of Wales will see all kinds of services disappearing in their communities?

**Y Prif Weinidog:** Nac wyf. Rwyf yn siŵr y bydd y Gweinidog yn ysgrifennu at yr Aelod i sicrhau y bydd dyddiad yn cael ei roi pan fydd penderfyniad yn cael ei wneud.

**The First Minister:** No. I am sure that the Minister will write to the Member to ensure that a date is provided when a decision is to be taken.

**Byron Davies:** Given the cuts that the Government is making to the bus service operators grant, and to the local transport services grant, any cut or cancellation to the

**Byron Davies:** O ystyried y toriadau y mae'r Llywodraeth yn eu gwneud i'r grant gweithredwyr gwasanaethau bysiau, ac i'r grant gwasanaethau trafnidiaeth lleol, mae

community transport concessionary fares will really hurt some people, particularly the most vulnerable in Wales. Equally, I wish to share the disappointment of the Community Transport Association that the original 15 projects were never expanded. Therefore, will you ensure that the future of this scheme is seen within the context of cuts to other public transport grants, and protect the freedom that some of the most vulnerable in our society enjoy because of this initiative?

unrhyw doriad neu ddileu o ran y tocynnau teithio'n rhatach ar gyfer cludiant cymunedol yn effeithio'n helaeth ar rai pobl, yn enwedig y rhai mwyaf agored i niwed yng Nghymru. Yn yr un modd, hoffwn rannu siom y Gymdeithas Cludiant Cymunedol na chafodd y 15 prosiect gwreiddiol erioed eu hehangu. Felly, a wnewch chi sicrhau bod dyfodol y cynllun hwn yn cael ei ystyried yng nghyd-destun toriadau i grantiau trafnidiaeth gyhoeddus eraill, ac amddiffyn y rhyddid y mae rhai o'r bobl fwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas yn ei fwynhau oherwydd y fenter hon?

**The First Minister:** That was a very fast question. [*Laughter.*] I will try to give an answer. The Member is on difficult ground in suggesting that there should be no cuts in terms of vulnerable people, given what his party is doing with benefits. That is something that he should very much bear in mind. Hard-working people are losing their benefits because of the proposals that are being put forward. The reality is that we are doing all that we can to ensure that there are sufficient bus services in Wales, remembering the financial settlement that we have had. It is true that we cannot afford to support everything that we have done in the past given the financial settlement that we have received, however, we will continue to ensure that we support services as best we can in order to help vulnerable people.

**Y Prif Weinidog:** Roedd hwnna'n gwestiwn cyflym iawn. [*Chwerthin.*] Ceisiaf roi ateb. Mae'r Aelod ar dir anodd wrth awgrymu na ddylid gwneud dim toriadau o ran pobl agored i niwed, ac ystyried yr hyn y mae ei blaid yn ei wneud gyda budd-daliadau. Mae hynny'n rhywbeth y dylai'n sicr ei gadw mewn cof. Mae pobl sy'n gweithio'n galed yn colli eu budd-daliadau oherwydd y cynigion sy'n cael eu cyflwyno. Y gwir yw ein bod yn gwneud popeth y gallwn i sicrhau bod gwasanaethau bws digonol yng Nghymru, ac ystyried y setliad ariannol yr ydym wedi ei gael. Mae'n wir na allwn fforddio cefnogi popeth yr ydym wedi'i gefnogi yn y gorffennol o ystyried y setliad ariannol yr ydym wedi ei dderbyn; fodd bynnag, byddwn yn parhau i sicrhau ein bod yn rhoi'r gefnogaeth orau y gallwn i wasanaethau er mwyn helpu pobl agored i niwed.

**Eluned Parrott:** First Minister, community transport operators are providing an increasingly important service in providing non-emergency patient transport for the health service. Having agreed the budget at the end of last year, you are surely in a position to be able to tell those operators whether that funding is protected in the 2013 budget line.

**Eluned Parrott:** Brif Weinidog, mae gweithredwyr cludiant cymunedol yn darparu gwasanaeth cynyddol bwysig i'r gwasanaeth iechyd drwy gludo cleifion mewn achosion nad ydynt yn rhai brys. Ar ôl cytuno ar y gyllideb ar ddiwedd y flwyddyn ddiwethaf, mae'n rhaid eich bod mewn sefyllfa i allu dweud wrth y gweithredwyr hynny pa un a yw'r cyllid hwnnw wedi'i warchod yn llinell gyllideb 2013.

**The First Minister:** As I mentioned earlier, in my answer to the Member for Carmarthen East and Dinefwr, I will ensure that a date is provided to Members by which a decision will be taken. I will ensure that Members are aware of that date as soon as possible.

**Y Prif Weinidog:** Fel y soniais yn gynharach, yn fy ateb i'r Aelod dros Ddwyrain Caerfyrddin a Dinefwr, byddaf yn sicrhau bod dyddiad erbyn pryd y gwneir penderfyniad yn cael ei ddarparu i Aelodau. Byddaf yn sicrhau bod Aelodau yn

ymwybodol o'r dyddiad hwnnw cyn gynted ag y bo modd.

**Rheoli'r Perygl o Lifogydd**

***2. Darren Millar:*** A *wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am reoli'r perygl o lifogydd yng Nghymru. OAQ(4)0818(FM)*

**The First Minister:** Yes. These objectives are set out in the national strategy for flood and coastal erosion risk management in Wales.

**Darren Millar:** Thank you for that answer, First Minister. You will be aware that, in November of last year, there was significant flooding in my constituency, not least in Ruthin. I was grateful that you took the time to visit Ruthin in the immediate aftermath of those floods. An Environment Agency investigation has concluded that the culverts in the area had been blocked, and that that resulted in the flood on the Glasdir estate. Some of the residents on the Glasdir estate, and in the wider Ruthin area, are concerned that there needs to be a public inquiry into what happened on that estate, and into the management of flood risk. Will you concede to those requests, and accept that a public inquiry is the only way to get to the bottom of what happened on that day?

**The First Minister:** I do not see the need for a public inquiry, because we know what happened. The Environment Agency conducted an investigation. It was clear that the flood defences held, but, as the Member rightly says, the culverts were blocked. Together with my colleague the Minister for Environment and Sustainable Development, I have requested that the Environment Agency and Denbighshire County Council work together to ensure that the risk of flooding is reduced in the future. We know what the problem was; what is important now is to ensure that it does not happen again.

**Ann Jones:** I thank you, First Minister, as Darren has, for visiting the people of St

**Flood Risk Management**

***2. Darren Millar:*** *Will the First Minister make a statement on flood risk management in Wales. OAQ(4)0818(FM)*

**Y Prif Weinidog:** Gwnaf. Mae'r amcanion hyn wedi eu nodi yn y strategaeth genedlaethol ar gyfer llifogydd a rheoli risg erydu arfordirol yng Nghymru.

**Darren Millar:** Diolch am yr ateb yna, Brif Weinidog. Byddwch yn ymwybodol y bu llifogydd sylweddol yn fy etholaeth i, ym mis Tachwedd y llynedd, yn enwedig yn Rhuthun. Roeddwn yn ddiolchgar am i chi roi o'ch amser i ymweld â Rhuthun yn union ar ôl y llifogydd hynny. Mae ymchwiliad Asiantaeth yr Amgylchedd wedi dod i'r casgliad bod y cwlfertau yn yr ardal wedi eu blocio, ac mai dyna achosodd y llifogydd ar stad Glasdir. Mae rhai trigolion o stad Glasdir, ac o Ruthun yn fwy cyffredinol, yn poeni bod angen cynnal ymchwiliad cyhoeddus i'r hyn a ddigwyddodd ar y stad honno, ac i'r modd o reoli risg llifogydd. A wnewch chi gytuno i'r ceisiadau hynny, a derbyn mai ymchwiliad cyhoeddus yw'r unig ffordd i fynd at wraidd yr hyn a ddigwyddodd ar y diwrnod hwnnw?

**Y Prif Weinidog:** Nid wyf yn credu bod angen am ymchwiliad cyhoeddus, oherwydd ein bod yn gwybod beth ddigwyddodd. Mae Asiantaeth yr Amgylchedd wedi cynnal ymchwiliad. Roedd yn amlwg bod yr amddiffynfeydd rhag llifogydd wedi gweithio, ond, fel y mae'r Aelod yn ei ddweud yn gywir, roedd y cwlfertau wedi blocio. Ynghyd â fy nghydweithiwr, Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy, rwyf wedi gofyn i Asiantaeth yr Amgylchedd a Chyngor Sir Ddinbych gydweithio i sicrhau bod y risg o lifogydd yn cael ei leihau yn y dyfodol. Rydym yn gwybod beth oedd y broblem; yr hyn sy'n bwysig erbyn hyn yw sicrhau nad yw'n digwydd eto.

**Ann Jones:** Diolchaf i chi, Brif Weinidog, fel y gwnaeth Darren, am ymweld â phobl

Asaph when they were recently flooded out. They were appreciative of the swift action you took to visit them and to hear their problems first hand. Do you agree with me, First Minister, that the co-ordinated approach from all the agencies and, more importantly, all the volunteers, who helped those people to rehouse themselves and looked after them over the Christmas period as well, so that they were not forgotten, is an example of the Wales that we want to foster on these benches, a Wales that cares for everybody?

Llanelwy pun fu'n rhaid iddynt adael eu cartrefi yn dilyn y llifogydd diweddar. Maent yn gwerthfawrogi'r camau cyflym a gymerwyd gennych i ymweld â hwy ac i glywed eu problemau'n uniongyrchol. A ydych chi'n cytuno â mi, Brif Weinidog, fod y dull cydgysylltiol gan yr holl asiantaethau ac, yn bwysicach, gan yr holl wirfoddolwyr, a helpodd y bobl hynny i ailgartrefu eu hunain ac a ofalodd amdanynt dros gyfnod y Nadolig hefyd, fel na chawsant eu hanghofio, yn enghraifft o'r Gymru yr hoffem ei meithrin ar y meinciau hyn, Cymru sy'n gofalu am bawb?

**The First Minister:** Indeed so. I visited people in St Asaph who were still very much in a state of shock, as Members will imagine. I pay tribute to all those who were involved in the rescue efforts, particularly the emergency services and the Royal National Lifeboat Institution, and to all those who volunteered. The community truly came together at a very difficult time. When I visited the area that was flooded, what was most noticeable was that there was a flood defence there. It was a quite substantial flood defence, but it was overtopped exceptionally quickly and the water went down exceptionally quickly as well. It shows, of course, that as we look to deal with climate change, it is important to ensure that we are fully aware of which areas might be at risk of flooding in a way that perhaps was not the case before, because the defences that were in place at St Asaph were meant to deal with a one-in-100-year flood event.

**Y Prif Weinidog:** Ydw, yn wir. Ymwelais â phobl yn Llanelwy a oedd yn dal i fod mewn cyflwr o sioc, fel y bydd Aelodau'n gallu ei ddychmygu. Hoffwn dalu teyrnged i bawb a oedd yn rhan o'r ymdrechion achub, yn enwedig y gwasanaethau brys a Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Badau Achub, ac i bawb a wirfoddolodd. Daeth y gymuned yn wirioneddol at ei gilydd ar adeg anodd iawn. Pan ymwelais â'r ardal lle bu'r llifogydd, y peth mwyaf amlwg oedd bod yno amddiffyniad rhag llifogydd. Roedd yn amddiffyniad eithaf sylweddol, ond cafodd ei orlifo'n eithriadol o gyflym ac aeth y dŵr i lawr yn eithriadol o gyflym hefyd. Mae'n dangos, wrth gwrs, wrth i ni geisio ymdrin â newid yn yr hinsawdd, ei bod yn bwysig sicrhau ein bod yn gwbl ymwybodol o ba ardaloedd a allai fod mewn perygl o lifogydd mewn ffordd nad oedd o reidrwydd yn bodoli o'r blaen, oherwydd roedd yr amddiffynfeydd a oedd ar waith yn Llanelwy wedi'u bwriadu i ymdrin â digwyddiad llifogydd a fyddai'n digwydd unwaith mewn 100 mlynedd.

**Elin Jones:** Mewn cyfnod o lifogydd, mae'n bwysig cadw'r cefnffyrdd cenedlaethol ar agor. A wnewch ymchwilio felly, gyda'ch Gweinidog trafnidiaeth, pam fu'r A487 rhwng Aberystwyth a Machynlleth ar gau am gyfnodau estynedig rhwng y Nadolig a'r flwyddyn newydd—hon yw'r brif ffordd ar hyd arfordir y gorllewin sy'n cysylltu'r gogledd a'r de—a sut y gellid lleihau'r risg o'r gefnffordd hon yn cau yn y dyfodol oherwydd llifogydd?

**Elin Jones:** In a period of flooding, it is important to keep the national trunk roads open. Will you, along with your Minister for transport, look into why the A487 between Aberystwyth and Machynlleth was closed for extended periods between Christmas and the new year—this is the main road along the west coast that links the north and south—and how we can mitigate the risk of this trunk road being closed in the future because of floods?

**Y Prif Weinidog:** Wrth gwrs, rhaid sicrhau bod y gwaith yn cael ei wneud er mwyn

**The First Minister:** Of course, we have to ensure that the work is undertaken in order to

sicrhau bod yr heol yn ddiogel. Mae'n wir dweud bod rhai rhannau o Gymru wedi cael llifogydd a bod rhannau eraill heb weld llifogydd ers amser mawr. Ym Mhen-y-bont, er enghraifft, dyna'r lefel uchaf o ddŵr a fu ers 1960. Mae'n amlwg felly bod rhaid inni ystyried y sefyllfa nawr o ran beth welsom cyn y Nadolig, a sicrhau bod gwaith yn cael ei wneud cyn gynted ag sy'n bosibl i agor heolydd. Yn anffodus, weithiau, mae'n cymryd amser i sicrhau bod heol yn ddiogel cyn y gellid ei ailagor.

ensure that the road is safe. It is true to say that some parts of Wales suffered floods and others have not seen flooding for a long time. In Bridgend, for example, that is the highest level of water that we have had since 1960. It is therefore obvious that we have to consider the position now in terms of what we saw before Christmas, and ensure that the work is done as soon as possible to reopen the roads. Unfortunately, sometimes, you need time to ensure that the road is safe before it can be reopened.

**Cwestiynau Heb Rybudd gan Arweinwyr y Pleidiau**

**Questions Without Notice from the Party Leaders**

**Arweinydd Plaid Cymru (Leanne Wood):** Diolch a blwyddyn newydd dda, Brif Weinidog.

**The Leader of Plaid Cymru (Leanne Wood):** Thank you and happy new year, First Minister.

Today, the Westminster Government will support a Bill that introduces unfair, real-term cuts to the income of people who require social security, whether they are in work or whether they are out of work. The proposals are bound to impact on child poverty. Will you tell us how many people in Wales will be affected by these proposals?

Heddiw, bydd Llywodraeth San Steffan yn cefnogi Bil sy'n cyflwyno toriadau annheg mewn termau real i incwm pobl sydd ag angen nawdd cymdeithasol, pa un a ydynt yn gweithio neu'n ddi-waith. Mae'r cynigion yn siŵr o effeithio ar dlodi plant. A wnewch chi ddweud wrthym faint o bobl yng Nghymru yr effeithir arnynt oherwydd y cynigion hyn?

**The First Minister:** We know that many thousands of people will be affected. It is difficult to give an exact figure at this stage: we will have to wait and see how the Bill progresses. What we know, as the leader of Plaid Cymru rightly says, is that many thousands of people will be affected who are in work. Those people will be hammered. The UK Government says that it wants to help those it calls 'strivers', but they are the very people who are being hammered as a result of these benefit changes. We know that there will be great difficulties when the universal credit is introduced. We will wait to see whether it will be introduced smoothly, but we have our doubts. I join her in saying that the benefit changes will have an enormously detrimental effect on many people living in Wales.

**Y Prif Weinidog:** Rydym yn gwybod y bydd miloedd lawer o bobl yn teimlo'r effaith. Mae'n anodd rhoi union ffigur ar hyn o bryd: bydd yn rhaid i ni aros i weld sut y bydd y Bil yn datblygu. Yr hyn yr ydym yn ei wybod, fel y mae arweinydd Plaid Cymru yn gywir i'w ddweud, yw y bydd miloedd o bobl sydd mewn gwaith yn teimlo'r effaith. Bydd yn ergyd drom i'r bobl hynny. Mae Llywodraeth y DU yn dweud yr hoffent helpu'r rheini y maent yn eu galw'n 'ymdrechwyr', ond hwy yw'r union bobl sy'n dioddef ergyd drom o ganlyniad i'r newidiadau hyn i fudd-daliadau. Rydym yn gwybod y ceir anawsterau mawr pan gyflwynir y credyd cyffredinol. Arhoswn i weld a gaiff ei gyflwyno'n ddidrafferth, ond mae gennym ein hamheuon. Ymunaf â hi i ddweud y bydd y newidiadau o ran budd-daliadau'n cael effaith aruthrol o niweidiol ar lawer o bobl sy'n byw yng Nghymru.

**Leanne Wood:** First Minister, it is disappointing that you do not know how many people in Wales are going to be affected by these proposals, and I hope that

**Leanne Wood:** Brif Weinidog, mae'n siom nad ydych yn gwybod faint o bobl yng Nghymru fydd yn teimlo effaith y cynigion hyn, a gobeithiaf y byddwch yn ysgrifennu

you will write to me with your answer when you do happen to find out. Unfortunately, your party's votes in London will not be enough to block these unfair cuts and neither will your opposition here. When you said that you were standing up for Wales, you did not tell the Welsh electorate that you would let their council tax benefit be cut and you did not tell the people of Wales that you had no power to prevent substantial cuts to social security and pensions—both of which are vitally important to people in Wales. First Minister, how exactly are you going to stand up for the people of Wales against these cuts?

ataf gyda'ch ateb ar ôl i chi gael y wybodaeth. Yn anffodus, ni fydd pleidleisiau eich plaid yn Llundain, na'ch gwrthwynebiad yma, yn ddigon i atal y toriadau annheg hyn. Pan ddywedasoch eich bod yn sefyll dros Gymru, ni ddywedwyd wrth etholwyr Cymru y byddech yn gadael i'w budd-dal y dreth gyngor gael ei dorri ac ni ddywedwyd wrth bobl Cymru nad oedd gennych unrhyw bŵer i atal toriadau sylweddol i nawdd cymdeithasol a phensiynau—mae'r ddau'n hanfodol bwysig i bobl yng Nghymru. Brif Weinidog, sut yn union yr ydych chi'n mynd i sefyll dros bobl Cymru yn erbyn y toriadau hyn?

**The First Minister:** It seems like the leader of Plaid Cymru is fighting the last election. We have moved on from there and we are implementing the ideas that we put in our manifesto. We have put in place, as she well knows, the Wales small and medium-sized enterprises growth fund, the Wales economic growth fund, the loans for microbusinesses and Jobs Growth Wales, which is exceptionally successful—over 2,500 young people are now in jobs as a result of Jobs Growth Wales. When we said that we would stand up for Wales, we said that we would deliver for the people of Wales, and those examples that I have given are some among many where that is the case.

**Y Prif Weinidog:** Ymddengys bod arweinydd Plaid Cymru'n ymladd yr etholiad diwethaf. Rydym wedi symud ymlaen ers hynny, ac rydym wrthi'n gweithredu'r syniadau a oedd yn ein maniffesto. Rydym wedi rhoi ar waith, fel y gŵyr hi'n iawn, y gronfa twf i fusnesau bach a chanolig Cymru, cronfa twf economaidd Cymru, y benthyciadau ar gyfer microfusnesau a Thwf Swyddi Cymru, sydd yn eithriadol o lwyddiannus—mae dros 2,500 o bobl ifanc bellach mewn swyddi o ganlyniad i Dwf Swyddi Cymru. Pan ddywedasom y byddem yn sefyll dros Gymru, dywedasom y byddem yn cyflawni dros bobl Cymru, a dim ond rhai enghreifftiau yr wyf wedi'u rhoi o blith llawer lle y mae hynny'n wir.

**Leanne Wood:** There are many people in Wales, First Minister, who are unable to get a job. Again, you have come here this afternoon and evaded the questions that have been put to you. You have had one chance to live up to your promise of shielding the people of Wales against these cuts, and you have singularly failed to do that. You have failed to protect 0.25 million households in Wales over council tax benefits. Actions speak louder than words, First Minister, and that action is your loudest to date. With London already committed to further austerity, what evidence do you intend to give to the Silk commission to ensure that the next Welsh Government can stand up for the people of Wales?

**Leanne Wood:** Mae llawer o bobl yng Nghymru, Brif Weinidog, nad ydynt yn gallu cael swydd. Unwaith eto, rydych wedi dod yma brynhawn heddiw ac osgoi'r cwestiynau a ofynnwyd i chi. Rydych wedi cael un cyfle i wireddu eich addewid o amddiffyn pobl Cymru rhag y toriadau hyn, ac rydych wedi methu'n llwyr â gwneud hynny. Rydych wedi methu ag amddiffyn 0.25 miliwn o aelwydydd yng Nghymru o ran budd-daliadau'r dreth gyngor. Gwell gwneud na dweud, Brif Weinidog, a dyna'r prif beth yr ydych wedi'i wneud hyd yn hyn. Gyda Llundain eisoes wedi ymrwymo i gynilo pellach, pa dystiolaeth yr ydych chi'n bwriadu ei rhoi i gomisiwn Silk er mwyn sicrhau y gall Llywodraeth nesaf Cymru sefyll dros bobl Cymru?

**The First Minister:** We are considering the

**Y Prif Weinidog:** Rydym yn ystyried y

evidence, which is, of course, a substantial piece of evidence, that we will be presenting to the Silk commission. However, I would take the criticism from the leader of Plaid Cymru in a better spirit if she had any ideas of her own. She has none. The party went into the election with a manifesto that was the thinnest that any party has ever produced. It is the case that we have put in place five pledges that we are delivering on. The first is Jobs Growth Wales. They do not like to hear about delivery, I know, but let us reiterate that we have protected school spending, as we said we would, and that 93% of GP practices are now open at least two evenings a week. We are delivering on our commitments with regard to community support officers and Flying Start and we have secured the future of Cardiff Airport, even though they were late to the game in saying that we should be doing so long after we had started negotiations on that. Therefore, the reality as far as Plaid Cymru is concerned is that all that it does is to jump on our bandwagon. Whenever we propose something, they then propose it as well. Come up with some original ideas and I am sure that the people of Wales will listen to you more.

dystiolaeth, sydd, wrth gwrs, yn ddarn sylweddol o dystiolaeth, y byddwn yn ei chyflwyno i gomisiwn Silk. Fodd bynnag, byddai'n haws i mi dderbyn beirniadaeth arweinydd Plaid Cymru pe byddai ganddi unrhyw syniadau ei hun. Nid oes ganddi unrhyw syniadau. Aeth y blaid i'r etholiad gyda'r maniffesto teneuaf a gynhyrchwyd erioed gan unrhyw blaid. Y ffaith yw ein bod wedi rhoi pum addewid ar waith a'n bod yn eu cyflawni. Y cyntaf yw Twf Swyddi Cymru. Gwn nad ydynt yn hoff o glywed am gyflawni, ond dewch i ni ailadrodd y ffaith ein bod wedi diogelu gwariant ysgolion, fel y dywedasom y byddem yn ei wneud, a bod 93% o bractisau meddygon teulu bellach ar agor gyda'r nos o leiaf ddwywaith yr wythnos. Rydym yn cyflawni ein hymrwymiadau o ran swyddogion cymorth cymunedol a Dechrau'n Deg, ac rydym wedi sicrhau dyfodol Maes Awyr Caerdydd, er iddynt fod yn hwyr i ddweud y dylem fod yn gwneud hynny amser maith ar ôl i ni ddechrau trafodaethau ar y mater. Felly, y gwirionedd cyn belled ag y mae Plaid Cymru yn y cwestiwn yw mai'r unig beth y maent yn ei wneud yw ein dilyn ni. Pryd bynnag y byddwn ni'n cynnig rhywbeth, byddant hwythau wedyn yn ei gynnig hefyd. Meddyliwch am rai syniadau gwreiddiol ac rwyf yn siŵr y bydd pobl Cymru'n fwy bodlon i wrando arnoch chi.

**The Leader of the Opposition (Andrew R.T. Davies):** First Minister, how many overseas trade missions are planned for 2013?

**Arweinydd yr Wrthblaid (Andrew RT Davies):** Brif Weinidog, faint o deithiau masnach tramor sydd wedi'u cynllunio ar gyfer 2013?

**The First Minister:** There are a number. I will be going to Turkey and Dublin this month and to San Francisco in February. I will be in New York in March. There is a planned visit to Japan in June and a further one to India in October.

**Y Prif Weinidog:** Mae nifer ohonynt. Byddaf yn mynd i Dwrci ac i Ddulyn y mis hwn ac i San Francisco ym mis Chwefror. Byddaf yn Efrog Newydd ym mis Mawrth. Mae ymweliad arfaethedig â Japan ym mis Mehefin ac un arall ag India ym mis Hydref.

**Andrew R.T. Davies:** First Minister, you talked at length about delivery by your Government in answer to the previous questioner. Sadly, it is a fact that, in the last reported figures, exports from Wales have fallen by 5% or some £200 million, and some of the biggest falls have been in areas where you, as First Minister, have gone, namely China, India and America, leading trade

**Andrew R.T. Davies:** Brif Weinidog, soniasoch yn helaeth am gyflenwi gan eich Llywodraeth wrth ateb yr holwr blaenorol. Yn anffodus, mae'n ffaith bod allforion o Gymru, yn y ffigurau diwethaf a gofnodwyd, wedi gostwng 5% neu tua £200 miliwn, ac mae rhai o'r gostyngiadau mwyaf wedi bod mewn ardaloedd yr ydych chi, fel Prif Weinidog, wedi mynd iddynt, sef Tsieina,

missions that were supposed to create more economic activity back here in Wales. Many economists have talked about how lamentable these figures are. Your Government really has not delivered on an export-led recovery for the Welsh economy. Considering your new year address about delivering a message that Wales is open for business, what can we expect in 2013 that will be different from the first three years of your leadership, which have delivered such lamentable figures and a decline in our income-earning exports?

India ac America, gan arwain teithiau masnach a oedd i fod i greu mwy o weithgarwch economaidd yn ôl yma yng Nghymru. Mae llawer o economegwyr wedi sôn am ba mor druenus yw'r ffigurau hyn. Nid yw eich Llywodraeth yn wir wedi cyflawni adferiad wedi'i arwain gan allforio ar gyfer economi Cymru. Ac ystyried eich anerchiad blwyddyn newydd am gyflwyno neges bod Cymru'n agored i fusnes, beth y gallwn ni ei ddisgwyl yn 2013 a fydd yn wahanol i dair blynedd gyntaf eich arweinyddiaeth, sydd wedi darparu ffigurau mor druenus a gostyngiad yn ein hallforion sy'n ennill incwm?

**The First Minister:** Our figures are improving on a regular basis. I went to India and came back with £800 million of investment from Tata. That is something that I am particularly happy about, and we will continue to bring good news back to the people of Wales. It is important that we have a high profile abroad. We will continue to utilise our offices abroad in order to attract that level of investment. He has conveniently forgotten that fact, because it does not fit in with his script.

**Y Prif Weinidog:** Mae ein ffigurau'n gwella'n rheolaidd. Es i India a dod yn ôl gydag £800 miliwn o fuddsoddiad gan Tata. Mae hynny'n rhywbeth yr wyf yn arbennig o fodlon amdano, a byddwn yn parhau i ddod â newyddion da yn ôl i bobl Cymru. Mae'n bwysig bod gennym broffil uchel dramor. Byddwn yn parhau i ddefnyddio ein swyddfeydd tramor er mwyn denu'r lefel yna o fuddsoddiad. Mae'n gyfleus iawn wedi anghofio'r ffaith honno, gan nad yw'n cyd-fynd â'i sgript.

**Andrew R.T. Davies:** I am not quite sure what point you were trying to deliver there, First Minister, as is everyone else who was listening to you. It is a fact that the Office for National Statistics and HM Revenue and Customs have identified that our export earnings have dropped by 5% or £200 million. At this rate, Swansea city's promotion to the premiership will earn more for the Welsh economy than any actions that your Government undertakes. What are you going to do differently in 2013 and 2014 that will reverse this decline in the ability of the Welsh economy to perform on the world stage? We support efforts to promote Wales abroad, and I have had many discussions with you across the Chamber about how we believe that it should be done, but as a result of what you have undertaken during the first three years of your leadership—the figures are independent and verified—we are seeing decline upon decline. You have offered not one answer as to how you will address that decline. I offer you a second opportunity to indicate where we will be at the end of 2013

**Andrew R.T. Davies:** Nid wyf fi, na neb arall a oedd yn gwrando arnoch, Brif Weinidog, yn hollol sicr pa bwynt yr ydych newydd geisio'i gyflawni. Mae'n ffaith bod y Swyddfa Ystadegau Gwladol a Chyllid a Thollau EM wedi nodi bod ein henillion allforio wedi gostwng 5% neu £200 miliwn. Ar y gyfradd hon, bydd dyrchafiad Dinas Abertawe i'r uwch gynghrair yn ennill mwy i economi Cymru nag unrhyw gamau y mae eich Llywodraeth yn eu cymryd. Beth yr ydych yn mynd i'w wneud yn wahanol yn 2013 a 2014 a fydd yn gwrthdroi'r gostyngiad hwn o ran gallu economi Cymru i berfformio ar lwyfan y byd? Rydym yn cefnogi ymdrechion i hyrwyddo Cymru dramor, ac rwyf wedi cael nifer o drafodaethau â chi ar draws y Siambr ynghylch sut yr ydym yn credu y dylid gwneud hynny, ond o ganlyniad i'r hyn yr ydych wedi'i wneud yn ystod tair blynedd gyntaf eich arweinyddiaeth—mae'r ffigurau'n annibynnol ac wedi'u gwirio—rydym yn gweld un dirywiad ar ôl y llall. Nid ydych wedi cynnig yr un ateb i'r cwestiwn o

or 2014.

sut yr ydych yn bwriadu ymdrin â'r dirywiad. Rwyf yn cynnig ail gyfle i chi nodi beth fydd y sefyllfa erbyn diwedd 2013 neu 2014.

1.45 p.m.

**The First Minister:** It may have passed him by, but unemployment rates in Wales are coming down. It may have passed his attention that we have more people economically active now than ever before in our history. Those are the examples that I give him of the effect that this Government is having. We are seeing an improvement in Wales better than that in the rest of the UK. That shows the effect that this Government is having. I will give another example of what we are doing to promote Wales: we are securing the future of our airport—something that he has opposed tooth and nail. He is so out of touch with public opinion, out of touch with business, out of touch with people in the Vale, and out of touch with reality, in my view. I have never had an issue on which I have had more public support than the purchase of the airport. We know that a country needs to have a functioning and successful airport, but his party would be happy to see it closed down. If you are going to attract inward investment, it is important that you have a functioning international airport. I get asked about that all of the time when I am abroad. If you do not have a functioning international airport, you do not attract the level of investment that you should. I have to say to him that we are proud of the fact that we have secured the future of Cardiff Airport. It will be run as a commercial concern. We are not prepared to see it closed down, as his party would be, and to see the British Airways maintenance base go with it. That is exactly what they want to see, and it shows just how anti-business the Tories have become. Theirs is the most anti-business party in the Assembly. We will stand up for Wales, we will stand up for business in Wales, and we will stand up for investment in Wales.

**Y Prif Weinidog:** Efallai nad yw wedi sylwi ar hyn, ond mae cyfraddau diweithdra yng Nghymru'n gostwng. Efallai na sylwodd fod gennym fwy o bobl economaidd weithgar nawr nag erioed o'r blaen yn ein hanes. Dyna'r enghreifftiau yr wyf yn eu rhoi iddo o'r effaith y mae'r Llywodraeth hon yn ei chael. Rydym yn gweld gwelliant yng Nghymru sy'n well nag yng ngweddill y DU. Mae hynny'n dangos yr effaith y mae'r Llywodraeth hon yn ei chael. Rhoddaf enghraifft arall o'r hyn yr ydym yn ei wneud i hyrwyddo Cymru: rydym yn sicrhau dyfodol ein maes awyr—rhywbeth y mae ef wedi'i wrthwynebu'n chwyrn. Mae wedi colli cysylltiad yn llwyr â barn y cyhoedd, â busnesau, â phobl yn y Fro, ac â realiti, yn fy marn i. Nid wyf erioed wedi cael mwy o gefnogaeth gyhoeddus ar unrhyw fater na phrynu'r maes awyr. Rydym yn gwybod bod ar wlad angen maes awyr llwyddiannus a gweithredol, ond byddai ei blaid yn hapus i'w weld yn cael ei gau. Os ydych am ddenu mewnfuddsoddiad, mae'n bwysig bod gennych faes awyr rhyngwladol gweithredol. Gofynnir i mi am hynny drwy'r amser pan fyddaf dramor. Os nad oes gennych faes awyr rhyngwladol gweithredol, nid ydych yn denu'r math o fuddsoddiad y dylech ei ddenu. Mae'n rhaid i mi ddweud wrtho ein bod yn falch o'r ffaith ein bod wedi sicrhau dyfodol Maes Awyr Caerdydd. Caiff ei redeg fel busnes masnachol. Nid ydym yn barod i'w weld yn cael ei gau, yn wahanol i'w blaid ef, nac i weld canolfan cynnal a chadw British Airways yn mynd gydag ef. Dyna'n union beth y maent hwy am ei weld, ac mae'n dangos pa mor wrth-fusnes y mae'r Torïaid wedi mynd. Eu plaid hwy yw'r fwyaf gwrth-fusnes yn y Cynulliad. Byddwn ni'n sefyll dros Gymru, byddwn yn sefyll dros fusnes yng Nghymru, a byddwn yn sefyll dros fuddsoddi yng Nghymru.

**The Leader of the Welsh Liberal Democrats (Kristy Williams):** First Minister, during questions in March of last year, you confirmed to me that your

**Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru (Kirsty Williams):** Brif Weinidog, yn ystod cwestiynau ym mis Mawrth y llynedd, fe wnaethoch gadarnhau wrthyf fod

Government had a target of ensuring that 100% of people can access an NHS dentist in Wales. However, in August of last year, your Minister for Health and Social Services wrote to me to say that, in fact, this pledge was unrealistic. What is your Government's target for dentistry?

gan eich Llywodraeth darged o sicrhau y gall 100% o bobl gael mynediad at ddeintydd y GIG yng Nghymru. Fodd bynnag, ym mis Awst y llynedd, ysgrifennodd eich Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ataf i ddweud bod yr addewid hwn, mewn gwirionedd, yn afrealistig. Beth yw targed eich Llywodraeth ar gyfer deintyddiaeth?

**The First Minister:** It is for those who wish to have access to NHS dentistry to get it.

**Y Prif Weinidog:** Y targed yw bod y rhai sy'n dymuno cael mynediad at ddeintyddiaeth y GIG yn ei gael.

**Kirsty Williams:** Indeed, First Minister. However, in the last year, only an additional 11% of dentists were able to offer NHS patients a place on their list. If that is your pledge, when will you deliver it?

**Kirsty Williams:** Yn wir, Brif Weinidog. Fodd bynnag, yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, dim ond 11% yn fwy o ddeintyddion a oedd yn gallu cynnig lle ar eu rhestr i gleifion y GIG. Os mai dyna eich addewid, pryd y byddwch yn ei gyflawni?

**The First Minister:** The Member has not suggested that there are people in Wales who cannot access NHS dentists. The point is that we have done substantial work to ensure that people can access NHS services. Unless she is saying that there are people who cannot access an NHS dentist, I fail to see what her point is.

**Y Prif Weinidog:** Nid yw'r Aelod wedi awgrymu bod pobl yng Nghymru nad ydynt yn gallu cael mynediad at ddeintyddion y GIG. Y pwynt yw ein bod wedi gwneud gwaith sylweddol i sicrhau bod pobl yn gallu cael mynediad at wasanaethau'r GIG. Oni bai ei bod yn dweud bod rhai pobl yn methu â chael mynediad at ddeintydd y GIG, ni allaf weld beth yw ei phwynt.

**Kirsty Williams:** First Minister, I do not know which country you are living in, but your programme for government stated that you would improve access to dentists where there are localised problems. This morning, your Government's own spokesperson acknowledged that there were difficulties in some areas. I suggest that you speak to that spokesperson. As of yesterday, figures from the Welsh NHS showed that there were no dental practices accepting NHS patients in Aberavon, in the Gower, in Swansea, in Carmarthen, in Llanelli, in Pembrokeshire, in the Vale of Glamorgan and on Anglesey. Even here in the capital, just 11% of practices are able to take on new NHS patients. That is an awful lot of localised problems. Do you now not agree that this is a national programme that requires national action from your Minister for health?

**Kirsty Williams:** Brif Weinidog, ni wn ym mha wlad yr ydych yn byw ynddi, ond dywedodd eich rhaglen ar gyfer llywodraethu y byddech yn gwella mynediad at ddeintyddion lle y ceir problemau lleol. Y bore yma, roedd llefarydd eich Llywodraeth chi yn cydnabod bod anawsterau'n bodoli mewn rhai ardaloedd. Rwyf yn awgrymu eich bod yn siarad â'r llefarydd hwnnw. Ddoe, roedd ffigurau GIG Cymru yn dangos nad oedd dim practisau deintyddol yn derbyn cleifion GIG yn Aberafan, ym Mhenrhyn Gŵyr, yn Abertawe, yng Nghaerfyrddin, yn Llanelli, yn Sir Benfro, ym Mro Morgannwg nac ar Ynys Môn. Hyd yn oed yma yn y brifddinas, dim ond 11% o bractisau sy'n gallu cymryd cleifion GIG newydd. Mae hynny'n llawer iawn o broblemau lleol. Onid ydych yn awr yn cytuno bod hon yn rhaglen genedlaethol sy'n gofyn am weithredu cenedlaethol gan eich Gweinidog iechyd?

**The First Minister:** Again, the Member has

**Y Prif Weinidog:** Unwaith eto, mae'r Aelod

failed to supply any evidence that people cannot access NHS dentists. All she has done is talk about practices offering services. Unless she comes up with figures to suggest that people cannot access NHS services, her three points carry no weight.

wedi methu â rhoi unrhyw dystiolaeth na all pobl gael mynediad at ddeintyddion y GIG. Yr oll y mae hi wedi'i wneud yw siarad am bractisau sy'n cynnig gwasanaethau. Oni bai ei bod yn cyflwyno ffigurau i awgrymu na all pobl gael mynediad at wasanaethau'r GIG, nid oes sail i'w thri phwynt.

**Blaenoriaethau Economaidd**

**Economic Priorities**

***3. Kenneth Skates:*** *A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu ei flaenoriaethau economaidd ar gyfer gogledd Cymru yn 2013. OAQ(4)0819(FM)*

***3. Kenneth Skates:*** *Will the First Minister outline his economic priorities for north Wales in 2013. OAQ(4)0819(FM)*

**The First Minister:** Yes. They are set out in the programme for government.

**Y Prif Weinidog:** Gwnaf. Maent wedi'u nodi yn y rhaglen ar gyfer llywodraethu.

**Kenneth Skates:** First Minister, as you are aware, the cost of train fares is becoming a major issue for many individuals and businesses in my constituency and beyond. Indeed, research by the Trades Union Congress has demonstrated that train fares have risen almost three times faster than average earnings since the start of the recession in 2008. Will the Welsh Government work with the UK Government to set out a fair and sustainable long-term policy on rail fares, to balance the big increases that we are seeing at present?

**Kenneth Skates:** Brif Weinidog, fel y gwyddoch, mae pris tocynnau trên yn dod yn broblem fawr i lawer o unigolion a busnesau yn fy etholaeth i a thu hwnt. Yn wir, mae ymchwil gan Gyngres yr Undebau Llafur wedi dangos bod pris tocynnau trên wedi codi bron i dair gwaith yn gyflymach nag enillion cyfartalog ers dechrau'r dirwasgiad yn 2008. A fydd Llywodraeth Cymru yn cydweithio â Llywodraeth y DU i nodi polisi teg a chynaliadwy yn y tymor hir ar docynnau trên, i gydbwyso'r cynnydd mawr yr ydym yn ei weld ar hyn o bryd?

**The First Minister:** This year, we will be consulting on the future of rail in Wales. That consultation will include consulting on the current pricing structure of rail fares.

**Y Prif Weinidog:** Eleni, byddwn yn ymgynghori ar ddyfodol y rheilffyrdd yng Nghymru. Bydd yr ymgynghoriad hwnnw'n cynnwys ymgynghori ar strwythur prisio presennol tocynnau trên.

**Mark Isherwood:** First Minister, during the recess, official figures were released showing that Wales remains the poorest part of the UK, in terms of the value of goods and services produced per head of population. The figures show that the north Wales economy has had a lower growth rate than the Welsh economy since devolution, and that Flintshire and Wrexham have seen the biggest decline in sales and production in the whole of England and Wales. How do you respond and propose to address concerns that GVA per head—the value of goods and services produced—has decreased by 1.7% across Wales since devolution but by over

**Mark Isherwood:** Brif Weinidog, yn ystod y toriad, rhyddhawyd ffigurau swyddogol yn dangos mai Cymru yw rhan dlotaf y DU o hyd, o ran gwerth y nwyddau a'r gwasanaethau a gynhyrchir ar gyfer pob aelod o'r boblogaeth. Mae'r ffigurau'n dangos bod economi'r gogledd wedi cael cyfradd twf is nag economi Cymru ers datganoli, ac mai Sir y Fflint a Wrecsam sydd wedi gweld y gostyngiad mwyaf mewn gwerthiant a chynhyrchu yng Nghymru a Lloegr gyfan. Sut yr ydych yn ymateb ac yn bwriadu mynd i'r afael â phryderon bod Gwerth Ychwanegol Crynswth y pen—gwerth y nwyddau a'r gwasanaethau a

8% in Flintshire and Wrexham in that same period?

gynhyrchir—wedi gostwng 1.7% ar draws Cymru ers datganoli, ond dros 8% yn Sir y Fflint a Wrecsam yn yr un cyfnod?

**The First Minister:** If we look at Flintshire and Wrexham, we have Airbus, with which we have a very close working relationship. It is a substantial employer and we have assisted it on many occasions. There are also many other companies based in Deeside that we have encouraged, and we have seen them grow. The same applies to Sharp in Wrexham. Again, I draw the Member back to the figures that I quoted in terms of unemployment, economic activity and Jobs Growth Wales. It is quite clear that the policies of this Government are having a beneficial effect on the economy of Wales. We expect that trend to continue over the course of this year.

**Y Prif Weinidog:** Os edrychwn ar Sir y Fflint a Wrecsam, mae gennym Airbus, y mae gennym berthynas waith agos iawn ag ef. Mae'n gyflogwr sylweddol, ac rydym wedi ei gynorthwyo ar sawl achlysur. Ceir llawer o gwmnïau eraill hefyd yng Nglannau Dyfrdwy yr ydym wedi eu hannog, ac rydym wedi eu gweld yn tyfu. Mae'r un peth yn berthnasol i Sharp yn Wrecsam. Unwaith eto, tynnaf sylw'r Aelod yn ôl at y ffigurau a ddyfynnais o ran diweithdra, gweithgarwch economaidd a Thwf Swyddi Cymru. Mae'n gwbl glir bod polisïau'r Llywodraeth hon yn cael effaith fuddiol ar economi Cymru. Rydym yn disgwyl i'r duedd hon barhau dros y flwyddyn hon.

**Alun Ffred Jones:** Yn y trafodaethau rhwng Plaid Cymru a'r Llywodraeth ar y gyllideb, cytunwyd i fuddsoddi £10 miliwn mewn sefydlu parc gwyddoniaeth yn y gogledd-orllewin o dan arweiniad Prifysgol Bangor. A oes gennych amserlen ar gyfer sefydlu'r parc hwn, ac, o ran lleoliad, a wnewch sicrhau bod lleoliad Parc Bryn Cegin ar gyrion Bangor yn cael ystyriaeth lawn yn y trafodaethau?

**Alun Ffred Jones:** In the discussions between Plaid Cymru and the Government on the budget, it was agreed to invest £10 million in the establishment of a science park in north-west Wales under the auspices of Bangor University. Do you have a timetable for the establishment of this park, and, in terms of location, will you ensure that the location of Parc Bryn Cegin on the outskirts of Bangor will be given full consideration in the discussions?

**Y Prif Weinidog:** Mae'r addewid dal yno, wrth gwrs. Yr hyn sydd yn digwydd yn awr yw bod trafodaethau yn digwydd—trafodaethau cynnar, mae'n wir—er mwyn penderfynu ar sut bydd y parc yn cael ei sefydlu ac ym mhle.

**The First Minister:** The pledge remains, of course. What is happening now is that discussions are taking place—early discussions, it is true—in order to decide how and where the park will be established.

**The Presiding Officer:** Question 4, OAQ(4)0821(FM), has been withdrawn.

**Y Llywydd:** Mae cwestiwn 4, OAQ (4) 0821 (FM), wedi'i dynnu'n ôl.

### Digartrefedd

### Homelessness

***5. Sandy Mewies:*** *A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am lefelau digartrefedd yng Nghymru. OAQ(4)0825(FM)*

***5. Sandy Mewies:*** *Will the First Minister make a statement on levels of homelessness in Wales. OAQ(4)0825(FM)*

**The First Minister:** The latest statistics for the year to September 2012 show a fall of 18% in homelessness. This was counter to

**Y Prif Weinidog:** Mae'r ystadegau diweddaraf ar gyfer y flwyddyn hyd at fis Medi 2012 yn dangos gostyngiad o 18%

increases that had been seen earlier, but we remain concerned about the future, particularly with regard to the potential impact of this year's potential welfare reform changes.

mewn digartrefedd. Roedd hyn yn groes i'r cynnydd a welwyd yn gynharach, ond rydym yn parhau i bryderu am y dyfodol, yn enwedig o ran effaith bosibl newidiadau arfaethedig eleni i ddiwygio lles.

**Sandy Mewies**: Shelter Cymru warns that homelessness in Wales will rise this year as UK Government welfare cuts bite. We already know of some of the human costs, as people turn to pay-day loans to meet their rent and mortgage repayments and do without essentials. Some London councils are looking to Wales to house their homeless, leaving Wales and our people facing paying a very high price for these crazy policies that are being imposed upon us. What assessment has been made of the spending implications—the monetary as well as the human costs—that these policies will have, and how can we deal with rising homelessness?

**Sandy Mewies:** Mae Shelter Cymru yn rhybuddio y bydd digartrefedd yng Nghymru yn codi eleni o ganlyniad i doriadau lles Llywodraeth y DU. Rydym eisoes yn gwybod am rai o'r costau dynol, gan fod pobl yn troi at fenthyciadau diwrnod cyflog i dalu eu rhent a'u had-daliadau morgais ac yn mynd heb yr hanfodion. Mae rhai cynghorau yn Llundain yn troi at Gymru i gartrefu eu digartref, sy'n golygu bod Cymru a'n pobl yn wynebu talu pris uchel iawn am y polisïau gwallgof hyn sy'n cael eu gorfodi arnom. Pa asesiad sydd wedi'i wneud o oblygiadau gwariant—y costau ariannol a'r costau dynol—y polisïau hyn, a sut y gallwn ymdrin â chynnydd mewn digartrefedd?

**The First Minister:** We know that the effect will be substantial. We are funding an all-Wales project to help local authorities work with credit unions on providing arrangements for tenants to pay their rents through savings accounts and to reduce the need to pay high interest rates, and we are supporting a wide range of homelessness prevention services, including the provision of £700,000 this financial year for local authorities to mitigate the impact of housing benefit cuts through casework and liaison with landlords.

**Y Prif Weinidog:** Rydym yn gwybod y bydd yr effaith yn sylweddol. Rydym yn ariannu prosiect Cymru gyfan i helpu awdurdodau lleol i gydweithio ag undebau credyd i ddarparu trefniadau i denantiaid dalu eu rhenti drwy gyfrifon cynilo a lleihau'r angen i dalu cyfraddau llog uchel, ac rydym yn cefnogi amrywiaeth eang o wasanaethau atal digartrefedd, gan gynnwys darparu £700,000 yn y flwyddyn ariannol hon i awdurdodau lleol i liniaru effaith y toriadau budd-dal tai drwy gyfrwng gwaith achos a chysylltu â landlordiaid.

**Mohammad Asghar:** Happy new year to you, First Minister, and to everyone. Increasing the supply of homes available in the private rented sector is vital if we are to tackle homelessness in Wales. Does the First Minister agree with the National Landlords Association that the need to increase the supply needs to be taken into account by his Government and that it is important that the landlord registration scheme should not act as a restriction on the provision of private sector rented housing?

**Mohammad Asghar:** Blwyddyn newydd dda i chi, Brif Weinidog, ac i bawb. Mae cynyddu cyflenwad y tai sydd ar gael yn y sector rhentu preifat yn hanfodol er mwyn ymdrin â digartrefedd yng Nghymru. A yw'r Prif Weinidog yn cytuno â Chymdeithas Genedlaethol y Landlordiaid fod angen i'w Lywodraeth ystyried bod angen cynyddu'r cyflenwad a'i bod yn bwysig na ddylai'r cynllun cofrestru landlordiaid fod yn gyfyngiad ar ddarparu tai yn y sector rhentu preifat?

**The First Minister:** I also wish the Member a happy new year—if that is not sarcasm from his point of view; we all saw what happened over the course of the last few

**Y Prif Weinidog:** Rwyf innau'n dymuno blwyddyn newydd dda i'r Aelod hefyd—oni bai mai coegni oedd hynny o'i safbwynt ef; gwelsom i gyd beth ddigwyddodd yn ystod yr

weeks with regard to the airport and his tweeting. Regarding the point that he made about private landlords, the private rented sector will of course have a role to play in that regard, but it is also important that the private rented sector provides a decent level of accommodation. I have seen private landlords provide a very low level standard of accommodation for some tenants, so it is important that we have a system in place to ensure that the standard of accommodation is as good as it can be.

wythnosau diwethaf o ran y maes awyr a’i drydar ef. O ran y pwynt a wnaeth am landlordiaid preifat, bydd gan y sector rhentu preifat, wrth gwrs, ran i’w chwarae yn hynny o beth, ond mae’n bwysig hefyd bod y sector rhentu preifat yn darparu llety o safon dderbyniol. Rwyf wedi gweld landlordiaid preifat yn darparu llety o safon isel iawn i rai tenantiaid, felly mae’n bwysig bod gennym system ar waith i sicrhau bod safon y llety cystal ag y gall fod.

**Rhodri Glyn Thomas:** Brif Weinidog, cytunaf yn llwyr fod y toriadau mewn lwfansau fydd yn cael eu cyflwyno eleni gan y glymblaid yn San Steffan yn mynd i gael effaith andwyol iawn ac yn mynd i greu problemau enfawr o ran digartrefedd, ond hoffwn ofyn i chi ynglŷn â’r hyn y gall Llywodraeth Cymru ei wneud. Mae gennych darged o sicrhau bod 5,000 o dai gwag yn cael eu trosglwyddo i’w defnyddio yn y stoc dai yng Nghymru. Sut mor llwyddiannus rydych wedi bod hyd yn hyn o ran cyrraedd y darged honno?

**Rhodri Glyn Thomas:** First Minister, I agree entirely that the cuts in allowances that will be brought forward this year by the coalition in Westminster will have a detrimental effect and will create huge problems in terms of homelessness, but I wish to ask you a question about what the Welsh Government can do. You have a target of ensuring that 5,000 empty homes are transferred for use in the housing stock in Wales. How successful have you been in achieving that target to date?

**Y Prif Weinidog:** Bydd popeth yn ymddangos yn yr adroddiad fydd yn cael ei rhoi i’r Cynulliad ym Mai. Bydd gan Aelodau y cyfle i ystyried y sefyllfa bresennol ac i ofyn cwestiynau ar yr adroddiad honno.

**The First Minister:** Everything will appear in the report that will be presented to the Assembly in May. Members will have the opportunity to consider the current situation and to ask questions on that report.

**Peter Black:** The services being operated by the citizens advice bureaux in my region—some of which are provided to homeless people—are being reorganised because of changes in their funding. I understand that your Government is carrying out a review of advice services, which are, of course, crucial to dealing with the homelessness problem. Can you give us some indication as to when that review is likely to conclude and when we will be notified of its outcome?

**Peter Black:** Mae’r gwasanaethau sy’n cael eu gweithredu gan y canolfannau cyngor ar bopeth yn fy rhanbarth i—ac mae rhai ohonynt yn cael eu darparu i bobl ddigartref—yn cael eu had-drefnu oherwydd newidiadau yn eu cyllid. Rwyf ar ddeall bod eich Llywodraeth yn cynnal adolygiad o wasanaethau cynghori, sydd, wrth gwrs, yn hanfodol i ymdrin â’r broblem o ddigartrefedd. A allwch chi roi rhyw syniad i ni ynghylch pryd y mae’r adolygiad hwnnw’n debygol o ddod i gasgliad a phryd y cawn wybod ei ganlyniad?

**The First Minister:** Yes. We know that homelessness will continue to be an issue in Wales, despite the figures that I referred to earlier. Any review that takes place will look in detail at the issue and will report back in due course.

**Y Prif Weinidog:** Gallaf. Rydym yn gwybod y bydd digartrefedd yn parhau i fod yn broblem yng Nghymru, er gwaethaf y ffigurau y cyfeiriais atynt yn gynharach. Bydd unrhyw adolygiad a gynhelir yn edrych yn fanwl ar y mater ac yn adrodd yn ôl maes o law.

**Mick Antoniw:** First Minister, the *Wales on Sunday* indicated that around two thirds of those affected by housing benefit cuts—in particular, the bedroom tax—are likely to be disabled and that the majority will be women, and, as a consequence of the change, the level of homelessness is likely to increase. This will result in an increase in the number of evictions, which will leave local authorities in a position where they are liable for the homeless and for rehousing them. What specific advice will the Welsh Government give to local authorities and housing bodies to deal with the consequences of this disastrous change to the benefits system?

**Mick Antoniw:** Brif Weinidog, nododd y *Wales on Sunday* fod tua dwy ran o dair o'r rhai yr effeithir arnynt gan y toriadau mewn budd-dal tai—yn enwedig, y dreth ystafell wely—yn debygol o fod yn anabl ac y bydd y mwyafrif yn fenywod, ac, o ganlyniad i'r newid, fod lefel digartrefedd yn debygol o gynyddu. Bydd hyn yn arwain at gynnydd yn nifer yr achosion o droi pobl allan o'u tai, a fydd yn gadael awdurdodau lleol mewn sefyllfa lle y maent yn atebol am y digartref ac am eu hailgartrefu. Pa gyngor penodol y mae Llywodraeth Cymru am ei roi i awdurdodau lleol a chyrff tai i ymdrin â chanlyniadau'r newid trychinebus hwn i'r system budd-daliadau?

**The First Minister:** Local authorities have a duty to find accommodation for those who are evicted through no fault of their own or are vulnerable or are in priority need. So, our guidance to local authorities is that they should encourage people to seek assistance at a very early stage to avoid homelessness. It is important that people seek that assistance as quickly as possible.

**Y Prif Weinidog:** Mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd i ddod o hyd i lety i bobl sy'n cael eu troi allan heb unrhyw fai arnynt hwy eu hunain neu sy'n agored i niwed neu ag angen blaenoriaeth. Felly, ein canllaw i awdurdodau lleol yw y dylent annog pobl i geisio cymorth yn gynnar iawn er mwyn osgoi digartrefedd. Mae'n bwysig bod pobl yn ceisio'r cymorth hwnnw cyn gynted â phosibl.

**Vaughan Gething:** First Minister, we all know that one of the groups of people who will be especially affected by welfare reform, including changes to housing benefits, is larger families, especially with the removal of the current five-bedroom rate. Has the Welsh Government made an assessment of the number of larger families it expects to be affected as a result of those cuts, and of the likely impact in terms of increased levels of homelessness in Wales?

**Vaughan Gething:** Brif Weinidog, rydym i gyd yn gwybod mai un o'r grwpiau o bobl y bydd diwygio lles, gan gynnwys newidiadau i fudd-daliadau tai, yn effeithio'n arbennig arnynt yw teuluoedd mwy, yn enwedig os ceir gwared â'r gyfradd pum ystafell wely bresennol. A yw Llywodraeth Cymru wedi asesu nifer y teuluoedd mwy y mae'n disgwyl y bydd y toriadau'n effeithio arnynt, a'r effaith debygol o ran cynnydd yn lefelau digartrefedd yng Nghymru?

**The First Minister:** Yes. The removal of the five-bedroom local housing allowance rate was part of the April 2011 reforms and, overall, resulted in some 48,000 people being worse off by £9 a week. We do not yet know the overall impact on homelessness, but we continue to monitor the matter closely—I refer the Member to what we have done in supporting homelessness prevention services in order to assist local authorities to mitigate the impact of housing benefit cuts.

**Y Prif Weinidog:** Ydy. Roedd cael gwared â'r gyfradd lwfans tai lleol pum ystafell wely'n rhan o ddiwygiadau Ebrill 2011 ac, yn gyffredinol, golygodd hyn fod tua 48,000 o bobl £9 yr wythnos yn dlotach. Nid ydym yn gwybod eto beth yw'r effaith gyffredinol ar ddigartrefedd, ond rydym yn parhau i fonitro'r mater yn fanwl—cyfeiriaf yr Aelod at yr hyn yr ydym wedi ei wneud i gefnogi gwasanaethau atal digartrefedd er mwyn cynorthwyo awdurdodau lleol i liniaru effaith y toriadau budd-dal tai.

**Nodi Canmlwyddiant Dechrau'r Rhyfel Byd Cyntaf**

*6.* ***Mike Hedges:*** *Pa gynlluniau sydd gan Lywodraeth Cymru i nodi canmlwyddiant dechrau'r Rhyfel Byd Cyntaf yn 2014. OAQ(4)0820(FM)*

**Y Prif Weinidog:** Mae fy ymgynghorydd, yr Athro Syr Deian Hopkin, yn gweithio gyda swyddogion a rhanddeiliaid i ddatblygu rhaglen goffaol ar gyfer y rhyfel byd cyntaf, gan ddechrau yn 2014. Y cam nesaf yw cynnal dau ddigwyddiad ymgynghori gyda Chronfa Dreftadaeth y Loteri ar 22 Ionawr yng Nghaerdydd ac ar 28 Ionawr yng Nghyffordd Llandudno.

**Mike Hedges:** Diolch am eich ateb, Brif Weinidog. Mae un o fy etholwyr wedi cysylltu â mi, ac mae'n ymwneud â cheisio cael cerflun draig Cymru gyda chofeb i'r rhyfel yn Ypres, yn agos at y man lle cafodd Hedd Wyn ei ladd. Brif Weinidog, a ydych chi am ymuno â mi i gefnogi grwpiau fel hyn sy'n parhau i sicrhau nad yw'r aberth a wnaethpwyd gan filwyr Cymreig yn ystod y rhyfel byd cyntaf yn cael ei hanghofio?

**Y Prif Weinidog:** Mae'n eithriadol o bwysig, wrth gwrs, bod hynny'n digwydd. Mae fy swyddogion mewn Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd Cymru yn cynnig cefnogaeth i grŵp dan arweiniad Peter Carter Jones tuag at ei nod o sefydlu cofeb i filwyr Cymru yn Langemark yng Ngwlad Belg, lle syrthiodd Hedd Wyn yn ystod brwydr Passchendaele. Mae CyMAL yn cynorthwyo'r grŵp hwnnw i ffurfio corff elusennol ac i ddatblygu strategaeth codi arian.

**William Graham:** Brif Weinidog, yn ddiweddar, ymwelais â'r llyfrgell genedlaethol yn Aberystwyth, ac yr oeddwn yn edmygu'n fawr sut yr oeddent wedi paratoi ar gyfer y coffâd hwn, yn enwedig gan fod staff yn argraffu'r symiau enfawr o fanylion hanfodol i baratoi am fuddugoliaeth lwyddiannus iawn, fel y gwyddom, yn Ewrop yn y cyfnod hwnnw. Mae'n dangos ymdrech gymunedol mor enfawr oedd hi. Gofynnaf i chi sicrhau bod y coffâd hwn yn dangos ei

**Commemorating the Centenary of the Start of the First World War**

*6.* ***Mike Hedges:*** *What plans does the Welsh Government have to commemorate the centenary of the start of the First World War in 2014. OAQ(4)0820(FM)*

**The First Minister:** My adviser, Professor Sir Deian Hopkin, is working with officials and stakeholders to develop a commemorative programme for world war one, beginning in 2014. The next stage is that two consultation events will be held with the Heritage Lottery Fund on 22 January in Cardiff and on 28 January in Llandudno Junction.

**Mike Hedges:** Thank you for your response, First Minister. I have been contacted by a constituent of mine who is involved in trying to get a Welsh dragon statue with a memorial to the war at Ypres, near to where Hedd Wyn was killed. First Minister, will you join me in supporting groups such as this who continue to ensure that the sacrifices made by Welsh soldiers during the first world war are not forgotten?

**The First Minister:** It is exceptionally important, of course, that that is the case. My officials in Museums, Archives and Libraries Wales are offering support to a group led by Peter Carter Jones towards its goal of establishing a memorial to Welsh soldiers at Langemark in Belgium, where Hedd Wyn fell during the battle of Passchendaele. CyMAL is assisting that group to form a charitable body and to develop a fundraising strategy.

**William Graham:** First Minister, I recently visited the national library in Aberystwyth, and I was very impressed by its preparation for this commemoration, particularly as staff were printing off the huge amounts of minutiae vital to preparing for a really successful, as we know, victory in Europe at that particular period. It showed what an enormous community effort it was. I would ask you to ensure that this commemoration shows that it was a national effort and not

just military glory, and also, clearly, that it commemorates those who you have already referred to, who lost their lives and who sacrificed themselves for us.

bod yn ymdrech genedlaethol ac nid dim ond yn fri milwrol, a hefyd, yn amlwg, ei fod yn coffáu'r rheini yr ydych eisoes wedi cyfeirio atynt, a gollodd eu bywydau ac a aberthodd eu hunain trosom ni.

**The First Minister:** The intention is that the commemoration should be as broad as possible and that it should look at the effect on people's lives, at the front and at home, and on all sections of society. It is important that the commemoration is not purely a military one, but one that looks at the effects on society in as broad a way as possible.

**Y Prif Weinidog:** Y bwriad yw y dylai'r coffâd fod mor eang â phosibl ac y dylai edrych ar yr effaith ar fywydau pobl, yn y rheng flaen a gartref, ac ar bob rhan o gymdeithas. Mae'n bwysig nad yw'r coffâd yn un milwrol yn unig, ond yn un sy'n edrych mewn modd mor eang ag sy'n bosibl ar yr effeithiau ar gymdeithas

**Lindsay Whittle:** That was extremely interesting, First Minister. We know that millions died in the first world war, and millions more returned home, throughout Europe and the world, with emotional scars from battle that never healed. I wonder sometimes what sort of country we would live in if those people had survived. Would you agree that we could use the centenary of the start of the first world war to raise awareness not only of the enormous human cost of war, but of those in current and future conflicts who return home with emotional and physical scars, so that we can do more to help them adjust to civilian life and give those needing support for physical and emotional trauma absolutely every assistance that they need?

**Lindsay Whittle:** Roedd hynna'n hynod ddiddorol, Brif Weinidog. Rydym yn gwybod bod miliynau wedi marw yn y rhyfel byd cyntaf, a bod miliynau mwy wedi dychwelyd adref, ledled Ewrop a'r byd, gyda chreithiau emosiynol o ryfel na wnaethant erioed wella. Byddaf yn meddwl weithiau ym mha fath o wlad y byddem yn byw ynddi pe byddai'r bobl hynny wedi goroesi. A fyddech yn cytuno y gallem ddefnyddio canmlwyddiant dechrau'r rhyfel byd cyntaf i godi ymwybyddiaeth, nid yn unig o gost ddynol enfawr rhyfel, ond o'r rheini sydd mewn brwydrau ar hyn o bryd ac a fydd yn y dyfodol, ac sy'n dychwelyd adref gyda chreithiau emosiynol a chorfforol, fel y gallwn wneud mwy i'w helpu i addasu i fywyd sifil a rhoi pob cymorth y mae ei angen i'r rheini sydd ag angen cefnogaeth oherwydd trawma corfforol ac emosiynol?

2.00 p.m.

**The First Minister:** The Member makes an important point because those who suffered in the first world war from what we would now recognise as post-traumatic stress disorder were shot; they were not given any assistance at all. That was the level of care that was made available to them. When we now talk about the first world war we know that, in reality, it finished in 1945, because the Treaty of Versailles caused the second world war anyway.

**Y Prif Weinidog:** Mae'r Aelod yn gwneud pwynt pwysig oherwydd saethwyd y rhai a ddioddefodd yn y rhyfel byd cyntaf o'r hyn y byddem bellach yn ei adnabod fel anhwylder straen wedi trawma; ni chawsant unrhyw gymorth o gwbl. Dyna oedd lefel y gofal a oedd ar gael iddynt. Pan siaradwn yn awr am y rhyfel byd cyntaf rydym yn gwybod na ddaeth i ben, mewn gwirionedd, tan 1945, oherwydd Cytundeb Versailles a achosodd yr ail ryfel byd beth bynnag.

It is important to emphasise, however, that the way in which some people were treated because of what they had gone through was very different, thankfully, to the way that

Mae'n bwysig pwysleisio, fodd bynnag, bod y ffordd y cafodd rhai pobl eu trin oherwydd yr hyn yr oeddent wedi ei ddioddef yn wahanol iawn, diolch byth, i'r ffordd y caiff

people are treated now. As part of the commemoration, I would want to see some emphasis placed on what individuals went through, and the way that they were treated at that time—in a way that we would never dream of treating them now.

pobl eu trin heddiw. Yn rhan o'r coffâd, hoffwn weld rhywfaint o bwyslais ar yr hyn a ddioddefodd unigolion, ac ar sut y cawsant eu trin ar y pryd—mewn ffordd na allem fyth feddwl am eu trin heddiw.

**Christine Chapman:** First Minister, further to your response to Mike Hedges, what support can the Welsh Government provide to local groups to allow them to explore the effects of the first world war within their own community? Additionally, how can we ensure due consideration of all aspects of the war? I am thinking particularly of women's contribution in this period.

**Christine Chapman:** Brif Weinidog, i ddilyn eich ymateb i Mike Hedges, pa gefnogaeth y gall Llywodraeth Cymru ei rhoi i grwpiau lleol i'w galluogi i archwilio effaith y rhyfel byd cyntaf yn eu cymunedau eu hunain? Hefyd, sut y gallwn sicrhau y rhoddir ystyriaeth briodol i bob agwedd ar y rhyfel? Rwyf yn meddwl yn benodol am gyfraniad menywod yn y cyfnod hwn.

**The First Minister:** Yes, the Heritage Lottery Fund has established a grant programme to which groups can apply for funding to embark upon projects to commemorate the first world war. Officials have met with the Heritage Lottery Fund, and they have arranged for a representative to attend the planning events later this month to provide advice to organisations that might be interested.

**Y Prif Weinidog:** Ie, mae Cronfa Dreftadaeth y Loteri wedi sefydlu rhaglen grant y gall grwpiau wneud cais iddi am arian i ddechrau ar brosiectau i goffáu'r rhyfel byd cyntaf. Mae swyddogion wedi cyfarfod â Chronfa Dreftadaeth y Loteri, ac maent wedi trefnu i gynrychiolydd fynychu'r digwyddiadau cynllunio yn ddiweddarach y mis hwn i ddarparu cyngor i sefydliadau a allai fod â diddordeb.

**Y Llywydd:** Tynnwyd cwestiwn 7, OAQ(4)0833(FM), yn ôl.

**The Presiding Officer:** Question 7, OAQ(4)0833(FM), has been withdrawn.

### Gwywiad yr Onnen yng Nghymru

### Ash Dieback in Wales

***8. Aled Roberts:*** *A oes asesiad wedi ei gyflawni o effaith gwywiad yr onnen yng Nghymru. OAQ(4)0834(FM)*

***8. Aled Roberts:*** *Has an assessment been made of the effects of Ash Dieback in Wales. OAQ(4)0834(FM)*

**Y Prif Weinidog:** Mae swyddogion y Llywodraeth a nifer o asiantaethau amgylcheddol wrthi ar hyn o bryd yn asesu effaith gwywiad yr onnen yng Nghymru. Bydd canlyniadau'r gwaith hwn ar gael yn ystod yr ychydig wythnosau nesaf.

**The First Minister:** My officials and several environmental agencies are currently assessing the effects of ash dieback in Wales. The result of this work will be available in the next few weeks.

**Aled Roberts:** Dywedodd y Gweinidog yn ei ddatganiad ar 12 Tachwedd y dylid parhau i ystyried y broblem. A ydych chi'n ymwybodol o adroddiad gan Dr Steve Woodward o Brifysgol Aberdeen a hefyd yr Athro Rackham o Goleg Corpus Christi yng Nghaergrawnt sy'n datgan y dylai Llywodraeth Cymru gymryd camau i wahardd mewnforio coed i Gymru?

**Aled Roberts:** The Minister, in his statement on 12 November, stated that the problem had to be kept under consideration. Are you aware of a report by Dr Steve Woodward of the University of Aberdeen and also Professor Rackham from Corpus Christi College in Cambridge, which states that the Welsh Government should take steps to prohibit the importation of wood and timber to Wales?

**Y Prif Weinidog:** Nid yw hynny'n gwneud llawer o synnwyr, yn fy marn i, oherwydd mae hon yn broblem drawsffiniol, ac felly mae'r ffordd o ddatrys y broblem yn drawsffiniol hefyd. Dyna pam rydym wedi bod yn gweithio yn agos gyda chyrff, yn enwedig yn Lloegr. Nid oes pwynt gwahardd mewnforio coed i Gymru os ydynt yn cael eu mewnforio i Loegr ac felly yn agos iawn i Gymru. Rhaid ystyried hyn mewn ffordd Brydeinig er mwyn sicrhau modd effeithiol o ddelio â'r broblem.

**The First Minister:** That does not make much sense, in my opinion, because this is a cross-border problem, and therefore a cross-border approach must also be used to resolve it. That is why we have been working closely with organisations, particularly in England. There is no point in banning the import of trees to Wales if they are imported to England, and are therefore very close to Wales. This must be considered on a UK-wide basis to ensure an effective way to deal with the problem.

**Russell George:** The First Minister will be aware that the winter provides the best opportunity to get on top of this disease, before we get into the spring and summer months when we might see a spike in confirmed cases in Wales. How is the Welsh Government ensuring that the UK Government's interim control plan is effectively communicated to Welsh landowners, voluntary organisations and the general public, all of whom have a crucial role to play in identifying and managing the spread of this disease?

**Russell George:** Bydd y Prif Weinidog yn ymwybodol mai'r gaeaf sy'n cynnig y cyfle gorau i ymdrin â'r clefyd hwn, cyn i ni gyrraedd misoedd y gwanwyn a'r haf pryd y gallem weld cynnydd sydyn mewn achosion wedi'u cadarnhau yng Nghymru. Sut y mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod cynllun rheolaeth dros dro Llywodraeth y DU yn cael ei gyfleu'n effeithiol i dirfeddianwyr, sefydliadau gwirfoddol a'r cyhoedd yn gyffredinol yng Nghymru? Mae gan bob un ohonynt ran hanfodol i'w chwarae o ran adnabod y clefyd hwn a rheoli ei ledaeniad.

**The First Minister:** Updates on this position and further information are available on the Forestry Commission website, which should provide the information that people require.

**Y Prif Weinidog:** Mae'r wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa hon a rhagor o wybodaeth ar gael ar wefan y Comisiwn Coedwigaeth; dylai hyn ddarparu'r wybodaeth y mae pobl ei hangen.

### Gwasanaethau Ambiwlans ym Mrycheiniog a Sir Faesyfed

### Ambulance Services in Brecon and Radnorshire

***9. Kirsty Williams:*** *A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am wasanaethau ambiwlans ym Mrycheiniog a Sir Faesyfed. OAQ(4)0830(FM)*

***9. Kirsty Williams:*** *Will the First Minister make a statement on ambulance services in Brecon and Radnorshire. OAQ(4)0830(FM)*

**The First Minister:** The delivery of ambulance services in Brecon and Radnorshire is the responsibility of the Welsh Ambulance Services NHS Trust in partnership with Powys Teaching Local Health Board.

**Y Prif Weinidog:** Cyfrifoldeb Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru yw darparu gwasanaethau ambiwlans ym Mrycheiniog a Sir Faesyfed, mewn partneriaeth â Bwrdd Addysgu Iechyd Lleol Powys.

**Kirsty Williams:** Paramedic crews in Brecon and Radnorshire have long offered assistance to areas outside their patch when required, but now, in an attempt to reach Government

**Kirsty Williams:** Mae criwiau parafeddygon ym Mrycheiniog a Sir Faesyfed wedi cynnig cymorth i ardaloedd y tu allan i'w hardal pan fo angen ers amser maith, ond yn awr, mewn

targets, crews in Ystradgynlais, Crickhowell and Brecon are routinely sent at the start of their shift to ambulance stations in areas such as Glynneath and Merthyr. While that is welcome news for the people of Glynneath and Merthyr, it leaves the patients and population of south Powys with dangerous levels of a lack of coverage. Will you investigate this matter, and would you agree that this is not an acceptable way for the Welsh ambulance trust to treat the people of Brecon and Radnorshire?

ymgais i gyrraedd targedau'r Llywodraeth, mae criwiau yn Ystradgynlais, Crughywel ac Aberhonddu'n cael eu hanfon fel mater o drefn ar ddechrau eu shifft i orsafoedd ambiwlans mewn ardaloedd megis Glyn-nedd a Merthyr. Er bod hynny'n newyddion da i bobl Glyn-nedd a Merthyr, mae'n golygu lefelau peryglus o ddiffyg sylw i gleifion a phoblogaeth de Powys. A wnewch chi ymchwilio i'r mater hwn, ac a fyddech chi'n cytuno nad yw hon yn ffordd dderbyniol i ymddiriedolaeth ambiwlans Cymru drin pobl Brycheiniog a Sir Faesyfed?

**The First Minister:** I will investigate the issue that the Member raises. However, in relation to the ambulance trust, the Member will be aware that a plan to conduct a review was announced on 7 November last year. We have made £1 million available to the trust for the delivery of improvement measures. In terms of Powys, we of course expect response-time performance in the Powys area to meet the 60% equity standard, and that was met in Powys for nine of the last 12 months.

**Y Prif Weinidog:** Byddaf yn ymchwilio i'r mater y mae'r Aelod yn ei godi. Fodd bynnag, o ran yr ymddiriedolaeth ambiwlans, bydd yr Aelod yn ymwybodol bod cynllun i gynnal adolygiad wedi'i gyhoeddi ar 7 Tachwedd y llynedd. Rydym wedi darparu £1 miliwn i'r ymddiriedolaeth ar gyfer cyflwyno mesurau gwella. O ran Powys, rydym wrth gwrs yn disgwyl i berfformiad o ran amser ymateb yn ardal Powys fodloni'r safon ecwiti o 60%; cafodd y safon ei bodloni ym Mhowys mewn naw o'r 12 mis diwethaf.

**Darren Millar:** First Minister, the ambulance service in Brecon and Radnorshire is no different to the service in other parts of Wales, in that is it is very much under pressure and needs additional support. Do you recognise that, when the police have to take people to hospital because ambulances are not turning up, there is a fundamental problem with the way that we cope with unscheduled care in Wales? What are you doing to sort that out?

**Darren Millar:** Brif Weinidog, nid yw'r gwasanaeth ambiwlans ym Mrycheiniog a Sir Faesyfed ddim gwahanol i'r gwasanaeth mewn rhannau eraill o Gymru; mae o dan bwysau mawr ac mae angen cymorth ychwanegol arno. A ydych chi'n cydnabod, pan fo'r heddlu'n gorfod mynd â phobl i'r ysbyty am nad yw ambiwlansys yn cyrraedd, fod problem sylfaenol yn bodoli o ran y ffordd yr ydym yn ymdopi â gofal heb ei drefnu yng Nghymru? Beth yr ydych chi'n ei wneud i roi trefn ar hynny?

**The First Minister:** If that is the case, then it is of concern, unless there are good reasons for doing that. I refer the Member to the announcement on 7 November that states that a review of ambulance performance and delivery in Wales is being undertaken.

**Y Prif Weinidog:** Os yw hynny'n wir, mae'n peri pryder, oni bai bod rhesymau da dros wneud hynny. Cyfeiriaf yr Aelod at y cyhoeddiad ar 7 Tachwedd sy'n datgan bod adolygiad o berfformiad a chyflawniad gwasanaeth ambiwlans yng Nghymru yn cael ei gynnal.

**Simon Thomas:** First Minister, the previous chief constable of Dyfed-Powys Police has told me of his concerns about the police being called to emergency situations because the ambulance service was not available. If you were taken ill, would you want to be

**Simon Thomas:** Brif Weinidog, mae cyn brif gwnstabl Heddlu Dyfed-Powys wedi dweud wrthyf am ei bryderon am alw'r heddlu i sefyllfaoedd brys oherwydd nad oedd y gwasanaeth ambiwlans ar gael. Pe byddech chi'n cael eich taro'n wael, a fyddech chi'n

taken for treatment by an ambulance or a police car?

dymuno mynd i gael triniaeth mewn ambiwlans ynteu mewn car heddlu?

**First Minister:** It would depend on the nature of my condition and where I was. If there was a police car nearby that could take me to a hospital, I would want that police car to take me, rather than wait for an ambulance. It is difficult to give a definitive answer to that question because it depends on the circumstances. However, clearly, when people need the help of paramedics, then their help should be provided as quickly as possible.

**Prif Weinidog:** Byddai'n dibynnu ar natur fy nghyflwr ac ar ble yr oeddwn ar y pryd. Pe byddai car heddlu gerllaw a'i fod yn gallu mynd â fi i'r ysbyty, byddai'n well gennyf fynd yn y car heddlu hwnnw yn hytrach nag aros am ambiwlans. Mae'n anodd rhoi ateb pendant i'r cwestiwn yna oherwydd ei fod yn dibynnu ar yr amgylchiadau. Fodd bynnag, yn amlwg, pan fydd ar bobl angen cymorth parafeddygon, yna dylid darparu eu cymorth cyn gynted â phosibl.

**Y Gymraeg**

**The Welsh Language**

***10. Lindsay Whittle:*** *Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i ddiogelu'r Gymraeg rhag dirywiad pellach. OAQ(4)0824(FM)*

***10. Lindsay Whittle:*** *What action is the Welsh Government taking to protect the Welsh language from further decline. OAQ(4)0824(FM)*

**The First Minister:** The Welsh Government is committed to seeing the Welsh language thrive. The Welsh language strategy, the implementation of the Welsh Language (Wales) Measure 2011, the Welsh-medium education strategy and the framework for Welsh-language services in health and social services is clear evidence of that commitment.

**Y Prif Weinidog:** Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i weld y Gymraeg yn ffynnu. Mae'r strategaeth iaith Gymraeg, gweithredu Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, y strategaeth addysg cyfrwng Cymraeg a'r fframwaith ar gyfer gwasanaethau Cymraeg mewn iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yn dystiolaeth glir o'r ymrwymiad hwnnw.

**Lindsay Whittle:** The census data show a disturbing trend in the traditionally Welsh-speaking areas of Wales, and Ceredigion and Carmarthenshire were highlighted in relation to that trend. To tackle that problem, we need facts about the reason for this disturbing trend. First Minister, will your Government initiate a review to discover whether this trend is due to younger Welsh speakers speaking only English so that the Welsh language is no longer a living language, an influx of monoglot English speakers into the area, or to the fact that Welsh-speaking jobseekers have to leave their homes to seek employment elsewhere? We need to know what action needs to be taken to reverse this decline.

**Lindsay Whittle:** Mae data'r cyfrifiad yn dangos tuedd sy'n peri pryder yn yr ardaloedd o Gymru sy'n draddodiadol yn siarad Cymraeg, a thynnwyd sylw at Geredigion a Sir Gaerfyrddin mewn cysylltiad â'r duedd honno. I ymdrin â'r broblem, mae angen ffeithiau am y rheswm dros y duedd annymunol hon. Brif Weinidog, a fydd eich Llywodraeth yn cychwyn adolygiad i ddarganfod a yw'r duedd hon o ganlyniad i siaradwyr Cymraeg iau yn siarad Saesneg yn unig fel nad yw'r Gymraeg bellach yn iaith fyw, i fewnlifiad o siaradwyr uniaith Saesneg i mewn i'r ardal, neu i'r ffaith fod ceiswyr gwaith sy'n siarad Cymraeg yn gorfod gadael eu cartrefi i chwilio am waith yn rhywle arall? Mae angen i ni wybod pa gamau y mae angen eu cymryd i wrthdroi'r dirywiad hwn.

**The First Minister:** I have already met with

**Y Prif Weinidog:** Rwyf eisoes wedi cyfarfod

the Welsh Language Commissioner with a view to initiate a review process so that we can understand the issues. The Member is right to say that one of the issues is that young fluent Welsh speakers are not speaking to each other in Welsh. I have seen that many times, and when you ask them why, they cannot tell you, which makes it difficult to try to address the problem. There are good examples around Wales where social spaces—to use that term—whether they are online spaces or physical spaces, have been used to promote the language among young people. We need to know why this is happening, and that is why I have asked the Welsh Language Commissioner to consider the matter further.

â Chomisiynydd y Gymraeg gyda golwg ar gychwyn proses adolygu fel y gallwn ddeall y materion dan sylw. Mae’r Aelod yn gywir wrth ddweud mai un o’r materion yw nad yw siaradwyr Cymraeg rhugl ifanc yn siarad â’i gilydd yn Gymraeg. Rwyf wedi gweld hynny lawer gwaith, a phan ofynnwch iddynt pam, ni allant ddweud wrthych, sy’n ei gwneud yn anodd ceisio mynd i’r afael â’r broblem. Ceir enghreifftiau da ledled Cymru lle mae mannau cymdeithasol—i ddefnyddio’r term hwnnw—pa un a ydynt yn fannau ar-lein neu’n fannau ffisegol, wedi cael eu defnyddio i hyrwyddo’r iaith ymysg pobl ifanc. Mae angen i ni wybod pam mae hyn yn digwydd, a dyna pam yr wyf wedi gofyn i Gomisiynydd y Gymraeg ystyried y mater ymhellach.

**Mike Hedges:** One of my concerns, which I know is shared by the First Minister, is the lack of Welsh spoken by fluent Welsh-speaking teenagers in urban south Wales. What is the Welsh Government doing to support Welsh-language organisations—like Twrw Tawe in my constituency—to provide traditional Welsh cultural events through the medium of Welsh for teenagers?

**Mike Hedges:** Un o fy mhryderon, a gwn fod y Prif Weinidog yn ei rannu, yw’r diffyg Cymraeg a siaredir gan bobl ifanc yn eu harddegau sy’n rhugl eu Cymraeg yn ardaloedd trefol y de. Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gefnogi sefydliadau Cymraeg—megis Twrw Tawe yn fy etholaeth i—i ddarparu digwyddiadau diwylliannol traddodiadol Gymreig drwy gyfrwng y Gymraeg i bobl ifanc yn eu harddegau?

**The First Minister:** We are supporting initiatives such as Twrw Tawe by distributing grants to organisations that promote the use of the Welsh language in communities, such as the *mentrau iaith*, the Urdd and the young farmers’ clubs. We are also looking to mainstream the Welsh language into our work of supporting communities across Wales. However, unless we crack the issue of the use of the language among young people, we will not be able to address the difficulties facing the language.

**Y Prif Weinidog:** Rydym yn cefnogi mentrau megis Twrw Tawe drwy ddosbarthu grantiau i sefydliadau sy’n hyrwyddo defnyddio’r Gymraeg mewn cymunedau, megis y mentrau iaith, yr Urdd a chlybiau ffermwyr ifanc. Rydym hefyd yn bwriadu prif ffrydio’r Gymraeg yn ein gwaith o gefnogi cymunedau ledled Cymru. Fodd bynnag, oni bai ein bod yn datrys mater defnyddio’r iaith ymhlith pobl ifanc, ni allwn roi sylw i’r anawsterau sy’n wynebu’r iaith.

**Paul Davies:** Un ffordd o hyrwyddo’r defnydd o’r Gymraeg a diogelu’r Gymraeg rhag dirywiad pellach ym myd busnes fyddai sefydlu siarter iaith Gymraeg a fyddai o fudd i fusnesau a chwsmeriaid. Derbyniaf fod y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth wedi sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen i ystyried cysylltiadau rhwng yr iaith Gymraeg a datblygiad economaidd, ond, o dan yr amgylchiadau, a gytunwch y byddai siarter o’r fath o fudd? A allwch chi

**Paul Davies:** One way of promoting the use of the Welsh language and safeguarding the language from further decline in business would be to establish a Welsh language charter that would benefit businesses and customers. I accept that the Minister for Business, Enterprise, Technology and Science has established a task and finish group to consider links between the Welsh language and economic development, but, in the circumstances, do you agree that such a

gadarnhau y bydd hyn yn un o'r pethau y bydd y grŵp gorchwyl a gorffen yn eu hystyried?

charter would be beneficial? Could you confirm that this is one of the things that the task and finish group will consider?

**Y Prif Weinidog:** Credaf y byddai siarter o'r fath o fudd. Byddai'n bwysig i gwsmeriaid ac rwy'n siŵr y byddai sawl busnes yn elwa o'r ffaith bod ganddynt bolisi cadarn ynglŷn â'r defnydd o'r iaith Gymraeg, er enghraifft y defnydd o arwyddion Cymraeg ar gyfer eu busnesau. Nid yw hynny'n digwydd yn aml iawn, hyd yn oed yn yr ardaloedd lle siaredir y Gymraeg gan y mwyafrif, yn ôl y cyfrifiad. Mae unrhyw beth sy'n cadarnhau safle'r iaith yn y byd busnes yn rhywbeth y byddwn yn ei gefnogi.

**The First Minister:** I believe that such a charter would be beneficial. It would be important to customers and I am sure that a number of businesses would benefit from the fact that they had a definite policy on the use of the Welsh language, for example the use of Welsh-language signs for their businesses. That does not happen very often, even in areas where the Welsh language is spoken by the majority, according to the census. We would support anything that confirms the position of the language in business.

### Blaenoriaethau Iechyd ar gyfer Gorllewin De Cymru

### Health Priorities for South Wales West

***11. David Rees:*** *A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu blaenoriaethau iechyd Llywodraeth Cymru ar gyfer pobl Gorllewin De Cymru. OAQ(4)0828(FM)*

***11. David Rees:*** *Will the First Minister outline the Welsh Government's health priorities for the people of South Wales West. OAQ(4)0828(FM)*

**The First Minister:** They are to be found in our programme for government and in 'Together for Health'.

**Y Prif Weinidog:** Maent i'w gweld yn ein rhaglen ar gyfer llywodraethu ac yn 'Law yn Llaw at Iechyd'.

**David Rees:** Thank you for that answer, First Minister. Abertawe Bro Morgannwg University Local Health Board will be submitting its proposals for service delivery in the coming year. When you and the Minister for Health and Social Services look at the proposals of ABMU and other health boards, will you ensure that continuity of care is a prime directive in each proposal, and that continuity is provided by the same care team? At present, there is experience of patients being discharged from consultant care and transferred to care by general practitioners, only to return to the care of consultants later but being assigned to a different care team. Do you agree that it is important to provide the patient with the confidence that he or she expects from a medical care team, and to ensure that time and treatment are not wasted as a new team has to learn all about the patient and their care needs?

**David Rees:** Diolch am yr ateb yna, Brif Weinidog. Bydd Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg yn cyflwyno ei gynigion ar gyfer darparu gwasanaethau yn y flwyddyn sydd i ddod. Pan fyddwch chi a'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn edrych ar gynigion Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg a byrddau iechyd eraill, a wnewch chi sicrhau bod dilyniant gofal yn un o brif gyfarwyddiadau pob cynnig, a bod dilyniant yn cael ei ddarparu gan yr un tîm gofal? Ar hyn o bryd, ceir profiad o gleifion yn cael eu rhyddhau o ofal ymgynghorydd a'u trosglwyddo i ofal gan feddygon teulu, ond yna'n dychwelyd i ofal ymgynghorwyr yn ddiweddarach ond yn cael eu neilltuo i dîm gofal gwahanol. A ydych chi'n cytuno ei bod yn bwysig rhoi'r hyder i'r claf y byddai ef neu hi'n disgwyl ei gael gan dîm gofal meddygol, a sicrhau na chaiff amser a thriniaeth eu gwastraffu wrth i dîm newydd orfod dysgu popeth am y claf a'i anghenion gofal?

**The First Minister:** Continuity of care is a key element in providing a good level of service to people. It is important to remember that any service change will be made only to improve the quality of care. We know that continuity of care is an important component of a high-quality service, and it is right that it the continuity of care is paramount in the care of any individual.

**Y Prif Weinidog:** Mae dilyniant gofal yn elfen allweddol o ddarparu gwasanaeth o safon dda i bobl. Mae'n bwysig cofio mai dim ond er mwyn gwella ansawdd gofal y gwneir unrhyw newid i wasanaeth. Rydym yn gwybod bod dilyniant gofal yn elfen bwysig o wasanaeth o ansawdd uchel, ac mae'n briodol bod dilyniant gofal yn hollbwysig wrth ofalu am unrhyw unigolyn.

**Byron Davies:** First Minister, I am sure that you have noted the well-publicised drunken and loutish behaviour over the new year on the streets of Swansea—mainly, but not exclusively, involving younger generations. I wonder, with regard to health priorities, whether you would give greater priority to tackling the ever-bigger problem of alcohol dependence in our society, and to providing support and education in tackling the problem before it impacts too seriously on the health service in Wales.

**Byron Davies:** Brif Weinidog, rwyf yn siŵr eich bod wedi nodi'r ymddygiad meddw a llabystaidd ar strydoedd Abertawe sydd wedi cael llawer o gyhoeddusrwydd dros y flwyddyn newydd—yn bennaf, ond nid yn unig, gan genedlaethau iau. Tybed, wrth ystyried blaenoriaethau iechyd, a wnewch chi roi mwy o flaenoriaeth i fynd i'r afael â'r broblem sy'n cynyddu o hyd o ddibyniaeth ar alcohol yn ein cymdeithas, ac i ddarparu cefnogaeth ac addysg i ymdrin â'r broblem cyn iddi effeithio'n rhy ddifrifol ar y gwasanaeth iechyd yng Nghymru.

**The First Minister:** It is strange that we see that figures for alcohol consumption among young people are dropping. Alcohol consumption among those in their mid-40s and above is the issue—not with regards public order but regarding health. What is still happening, of course, is that people will binge drink; I am aware of what sometimes happens on our streets. The impact then is not on the long-term health of people but in the fights and injuries that occur and people having to go to accident and emergency departments. We continue to stress the message that responsible drinking is important, and that people should restrict their drinking for the sake of their long-term health.

**Y Prif Weinidog:** Mae'n rhyfedd ein bod yn gweld bod y ffigurau ar gyfer yfed alcohol ymysg pobl ifanc yn gostwng. Yfed alcohol ymysg rhai yn eu 40au canol ac uwch yw'r broblem—nid o ran trefn gyhoeddus, ond o ran iechyd. Yr hyn sy'n dal i ddigwydd, wrth gwrs, yw bod pobl yn goryfed mewn pyliau; rwyf yn ymwybodol o'r hyn sy'n digwydd weithiau ar ein strydoedd. Nid yw'r effaith bryd hynny ar iechyd hirdymor pobl, ond ar yr ymladd ac anafiadau sy'n digwydd a phobl yn gorfod mynd i adrannau damweiniau ac achosion brys. Rydym yn parhau i bwysleisio'r neges bod yfed yn gyfrifol yn bwysig, ac y dylai pobl gyfyngu ar eu hyfed er mwyn eu hiechyd hirdymor.

**Bethan Jenkins:** First Minister, I received a letter from somebody in Port Talbot stating that when he went with his partner to Morriston Hospital recently, he saw people being treated in ambulances at the hospital. Will the consultation that ABMU carried out recently reflect the changes that need to happen to ensure that this does not happen again, so that constituents do not write to me about people being treated in ambulances as opposed to on hospital beds inside the hospital?

**Bethan Jenkins:** Brif Weinidog, cefais lythyr oddi wrth rywun ym Mhort Talbot sy'n dweud, ei fod wedi gweld pobl yn cael eu trin mewn ambiwlansys yn yr ysbyty pan aeth gyda'i bartner i Ysbyty Treforys yn ddiweddar. A fydd yr ymgynghoriad a gynhaliodd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg yn ddiweddar yn adlewyrchu'r newidiadau sydd eu hangen i sicrhau nad yw hyn yn digwydd eto, fel nad yw etholwyr yn ysgrifennu ataf am bobl yn cael eu trin mewn ambiwlansys yn hytrach nag ar welyau

ysbyty y tu mewn i'r ysbyty?

**The First Minister:** It is of key importance that if there are any changes to accident and emergency services anywhere in Wales, those changes should lead to improvement in the service. We are very much aware of that, as are the local health boards.

**Y Prif Weinidog:** Mae'n allweddol bwysig, os gwneir unrhyw newidiadau i wasanaethau damweiniau ac achosion brys yn unrhyw le yng Nghymru, y dylai'r newidiadau hynny arwain at welliant yn y gwasanaeth. Rydym yn ymwybodol iawn o hynny, fel y mae'r byrddau iechyd lleol.

**Gweithredu Rheoliadau Llywodraeth**

**Implementing Government Regulations**

***12. Paul Davies:*** *A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am broses Llywodraeth Cymru o ran gweithredu rheoliadau llywodraeth. OAQ(4)0817(FM)*

***12. Paul Davies:*** *Will the First Minister make a statement on the Welsh Government's process with regards to implementing government regulations. OAQ(4)0817(FM)*

**Y Prif Weinidog:** Rydym yn ymdrin â gweithredu rheoliadau fesul achos. Mae'n rhaid sicrhau ein bod yn defnyddio'r dull gweithredu mwyaf priodol er mwyn sicrhau bod unrhyw reoliadau yn effeithiol.

**The First Minister:** The implementation of regulations is dealt with on a case-by-case basis. We must ensure that we follow the most appropriate procedures to ensure that any regulations are effective.

**Paul Davies:** Rwy'n ddiolchgar am yr ateb hwnnw, Brif Weinidog. Mae etholwyr wedi cysylltu â mi ynglŷn â Deddf Tiroedd Comin 2006 ac amserlen Llywodraeth Cymru ar gyfer cyflwyno rheoliadau i'r ddeddfwriaeth hon. Fel rwy'n siŵr eich bod yn ei werthfawrogi, mae hyn yn achosi pryder pan fydd tir pobl wedi'i gofrestru'n anghywir. Gan nad yw'r rheoliadau wedi cael eu pasio gan eich Llywodraeth, mae'n amhosibl i bobl gael gwared ar y cofrestriad a gwneud yr hyn y maent yn ei ddewis â'u tir. Rwy'n deall fod y Llywodraeth yn ceisio cyflwyno system electronig i ddelio â hyn, ac efallai fod hynny'n un o'r rhesymau am yr oedi. Fodd bynnag, a ydych yn cytuno fod saith mlynedd i gyflwyno rheoliadau fel hyn yn annerbyniol? Pa gamau penodol fydd eich Llywodraeth yn eu cymryd i sicrhau bod y system yn cael ei symleiddio yn y dyfodol?

**Paul Davies:** I am grateful for that answer, First Minister. Constituents have contacted me regarding the Commons Act 2006 and the Welsh Government's timetable for introducing regulations to that legislation. As I am sure you will appreciate, this causes concern when people's land has not been registered correctly. Given that the regulations have yet to be passed by your Government, it is impossible for people to change that registration and use their land as they would wish. I understand that the Government is trying to introduce an electronic system to deal with this, and perhaps that is one of the reasons for the delay. However, do you agree that seven years to bring forward such regulations is unacceptable? What specific steps will your Government be taking to ensure that the system is simplified for the future?

**Y Prif Weinidog:** Mae'n bwysig dros ben i sicrhau bod rheoliadau yn syml ac yn glir, a dyna pam maent yn gallu cymryd ychydig mwy o amser i'w cyflwyno. Mae problemau hanesyddol wedi bod ar sawl comin yng Nghymru, megis comin Llanllechid yn y gogledd, lle'r oedd sôn rhyw ddeng mlynedd yn ôl bod pobl yn mynd yn ôl i gyfraith Hywel Dda i geisio gweld pwy oedd â hawliau ar y comin hwnnw. Gwnaf yn siŵr y

**The First Minister:** It is exceptionally important to ensure that regulations are clear and simple, and that is why regulations can take some time to be introduced. There have been historic problems with a number of commons in Wales, such as the Llanllechid common in north Wales, where there was talk some 10 years ago about people returning to the laws of Hywel to see who had the rights on that common. I will make sure that the

bydd y Gweinidog yn ysgrifennu at yr Aelod er mwyn sicrhau ei fod yn gwybod beth yw'r amserlen ar hyn o bryd.

Minister writes to the Member in order to ensure that the current timetable is made known to him.

2.15 p.m.

**Jocelyn Davies:** First Minister, councils are about to implement the new council tax rules. What lessons did you learn from the way your Government handled those regulations?

**Jocelyn Davies:** Brif Weinidog, mae cynghorau ar fin gweithredu rheolau newydd y dreth gyngor. Pa wersi a ddysgwyd gennych am sut y gwnaeth eich Llywodraeth ymdrin â'r rheoliadau hynny?

**The First Minister:** We would not ideally wish to come back during recess in order to seek agreement on regulations. We will seek to work closely with most—if perhaps not all—parties in this Chamber in order to reach an acceptable set of regulations long before the sunset clause sets. [*Laughter.*]

**Y Prif Weinidog:** Yn ddelfrydol, ni fyddem yn dymuno dod yn ôl yn ystod y toriad er mwyn ceisio cytundeb ar reoliadau. Byddwn yn ceisio cydweithio'n agos gyda'r rhan fwyaf—os nad y cyfan efallai—o'r pleidiau yn y Siambr hon er mwyn cyrraedd cyfres o reoliadau derbyniol ymhell cyn machlud y cymal machlud. [*Chwerthin.*]

### Codi Canran y Siaradwyr Cymraeg

### Increasing the Percentage of Welsh Speakers

***13. Simon Thomas:*** *A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y camau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i godi'r ganran o siaradwyr Cymraeg. OAQ(4)0827(FM)*

***13. Simon Thomas:*** *Will the First Minister make a statement on what steps the Welsh Government is taking to increase the percentage of Welsh speakers. OAQ(4)0827(FM)*

**Y Prif Weinidog:** Cyfeiriaf yr Aelod at yr ateb a roddais i Lindsay Whittle.

**The First Minister:** I refer the Member to the answer I gave to Lindsay Whittle.

**Simon Thomas:** Diolch, Brif Weinidog. Mae'n siŵr y cawn fwy o gyfle i drafod syniadau yn ystod dadl Plaid Cymru yfory. Yr ydych eisoes heddiw wedi crybwyll pa mor bwysig yw hi bod pobl ifanc yn cael defnyddio'r Gymraeg ym myd addysg ac mewn meysydd eraill. Yn y cyd-destun hwnnw, mae'r ffaith nad oes cytundeb eto rhwng Radio Cymru a'r BBC a'r rhai sy'n paratoi a darparu cerddoriaeth boblogaidd Gymraeg yn fater pryder i mi achos mae codi bri'r Gymraeg ymysg pobl ifanc yn bwysig. Heddiw, mae'r ddwy ochr yn cyfarfod ac, os nad oes cytundeb, a wnewch chi ymrwymo i gysylltu'n uniongyrchol ag Ymddiriedolaeth y BBC i bwyso arni i ddatrys y broblem hon? Mae'n hynod bwysig bod cerddoriaeth boblogaidd Gymraeg yn cael ei chlywed ar yr *airwaves* yng Nghymru a bod pobl ifanc yn gallu gweld bod y Gymraeg yn rhywbeth perthnasol a modern iddyn nhw.

**Simon Thomas:** Thank you, First Minister. I am sure that we will have more opportunity to discuss ideas during Plaid Cymru's debate tomorrow. You have already mentioned today how important it is that young people have an opportunity to use the Welsh language in education and other fields. In that context, the fact that Radio Cymru and the BBC have not come to an agreement with those who provide Welsh-language popular music is a cause of concern to me because it is important that the status of the Welsh language is raised among young people in that way. Both sides will be meeting today and, if an agreement in not reached, will you commit to contacting the BBC trust directly to put pressure on it to resolve the issue? It is very important that Welsh-language popular music is heard on the airwaves in Wales and that young people can see and hear that the Welsh language is something modern and

relevant to them.

**Y Prif Weinidog:** Rwy’n cytuno’n gyfan gwbl. Os nad oes cytundeb heddiw, byddwn yn ystyried y sefyllfa er mwyn gwneud y mwyaf y gallwn fel Llywodraeth er mwyn sicrhau bod cytundeb yn cael ei wneud.

**The First Minister:** I agree completely. If there is no agreement today, we will have to consider the situation as regards doing the most that we as a Government can do in order to ensure that an agreement is reached.

### Blaenoriaethau ar gyfer 2013

### Priorities for 2013

***14. Jocelyn Davies:*** *A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ei flaenoriaethau ar gyfer 2013. OAQ(4)0822(FM)*

***14. Jocelyn Davies:*** *Will the First Minister make a statement on his priorities for 2013. OAQ(4)0822(FM)*

**The First Minister:** The programme for government sets out our priorities for 2013, but it stands to reason that what we want to do is improve the lives of the people of Wales and focus on the economy

**Y Prif Weinidog:** Mae’r rhaglen ar gyfer llywodraethu’n nodi ein blaenoriaethau ar gyfer 2013, ond wrth reswm, yr hyn yr ydym yn dymuno ei wneud yw gwella bywydau pobl Cymru a chanolbwyntio ar yr economi.

**Jocelyn Davies:** Thank you, First Minister. I was going to ask you if we could make a pact: I would stop asking you about your priorities if you stopped telling me to read your programme for government. Perhaps that could be a deal between us. As you know, youth unemployment has risen across the country and your Government’s policies cannot reach enough people. Will you make tackling youth unemployment a priority this year?

**Jocelyn Davies:** Diolch, Brif Weinidog. Roeddwn yn mynd i ofyn ichi a allem ni ddod i gytundeb: byddwn i’n rhoi’r gorau i ofyn i chi am eich blaenoriaethau pe byddech chi’n rhoi’r gorau i ddweud wrthyf am ddarllen eich rhaglen ar gyfer llywodraethu. Efallai y gallai hynny fod yn gytundeb rhyngom ni. Fel y gwyddoch, mae diweithdra ymhlith pobl ifanc wedi cynyddu ledled y wlad, ac ni all polisïau eich Llywodraeth gyrraedd digon o bobl. A wnewch chi ofalu bod ymdrin â diweithdra ymhlith pobl ifanc yn flaenoriaeth eleni?

**The First Minister:** Absolutely. That is why we introduced Jobs Growth Wales in April, and that is why 2,500 young people are now in employment. We will continue to create more job opportunities for young people in the future. The Member will also know how important dealing with youth unemployment is in order to make sure that we do not lose another generation. As regards to the offer she makes of a pact, I accept.

**Y Prif Weinidog:** Yn sicr. Dyna pam y gwnaethom gyflwyno Twf Swyddi Cymru ym mis Ebrill, a dyna pam mae 2,500 o bobl ifanc bellach mewn cyflogaeth. Byddwn yn parhau i greu mwy o gyfleoedd gwaith i bobl ifanc yn y dyfodol. Bydd yr Aelod hefyd yn gwybod pa mor bwysig yw ymdrin â diweithdra ymysg ieuenctid er mwyn gwneud yn siŵr nad ydym yn colli cenhedlaeth arall. O ran y cytundeb y mae hi’n ei gynnig, rwyf yn ei dderbyn.

**Mick Antoniw:** First Minister, just before Christmas, the Tory party took the opportunity to introduce—or slide in and conceal—a number of abolitions. The abolition of the Agricultural Wages Board for England and Wales was one that it proposed, as well as the closure of the final Remploy factories in Wales. Will the First Minister

**Mick Antoniw:** Brif Weinidog, ychydig cyn y Nadolig, manteisiodd y blaid Doriaidd ar y cyfle i gyflwyno—neu lithro i mewn a chuddio—nifer o ddiddymiadau. Mae diddymu Bwrdd Cyflogau Amaethyddol Cymru a Lloegr yn un a gynigiwyd ganddynt, yn ogystal â chau’r ffatrïoedd Remploy olaf yng Nghymru. A wnaiff y Prif Weinidog

confirm that this Welsh Government is committed to continuing to support Remploy and its workers in the future, and that we will not betray them but will continue to support them?

gadarnhau bod Llywodraeth bresennol Cymru'n ymroddedig i barhau i gefnogi Remploy a'u gweithwyr yn y dyfodol, ac na fyddwn yn eu bradychu ond yn parhau i'w cefnogi?

**The First Minister:** As you know, Welsh Ministers have opposed the closure of Remploy factories from the beginning. The UK Government's announcement is unhelpful, to say the least. I do not believe that forced Remploy closures will help disabled people, particularly at a time when it is difficult to find a job. We will continue to press for the devolution of the budget for Remploy in Wales, which has been refused by the UK Government. We will continue to support Remploy workers through our employer support grant, which is something that I know, from listening to the radio this morning, is much appreciated among those who have been affected.

**Y Prif Weinidog:** Fel y gwyddoch, mae Gweinidogion Cymru wedi gwrthwynebu cau ffatrïoedd Remploy o'r dechrau. Nid yw cyhoeddiad Llywodraeth y DU o gymorth, a dweud y lleiaf. Nid wyf yn credu y bydd gorfodi ffatrïoedd Remploy i gau yn helpu pobl anabl, yn enwedig ar adeg pan mae'n anodd dod o hyd i swydd. Byddwn yn parhau i bwyso am ddatganoli'r gyllideb ar gyfer Remploy yng Nghymru, sydd wedi cael ei wrthod gan Lywodraeth y DU. Byddwn yn parhau i gefnogi gweithwyr Remploy drwy ein grant cymorth i gyflogwyr, sy'n rhywbeth y gwn, o wrando ar y radio y bore yma, sy'n cael ei werthfawrogi'n fawr ymhlith y rhai yr effeithiwyd arnynt.

**Janet Finch-Saunders:** First Minister, I have recently written a letter to the Minister for Local Government and Communities to ask whether he would consider seeking a review of senior executive pay across Wales. I refer to the recent debacle at Caerphilly County Borough Council, where an undemocratic process led to increases in senior management pay of around 30%. This is at a time when many front-line workers across Wales are in their third year of a pay freeze; this is at a time when hundreds of equal pay claims are unresolved; and this is at a time when efficiencies are being driven in every local authority. First Minister, will you support our calls for more transparent decision making? In Caerphilly, five councillors out of 73 made this decision. There was outrage, and I understand—[ASSEMBLY MEMBERS: 'Ask a question.'] First Minister, will you support our calls for transparency, accountability and fairness in relation to local authority senior management pay?

**Janet Finch-Saunders:** Brif Weinidog, ysgrifennais lythyr yn ddiweddar at y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau i ofyn a fyddai'n ystyried gofyn am adolygiad o gyflog uwch swyddogion gweithredol ar draws Cymru. Cyfeiriaf at y traed moch diweddar yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, lle arweiniodd proses annemocrataidd at godiadau o tua 30% yng nghyflogau uwch reolwyr. Mae hyn ar adeg pan fo cyflogau llawer o weithwyr rheng flaen ar draws Cymru wedi eu rhewi am y drydedd flwyddyn; mae hyn ar adeg pan fo cannoedd o hawliadau cyflog cyfartal heb eu datrys, ac mae hyn ar adeg pan fo pob awdurdod lleol yn chwilio am arbedion effeithlonrwydd. Brif Weinidog, a wnewch chi gefnogi ein galwadau am wneud penderfyniadau mewn modd mwy tryloyw? Yng Nghaerffili, pum cynghorydd allan o 73 a wnaeth y penderfyniad hwn. Roedd dicter, ac rwyf yn deall—[AELODAU'R CYNULLIAD: 'Gofynnwch gwestiwn.'] Brif Weinidog, a wnewch chi gefnogi ein galwadau am dryloywder, atebolrwydd a thegwch o ran cyflog uwch reolwyr awdurdodau lleol?

**The First Minister:** Of course there must be transparency and of course there must be fairness. These are ultimately matters for local authorities, but I think that all will bear

**Y Prif Weinidog:** Wrth gwrs bod yn rhaid cael eglurder ac wrth gwrs bod yn rhaid cael tegwch. Materion i awdurdodau lleol yw'r rhain yn y pen draw, ond credaf y bydd pawb

in mind that, at a time when so many workers, particularly public sector workers, are having their pay frozen, it is very difficult to explain substantial increases for senior officers in any organisation.

yn sylweddoli, ar adeg pan fo tâl cymaint o weithwyr, yn enwedig gweithwyr y sector cyhoeddus, yn cael ei rewi, ei bod yn anodd iawn egluro codiadau sylweddol i uwch swyddogion yn unrhyw sefydliad.

**The Presiding Officer:** Order. I would like to thank Members for the assistance with that point.

**Y Llywydd:** Trefn. Hoffwn ddiolch i'r Aelodau am y cymorth â'r pwynt yna.

**William Powell:** First Minister, with the priority that you have shown in the purchase of Cardiff Airport, will you please reassure the Assembly and the people of mid and west Wales that this will not lead to the fall off of potential investment moneys into important regional airport facilities across Wales? I am thinking particularly of Pembrey and Welshpool. In doing so, would you please acknowledge the importance of such airports for the transport infrastructure in Wales and their importance for such facilities as the Wales Air Ambulance and the Ffos Las racecourse?

**William Powell:** Brif Weinidog, gyda'r flaenoriaeth yr ydych wedi'i dangos wrth brynu Maes Awyr Caerdydd, a wnewch chi roi sicrhau'r Cynulliad a phobl y canolbarth a'r gorllewin na fydd hyn yn arwain at ostyngiad yn yr arian a allai fod ar gael i'w fuddsoddi mewn cyfleusterau maes awyr rhanbarthol pwysig ledled Cymru? Rwyf yn meddwl yn benodol am Ben-bre a'r Trallwng. Wrth wneud hynny, a fyddech cystal â chydnabod pwysigrwydd meysydd awyr o'r fath i'r seilwaith trafnidiaeth yng Nghymru a'u pwysigrwydd i gyfleusterau megis Ambiwlans Awyr Cymru a chae ras Ffos Las?

**The First Minister:** Yes, of course. We want to make sure that our transport system provides as much accessibility as possible to people from Wales and outside Wales. [*Interruption*.]

**Y Prif Weinidog:** Gwnaf, wrth gwrs. Mae arnom eisiau gwneud yn siŵr bod ein system drafnidiaeth yn darparu cymaint â phosibl o hygyrchedd i bobl o Gymru ac o'r tu allan i Gymru. [*Torri ar draws*.]

**The Presiding Officer:** Order. You are in the front row now, not the back row, Simon Thomas.

**Y Llywydd:** Trefn. Rydych yn y rhes flaen yn awr, nid yn y rhes gefn, Simon Thomas.

### Prisiau Nwy a Thrydan yng Nghymru

### Gas and Electricity Prices in Wales

***15. Julie Morgan:** Pa drafodaethau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU ac Ofgem ynghylch prisiau nwy a thrydan yng Nghymru. OAQ(4)0826(FM)*

***15. Julie Morgan:** What discussions has the Welsh Government had with the UK Government and Ofgem regarding gas and electricity prices in Wales. OAQ(4)0826(FM)*

**The First Minister:** The Minister for Environment and Sustainability and I have had regular discussions with energy suppliers, with Ofgem and, indeed, with the UK Government, and we will continue to do so.

**Y Prif Weinidog:** Mae Gweinidog yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd a minnau wedi cael trafodaethau rheolaidd â chyflenwyr ynni, ag Ofgem ac, yn wir, â Llywodraeth y DU, a byddwn yn parhau i wneud hynny.

**Julie Morgan:** I thank the First Minister for that response. Recent reports have shown that Cardiff has the highest combined electricity

**Julie Morgan:** Diolch i'r Prif Weinidog am yr ateb yna. Mae adroddiadau diweddar wedi dangos mai Caerdydd sydd â'r biliau trydan a

and gas bills of any city in the whole of the UK, with Consumer Focus Wales highlighting ageing infrastructure as one of the reasons for those bills. What can the Welsh Government do to help consumers who are in that position? Would the First Minister consider supporting a regional or national bulk-fuel-buying scheme to help vulnerable people?

nwy cyfunedig uchaf o unrhyw ddinas yn y DU gyfan, a nododd Llais Defnyddwyr Cymru mai’r ffaith fod y seilwaith yn heneiddio yw un o’r rhesymau am y biliau hynny. Beth all Llywodraeth Cymru ei wneud i helpu defnyddwyr sydd yn y sefyllfa honno? A fyddai’r Prif Weinidog yn ystyried cefnogi cynllun rhanbarthol neu genedlaethol i brynu tanwydd mewn swmp i helpu pobl sy’n agored i niwed?

**The First Minister:** That is an interesting idea, in terms of the bulk buying scheme, and it is one that I think deserves further consideration, which we will do. In terms of reducing people’s energy costs, we have had schemes such as the home energy efficiency scheme and Nest, which have helped many people to reduce their energy bills, particularly at a time when energy costs are increasing so much. The Ofgem proposals suggest that new, smaller companies will be able to enter the retail energy market, increasing competition and then driving down prices. For example, it might be possible for a new energy company to operate on a similar basis as Glas Cymru. There is no reason why that should not be done. However, increased competition in energy is absolutely crucial, as is more transparency in pricing, which, at the moment, does not exist.

**Y Prif Weinidog:** Mae hwnna’n syniad diddorol, o ran y cynllun prynu mewn swmp, ac mae’n un sy’n haeddu ystyriaeth bellach yn fy marn i, a byddwn yn gwneud hynny. O ran lleihau costau ynni pobl, rydym wedi cynnal cynlluniau megis y cynllun effeithlonrwydd ynni cartref a Nest, sydd wedi helpu llawer o bobl i leihau eu biliau ynni, yn enwedig ar adeg pan fo costau ynni’n codi cymaint. Mae cynigion Ofgem yn awgrymu y bydd cwmnïau newydd, llai yn gallu mynd i mewn i’r farchnad manwerthu ynni, gan gynyddu cystadleuaeth ac yna gyrru prisiau i lawr. Er enghraifft, gallai fod yn bosibl i gwmni ynni newydd weithredu ar sail debyg i Glas Cymru. Nid oes unrhyw reswm pam na ddylid gwneud hynny. Fodd bynnag, mae mwy o gystadleuaeth ym maes ynni’n hollol hanfodol, fel y mae mwy o dryloywder wrth brisio, sy’n rhywbeth nad yw’n bodoli ar hyn o bryd.

**Nick Ramsay:** First Minister, as I am sure both you and Julie Morgan are aware, the latest figures from BoilerJuice.com show that the average price per litre of heating oil in Wales is 60.5p, which is higher than the UK average. Will you tell us what consideration you have given to helping poorer residents in rural areas who may not have a mains gas supply and may be finding things particularly difficult at the moment?

**Nick Ramsay:** Brif Weinidog, rwyf yn siŵr eich bod chi a Julie Morgan yn ymwybodol bod y ffigurau diweddaraf gan BoilerJuice.com yn dangos bod pris cyfartalog litr o olew gwresogi yng Nghymru yn 60.5c, sy’n uwch na chyfartaledd y DU. A wnewch chi ddweud wrthym pa ystyriaeth yr ydych wedi’i rhoi i helpu trigolion tlotach mewn ardaloedd gwledig nad oes ganddynt nwy prif gyflenwad ac a allai fod yn wynebu sefyllfa anodd iawn ar hyn o bryd?

**The First Minister:** We know that the upward trend in energy prices means that we have to do as much as we can to help householders. We are doing this through the Nest and Arbed schemes. We are also helping to support Welsh businesses and the Welsh economy, because 46 small and medium-sized enterprises and over 200 jobs are being supported, and 16 training and work

**Y Prif Weinidog:** Rydym yn gwybod bod y duedd at i fyny mewn prisiau ynni’n golygu bod rhaid i ni wneud cymaint ag y gallwn i helpu deiliaid tai. Rydym yn gwneud hyn drwy gynlluniau Nest ac Arbed. Rydym hefyd yn helpu i gefnogi busnesau Cymru ac economi Cymru, oherwydd mae 46 o fentrau bach a chanolig a dros 200 o swyddi yn cael eu cefnogi, ac mae 16 o gyfleoedd

experience opportunities have been created. We are investing £30 million into Nest and Arbed during this financial year, and £36 million in 2013-14. This will help to improve the energy efficiency of around 5,000 homes this year and around 6,000 homes in the next financial year.

hyfforddiant a phrofiad gwaith wedi'u creu. Rydym yn buddsoddi £30 miliwn yn Nest ac Arbed yn ystod y flwyddyn ariannol hon, a £36 miliwn yn 2013-14. Bydd hyn yn helpu i wella effeithlonrwydd ynni tua 5,000 o gartrefi eleni a thua 6,000 o gartrefi yn y flwyddyn ariannol nesaf.

**Alun Ffred Jones:** Brif Weinidog, yn y gorffennol, rydych wedi dweud bod prisiau trydan uchel yng Nghymru yn gorfodi rhai cwmnïau i ystyried symud dros y môr. Mae'r diwydiant, ar y llaw arall, wedi gwrthod yr honiad hwn. A ydych wedi derbyn unrhyw ohebiaeth neu wybodaeth i brofi neu wrthbrofi eich honiad gwreiddiol chi gan y diwydiant neu gan Ofgem?

**Alun Ffred Jones:** First Minister, you have said in the past that high electricity prices in Wales have forced some companies to consider moving overseas. The industry, on the other hand, has rejected this claim. Have you received any correspondence or information from the industry or from Ofgem to prove or disprove your original claim?

**Y Prif Weinidog:** Rwyf wedi clywed sawl gwaith gan sawl cwmni y bûm yn cwrdd â nhw yn ystod y misoedd diwethaf ei bod yn fwyfwy anodd i ddenu buddsoddiad i Brydain oherwydd prisiau ynni. Rwyf wedi clywed hynny gan fwy nag un cwmni. Mae arnynt ofn yn y tymor hir y bydd yn rhaid iddynt adael Prydain o achos prisiau ynni. Rwyf wedi clywed hynny gan saith, wyth neu naw o gwmnïau mawr yng Nghymru.

**The First Minister:** I have heard a number of times from a number of companies that I have met in recent months that is becoming more and more difficult to attract investment into Britain because of energy prices. I have heard that from more than one company. Their long-term fear is that they will have to leave Britain because of energy prices. Seven, eight or nine major companies in Wales have made this point to me.

**Pwynt o Drefn**
**Point of Order**

**Byron Davies:** Point of order. First Minister, on 5 December last year, you remarked on the issue of council benefits and accused the Welsh Conservatives on these benches of 'not caring'. I challenged you on this. We were delighted to support this issue after due deliberation. You responded by saying,

**Byron Davies:** Pwynt o drefn. Brif Weinidog, ar 5 Rhagfyr y llynedd, soniasoch am fudd-daliadau cyngor gan gyhuddo Ceidwadwyr Cymru ar y meinciau hyn o 'beidio â hidio'. Heriais chi ar hyn. Roeddem yn falch iawn o gefnogi'r mater hwn ar ôl ei drafod yn briodol. Fe wnaethoch ateb drwy ddweud,

'I will withdraw that comment as soon as the Conservatives indicate that they will support the council tax reduction for 330,000 households. Then, I will be pleased to withdraw that comment.'

'Tynnaf y sylw hwnnw'n ôl cyn gynted ag y bydd y Ceidwadwyr yn nodi y byddant yn cefnogi'r gostyngiad yn y dreth gyngor ar gyfer 330,000 o gartrefi. Yna, byddaf yn falch o dynnu'r sylw hwnnw yn ôl.'

Therefore, would the First Minister like to take this opportunity and keep his word and withdraw the comment?

Felly, a hoffai'r Prif Weinidog fanteisio ar y cyfle hwn a chadw ei air a thynnu'r sylw'n ôl?

**The Presiding Officer:** I would remind Members of my previous ruling that they should not seek points of order as a way to

**Y Llywydd:** Hoffwn atgoffa Aelodau o fy nyfarniad blaenorol na ddylent geisio pwyntiau o drefn fel ffordd o barhau dadl.

continue a debate. Therefore, I will not accept that as a point of order.

Felly, nid wyf yn derbyn hynna fel pwynt o drefn.

**Rhodri Glyn Thomas:** Point of order. The First Minister responded to a question I asked him about the community transport concessionary fares initiative. He referred to a report on this matter that is being prepared by officials for the Minister. I have asked the Minister questions on this issue on a number of occasions and he has reassured me that it is an independent report. First, will the First Minister clarify that point? However, as the First Minister was responding and telling me that I would have to wait for this report to be considered by the Minister and a statement made, the @fmwales Twitter account—I think that there is only one @fmwales and I am not suggesting that the First Minister was twittering at the same time as answering me; I presume he was trying to give me a full and comprehensive answer on the information he had to hand—was simultaneously telling me that the First Minister was taking questions on the community transport concessionary fares initiative and that the Government is investing £73 million in the scheme in 2013-14. On the one hand he is telling me here in the Chamber that I have to await a report for that information, but he is telling the rest of the country that the information is available and it is £73 million.

**Rhodri Glyn Thomas:** Pwynt o drefn. Atebodd y Prif Weinidog gwestiwn a ofynnais iddo am y fenter tocynnau teithio rhatach ar gyfer cludiant cymunedol. Cyfeiriodd at adroddiad ar y mater hwn sy'n cael ei baratoi i'r Gweinidog gan swyddogion. Rwyf wedi gofyn cwestiynau i'r Gweinidog am y mater hwn ar sawl achlysur ac mae wedi tawelu fy meddwl ei fod yn adroddiad annibynnol. Yn gyntaf, a wnaiff y Prif Weinidog egluro'r pwynt hwnnw? Fodd bynnag, tra'r oedd y Prif Weinidog yn ateb ac yn dweud wrthyf y byddai'n rhaid i mi aros i'r Gweinidog ystyried yr adroddiad hwn a gwneud datganiad, roedd cyfrif Twitter @fmwales—credaf mai dim ond un @fmwales sy'n bodoli ac nid wyf yn awgrymu bod y Prif Weinidog yn trydar ar yr un pryd ag yr oedd yn fy ateb i; tybiaf ei fod yn ceisio rhoi ateb llawn a chynhwysfawr i mi'n seiliedig ar y wybodaeth a oedd ganddo—ar yr un pryd yn dweud wrthyf fod y Prif Weinidog yn cymryd cwestiynau am y fenter tocynnau teithio rhatach ar gludiant cymunedol a bod y Llywodraeth yn buddsoddi £73 miliwn yn y cynllun yn 2013-14. Ar y naill law mae'n dweud wrthyf yma yn y Siambr fod yn rhaid i mi aros am adroddiad i gael y wybodaeth honno, ond mae'n dweud wrth weddill y wlad fod y wybodaeth ar gael ac mai £73 miliwn ydyw.

**The Presiding Officer:** I am sure that Rhodri Glyn Thomas has been in this Chamber long enough to know that that is not a point of order. A point of order should relate to a practice and procedure of this Assembly on which I can rule. I am not responsible for the First Minister's answers.

**Y Llywydd:** Rwyf yn siŵr bod Rhodri Glyn Thomas wedi bod yn y Siambr hon yn ddigon hir i wybod nad yw hwnna'n bwynt o drefn. Dylai pwynt o drefn ymwneud ag un o arferion a gweithdrefnau'r Cynulliad hwn y gallaf ddyfarnu arno. Nid wyf yn gyfrifol am atebion y Prif Weinidog.

**Rhodri Glyn Thomas:** You are very lucky.

**Rhodri Glyn Thomas:** Rydych yn ffodus iawn.

**The Presiding Officer:** I may be, but there we are.

**Y Llywydd:** Efallai fy mod i, ond dyna ni.

## Cwestiwn Brys
## Urgent Question

### Maes Awyr Caerdydd
### Cardiff Airport

**The Presiding Officer:** I have accepted an urgent question under Standing Order No. 12.66. I call on Byron Davies to ask that question.

**Y Llywydd:** Rwyf wedi derbyn cwestiwn brys dan Reol Sefydlog Rhif 12.66. Galwaf ar Byron Davies i ofyn y cwestiwn hwnnw.

***Byron Davies:*** *A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gynlluniau Llywodraeth Cymru i wladoli Maes Awyr Caerdydd. EAQ(4)0853(FM)*

***Byron Davies:*** *Will the First Minister make a statement on the Welsh Government's plans to nationalise Cardiff Airport. EAQ(4)0853(FM)*

**The Minister for Business, Enterprise, Technology and Science (Edwina Hart):** On 18 December, the First Minister announced that the Welsh Government had developed an agreement with TBI, the owners of Cardiff Airport, facilitating a comprehensive financial, legal and due diligence exercise between the two parties.

**Y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth (Edwina Hart):** Ar 18 Rhagfyr, cyhoeddodd y Prif Weinidog fod Llywodraeth Cymru wedi datblygu cytundeb gyda TBI, perchnogion Maes Awyr Caerdydd, i hwyluso ymarfer ariannol, cyfreithiol a diwydrwydd dyladwy cynhwysfawr rhwng y ddau barti.

**Byron Davies:** We are extremely sceptical on this side of the Chamber about many of the assertions you have made in public surrounding the purchase of the airport. I doubt that the airport could function in its current state and return on the Welsh Government investment and operate at a profit for any independent operator. However, at this stage I want to ask you specifically about the £20 million of debt currently on the airport books. Will you categorically rule out that the Welsh Government and, more importantly, Welsh taxpayers will not be liable for any debts owed by Cardiff Airport Limited if the purchase goes ahead?

**Byron Davies:** Rydym yn llawn amheuon ar yr ochr hon i'r Siambr ynglŷn â llawer o'r honiadau a wnaethoch yn gyhoeddus ynghylch prynu'r maes awyr. Rwyf yn amau a allai'r maes awyr weithredu yn ei gyflwr presennol a rhoi elw ar fuddsoddiad Llywodraeth Cymru a gweithredu gydag elw i unrhyw weithredwr annibynnol. Fodd bynnag, ar hyn o bryd rwyf am ofyn i chi'n benodol am yr £20 miliwn o ddyled sydd ar lyfrau'r maes awyr ar hyn o bryd. A wnewch ddatgan yn bendant na fydd Llywodraeth Cymru ac, yn bwysicach, na fydd trethdalwyr Cymru yn atebol am unrhyw ddyledion sydd gan Cardiff Airport Limited os aiff y cynllun i'w brynu yn ei flaen?

**Edwina Hart:** I refer the Member to the statements of 18 December, when we indicated that we were discussing matters with the current owners of the airport. Everything else is commercial in confidence. You may be sceptical, but I am afraid that Joe Public and the business world do not agree with you. The number of letters and amount of correspondence that we have had from individuals supporting us is incredible. You should, perhaps, pay more attention to the statement that was issued and which made it

**Edwina Hart:** Cyfeiriaf yr Aelod at ddatganiadau ar 18 Rhagfyr, pan ddywedwyd ein bod yn trafod materion â pherchnogion presennol y maes awyr. Mae popeth arall yn fasnachol gyfrinachol. Efallai eich bod yn amheus, ond mae arnaf ofn nad yw'r cyhoedd na'r byd busnes yn cytuno â chi. Mae nifer y llythyrau a'r ohebiaeth yr ydym wedi'u cael gan unigolion yn ein cefnogi'n anhygoel. Efallai y dylech roi mwy o sylw i'r datganiad a gyhoeddwyd ac a oedd yn nodi'n eglur ein bod mewn trafodaethau. Fe'i gwnaethom yn

clear that we are in discussions. We also made it clear that it was not our intention to run the airport; the intention would be to enter into an agreement with others to run it. Perhaps he had better look at some of the successful airports in public ownership across the UK and which are supported by political parties of all persuasions that are run by local authorities, including Manchester Airport, Newcastle International Airport, and the Highlands and Islands Airports, which is directly supported by the Scottish Executive. [*Interruption*.]

glir hefyd nad oeddem yn bwriadu rhedeg y maes awyr; y bwriad oedd dod i gytundeb ag eraill i'w redeg. Efallai y byddai'n well iddo edrych ar rai o'r meysydd awyr llwyddiannus sydd mewn perchnogaeth gyhoeddus ledled y DU ac sy'n cael eu cefnogi gan bleidiau gwleidyddol o bob lliw a'u rhedeg gan awdurdodau lleol, gan gynnwys Maes Awyr Manceinion, Maes Awyr Rhyngwladol Newcastle, a Meysydd Awyr yr Ucheldiroedd a'r Ynysoedd, sy'n cael eu cefnogi'n uniongyrchol gan Weithrediaeth yr Alban. [*Torri ar draws*.]

2.30 p.m.

**The Presiding Officer:** Order. The Minister has come to the Chamber to answer an urgent question. It would be sensible if you listened to what she was saying.

**Y Llywydd:** Trefn. Mae'r Gweinidog wedi dod i'r Siambr i ateb cwestiwn brys. Byddai'n synhwyrol i chi wrando ar yr hyn y mae'n ei ddweud.

**Mick Antoniw:** On behalf of my constituents who work in the airport, and who work in the supportive industries, and the supportive aerospace industries, we very much welcome the certainty and the security that is being given by the actions that are being taken by the Welsh Government. If, by some strange sequence of events, the Tories were ever in charge of this Government, how many jobs might be under threat in Wales if the airport were to close?

**Mick Antoniw:** Ar ran fy etholwyr sy'n gweithio yn y maes awyr, ac sy'n gweithio yn y diwydiannau ategol, a'r diwydiannau awyrofod ategol, rydym yn croesawu'n fawr y sicrwydd a'r diogelwch sy'n cael eu rhoi gan y camau y mae Llywodraeth Cymru'n eu cymryd. Pe bai'r Toriaid, drwy ryw gyfres ryfedd o ddigwyddiadau, fyth yn dod i rym yn y Llywodraeth hon, faint o swyddi a fyddai dan fygythiad yng Nghymru pe bai'r maes awyr yn cau?

**Edwina Hart:** I would not like to indulge myself so early in the new year by attacking the opposition. However, I will say that I had the pleasure of attending an event at British Airways Maintenance Cardiff, for GE Aviation, prior to the Christmas recess. The workers there were enormously pleased with the discussions that the Welsh Government was undertaking regarding the airport, because of the jobs issue and the importance of the airport to their business. I have received nothing negative, even when I have been out purchasing Christmas gifts and so on—in local stores, I hasten to add. People have been saying how pleased they are that we are taking action. A number of people are saying that it will be a pleasure if the airport is sorted out to the degree that they can fly from Cardiff. We also need to recognise that this is an important issue, but it is also important to recognise that, because of commercial sensitivity, we cannot go into

**Edwina Hart:** Ni hoffwn gymryd pleser mor gynnar yn y flwyddyn newydd mewn ymosod ar y gwrthbleidiau. Fodd bynnag, fe wnaf ddweud fy mod wedi cael y pleser o fod yn bresennol mewn digwyddiad yn British Airways Maintenance Cardiff, ar gyfer GE Aviation, cyn toriad y Nadolig. Roedd y gweithwyr yno'n falch dros ben â'r trafodaethau yr oedd Llywodraeth Cymru yn eu cynnal am y maes awyr, oherwydd swyddi a phwysigrwydd y maes awyr i'w busnes. Nid wyf wedi cael dim negyddol, hyd yn oed wrth fynd allan i brynu anrhegion Nadolig ac ati—mewn siopau lleol, brysiaf i ychwanegu. Mae pobl wedi bod yn dweud pa mor falch yr ydynt ein bod yn gweithredu. Mae nifer o bobl yn dweud y bydd yn bleser os cawn drefn ar y maes awyr i'r graddau eu bod yn gallu hedfan o Gaerdydd. Mae angen inni hefyd gydnabod bod hwn yn fater pwysig, ond mae hefyd yn bwysig cydnabod na allwn siarad am rai meysydd penodol, oherwydd

certain areas, and all will be revealed in due course. However, I am sure that, if the opposition is the party of business, they will not want to indulge themselves in any further questions on this issue.

sensitifrwydd masnachol, ac y caiff popeth ei ddatgelu maes o law. Fodd bynnag, rwyf yn siŵr, os yw'r wrthblaid yn blaid busnes, na fyddant am ymbleseru mewn rhagor o gwestiynau am y mater hwn.

**Rhodri Glyn Thomas:** Byddwch yn ymwybodol, Weinidog, bod arweinydd Plaid Cymru, Leanne Wood, wedi datgan yn glir ers peth amser bod yn rhaid mynd i'r afael â'r problemau a oedd yn bodoli o ran maes awyr rhyngwladol Caerdydd. Ar sail hynny, yr ydym yn falch bod y Llywodraeth wedi gweithredu ar y mater hwn. Fodd bynnag, nid yw'n glir beth yw bwriadau Llywodraeth Cymru. Nid yw'r ffaith eich bod am brynu'r maes awyr ynddo'i hun yn mynd i gyflawni unrhyw beth. Mae'n bwysig ein bod yn cael gwybodaeth. Derbyniaf yr hyn a ddywedwch ynglŷn â chyfrinachedd masnachol a bod yn rhaid bod yn ofalus; fodd bynnag, pan fydd y wybodaeth gennych, mae'n bwysig eich bod yn rhannu â ni beth yn union yw eich bwriadau, a sut yn union y byddwch yn trosglwyddo'r sefyllfa o fod yn un sy'n methu ar hyn o bryd i un sy'n llwyddo ac sy'n creu mynediad i Gymru trwy'r maes awyr rhyngwladol. Gallai hyn fod yn eithriadol o bwysig ar gyfer economi Cymru gyfan, nid yn unig de-ddwyrain Cymru.

Felly, nid ydym am eich beirniadu ar hyn o bryd, ond yr ydym yn awyddus i gael y wybodaeth cyn gynted ag y gallwn ynglŷn â sut yn union y byddwch yn sicrhau y bydd y pryniant hwn yn datblygu i fod yn rhywbeth sy'n gwneud gwahaniaeth sylfaenol i'r maes awyr ac i economi Cymru drwy'r maes awyr hwn.

**Rhodri Glyn Thomas:** You will be aware, Minister, that the leader of Plaid Cymru—The Party of Wales, Leanne Wood, has been stating clearly for some time that we must address the problems that existed as regards Cardiff international airport. On that basis, we are very pleased that the Government has taken action on this matter. However, what is not clear is the exact intentions of the Welsh Government. The fact that you are going to acquire the airport in itself is not going to achieve anything. It is important that we receive information. I accept what you say about commercial confidentiality and that we must be careful; however, when you have the information, it is important that you share with us your exact intentions and how exactly you are going to transform the situation from the current position of failure to a position of success that we will create access to Wales through the international airport. This could be exceptionally important for the economy of the whole of Wales, not only the south-east of Wales.

Therefore, we do not wish to criticise you at present, but we are very eager to receive the information as soon as possible as regards how exactly you are going to ensure that this acquisition develops to be something that will make a fundamental difference to the airport and to the Welsh economy.

**Edwina Hart:** I thank Rhodri Glyn Thomas for the excellent position that he has taken in supporting us in the first instance regarding the action that we are taking. I am grateful for that support. I believe that we all understand the importance of Wales as a nation having a proper international airport, with the appropriate links, and I know that that is what the Welsh people want. In terms of sharing information, when we are able to so, you have my assurance, as the Minister with responsibility for this issue, that I will do so. We need to look at the value-for-money issues, how things will be run, what options

**Edwina Hart:** Diolch i Rhodri Glyn Thomas am y safbwynt ardderchog a gymerodd trwy ein cefnogi yn y lle cyntaf o ran y camau yr ydym yn eu cymryd. Rwyf yn ddiolchgar am y gefnogaeth honno. Credaf ein bod i gyd yn deall pa mor bwysig yw hi i Gymru, fel cenedl, fod â maes awyr rhyngwladol priodol, â'r cysylltiadau priodol, a gwn mai dyna beth y mae ar bobl Cymru ei eisiau. O ran rhannu gwybodaeth, rwyf yn eich sicrhau, fel y Gweinidog â chyfrifoldeb am y mater hwn, y gwnaf hynny pan fo modd. Mae angen inni edrych ar faterion gwerth am arian, sut y caiff pethau eu rhedeg, a pha opsiynau a allai

there might be for undertaking it, and, as soon as we are able to—once we go past this other stage of discussions with the company—I will share that with the Chamber.

fodoli i ymgymryd â'r gwaith, a byddaf yn rhannu hynny â'r Siambr cyn gynted ag y gallwn—cyn gynted â'n bod wedi pasio'r cyfnod arall hwn o drafodaethau gyda'r cwmni.

**Eluned Parrott:** I do not have a philosophical viewpoint on whether the airport should be publicly or privately run. What matters to me is that there is a strong future for the airport, which is in the village where I live, that customers get an improved service, that there is a positive economic outcome, and that the investment—and the continued investment that you will need to pump in to effect any improvements—provides good value for taxpayers' money. To date, you have not satisfied us on any of those points. When do you believe you will be in a position to publish a full business case? I understand the issue of commercial sensitivity, but would you not agree that announcing that you are going to buy an airport before you have agreed a price was about the most irresponsible breach of commercially sensitive data possible?

**Eluned Parrott:** Nid oes gennyf safbwynt athronyddol ynghylch a ddylai'r maes awyr gael ei redeg gan y sector cyhoeddus ynteu breifat. Yr hyn sy'n bwysig i mi yw bod dyfodol cadarn i'r maes awyr, sydd yn y pentref lle rwy'n byw, bod cwsmeriaid yn cael gwell gwasanaeth, y ceir canlyniad economaidd cadarnhaol, a bod y buddsoddiad—a'r buddsoddiad parhaus y bydd ei angen gennych er mwyn cyflawni roi unrhyw welliannau—yn rhoi gwerth da am arian trethdalwyr. Hyd yma, nid ydych wedi ein bodloni ar unrhyw un o'r pwyntiau hynny. Pryd yr ydych yn credu y byddwch mewn sefyllfa i gyhoeddi achos busnes llawn? Rwyf yn deall mater sensitifrwydd masnachol, ond oni fyddech yn cytuno bod cyhoeddi eich bod yn mynd i brynu maes awyr cyn ichi gytuno ar bris yn un o'r ffyrdd mwyaf anghyfrifol posibl o ryddhau data masnachol sensitif?

**Edwina Hart:** At the end of the day, this is the way that the world works. The important thing is that we recognise that we have to advise you of our intentions at the earliest opportunity. We are a democratic, transparent Government, and we want you to be aware that discussions are taking place. I am sure that all of you who have been involved in business understand the issue of commercial confidentiality in discussions, and I am afraid that you will have to bear with me. However, I can assure you that, as I have assured Rhodri Glyn Thomas, when information that we can share is available, we will certainly give it to you. It is not my style, as Minister with responsibility in this area, or the First Minister's style, not to share that information, and I have every confidence that you will be satisfied once we work through the arrangements.

**Edwina Hart:** Ar ddiwedd y dydd, dyma sut y mae'r byd yn gweithio. Y peth pwysig yw ein bod yn cydnabod bod rhaid inni roi gwybod ichi am ein bwriadau cyn gynted â phosibl. Rydym yn Llywodraeth ddemocrataidd, dryloyw, ac rydym am i chi fod yn ymwybodol bod trafodaethau'n digwydd. Rwyf yn siŵr bod pob un ohonoch sydd wedi gweithio ym maes busnes yn deall mater cyfrinachedd masnachol mewn trafodaethau, ac mae arnaf ofn y bydd rhaid i chi fod yn amyneddgar â mi. Fodd bynnag, gallaf eich sicrhau, fel yr wyf wedi sicrhau Rhodri Glyn Thomas, pan fydd gwybodaeth y gallwn ei rhannu ar gael, y byddwn yn sicr yn ei rhoi ichi. Nid fy ffordd i o weithredu, fel y Gweinidog sydd â chyfrifoldeb yn y maes hwn, na ffordd y Prif Weinidog, yw peidio â rhannu'r wybodaeth honno, ac mae gennyf bob hyder y byddwch yn fodlon ar ôl i ni weithio drwy'r trefniadau.

**Andrew R.T. Davies:** Minister, thank you for taking the urgent question this afternoon. A debate has been tabled for tomorrow afternoon that will offer the opportunity to take these issues forward. However, on the

**Andrew R.T. Davies:** Weinidog, diolch i chi am gymryd y cwestiwn brys brynhawn heddiw. Mae dadl wedi ei chyflwyno ar gyfer prynhawn yfory a fydd yn cynnig cyfle i symud ymlaen â'r materion hyn. Fodd

urgent question, I press you to say when the due diligence exercise will be completed and, if the due diligence exercise recommends a purchase, when you envisage that purchase taking place. Will it be in this current financial year or in the next financial year? I appreciate that it rests on the due diligence test, but if you do have access to those dates, that would greatly inform the debate that people are having.

bynnag, ar y cwestiwn brys, pwysaf arnoch i ddweud pryd y bydd yr ymarfer diwydrwydd dyladwy yn cael ei gwblhau ac, os yw'r ymarfer diwydrwydd dyladwy yn argymell prynu, pryd yr ydych yn rhagweld y bydd y prynu'n digwydd. A fydd yn y flwyddyn ariannol bresennol neu yn y flwyddyn ariannol nesaf? Rwy'n sylweddoli ei fod yn dibynnu ar y prawf diwydrwydd dyladwy, ond os yw'r dyddiadau hynny ar gael ichi, byddai honno'n wybodaeth bwysig i'r ddadl y mae pobl yn ei chael.

**Edwina Hart:** I have to say to the leader of the opposition that his last point is absolutely correct: it will depend on the due diligence process and it is very important that that process is undertaken properly, so that we are absolutely satisfied by the end of it that we are going forward in the right direction of travel. I am sorry that I am not able to add anything to that discussion and, quite frankly, I do not think there will be any more that I will be able to add in responding to the debate tomorrow. It is a very difficult situation, but in all honesty we are being absolutely transparent in telling you about our intentions and, at the end of the day, we will have to wait to see how things progress. You will appreciate that we are dealing with a company in confidence about some of the discussions.

**Edwina Hart:** Rhaid imi ddweud wrth arweinydd yr wrthblaid fod ei bwynt olaf yn gwbl gywir: bydd yn dibynnu ar y broses diwydrwydd dyladwy ac mae'n bwysig iawn bod y broses yn cael ei chynnal yn briodol, fel ein bod yn hollol fodlon erbyn ei diwedd ein bod yn teithio i'r cyfeiriad cywir. Mae'n ddrwg gennyf na allaf ychwanegu dim at y drafodaeth honno ac i ddweud y gwir, ni chredaf y byddaf yn gallu ychwanegu dim mwy wrth ymateb i'r ddadl yfory. Mae'n sefyllfa anodd iawn, ond a bod yn gwbl onest rydym yn bod yn hollol dryloyw o ran dweud wrthych am ein bwriadau. Ar ddiwedd y dydd, bydd rhaid aros i weld sut y mae pethau'n datblygu. Byddwch yn gwerthfawrogi ein bod yn delio â chwmni'n gyfrinachol o ran rhai o'r trafodaethau.

## Datganiad a Chyhoeddiad Busnes
## Business Statement and Announcement

**The Minister for Finance and Leader of the House (Jane Hutt):** I have two changes to report to this week's business. The Minister for Education and Skills will make an oral statement later today on Qualifications Wales. As a result, his statement on those not in education, employment, or training and youth engagement has been postponed. The debate on the legislative consent memorandum on the Public Service Pensions Bill has also been postponed. Business for the next three weeks is as shown on the business statement and announcement that can be found among the agenda papers that are available to Members electronically.

**Y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ (Jane Hutt):** Mae gennyf ddau newid i fusnes yr wythnos hon i hysbysu yn eu cylch. Bydd y Gweinidog Addysg a Sgiliau'n gwneud datganiad llafar yn ddiweddarach heddiw ar Gymwysterau Cymru. O ganlyniad, mae ei ddatganiad ar y rhai nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant ac ymgysylltu ag ieuenctid wedi'i ohirio. Mae'r ddadl ar y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol ar Fil Pensiynau'r Gwasanaethau Cyhoeddus hefyd wedi'i gohirio. Mae busnes y tair wythnos nesaf fel y dangosir ar y datganiad a chyhoeddiad busnes, sydd ar gael ymhlith papurau'r agenda sydd ar gael i Aelodau'n electronig.

**Paul Davies:** Leader of the House, as the

**Paul Davies:** Arweinydd y Tŷ, fel y

Minister responsible for Government business, I am sure that you are eager to ensure that the Government conducts its business in an efficient and effective manner. I am sure that you will therefore be concerned to learn that I am still awaiting a reply to an e-mail that I sent to one of your colleagues on 9 October last year. I wrote to the Minister for Environment and Sustainable Development on behalf of a group of fishermen in my constituency, asking him to give favourable consideration to holding a meeting with them in the future. Despite my office contacting his department on numerous occasions for a response, I am still awaiting a reply. I am sure that you will agree with me that waiting three months is slightly above your Government's aim to respond to correspondence within 17 working days. In the circumstances, as the Government's business Minister, and in order for my constituents to receive a response, I would be grateful if you could now ask the Minister to consider responding to my e-mail in due course.

Gweinidog sy'n gyfrifol am fusnes y Llywodraeth, rwyf yn siŵr eich bod yn awyddus i sicrhau bod y Llywodraeth yn cynnal ei busnes mewn modd effeithlon ac effeithiol. Rwyf yn siŵr y byddwch felly'n pryderu o gael gwybod fy mod yn dal i aros am ymateb i e-bost a anfonais at un o'ch cydweithwyr ar 9 Hydref y llynedd. Ysgrifennais at Weinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy ar ran grŵp o bysgotwyr yn fy etholaeth, yn gofyn iddo roi ystyriaeth ffafriol i gynnal cyfarfod â hwy yn y dyfodol. Er i'm swyddfa gysylltu â'i adran ar sawl achlysur am ymateb, rwyf yn dal i aros am ateb. Rwyf yn siŵr y byddwch yn cytuno â mi bod aros am dri mis ychydig yn hwy na nod eich Llywodraeth i ymateb i ohebiaeth o fewn 17 diwrnod gwaith. O dan yr amgylchiadau, fel Gweinidog busnes y Llywodraeth, ac er mwyn i'm hetholwyr gael ymateb, byddwn yn ddiolchgar pe gallech nawr ofyn i'r Gweinidog ystyried ymateb i fy e-bost maes o law.

**Jane Hutt:** Clearly, a response from the Minister to yourself on behalf of your constituents will be forthcoming, and I am sure that the Minister will be able to explain the reasons why this response was delayed.

**Jane Hutt:** Yn amlwg, bydd y Gweinidog yn ymateb i chi ar ran eich etholwyr cyn bo hir, ac rwyf yn siŵr y bydd y Gweinidog yn gallu esbonio'r rhesymau pam y bu oedi cyn ymateb.

**Jenny Rathbone:** I very much welcome the Government's launch of the Change4Life Be Food Smart campaign. Would it be possible to have a debate around this very important subject and on related matters, such as the way in which certain large companies target children with very unhealthy food in order to make money out of them? Important matters are raised by the initiative that you launched yesterday that I am sure we would all like to debate, and I wondered if it be possible to timetable that.

**Jenny Rathbone:** Rwyf yn croesawu lansiad ymgyrch bwyta'n gall Newid am Oes gan y Llywodraeth. A fyddai'n bosibl cael dadl am y pwnc pwysig iawn hwn ac am faterion cysylltiedig, megis y ffordd y mae rhai cwmnïau mawr yn targedu plant â bwyd afiach iawn er mwyn gwneud arian ohonynt? Mae'r fenter a lansiwyd gennych ddoe'n codi materion pwysig ac rwyf yn siŵr y byddem i gyd yn dymuno'u trafod, ac roeddwn yn meddwl tybed a fyddai'n bosibl cynnwys hynny yn yr amserlen.

**Jane Hutt:** I am aware that the Member for Cardiff Central has taken a keen interest in these issues in terms for the Change4Life developments and the strategy and policy developments announced by the Minister for Health and Social Services. I know that she will want to ensure that this is promoted widely and we will discuss the appropriate way to handle this in terms of statements and possible future debates.

**Jane Hutt:** Rwyf yn ymwybodol bod yr Aelod dros Ganol Caerdydd wedi cymryd diddordeb brwd yn y materion hyn o ran y datblygiadau Newid am Oes a'r datblygiadau strategaeth a pholisi a gyhoeddwyd gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Gwn y bydd hi am sicrhau bod yr ymgyrch yn cael ei hyrwyddo'n eang a byddwn yn trafod y ffordd briodol o ymdrin â hyn o ran datganiadau a dadleuon posibl yn

y dyfodol.

**Lindsay Whittle:** Will you please ask the appropriate Minister to bring a statement or decision before the Assembly on the continuing situation regarding unused information technology equipment in Torfaen, and the subsequent row that has erupted between local authorities in south Wales? We must know what action the Government is going to take to resolve this situation. We also need clarity on the Government's role in this situation, especially in light of new revelations of a further £786,000-worth of unused equipment lying in storage alongside the unused laptops that are worth £2 million. This is a public scandal that is heading towards becoming of the same magnitude as the All Wales Ethnic Minority Association issue. A freedom of information request from me, answered by Torfaen County Borough Council, says that the Welsh Government will be making a decision soon; when, please?

**Lindsay Whittle:** A wnewch chi ofyn i'r Gweinidog priodol ddod â datganiad neu benderfyniad gerbron y Cynulliad am y sefyllfa barhaus ynghylch offer technoleg gwybodaeth heb ei ddefnyddio yn Nhorfaen, a'r ffrae ddilynol sydd wedi datblygu rhwng awdurdodau lleol y de? Rhaid inni wybod pa gamau y mae'r Llywodraeth yn mynd i'w cymryd i ddatrys y sefyllfa hon. Mae arnom hefyd angen eglurder o ran rôl y Llywodraeth yn y sefyllfa hon, yn enwedig o ystyried y wybodaeth newydd a ddaeth i'r amlwg bod gwerth £786,000 arall o offer heb ei ddefnyddio wedi'i storio, ochr yn ochr â'r gliniaduron nas defnyddiwyd sy'n werth £2 filiwn. Mae hon yn sgandal gyhoeddus sy'n agosáu at fod cyn waethed ag un Cymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan. Yn ôl cais rhyddid gwybodaeth gennyf i, a atebwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen, bydd Llywodraeth Cymru yn gwneud penderfyniad yn fuan; pryd, os gwelwch yn dda?

**Jane Hutt:** I can assure the Member that we are working closely with Torfaen County Borough Council and Monmouthshire County Council to ensure that public funds are being used appropriately.

**Jane Hutt:** Gallaf sicrhau'r Aelod ein bod yn cydweithio'n agos â Chyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen a Chyngor Sir Fynwy er mwyn sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio'n briodol.

**Eluned Parrott:** Minister, there has been increasing concern over the Christmas recess about the local development plan process, and it is the subject of a debate this afternoon. I noted with great interest that the Member for Cardiff West and his parliamentary colleague were critical of Cardiff's local development plan. They said that they are highly sceptical about the flawed plans and that they would create gridlock, which I think was very brave and honest of them. However, you will also be aware that Wrexham County Council has announced that it is starting its plan from scratch, and in your own constituency, the Vale of Glamorgan, the LDP was scrapped back in November. Would you ask the Minister to bring forward a statement as a matter of urgency to address the issues that we have with local development plans, and to suggest the way forward as to whether or not these processes are now to be reviewed?

**Eluned Parrott:** Weinidog, cafwyd pryder cynyddol dros doriad y Nadolig am broses y cynlluniau datblygu lleol, ac mae'n destun dadl brynhawn heddiw. Sylwais â diddordeb mawr fod Aelod Gorllewin Caerdydd a'i gydweithiwr seneddol wedi beirniadu cynllun datblygu lleol Caerdydd. Maent yn dweud eu bod yn llawn amheuon ynglŷn â'r cynlluniau diffygiol ac y byddent yn creu tagfeydd, a chredaf eu bod yn onest ac yn ddewr iawn i ddweud hyn. Fodd bynnag, byddwch hefyd yn ymwybodol bod Cyngor Sir Wrecsam wedi cyhoeddi eu bod yn dechrau eu cynllun hwy o'r dechrau, ac yn eich etholaeth eich hun, Bro Morgannwg, cafodd y CDLl ei ddiddymu yn ôl ym mis Tachwedd. A wnewch chi ofyn i'r Gweinidog ddod â datganiad gerbron fel mater o frys i fynd i'r afael â'r cwestiynau sydd gennym ynglŷn â chynlluniau datblygu lleol, ac i awgrymu'r ffordd ymlaen o ran a ddylid adolygu'r prosesau hyn nawr ai peidio?

**Jane Hutt:** The way forward is clear in terms

**Jane Hutt:** Mae'r ffordd ymlaen yn glir o ran

of how we will progress our local development plans. I do not think that the Minister will have anything more to say on updating expectations for this, to ensure that local authorities have a grip on their development plans, and the expectations for housing need as well as opportunities across the whole development planning portfolio. These issues are discussed, debated and consulted upon extensively at a local level, and this will continue.

sut y byddwn yn datblygu ein cynlluniau datblygu lleol. Nid wyf yn credu y bydd gan y Gweinidog ddim mwy i'w ddweud o ran diweddaru disgwyliadau yn hyn o beth, er mwyn sicrhau bod awdurdodau lleol yn mynd i'r afael â'u cynlluniau datblygu, a'r disgwyliadau o ran yr angen am dai yn ogystal â chyfleoedd ar draws y portffolio cyfan o ran cynllunio datblygiadau. Ceir trafodaethau, dadleuon ac ymgynghoriadau helaeth am y materion hyn ar lefel leol, a bydd hyn yn parhau.

**Mark Isherwood:** I call for two statements. First, as the Minister will be aware, last month the Welsh Senate of Older People e-mailed all Assembly Members concerning the P is for People campaign to raise awareness of the lack of public toilet provision in Wales, and it attached its latest research urging all Assembly Members to bring this to the attention of the Welsh Government. It would therefore be appreciated if we could have a statement from the Welsh Government accordingly.

**Mark Isherwood:** Galwaf am ddau ddatganiad. Yn gyntaf, fel y bydd y Gweinidog yn gwybod, y mis diwethaf anfonodd Senedd Pobl Hŷn Cymru e-bost at holl Aelodau'r Cynulliad ynghylch yr ymgyrch P am 'Pobl' i godi ymwybyddiaeth o'r diffyg darpariaeth toiledau cyhoeddus yng Nghymru. Atodwyd eu hymchwil ddiweddaraf er mwyn annog holl Aelodau'r Cynulliad i dynnu sylw Llywodraeth Cymru at y mater. Byddwn yn ddiolchgar felly pe gallem gael datganiad gan Lywodraeth Cymru yn unol â hynny.

Secondly and finally, there has been quite a lot of media attention given during the recess period to calls by the Welsh Local Government Association for the repatriation of the housing revenue account. We know that the Welsh Government has been in negotiation with the Treasury for 18 months or more regarding this matter, which I understand hinges on the amount of debt that Welsh councils might have to take on. It also hinges on whether there would have to be balancing reductions in Welsh Government budgets, as there were in the Department for the Environment, Transport and Regions' budgets in England, and also on whether this would bring borrowing powers for local authorities in Wales alongside the housing revenue account. Above all, given the claims that the £73 million involved might go a long way to bringing the housing stock of the 11 councils that have not transferred council housing up to the required standards, how much money does the Welsh Government anticipate that Welsh local authorities would receive to enable them to take forward that work?

Yn ail ac yn olaf, rhoddwyd cryn dipyn o sylw yn y cyfryngau yn ystod y toriad i alwadau gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru am ddod â'r cyfrif refeniw tai i Gymru. Rydym yn gwybod bod Llywodraeth Cymru wedi bod yn trafod gyda'r Trysorlys am 18 mis neu fwy ar y mater hwn, ac rwyf ar ddeall mai'r pwynt pwysicaf yw faint o ddyled y gallai cynghorau Cymru orfod ei hysgwyddo. Mae hefyd yn dibynnu a fyddai'n rhaid cydbwyso hyn â gostyngiadau yng nghyllidebau Llywodraeth Cymru, fel y digwyddodd yng nghyllidebau Adran yr Amgylchedd, Trafnidiaeth a'r Rhanbarthau yn Lloegr, a hefyd a fyddai awdurdodau lleol yng Nghymru yn cael pwerau benthyca ochr yn ochr â'r cyfrif refeniw tai. Yn anad dim, ac o ystyried yr honiadau y gallai'r £73 miliwn dan sylw wneud llawer i ddod â stoc dai'r 11 o gynghorau nad ydynt wedi trosglwyddo eu tai cyngor at y safonau gofynnol, faint o arian y mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl y byddai awdurdodau lleol Cymru yn ei gael i'w galluogi i symud ymlaen â'r gwaith hwnnw?

**Jane Hutt:** In response to the first question

**Jane Hutt:** Mewn ymateb i'r cwestiwn

from Mark Isherwood, I think that we would all agree and respond positively to the Welsh Senate of Older People’s call for improved public toilet provision. There are opportunities in terms of private sector engagement with this, in terms of access to toilets on the high street and in other public and private buildings. I am sure that the Minister will want to give an update on progress with this.

cyntaf gan Mark Isherwood, credaf y byddem oll yn cytuno ac yn ymateb yn gadarnhaol i alwad Senedd Pobl Hŷn Cymru am well darpariaeth toiledau cyhoeddus. Ceir cyfleoedd i ymgysylltu â’r sector preifat yn hyn o beth, o ran mynediad i doiledau ar y stryd fawr ac mewn adeiladau cyhoeddus a phreifat eraill. Rwyf yn siŵr y bydd y Gweinidog yn awyddus i roi’r wybodaeth ddiweddaraf am y datblygiadau yn y maes hwn.

On your second important question about the housing revenue account subsidy, Members will be aware that we are in the middle of discussions with the Treasury to reach an agreement on reform of the HRAS as it applies to Wales. This is something on which we will come back to the Chamber with an update on progress when we have secured the best deal for Wales.

O ran eich ail gwestiwn pwysig ynglŷn â chymhorthdal y cyfrif refeniw tai, bydd Aelodau’n ymwybodol ein bod ar ganol trafodaethau â’r Trysorlys i ddod i gytundeb ar ddiwygio’r cymhorthdal fel y mae’n berthnasol i Gymru. Byddwn yn rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf am y datblygiadau yn y Siambr ar ôl inni sicrhau’r fargen orau i Gymru.

**Rhodri Glyn Thomas:** Mae cwestiynau eisoes wedi cael eu gofyn i’r Prif Weinidog ynglŷn â chanlyniadau’r cyfrifiad. Rwyf yn gobeithio, Weinidog, eich bod yn cytuno bod llawer iawn o faterion yn codi o’r cyfrifiad nad ydynt yn gwbl glir ar hyn o bryd, ac mae angen trafodaeth arnynt. Un ardal o gonsyrn mawr sydd wedi codi yw’r dirywiad sy’n ymddangos yn y de-orllewin, yn siroedd Caerfyrddin, Ceredigion a gogledd Penfro, yn nifer y siaradwyr Cymraeg. Fodd bynnag, nid yw’r ffigurau ynddynt eu hunain yn cyfleu’r holl wirionedd.

**Rhodri Glyn Thomas:** Questions have already been asked of the First Minister about the outcomes of the census. I hope, Minister, that you would agree that there are a number of issues arising from the census that are not entirely clear at present and which need to be discussed. One area of major concern is the decline that there seems to be in the south-west, in Carmarthenshire, Ceredigion and north Pembrokeshire, in the number of Welsh speakers. However, the figures themselves do not tell the whole story.

2.45 p.m.

Pryd byddwch chi fel Llywodraeth yn gwneud datganiad a dechrau trafodaeth yn y lle hwn ynglŷn â chanlyniadau’r cyfrifiad a sut y gallwn ni fel Cynulliad, a chi fel Llywodraeth, ymateb? Rwy’n falch o glywed bod y Prif Weinidog yn mynd i gwrdd â Chomisiynydd y Gymraeg, neu wedi cwrdd â hi, yn ôl yr hyn a ddywedodd yn gynharach y prynhawn yma, ond clywsom hynny o ganlyniad i gwestiwn. Mae Plaid Cymru wedi gosod dadl ar gyfer y prynhawn yfory a byddwch yn ymateb i hynny. Gobeithiaf yn fawr nad yw’r gwelliant yr ydych wedi’i gyflwyno yn eich enw chi, Weinidog, yn cynrychioli ymateb y Llywodraeth. Mae’n hynod o niwlog a chwbl amherthnasol i’r math o gwestiynau sydd yn codi o’r cyfrifiad.

However, the figures themselves When will you as a Government make a statement and initiate a discussion in this place about the census results and how we as an Assembly, and you as a Government, can respond? I am pleased to hear the First Minister is going to meet the Welsh Language Commissioner, or has met with her, according to what he said earlier this afternoon, but we heard that as a result of a question. Plaid Cymru has tabled a debate for tomorrow afternoon and you will respond to that. I very much hope that the amendment that you have tabled in your name, Minister, does not represent the Government’s response. It is exceptionally woolly and entirely irrelevant to the kind of questions that arise from the census. I hope

Gobeithiaf fod gan y Gweinidog ymateb fwy cynhwysfawr na'r gwelliant hwnnw i'r ddadl.

that the Minister will have a far more comprehensive response than that amendment to the debate.

Credaf fod gennych gyfrifoldeb fel Llywodraeth i ddechrau'r drafodaeth hon yn y lle hwn er mwyn i ni ddatblygu'r math o ymateb fydd yn mynd i'r afael â'r holl gwestiynau sydd yn codi a sicrhau dyfodol yr iaith Gymraeg fel iaith hyfyw yng Nghymru.

I believe that you have a responsibility as a Government to initiate this debate in this place so that we can develop the kind of response that will tackle all of the questions that arise and ensure the future of the Welsh language as a viable language in Wales.

**Jane Hutt:** It is very important that this debate does progress tomorrow. It is a valuable opportunity. The Government will be responding and it is very helpful, I am sure, that you have put this on the agenda for our debate. The First Minister did respond in his questions earlier and is meeting the Welsh Language Commissioner. It is quite clear that we have to understand and dig deeper into the issues behind the census figures in terms of the opportunities that we have to promote the Welsh language and, indeed, Wales as a bilingual country.

**Jane Hutt:** Mae'n bwysig iawn bod y ddadl hon yn symud yn ei blaen yfory. Mae'n gyfle gwerthfawr. Bydd y Llywodraeth yn ymateb ac mae'n ddefnyddiol iawn, rwyf yn siŵr, eich bod wedi rhoi hyn ar agenda ein dadl. Atebodd y Prif Weinidog yn ei gwestiynau yn gynharach ac mae'n cwrdd â Chomisiynydd y Gymraeg. Mae'n ddigon clir bod rhaid inni ddeall y materion y tu ôl i ffigurau'r cyfrifiad ac ymchwilio'n ddyfnach iddynt o ran y cyfleoedd sydd gennym i hyrwyddo'r Gymraeg ac, yn wir, Cymru fel gwlad ddwyieithog.

**Andrew R.T. Davies:** Leader of the House, is it possible to have two statements, please? First, I would like a statement in relation to the flooding in Boverton and Llanmaes—localised flooding, I appreciate—which I know that you saw, over the Christmas period. That area made a bid under the previous council for funding from the Welsh Government to alleviate the flood risk, but, regrettably, it was not deemed important enough to attract that funding. I would be grateful if the Minister with responsibility could bring forward a statement on how the Welsh Government assesses such bids and what scoring mechanism it attaches to the bids, so that communities can be clear about exactly what criteria they need to meet to attract funding to prevent such a catastrophe from happening in their localities.

**Andrew R.T. Davies:** Arweinydd y Tŷ, a yw'n bosibl cael dau ddatganiad, os gwelwch yn dda? Yn gyntaf, hoffwn gael datganiad am y llifogydd yn Nhrebefered a Llanfaes—llifogydd lleol, deallaf—y gwn i chi eu gweld, dros gyfnod y Nadolig. Gwnaeth yr ardal honno gynnig dan y cyngor blaenorol i gael arian gan Lywodraeth Cymru i liniaru'r perygl o lifogydd, ond, yn anffodus, ni chafodd ei ystyried yn ddigon pwysig i ddenu'r arian hwnnw. Byddwn yn ddiolchgar pe gallai'r Gweinidog â chyfrifoldeb gyflwyno datganiad am ddull Llywodraeth Cymru o asesu cynigion o'r fath a pha fecanwaith sgorio y mae'n ei ddefnyddio gyda'r cynigion, fel y gall cymunedau ddeall yn glir pa feini prawf yn union y mae angen iddynt eu bodloni i ddenu arian i atal y fath drychineb rhag digwydd yn eu hardaloedd.

Secondly, I request a statement from the same Minister about the Schmallenberg virus, which is currently spreading across Wales, particularly in my regional constituency, where cases have been identified on several farms. There has not been a recent statement on this issue. It has a devastating impact on the sheep and dairy industries and I would be most grateful if the Minister with responsibility for animal health could see fit

Yn ail, gofynnaf am ddatganiad gan yr un Gweinidog am firws Schmallenberg, sydd ar hyn o bryd yn lledaenu ar draws Cymru, yn enwedig yn fy etholaeth ranbarthol, lle mae achosion wedi cael eu nodi ar sawl fferm. Ni fu datganiad diweddar ar y mater hwn. Mae'n cael effaith ddinistriol ar y diwydiannau llaeth a defaid a byddwn yn ddiolchgar iawn pe gallai'r Gweinidog â chyfrifoldeb am iechyd anifeiliaid fod cystal â chyflwyno

to bring forward a statement giving the up-to-date position on the impact of this virus on the agricultural industry in Wales.

datganiad am y sefyllfa ddiweddaraf o ran effaith y firws hwn ar y diwydiant amaethyddol yng Nghymru.

**Jane Hutt:** All Members in this Chamber will want to acknowledge the terrible impact of the flooding before Christmas. It affected some constituencies more than others, but large parts of Wales were adversely affected. You mentioned my own constituency where I was engaged in supporting and responding to the distress caused not just to households, but businesses, by that flooding event. I spoke immediately to the Minister about this, to the Environment Agency and all those who responded.

**Jane Hutt:** Bydd pob Aelod yn y Siambr hon yn dymuno cydnabod effaith ofnadwy'r llifogydd cyn y Nadolig. Effeithiodd ar rai etholaethau'n fwy nag eraill, ond cafwyd effaith andwyol ar rannau helaeth o Gymru. Rydych yn sôn am fy etholaeth i lle'r oeddwn yn ymwneud â chefnogi ac ymateb i'r gofid a achoswyd nid yn unig i gartrefi, ond i fusnesau, gan y digwyddiad hwnnw. Siaradais yn syth â'r Gweinidog am hyn, ag Asiantaeth yr Amgylchedd ac â phawb a ymatebodd.

We are investing more than £150 million in flood and coastal erosion risk management and that is supported by almost £50 million from the European regional development fund. This is a key priority in terms of capital investment. It is a multi-agency response and I know that the Minister will be responding to questions on this matter.

Rydym yn buddsoddi dros £150 miliwn mewn rheoli'r perygl o lifogydd ac erydiad arfordirol a chaiff hynny ei ategu gan bron £50 miliwn o gronfa datblygu rhanbarthol Ewrop. Mae hyn yn flaenoriaeth allweddol o ran buddsoddiad cyfalaf. Mae'n ymateb amlasiantaethol a gwn y bydd y Gweinidog yn ymateb i gwestiynau am y mater hwn.

On the Schmallenberg situation, we have evidence of the virus across most, if not all, counties in Wales. In terms of the response, since November last year, there have been a few more possibly clinical cases, as you will be aware. The Minister is looking at the matter very carefully. I am sure that he will want to respond to any questions or possibly issue a written statement on further updates.

Gan gyfeirio at y sefyllfa o ran Schmallenberg, mae gennym dystiolaeth o'r firws ar draws y rhan fwyaf o siroedd Cymru, os nad y cyfan ohonynt. O ran yr ymateb, ers mis Tachwedd y llynedd, bu ychydig yn fwy o achosion clinigol o bosibl, fel y gwyddoch. Mae'r Gweinidog yn edrych ar y mater yn ofalus iawn. Rwyf yn siŵr y bydd yn awyddus i ateb unrhyw gwestiynau neu, o bosibl, gyhoeddi datganiad ysgrifenedig gan roi'r wybodaeth dddiweddaraf.

**Simon Thomas:** Weinidog, cyn Nadolig, cafwyd datganiad gan y Llywodraeth eto a oedd yn mynegi anfodlonrwydd gyda chynnydd a datblygiad diogelu plant yn sir Benfro. I fod yn deg, mae'r Gweinidog dros addysg a'r Dirprwy Weinidog dros wasanaethau cymdeithasol wedi bod yn ddiwyd yn diweddaru Aelodau am y wybodaeth sy'n dod o sir Benfro. Fodd bynnag, mae'n destun pryder i glywed bod cyfrinachedd a diffyg rhannu gwybodaeth yn y cyngor o hyd a bod diffyg gallu gan y cynghorwyr i graffu ar y cyngor oherwydd natur y diwylliant sy'n bodoli tu fewn i furiau'r cyngor hwnnw, mae'n debyg. A oes modd, felly, trefnu datganiad llafar—gobeithio yn fuan—pan fydd gan y

**Simon Thomas:** Minister, before Christmas, we had another Government statement expressing dissatisfaction with the progress and development of child protection in Pembrokeshire. To be fair, the Minister for education and the Deputy Minister for social services have worked exceptionally hard in keeping Members apprised of the information coming from Pembrokeshire. However, it is a cause for concern to hear that there is still secrecy and a lack of information sharing within the council and that councillors lack the ability to scrutinise the council because of the nature of the culture that exists within the walls of that council, it seems. Would it be possible, therefore, to arrange an oral statement—soon, hopefully—when the

Gweinidog rhywbeth pellach i'w ddweud am y sefyllfa? O leiaf ddwywaith, mae'r Gweinidog, a Gweinidogion eraill, wedi dweud bod angen gweithredu ac efallai cymryd camau mwy cadarnhaol ac ymyraethol tu fewn i'r cyngor sir. Mae'r cyngor sir wedi gwrthod neu fethu ag ymateb i'r her sydd wedi cael ei osod sawl gwaith gan y Llywodraeth. Buasai'n dda i glywed gan y Gweinidogion beth yw eu cynlluniau i sicrhau camau pellach i wella diogelu plant yn sir Benfro.

Minister has something further to say about the situation? On at least two occasions, the Minister, and other Ministers, have said that action is required and that perhaps more robust and interventionist steps are required within the council. The council has refused or failed to respond to the challenge that has been set several times by the Government. It would be good to hear from the Ministers what their plans are to ensure further steps to improve child protection in Pembrokeshire.

**Jane Hutt:** To respond to Simon Thomas's question on this matter, I know that he will welcome the joint written statement on 20 December by the Minister for Education and Skills and the Minister for Local Government and Communities highlighting their concern about the situation following the Wales Audit Office and Estyn reports on 17 December. There is nothing further to add at this stage. The statement presented by the Ministers confirmed that the Pembrokeshire ministerial board will remain in place for the time being to ensure continued support in relation to improving safeguarding in the council, which is crucial in terms of transitions to any new support arrangements. However, further statements will be made as and when is appropriate.

**Jane Hutt:** I ymateb i gwestiwn Simon Thomas am y mater hwn, gwn y bydd yn croesawu'r datganiad ysgrifenedig ar y cyd a wnaed ar 20 Rhagfyr gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau a'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau i amlygu eu pryder ynglŷn â'r sefyllfa yn dilyn cyhoeddi adroddiadau Swyddfa Archwilio Cymru ac Estyn ar 17 Rhagfyr. Nid oes dim mwy i'w ychwanegu ar hyn o bryd. Cadarnhaodd y datganiad a gyflwynwyd gan y Gweinidogion y bydd bwrdd gweinidogol Sir Benfro'n parhau am y tro er mwyn sicrhau cefnogaeth barhaus i'r broses o wella'r trefniadau diogelu yn y cyngor. Mae hyn yn hanfodol o ran pontio i unrhyw drefniadau cymorth newydd. Fodd bynnag, gwneir datganiadau pellach pan fo'n briodol.

**Nick Ramsay:** I have one issue for the Leader of the House. Can we have an update from the Minister for health regarding growing concerns surrounding counterfeit oxygen sensors, which have been a concern for some time in the UK health service? I believe, from recent discussions with some people working in the health service in Wales, that there is now growing concern in the Heath and other hospitals. These oxygen sensors are vital to determine the oxygen level of patients so that effective treatment can be administered. As I said, concerns have been bought to me about these counterfeit sensors providing false readings, leading to people receiving treatment that, in some cases, is proving to be fatal.

**Nick Ramsay:** Mae gennyf un mater i Arweinydd y Tŷ. A gawn y wybodaeth ddiweddaraf gan y Gweinidog Iechyd ynghylch pryderon cynyddol sy'n ymwneud â synwyryddion ocsigen ffug, sydd wedi bod yn bryder ers cryn amser yn y gwasanaeth iechyd yn y DU? Credaf, yn sgil trafodaethau diweddar gyda rhai pobl sy'n gweithio yn y gwasanaeth iechyd yng Nghymru, y ceir pryder cynyddol bellach yn y Mynydd Bychan ac mewn ysbytai eraill. Mae'r synwyryddion ocsigen yn hanfodol i fesur lefel ocsigen cleifion er mwyn rhoi triniaeth effeithiol. Fel y dywedais, rwyf wedi clywed pryderon bod y synwyryddion ffug hyn yn darparu darlleniadau anghywir, gan beri i bobl dderbyn triniaeth sydd, mewn rhai achosion, yn eu lladd.

**Jane Hutt:** The Member for Monmouth raises a very important point. If he can write to the Minister with examples of issues of the kind that he raised today, which are important

**Jane Hutt:** Mae'r Aelod dros Fynwy yn codi pwynt pwysig iawn. Os gall ysgrifennu at y Gweinidog gan roi enghreifftiau o'r math o faterion a godwyd ganddo heddiw, sy'n

for those who are dependent on access to oxygen, I know that the Minister will want to reassure the public and patients accordingly.

bwysig i bobl sy'n dibynnu ar gael gafael ar ocsigen, gwn y bydd y Gweinidog yn awyddus i dawelu meddwl y cyhoedd a chleifion yn unol â hynny.

## Datganiad: Cymwysterau Cymru
## Statement: Qualifications Wales

**Y Gweinidog Addysg a Sgiliau (Leighton Andrews):** Blwyddyn newydd dda, Lywydd.

**The Minister for Education and Skills (Leighton Andrews):** Happy new year, Presiding Officer.

**Y Llywydd:** Diolch.

**The Presiding Officer:** Thank you.

**Leighton Andrews:** In my written statement on 5 December, I confirmed that the Deputy Minister for Skills and I had accepted the proposal in recommendation 5 of the report of the review of qualifications that the regulation of qualifications in Wales should be strengthened and separated from the Government. I announced that we will move towards establishing a new body, Qualifications Wales, to regulate and assure the quality of all qualifications other than degree level in Wales. Today, I want to reiterate that commitment and provide an update.

**Leighton Andrews:** Yn fy natganiad ysgrifenedig ar 5 Rhagfyr, cadarnheais fod y Dirprwy Weinidog Sgiliau a minnau wedi derbyn y cynnig yn argymhelliad 5, yn adroddiad yr adolygiad o gymwysterau, sef y dylid cryfhau'r broses o reoleiddio cymwysterau yng Nghymru a'i gwahanu oddi wrth y Llywodraeth. Cyhoeddais y byddwn yn symud tuag at sefydlu corff newydd, Cymwysterau Cymru, i reoleiddio a sicrhau ansawdd yr holl gymwysterau heblaw lefel gradd yng Nghymru. Heddiw, hoffwn ailadrodd yr ymrwymiad hwnnw a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf.

Huw Evans and his independent board reported on the review of qualifications to the Deputy Minister for Skills on 28 November. As I said in my written statement in December, we will be responding to the remaining 41 recommendations later this month. The reaction from stakeholders to the board's report and its recommendations has been a positive one. Now that Members have had the opportunity to digest the report, I am sure that they will agree that it sets out a potentially exciting path for qualifications in Wales. If we proceed in the direction that Huw Evans and his board recommend, there will be significant implications for everyone in Wales. The work ahead offers exciting opportunities. While it will not be without its challenges, it will be vital that, in implementing the changes that we agree, we get it right: vital for businesses in Wales, vital for educators in Wales, and vital for learners in Wales.

Cyflwynodd Huw Evans a'i fwrdd annibynnol adroddiad am yr adolygiad o gymwysterau i'r Dirprwy Weinidog Sgiliau ar 28 Tachwedd. Fel y dywedais yn fy natganiad ysgrifenedig ym mis Rhagfyr, byddwn yn ymateb i'r 41 argymhelliad sy'n weddill yn ddiweddarach y mis hwn. Cafwyd ymateb cadarnhaol gan randdeiliaid i adroddiad y bwrdd a'i argymhellion. Gan fod Aelodau erbyn hyn wedi cael cyfle i ystyried yr adroddiad, rwyf yn sicr y byddant yn cytuno ei fod yn nodi llwybr a allai fod yn un cyffrous ar gyfer cymwysterau yng Nghymru. Os symudwn ymlaen i'r cyfeiriad y mae Huw Evans a'i fwrdd yn ei argymell, ceir goblygiadau sylweddol i bawb yng Nghymru. Mae'r gwaith sydd o'n blaenau yn cynnig cyfleoedd cyffrous. Er y bydd heriau yn sicr, bydd yn hanfodol ein bod yn cael pethau'n iawn, wrth weithredu'r newidiadau yr ydym yn cytuno arnynt: yn hanfodol i fusnesau yng Nghymru, yn hanfodol i addysgwyr yng Nghymru, ac yn hanfodol i ddysgwyr yng Nghymru.

In agreeing recommendation 5 and

Wrth gytuno ar argymhelliad 5 a chyhoeddi

announcing the establishment of Qualifications Wales, we are not pre-empting our decisions about the remaining 41 recommendations. Our current regulatory and delivery system for qualifications is designed around the operation of three-country working and qualifications that are jointly owned by Wales, Northern Ireland and England. While we want to maintain three-country working where that is appropriate, it is a fact that, increasingly, the current arrangements and structures are becoming untenable, particularly for general qualifications—GCSEs and A-levels. Unilateral announcements from Westminster about our shared qualifications undermine the three-country arrangements. The qualifications regulator in England, Ofqual, naturally has to align with the agenda set in Westminster. We do not.

sefydliad Cymwysterau Cymru, nid ydym yn gwneud unrhyw benderfyniadau rhag blaen ynghylch y 41 argymhelliad sy'n weddill. Mae ein system bresennol ar gyfer rheoleiddio a darparu cymwysterau wedi'i chynllunio o amgylch gweithredu ar sail tair gwlad a chymwysterau sy'n eiddo ar y cyd i Gymru, Gogledd Iwerddon a Lloegr. Er ein bod yn awyddus i gynnal y drefn tair gwlad lle bo hynny'n briodol, mae'n ffaith bod y trefniadau a'r strwythurau presennol yn dod yn fwyfwy anghynaliadwy, yn enwedig o ran cymwysterau cyffredinol—TGAU a Safon Uwch. Mae cyhoeddiadau unochrog o San Steffan am y cymwysterau yr ydym yn eu rhannu yn tanseilio'r trefniadau tair gwlad. Mae'r rheoleiddiwr cymwysterau yn Lloegr, Ofqual, yn naturiol yn gorfod cyd-fynd â'r agenda a osodir yn San Steffan. Nid yw hynny'n wir amdanom ni.

Of course, we recognise the importance of the portability of our qualifications, and we will continue to work with colleagues and stakeholders in other countries to ensure that our qualifications are recognised in, and are relevant to, other countries. However, we will sometimes take a different view from that taken by the Secretary of State for Education in England. In these cases, we will do as we always have done: we will put the needs of Wales and the interests of Welsh learners first.

Wrth gwrs, rydym yn cydnabod ei bod yn bwysig gallu defnyddio ein cymwysterau y tu allan i Gymru, a byddwn yn parhau i weithio gyda chydweithwyr a rhanddeiliaid mewn gwledydd eraill i sicrhau bod ein cymwysterau'n cael eu cydnabod mewn gwledydd eraill a'u bod yn berthnasol ynddynt. Fodd bynnag, bydd ein safbwynt ni weithiau'n wahanol i safbwynt yr Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg yn Lloegr. Yn yr achosion hyn, byddwn yn gwneud fel y gwnaethom erioed: byddwn yn rhoi anghenion Cymru a buddiannau dysgwyr Cymru yn gyntaf.

Huw Evans and his team have been careful to put Wales's needs and Welsh learners' needs at the forefront of their report and recommendations. They have taken an inclusive approach, based on evidence—an approach that has drawn compliments from commentators in Wales and beyond. All of this is reflected in the positive way in which the report has been received. The board's recommendations stem from an extensive evidence base, drawing from its own wide-ranging experience and expertise, from meetings with stakeholders, from a full consultation, and from the review of the structure of the general qualifications market in Wales, which reported to me in May 2012. Regardless of which of the recommendations from the review of qualifications we accept, it is clear that our qualifications are already

Mae Huw Evans a'i dîm wedi bod yn ofalus i sicrhau bod anghenion Cymru ac anghenion dysgwyr Cymru'n ganolog i'w hadroddiad a'u hargymhellion. Maent wedi mabwysiadu agwedd gynhwysol, yn seiliedig ar dystiolaeth—dull sydd wedi denu canmoliaeth gan sylwebwyr yng Nghymru a thu hwnt. Adlewyrchir hyn i gyd yn y ffordd gadarnhaol y mae'r adroddiad wedi cael ei dderbyn. Mae argymhellion y bwrdd yn deillio o sylfaen dystiolaeth helaeth, gan fanteisio ar eu profiad a'u harbenigedd helaeth eu hunain, ar gyfarfodydd gyda rhanddeiliaid, ar ymgynghoriad llawn, ac ar adolygiad o strwythur y farchnad cymwysterau gyffredinol yng Nghymru, a adroddodd i mi ym mis Mai 2012. Ni waeth pa rai o argymhellion yr adolygiad o gymwysterau yr ydym yn eu derbyn, mae'n

diverging from England’s. Now is therefore the time to review and strengthen our regulatory and delivery arrangements.

amlwg bod ein cymwysterau eisoes yn mynd ar drywydd gwahanol i rai Lloegr. Nawr felly yw’r amser i adolygu a chryfhau ein trefniadau rheoleiddio a chyflawni.

I said in my written statement that we will study and learn from the model that has been in operation in Scotland for some years and has built a strong reputation for rigour and quality. To that end, I visited Scotland shortly before Christmas, where I met with Graham Houston, Chair of the Scottish Qualifications Authority, Janet Brown, the chief executive, and Mike Russell MSP, the Scottish Cabinet Secretary for Education and Lifelong Learning. The meetings were productive and gave me valuable insights about the operation of the qualifications system in Scotland. I also met John McCormick, who was Chair of the Scottish Qualifications Authority for four years, from 2004 to 2008, during which time the organisation took over the functions of the Scottish Examination Board and the Scottish Vocational Education Council. This was another valuable meeting. John McCormick’s experience of the oversight of that process is highly relevant to the work that the Welsh Government will be undertaking in the establishment of Qualifications Wales.

Dywedais yn fy natganiad ysgrifenedig y byddwn yn astudio ac yn dysgu oddi wrth y model sydd wedi bod ar waith yn yr Alban ers rhai blynyddoedd ac wedi meithrin enw da am drylwyredd ac ansawdd. I’r perwyl hwnnw, ymwelais â’r Alban ychydig cyn y Nadolig, lle cefais gyfarfod â Graham Houston, Cadeirydd Awdurdod Cymwysterau’r Alban, Janet Brown, y prif weithredwr, a Mike Russell MSP, Ysgrifennydd Cabinet yr Alban dros Addysg a Dysgu Gydol Oes. Roedd y cyfarfodydd yn gynhyrchiol a chefais wybodaeth werthfawr am sut y mae system cymwysterau’r Alban yn gweithio. Cefais hefyd gyfarfod â John McCormick, a fu’n Gadeirydd Awdurdod Cymwysterau’r Alban am bedair blynedd, rhwng 2004 a 2008, mewn cyfnod pan gymerodd y sefydliad swyddogaethau Bwrdd Arholi’r Alban a Chyngor Addysg Alwedigaethol yr Alban. Roedd hwn yn gyfarfod gwerthfawr arall. Mae profiad John McCormick o oruchwylio’r broses honno’n berthnasol iawn i’r gwaith y bydd Llywodraeth Cymru’n ymgymryd ag ef wrth sefydlu Cymwysterau Cymru.

My officials are working on the details of the work to establish Qualifications Wales. As part of this, they have already held a productive workshop with John McCormick, and they will continue to have detailed discussions with him and with SQA officials. As I said in my written statement, one of the early tasks is to commission a due diligence review. On the basis of its findings, we will develop detailed proposals and a business case in the first half of 2013 to ensure the viability and value for money of our proposed new approach.

Mae fy swyddogion yn gweithio ar fanylion y gwaith i sefydlu Cymwysterau Cymru. Yn rhan o hyn, maent eisoes wedi cynnal gweithdy cynhyrchiol gyda John McCormick, a byddant yn parhau i gael trafodaethau manwl ag ef ac â swyddogion SQA. Fel y dywedais yn fy natganiad ysgrifenedig, un o’r tasgau cyntaf yw comisiynu adolygiad diwydrwydd dyladwy. Ar sail canfyddiadau hwnnw, byddwn yn datblygu cynigion manwl ac achos busnes yn ystod hanner cyntaf 2013 i sicrhau hyfywedd a gwerth am arian ein dull arfaethedig newydd.

I also announced on 5 December that Huw Evans had agreed to chair a task and finish group to steer the early delivery of Qualifications Wales. The group will advise on issues relating to timing, governance, structures and due diligence. Huw’s expertise will be invaluable in supporting this change programme. Our aim is that, from September

Cyhoeddais hefyd ar 5 Rhagfyr fod Huw Evans wedi cytuno i gadeirio grŵp gorchwyl a gorffen i lywio darpariaeth gynnar Cymwysterau Cymru. Bydd y grŵp yn cynghori ar faterion yn ymwneud ag amseru, trefniadau llywodraethu, strwythurau a diwydrwydd dyladwy. Bydd arbenigedd Huw yn amhrisiadwy wrth gefnogi’r rhaglen

2015, Qualifications Wales will take responsibility for awarding qualifications, including the majority of general qualifications. Clearly, this will have implications for the Welsh Joint Education Committee. We are therefore engaging with the WJEC. I am also engaged in discussions with local government leaders on this issue and will be continuing this dialogue. Meanwhile, the WJEC will continue to be a key and valued provider of qualifications in Wales and in other nations, as these discussions progress. Later this month, the Deputy Minister for Skills will announce our decisions in relation to the remaining 41 recommendations from the review of qualifications. Whatever is announced then, Qualifications Wales will be well placed to play a leading role in taking this agenda forward.

newid hon. Ein nod yw y bydd Cymwysterau Cymru, o fis Medi 2015 ymlaen, yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb am ddyfarnu cymwysterau, gan gynnwys y mwyafrif o'r cymwysterau cyffredinol. Yn amlwg, bydd gan hyn oblygiadau i Gyd-bwyllgor Addysg Cymru. Rydym felly'n ymgysylltu â CBAC. Rwyf yn cymryd rhan hefyd mewn trafodaethau ag arweinwyr llywodraeth leol am y mater hwn a byddaf yn parhau â'r ddeialog hon. Yn y cyfamser, bydd CBAC yn parhau i fod yn ddarparwr allweddol a gwerthfawr ym maes cymwysterau, yng Nghymru ac mewn gwledydd eraill, wrth i'r trafodaethau hyn barhau. Yn ddiweddarach y mis hwn, bydd y Dirprwy Weinidog Sgiliau'n cyhoeddi ein penderfyniadau am yr 41 argymhelliad sy'n weddill yn yr adolygiad o gymwysterau. Beth bynnag a gyhoeddir bryd hynny, bydd Cymwysterau Cymru mewn sefyllfa dda i chwarae rhan flaenllaw wrth symud yr agenda hon yn ei blaen.

**Angela Burns:** Happy new year, Minister. Given some of the issues that have come out in relation to education in the last couple of weeks, I am genuinely delighted that your first statement of 2013 is dealing with a report that I consider to be balanced and upbeat. I was delighted to meet with Huw Evans and some of his team, and I would like to put on record my thanks to him for the review that they undertook and for the report that they have produced. I look forward to hearing in further detail your thoughts on the 41 other recommendations.

**Angela Burns:** Blwyddyn newydd dda, Weinidog. O ystyried rhai o'r materion sydd wedi dod i'r amlwg mewn cysylltiad ag addysg yn ystod yr wythnosau diwethaf, rwyf wirioneddol wrth fy modd fod eich datganiad cyntaf yn 2013 yn ymdrin ag adroddiad a oedd yn fy marn i yn un cytbwys a chadarnhaol. Roeddwn wrth fy modd i gwrdd â Huw Evans a rhai o aelodau ei dîm, a hoffwn gofnodi fy niolch iddo am yr adolygiad a gynhaliwyd a'r adroddiad a luniwyd ganddynt. Edrychaf ymlaen at glywed rhagor o fanylion ynglŷn â'ch barn am yr 41 o argymhellion eraill.

3.00 p.m.

With regard to today's statement, as you know, the Welsh Conservatives have called from the beginning for a separate qualifications body of some description; so, I am delighted to see this acceptance of recommendation 5. I look forward to the detail. However, I have a slight unease regarding the fact that the new body may have too many responsibilities in terms of the poacher-gamekeeper element of having to develop the qualifications, as well as award and police the qualifications. That was one of our concerns when those responsibilities rested with the Welsh Government, therefore I would like to hear your thoughts on how

O ran datganiad heddiw, fel y gwyddoch, mae Ceidwadwyr Cymru wedi galw o'r cychwyn am gorff cymwysterau ar wahân o ryw fath; felly, rwyf wrth fy modd i weld bod argymhelliad 5 wedi'i dderbyn. Rwyf yn edrych ymlaen at y manylion. Fodd bynnag, rwyf ychydig yn anniddig ynghylch y posibilrwydd y gallai'r corff newydd fod â gormod o gyfrifoldebau o ran bod yn botsiwr ac yn giper wrth ddatblygu'r cymwysterau, yn ogystal â'u dyfarnu a'u plismona. Roedd hynny'n un o'n pryderon pan oedd y cyfrifoldebau hynny yn nwylo Llywodraeth Cymru, felly hoffwn glywed eich barn am sut y gallai hynny ddatblygu a sut y gwelwch y

that might develop and how you see the boundaries being held to ensure that there are clear demarcations.

ffiniau yn cael eu cynnal i sicrhau diffiniadau clir.

The review discusses involving key partners in the development of qualifications in Wales and I assume that there will be a role in that for higher education and schools. I also seek your confirmation that there will be a role for business in looking at developing qualifications.

Mae'r adolygiad yn trafod cynnwys partneriaid allweddol wrth ddatblygu cymwysterau yng Nghymru, a thybiaf y bydd rhan i addysg uwch ac ysgolion yn hynny o beth. Gofynnaf hefyd am eich cadarnhad y bydd rhan i fusnes wrth ystyried datblygiad cymwysterau.

How much of an arm's length organisation to you envisage this organisation to be? Are we talking about an annual remit letter or something more independent, like the Wales Audit Office, which operates under the direction of the Auditor General for Wales?

I ba raddau yr ydych yn rhagweld y bydd y sefydliad hwn yn sefydliad hyd braich? A ydym yn sôn am lythyr cylch gwaith blynyddol ynteu am rywbeth mwy annibynnol, megis Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n gweithredu dan gyfarwyddyd Archwilydd Cyffredinol Cymru?

While I laud the focus on ensuring that Welsh learners are at the centre of all this, and that we should have a system that suits Wales, I wish to reiterate my call to make sure that, whatever happens in the long term, we are internationally recognised, that we encourage external benchmarking, and that we encourage learners to explore not just our country but other countries so that they can bring that information, intelligence and experience back into our own country to help to enrich us. I would also like to understand a little more clearly how you believe that we might be able to work with our major neighbour across the border. I have a concern that if that neighbour was red rather than blue, would we be having some of the discussions that we are having today? While I absolutely support the development of a qualifications system that is fit for Wales and fit for Welsh learners, I reiterate the call to do it for the very best of reasons.

Rwyf yn canmol y pwyslais ar sicrhau bod dysgwyr Cymru wrth wraidd hyn i gyd, ac y dylai fod gennym system sy'n gweddu i Gymru. Er hynny, hoffwn ailadrodd fy ngalwad i wneud yn siŵr, beth bynnag sy'n digwydd yn y tymor hir, ein bod yn cael cydnabyddiaeth ryngwladol, ein bod yn annog meincnodi allanol, a'n bod yn annog dysgwyr i archwilio gwledydd eraill yn ogystal â'n gwlad ni, fel y gallant ddod â gwybodaeth, deallusrwydd a phrofiadau'n ôl i'n gwlad ni i helpu i'n cyfoethogi. Hoffwn hefyd ddeall ychydig yn fwy clir sut y credwch y gallem gydweithio â'n cymydog mawr dros y ffin. Mae gen' i bryder pa un a fyddem yn cael rhai o'r trafodaethau yr ydym yn eu cael heddiw, pe bai'r cymdogion yn goch yn hytrach na glas. Er fy mod yn llwyr o blaid datblygu system cymwysterau sy'n addas i Gymru ac yn addas ar gyfer dysgwyr Cymru, ailadroddaf yr alwad i wneud hynny am y rhesymau gorau posibl.

Finally, Huw's review raised the question of how we get on with our neighbours around us. That also translates into how we involve other external qualification-awarding bodies, particularly industry-specific bodies that may be situated in England or Europe, and ensure that their take on our qualifications and our qualifications' development is listened to. Ultimately, we want our people to be able to go out to find jobs wherever they can.

Yn olaf, cododd adolygiad Huw gwestiwn ynglŷn â sut yr ydym yn bwrw ymlaen â'n cymdogion o'n cwmpas. Mae hynny hefyd yn golygu ystyried sut yr ydym yn cynnwys cyrff dyfarnu cymwysterau allanol eraill, yn enwedig cyrff diwydiannau penodol a all fod wedi'u lleoli yn Lloegr neu Ewrop, ac yn sicrhau ein bod yn gwrando ar eu barn am ein cymwysterau ac am ddatblygiad ein cymwysterau. Yn y pen draw, mae arnom eisiau i'n pobl allu dod o hyd i swyddi lle bynnag y gallant.

**Leighton Andrews:** I welcome the tone in which the opposition spokesperson responded to this statement, and I am glad that she welcomes the proposals that we make. I understand her concern that there needs to be a clear demarcation within the organisation between the process of awarding examinations and regulating the awarding. We will learn lessons from the Scottish Qualifications Authority in relation to that, as it already operates in that way. We had a good briefing on the way in which its system works, which I found to be valuable.

**Leighton Andrews:** Croesawaf dôn ymateb llefarydd yr wrthblaid i'r datganiad hwn, ac rwyf yn falch ei bod yn croesawu ein cynigion. Rwyf yn deall ei phryder bod angen ffiniau clir o fewn y sefydliad rhwng y broses o ddyfarnu arholiadau a rheoleiddio'r dyfarnu. Byddwn yn dysgu gwersi gan Awdurdod Cymwysterau'r Alban yn hynny o beth, gan eu bod eisoes yn gweithredu yn y ffordd honno. Cawsom friff da am sut y mae eu system yn gweithio; roedd hwnnw'n werthfawr imi.

I confirm that we will want to continue to engage not just with schools and higher education but also with business. As the Member will be aware, there were a number of business representatives on the review board.

Rwyf yn cadarnhau y byddwn am barhau i ymgysylltu, nid yn unig ag ysgolion ac addysg uwch, ond hefyd â byd busnes. Fel y bydd yr Aelod yn gwybod, roedd nifer o gynrychiolwyr busnes ar y bwrdd adolygu.

The Member asked about whether the organisation would be an arm's length organisation; I was introduced to a new concept when I was in Scotland, which was elbow-length organisations from government. However, in this case, we are still at an early stage; I do not think that we have got into the detail yet of whether this would be developed through a remit letter or otherwise. There are discussions to be had over the construction of the new body. Clearly, we look to a situation in which the WJEC becomes part of Qualifications Wales; that is the basis on which we are moving forward. We will be having conversations with the WJEC on that basis—those conversations have already started—and with local government as the shareholders in the WJEC at the present time. That is the course on which we will move forward, and we wanted to make the announcement at an early stage so that staff members at the WJEC could have confidence that we could see the way forward in this regard.

Gofynnodd yr Aelod a fyddai'r sefydliad yn sefydliad hyd braich; cefais fy nghyflwyno i gysyniad newydd pan oeddwn yn yr Alban, sef sefydliadau hyd penelin o'r llywodraeth. Fodd bynnag, yn yr achos hwn, rydym yn dal i fod ar gamau cynnar y broses; nid wyf yn credu ein bod wedi edrych eto ar fanylion pa un a gâi hyn ei ddatblygu drwy lythyr cylch gwaith neu fel arall. Mae angen trafodaethau ynglŷn â strwythur y corff newydd. Yn amlwg, rydym yn edrych ar sefyllfa lle daw CBAC yn rhan o Gymwysterau Cymru; ar y sail honno yr ydym yn symud ymlaen. Cawn sgyrsiau gyda CBAC ar y sail honno—mae'r sgyrsiau hynny eisoes wedi dechrau—a chyda llywodraeth leol fel rhanddeiliaid CBAC ar hyn o bryd. I'r cyfeiriad hwnnw y byddwn yn symud, ac roeddem yn awyddus i wneud y cyhoeddiad yn gynnar fel y gallai staff CBAC fod yn hyderus ein bod yn gweld y ffordd ymlaen yn hyn o beth.

In respect of learning from other countries, we are always happy to do that. That is why, when I visited the Organisation for Economic Co-operation and Development before Christmas, I asked it to do a country review, as it has done for a number of other countries. We met many of the representatives who work on the PISA scheme there. The Deputy

O ran dysgu gan wledydd eraill, rydym bob amser yn hapus i wneud hynny. Dyna pam y gofynnais i'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd, pan ymwelais â hwy cyn y Nadolig, gynnal adolygiad gwlad, fel y maent wedi'i wneud i nifer o wledydd eraill. Cawsom gyfarfodydd â llawer o gynrychiolwyr sy'n gweithio ar y

Minister for Skills and I also met with the French Deputy Minister for skills, because there were issues that we thought would be of common benefit for us to discuss between two socialist governments, particularly in respect of apprenticeships—we had very good discussions around that.

cynllun PISA yno. Cyfarfu'r Dirprwy Weinidog Sgiliau a minnau hefyd â Dirprwy Weinidog Sgiliau Ffrainc, gan ein bod yn credu y byddai o fudd i'r naill ochr a'r llall drafod rhai materion gyda'n gilydd fel dwy lywodraeth sosialaidd, yn enwedig o ran prentisiaethau—cawsom drafodaethau da iawn am hynny.

I would be very happy to meet the Secretary of State for Education in England, were he prepared to meet me, but he has turned down the opportunity to do so. I was pleased, however, to meet the Scottish Cabinet Secretary for Education and Lifelong Learning when I was in Edinburgh, and, of course, I have met the Northern Ireland Minister on two occasions.

Byddwn yn hapus iawn i gwrdd â'r Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg yn Lloegr, pe bai'n fodlon cwrdd â mi, ond mae wedi gwrthod y cyfle i wneud hynny. Roeddwn yn falch, fodd bynnag, i gwrdd ag Ysgrifennydd Addysg a Dysgu Gydol Oes Cabinet yr Alban pan oeddwn yng Nghaeredin, ac, wrth gwrs, rwyf wedi cwrdd â Gweinidog Gogledd Iwerddon ar ddau achlysur.

**Simon Thomas:** Diolch, Weinidog, am y datganiad, a blwyddyn newydd dda i chithau oddi wrth Blaid Cymru. Rydym yn edrych ymlaen at flwyddyn arall o ymyrryd ac ymwneud â'r pwyntiau hyn.

**Simon Thomas:** Thank you, Minister, for the statement, and a happy new year to you from Plaid Cymru. We look forward to another year of dealing with these points.

Yn anaml iawn, Weinidog, yr wyf yn cael fy hun, mewn sefyllfa wrthbleidiol, o roi tystiolaeth i ymchwiliad sy'n cael ei gynnal yn annibynnol gan y Llywodraeth a'r adroddiad ar y diwedd yn adlewyrchu mor agos y dystiolaeth a roddais iddo. Felly, ni fyddwch yn disgwyl imi wyro oddi wrth yr hyn a ddywedais yn fy nhystiolaeth i adolygiad Huw Evans. Rwy'n croesawu'n fawr iawn, felly, yr hyn a ddywedodd Huw Evans yn ei gyhoeddiad—mae'n gynhwysfawr, yn gytbwys ac yn deg, ac mae'n nodi'r ffordd ymlaen i gymwysterau a hyfforddiant galwedigaethol. Rwy'n edrych ymlaen at glywed rhagor gan y Dirprwy Weinidog maes o law wrth inni ddatblygu gweddill yr argymhellion. Rwy'n croesawu eich datganiad, felly, ac rwy'n meddwl ei fod yn dangos y ffordd ymlaen i ddatblygiadau yng Nghymru.

Very rarely, Minister, as a member of the opposition, do I find myself providing evidence to an independent inquiry conducted by Government and find that the report at the end of that process reflects so closely the evidence that I provided to it. Therefore, you would not expect me to diverge too much from what I said to the Huw Evans review. Therefore, I warmly welcome what Huw Evans said in his statement—it is comprehensive, well-balanced and fair, and it sets out a way forward for qualifications and vocational training. I look forward to hearing more from the Deputy Minister in due time as we develop the rest of the recommendations. I, therefore, welcome your statement and I think that it provides a way forward for developments in Wales.

Fel llefarydd yr wrthblaid arall, rwyf innau am ofyn rhai cwestiynau ynglŷn â'r ffordd y byddwn yn symud ymlaen yn y mater hwn. Yn gyntaf oll, hoffwn sôn am drosglwyddo cymwysterau Cymreig o'r cyd-destun Cymreig i Loegr yn benodol, o gofio nifer y myfyrwyr sy'n mynd o Gymru i Loegr, ond,

As the other opposition spokesperson did, I want to ask a few questions on how we will progress this issue from here on in. First, I would like to mention the transference of Welsh qualifications from the Welsh context to England specifically, bearing in mind the number of students who travel from Wales to

yn ehangach, yn rhyngwladol hefyd. Rwy'n falch eich bod chi wedi tanlinellu yn y datganiad bod rhaid i'r cymwysterau hyn fod yn dderbyniol ac yn berthnasol—mae'r gair hwnnw yn bwysig, Weinidog—i wledydd eraill. Mae'n bwysig bod cymwysterau disgyblion o Gymru sy'n chwilio am hyfforddiant neu sydd am fynd i brifysgol y tu fas i Gymru yn cael eu derbyn yn yr un modd. Bydd hynny efallai yn golygu tipyn o dasg i'r Llywodraeth ac i'r corff newydd o ran marchnata hynny, ac ofnaf y bydd pobl, yn naturiol, yn darllen y wasg Seisnig, i bob pwrpas, a meddwl bod y newidiadau sy'n digwydd yn Lloegr yn berthnasol iddynt hwy, neu fod y newidiadau sy'n digwydd yn Lloegr yn well rywfodd na'r hyn sy'n digwydd yng Nghymru.

England to study, but, more broadly, on an international basis. I am pleased that you have highlighted in your statement that these qualifications must be acceptable and relevant—that word is important, Minister—to other nations. It is important that the qualifications of pupils from Wales who are seeking training or university places outside Wales are accepted in the same way as other qualifications. That perhaps will be quite a task for the Government and the new body in terms of marketing that, and I fear that people, naturally, will read the English press, to all extents and purposes, and think that the changes that are happening in England are relevant to them, or that the changes that are happening in England are somehow superior to what is happening in Wales.

I raddau helaeth, rydym ni yng Nghymru yn aros gyda'r egwyddorion sydd gennym, a Llywodraeth San Steffan sy'n gwyro oddi wrth y patrwm hwnnw. Nid yw wastad yn wir i ddweud mai Cymru sy'n gwyro oddi wrth Loegr; yn y cyd-destun hwn, Lloegr sy'n gwyro oddi wrth Gymru a gwledydd eraill Prydain o ran pwyso a mesur y cymwysterau, ac mae'n bwysig cofio hynny.

To a great extent, we in Wales are remaining with the principles that we have, and it is the Westminster Government that is diverging from that pattern. It is not always true to say that Wales diverges from England; in this regard, England in divergent from Wales and the rest of the nations of the United Kingdom in terms of evaluating qualifications, and it is important that we bear that in mind.

Wrth edrych ar y corff newydd, Cymwysterau Cymru, rydym yn ei groesawu. Rydym yn gweld y bydd tensiynau o hyd mewn unrhyw gorff o'r fath rhwng gosod arholiadau, arholi a rheoleiddio. Gwelsom yr haf diwethaf y tensiynau hynny'n dod yn fyw y tu mewn i'r Llywodraeth, a bod yn onest. Nid oes yr un corff a all ateb yr holl broblemau hynny. Yr hyn y mae Plaid Cymru yn chwilio amdano, felly, yw ystyriaeth o natur y corff a'r ffordd y mae wedi cael ei strwythuro; boed y corff yn un hyd braich, hyd penelin neu beth bynnag, byddwn yn edrych ar y natur honno i wneud yn siŵr bod atebolrwydd yn glir, fel y bydd yn glir i ddisgyblion, athrawon, ysgolion a'r cyhoedd bwy sy'n gyfrifol am beth yn y cyd-destun hwnnw.

In looking at the new body, Qualifications Wales, we welcome its establishment. We anticipate that there will always be tensions in any such body between setting examinations, examining and regulating. Last summer, we saw those tensions emerging within Government, if truth be told. There is no single body that can resolve all of those problems. What Plaid Cymru is seeking, therefore, is to look at the nature of the organisation and the way that it is structured; be it an arm's-length or elbow-length body, or whatever it may be, we will be looking at its structure to ensure that there is clear accountability, so that it is clear to pupils, teachers, schools and the public who is responsible for what in that context.

Er hynny, mae symud y busnes o reoleiddio arholiadau allan o'r Llywodraeth i gorff annibynnol yn rhywbeth i'w groesawu. Yn sicr, nid wyf wedi clywed unrhyw gynnig gwell gan neb arall na symud tuag at gorff unedig o'r math hwn. Felly, oni bai bod patrwm amgen yn cael ei ddatblygu, rwy'n

Despite that, moving the regulation of examinations from the Government to an independent body is something that should be welcomed. Certainly, I have not heard any better proposals from anyone else that are superior to moving towards this unified body that you have proposed. Therefore, unless an

croesawu'r corff ac rwy'n edrych ymlaen at fwy o fanylion maes o law pan fyddwch wedi cwblhau'r adolygiad o bosibiliadau'r corff hwn.

alternative format is developed, I welcome that and look forward to seeing more detail in due course, once you have carried out the review of the possibilities that this body provides.

Y peth olaf rwyf eisiau ei godi yw'r ffaith eich bod yn edrych i sefydlu'r corff newydd hwn erbyn mis Medi 2015, sydd, a dweud y gwir, yn eithaf clou. Dywedwch yn y datganiad eich bod am i'r corff ddyrannu cymwysterau ar gyfer y rhan fwyaf o gymwysterau cyffredinol. A oes modd ichi ymhelaethu tipyn bach ar hynny yn awr—beth yw'r cymwysterau cyffredinol, a pha mor bell i lawr y llwybr galwedigaethol y bydd y corff hwn yn mynd? Fe ymddengys i mi y bydd yr elfen o gyrff eraill yn dyrannu cyrsiau galwedigaethol, yng Nghymru o leiaf, yn mynd i fod yn bwysig, ac felly mae'n bwysig ein bod yn deall sut y bydd y cyrff arholi y tu fas i Gymru yn ymwneud â'r corff newydd hwn.

The last thing that I want to raise is that you are now seeking to establish this new body by September 2015. That is a relatively swift turnaround, if truth be told. You say in your statement that you want that body to allocate qualifications for the majority of general qualifications. Could you expand upon that—what the general qualifications are, and how far down the vocational route this new body will go? It appears to me that the element of other bodies awarding vocational courses, in Wales at least, will still be important and, therefore, it is important that we understand how the examination boards outwith Wales will deal with this new body.

**Leighton Andrews:** Again, I thank the Plaid Cymru spokesperson for his welcome for what I have announced today. We believe that this is a structure that is fit for the future, and we have taken into consideration other models that exist in other parts of the United Kingdom and beyond.

**Leighton Andrews:** Unwaith eto, diolchaf i lefarydd Plaid Cymru am ei groeso i'r hyn yr wyf wedi'i gyhoeddi heddiw. Credwn fod hwn yn strwythur sy'n addas ar gyfer y dyfodol, ac rydym wedi ystyried modelau eraill sy'n bodoli mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig a thu hwnt.

The Member asked two or three specific questions. Obviously, the portability of qualifications and their cross-border relevance is important, and those matters can be dealt with when the Deputy Minister for Skills responds in full to the review. However, portability was one of those factors that Huw Evans and the review board very much had in mind when they drew up their proposals. They understood the importance of those issues.

Gofynnodd yr Aelod ddau neu dri chwestiwn penodol. Yn amlwg, mae'n bwysig gallu trosglwyddo cymwysterau a sicrhau eu bod yn berthnasol dros ffiniau, a gellir ymdrin â'r materion hynny pan fydd y Dirprwy Weinidog Sgiliau'n ymateb yn llawn i'r adolygiad. Fodd bynnag, roedd y gallu i drosglwyddo cymwysterau yn sicr yn un o'r ffactorau hynny a oedd ar feddwl Huw Evans a'r bwrdd adolygu wrth iddynt lunio eu cynigion. Roeddent yn deall pwysigrwydd y materion hynny.

The Plaid Cymru spokesperson also raised vocational qualifications, and indeed the Conservative spokesperson also asked about industry-specific qualifications. I do not see any problem in the framework that we are outlining for how these will be addressed. The SQA must already address these kinds of issues in respect of vocational qualifications; it has a system in place and we have looked at what it is proposing. The report by Huw

Soniodd llefarydd Plaid Cymru hefyd am gymwysterau galwedigaethol, ac yn wir gofynnodd llefarydd y Ceidwadwyr hefyd am gymwysterau ar gyfer diwydiannau penodol. Ni welaf unrhyw broblem yn y fframwaith yr ydym yn ei amlinellu o ran sut i roi sylw i'r rhain. Rhaid i'r SQA eisoes ymdrin â'r mathau hyn o faterion mewn cysylltiad â chymwysterau galwedigaethol; mae ganddynt system ar waith ac rydym wedi edrych ar yr

Evans makes specific proposals as to how Qualifications Wales should engage with vocational qualifications, and the Deputy Minister for Skills will flesh that out when he comes to respond in due course towards the end of this month.

hyn y maent yn ei gynnig. Mae’r adroddiad gan Huw Evans yn gwneud cynigion penodol ynghylch sut y dylai Cymwysterau Cymru ymwneud â chymwysterau galwedigaethol, a bydd y Dirprwy Weinidog Sgiliau’n ehangu ar y cynigion hyn pan ddaw i ymateb maes o law tua diwedd y mis hwn.

The Plaid Cymru spokesperson is right to refer to the impact of coverage in newspapers produced in London on the changes announced in England, and how they may be perceived by readers of those newspapers, particularly in Wales. It is important that an element of what we do as we go forward in general in responding to the qualifications review is to look at the marketing of our qualifications as they develop. That was certainly a recommendation of the review board.

Mae llefarydd Plaid Cymru yn iawn i gyfeirio at effaith y sylw a roddir mewn papurau newydd a gynhyrchir yn Llundain i’r newidiadau a gyhoeddwyd yn Lloegr, ac at y canfyddiad ohonynt ymhlith darllenwyr y papurau newydd hynny, yn enwedig yng Nghymru. Mae’n bwysig ein bod, fel rhan o’n hymateb cyffredinol i’r adolygiad o gymwysterau, yn edrych ar farchnata ein cymwysterau wrth iddynt ddatblygu. Roedd hynny’n sicr yn un o argymhellion y bwrdd adolygu.

The final point related to the swift turnaround time, and as I said in answer to the Conservative spokesperson, we hope that, in creating this new body, which will essentially involve the WJEC being collapsed into Qualifications Wales—I hope that that is the route that is agreed to; I would not want to have to nationalise the WJEC—we would be able to give confidence to the staff of the WJEC that they can see how their careers will develop as we develop Qualifications Wales. I also hope that they can see how sincere we are in wanting to build a long-term structure for the future of qualifications in Wales, both in terms of awarding qualifications and in terms of regulating them.

Mae’r pwynt olaf yn ymwneud â’r amserlen fer ar gyfer cwblhau’r broses. Fel y dywedais wrth ateb llefarydd y Ceidwadwyr, gobeithiwn y byddem, wrth greu’r corff newydd hwn yn gallu rhoi hyder i staff CBAC y gallant weld sut y bydd eu gyrfaoedd yn datblygu wrth inni ddatblygu Cymwysterau Cymru, proses a fydd yn ei hanfod yn golygu ymgorffori CBAC yn rhan o Gymwysterau Cymru—gobeithiaf mai dyna’r llwybr y cytunir arno; ni hoffwn orfod gwladoli CBAC. Gobeithiaf hefyd y gallant weld pa mor ddiffuant yr ydym o ran dymuno adeiladu strwythur hirdymor i ddyfodol cymwysterau yng Nghymru, a hynny o ran dyfarnu cymwysterau ac o ran eu rheoleiddio.

**David Rees:** Thank for the statement on the qualifications review, which obviously focuses on one recommendation. In your answer to Angela Burns you talked about the demarcation between the quality assurance mechanism and the award mechanism. If you get the quality assurance right, the confidence will follow in the qualifications. My experience in higher education is that quality assurance involves a lot of externality. Can you assure me that you will be looking at externality in the delivery of the quality assurance for this new body to ensure that that demarcation is identified and can be seen to be a separate issue?

**David Rees:** Diolch am y datganiad ar yr adolygiad o gymwysterau, sy’n amlwg yn canolbwyntio ar un argymhelliad. Yn eich ateb i Angela Burns, fe wnaethoch sôn am y ffin rhwng y mecanwaith sicrhau ansawdd a’r mecanwaith dyfarnu. Os cewch y broses sicrhau ansawdd yn gywir, bydd yr hyder yn y cymwysterau yn dilyn. Yn fy mhrofiad ym maes addysg uwch, mae sicrhau ansawdd yn cynnwys llawer o allanoldeb. A allwch fy sicrhau y byddwch yn edrych yn allanol wrth ddarparu sicrwydd ansawdd ar gyfer y corff newydd hwn, er mwyn gwneud yn siŵr bod y ffin yn cael ei nodi ac y gellir gweld ei fod yn fater ar wahân?

**Leighton Andrews:** The Member for Aberavon raises a number of important points from his own experience, and I know that he has thought about these issues deeply. We will want to ensure that we have external advice in the development of the quality-assurance arrangements. If he has ideas on that, I encourage him to write to the Deputy Minister for Skills.

**Leighton Andrews:** Mae'r Aelod dros Aberafan yn codi nifer o bwyntiau pwysig o'i brofiad ei hun, a gwn ei fod wedi meddwl yn ddwys am y materion hyn. Byddwn yn awyddus i sicrhau ein bod yn cael cyngor allanol wrth ddatblygu'r trefniadau sicrhau ansawdd. Os oes ganddo syniadau am hynny, rwyf yn ei annog i ysgrifennu at y Dirprwy Weinidog Sgiliau.

3.15 p.m.

**Aled Roberts:** Minister, I place on record my thanks—as the other spokespeople have done—to Huw Evans for the way in which he briefed us at the time of the publication of the review. I concur with your view that it was very inclusive, which has led to the response to the review that we have heard both here today and since the review was first published. I would welcome your conversion to the issue of an independent regulator. You remember that we debated this matter on 26 September, but we are now moving forward in the right direction. I also agree with you that what is important is that we do the best job in this place for learners in Wales. I have little to add as far as the questions that have arisen are concerned. The other spokespeople have identified that the real measure of the success of this statement today and what follows will be the portability of the qualifications themselves when they pan out, and the recognition that those qualifications achieve for their quality.

**Aled Roberts:** Weinidog, rwyf yn cofnodi fy niolch—fel y gwnaeth y llefarwyr eraill—i Huw Evans am y ffordd y bu iddo ein briffio ar adeg cyhoeddi'r adolygiad. Cytunaf â'ch barn ei fod yn gynhwysol iawn, ac mae hynny wedi arwain at yr ymateb i'r adolygiad yr ydym wedi'i glywed yma heddiw ac ers i'r adolygiad gael ei gyhoeddi gyntaf. Byddwn yn croesawu eich tröedigaeth ym maes rheoleiddiwr annibynnol. Byddwch yn cofio i ni drafod y mater hwn ar 26 Medi, ond rydym yn awr yn symud ymlaen i'r cyfeiriad cywir. Rwyf hefyd yn cytuno â chi mai'r hyn sy'n bwysig yw ein bod yn gwneud y gwaith gorau y gallwn yma dros ddysgwyr yng Nghymru. Nid oes gennyf lawer i'w ychwanegu am y cwestiynau sydd wedi codi. Mae'r llefarwyr eraill wedi nodi mai gwir fesur llwyddiant y datganiad hwn heddiw a'r hyn sy'n dilyn fydd y gallu i drosglwyddo'r cymwysterau eu hunain pan fyddant wedi'u datblygu'n llwyr, a'r gydnabyddiaeth a gaiff y cymwysterau hynny am eu hansawdd.

You made a statement on 5 December, but have you had any indication as to when the other members of the task and finish group will be identified—taking on board some of the comments made by Angela Burns? Also, given the discussions that we have had in the children's committee, what will be the position, when we move away from the tricountry arrangements, as far as the general qualifications are concerned? What will be the situation between now and 2015, because agreements regarding grade boundaries et cetera are still issues that need to be resolved in the meantime? When will you be in a position to give us a clear indication as to whether some of the difficulties and the issues that led to the situation in August have been resolved between the three countries?

Gwnaethoch ddatganiad ar 5 Rhagfyr, ond a ydych wedi cael unrhyw syniad pryd y caiff aelodau eraill y grŵp gorchwyl a gorffen eu henwi—gan ystyried rhai o'r sylwadau a wnaeth Angela Burns? Hefyd, o ystyried y trafodaethau yr ydym wedi'u cael yn y pwyllgor plant, beth fydd y sefyllfa o safbwynt cymwysterau cyffredinol, pan symudwn oddi wrth y trefniadau tair gwlad? Beth fydd y sefyllfa rhwng nawr a 2015, gan fod angen o hyd i ddatrys materion megis cytundebau ynghylch ffiniau graddau ac ati yn y cyfamser? Pryd y byddwch mewn sefyllfa i roi syniad clir inni a yw rhai o'r anawsterau a'r materion a arweiniodd at y sefyllfa ym mis Awst wedi cael eu datrys rhwng y tair gwlad?

I assure you of our support for the review, and for recommendation 5 in particular. We will need to work out the results of due diligence, as you have indicated today, as far as the details are concerned.

Rwyf yn eich sicrhau ein bod yn cefnogi'r adolygiad, ac argymhelliad 5 yn arbennig. Bydd angen inni ddehongli canlyniadau'r adolygiad diwydrwydd dyladwy, fel yr ydych wedi nodi heddiw, o ran y manylion.

**Leighton Andrews:** The Liberal Democrats' spokesperson is right to thank Huw Evans, as others have done, because the work that he has carried through has been formidable and well regarded across the whole of Wales, as I said in my statement. He is absolutely the right person to take this work forward. In respect of the structure that we are creating, we are not creating simply an independent regulator; we are creating a qualifications authority that will include a regulatory and awarding function, which is slightly different to what Huw proposed in September. However, his own party has not been entirely consistent on what it has supported throughout the time of this Assembly, because, of course, in 2005, the Liberal Democrats' spokesperson welcomed the merger of ACCAC and ELWA into the Assembly Government, as did other parties.

**Leighton Andrews:** Mae llefarydd y Democratiaid Rhyddfrydol yn gywir i ddiolch i Huw Evans, fel y gwnaeth eraill, oherwydd iddo wneud gwaith aruthrol ac uchel ei barch ledled Cymru, fel y dywedais yn fy natganiad. Nid oes amheuaeth mai ef yw'r unigolyn cywir i ddatblygu'r gwaith hwn. O ran y strwythur yr ydym yn ei greu, nid dim ond rheoleiddiwr annibynnol ydyw; rydym yn creu awdurdod cymwysterau a fydd yn cynnwys swyddogaethau rheoleiddio a dyfarnu, sydd ychydig yn wahanol i'r hyn a gynigiodd Huw ym mis Medi. Fodd bynnag, nid yw ei blaid ei hun wedi bod yn gwbl gyson o ran yr hyn y maent wedi'i gefnogi drwy gydol cyfnod y Cynulliad hwn. Yn 2005, wrth gwrs, croesawodd llefarydd y Democratiaid Rhyddfrydol yn ogystal â'r pleidiau eraill y syniad o uno ACCAC ac ELWa â Llywodraeth y Cynulliad.

We have now seen the development of a model, through an independent qualifications review, which really does allow us to develop a system in Wales that is fit for the benefit of Welsh learners and the Welsh economy. In respect of portability, I repeat what I said in answer to earlier questions: this is a key issue. It will be at the heart of the development of the new system, and the Deputy Minister for Skills will have more to say about that in due course. There are a number of issues for us to resolve with the task and finish group, but I have great confidence in Huw Evans as the lead person in that group to take them forward for us. In respect of the issues around grade boundaries this year, we took decisive action in Wales that meant that 2,300 young people received the grades to which they were entitled, and their grades were improved as a result of the regarding exercise. We have resolved the issue for 2014 in that we have approved the development of a new curriculum and a new basis for the English exam. Conversations continue with Ofqual and other regulators in the short term in relation to this year, but I am optimistic that we will avoid the problems that we saw last year.

Rydym bellach wedi gweld model yn cael ei ddatblygu, drwy adolygiad annibynnol o gymwysterau, sydd wir yn ein galluogi i ddatblygu system yng Nghymru sy'n addas ar gyfer dysgwyr yng Nghymru ac economi Cymru. O ran cymwysterau y gellir eu trosglwyddo, ailadroddaf yr hyn a ddywedais wrth ateb cwestiynau cynharach: mae hwn yn fater allweddol. Bydd wrth wraidd y system newydd, a bydd y Dirprwy Weinidog Sgiliau'n dweud mwy am hynny maes o law. Rhaid inni ddatrys nifer o faterion gyda'r grŵp gorchwyl a gorffen, ond mae gennyf hyder mawr y bydd Huw Evans fel arweinydd y grŵp yn gwneud hynny inni. O ran y materion yn ymwneud â ffiniau graddau eleni, cymerwyd camau pendant yng Nghymru gan olygu bod 2,300 o bobl ifanc wedi cael y graddau yr oedd ganddynt hawl i'w cael, a chafodd eu graddau eu gwella o ganlyniad i'r ymarfer dan sylw. Rydym wedi datrys y mater ar gyfer 2014 drwy gymeradwyo datblygiad cwricwlwm newydd a sylfaen newydd i'r arholiad yn Lloegr. Mae sgyrsiau'n parhau gydag Ofqual a rheoleiddwyr eraill yn y tymor byr ynglŷn ag eleni, ond rwyf yn obeithiol y byddwn yn osgoi'r problemau a welsom y llynedd.

**Jenny Rathbone:** It would be difficult to overestimate the importance of getting this issue right in terms of the future of our young people and the prosperity of our country. It is, therefore, heartening to hear the level of agreement and support that there is for the rigour of the qualifications review and the recommendation to set up Qualifications Wales. Earlier this afternoon, the First Minister outlined the list of countries that he is planning to visit as part of a foreign trade mission. This underlines the importance of ensuring that our young people have that portability of the skills that they acquire for them to take advantage of living in a global village and for us to assure potential investors that our workforce has the skills that they may require if they are thinking of setting up new ventures in Wales.

**Jenny Rathbone:** Byddai'n anodd gorbwysleisio pwysigrwydd cael y mater hwn yn gywir o ran dyfodol ein pobl ifanc a ffyniant ein gwlad. Mae felly'n galonogol clywed faint o gytundeb a chefnogaeth sy'n bodoli i drylwyredd yr adolygiad o gymwysterau a'r argymhelliad i sefydlu Cymwysterau Cymru. Yn gynharach y prynhawn yma, amlinellodd y Prif Weinidog y rhestr o wledydd y mae'n bwriadu ymweld â hwy fel rhan o daith fasnach dramor. Mae hyn yn tanlinellu pa mor bwysig yw sicrhau bod ein pobl ifanc yn cael sgiliau y gallant eu trosglwyddo er mwyn manteisio ar y ffaith eu bod yn byw mewn pentref byd-eang, ac er mwyn i ni roi sicrwydd i fuddsoddwyr posibl bod gan ein gweithlu'r sgiliau y gall fod ei hangen arnynt os ydynt yn ystyried sefydlu mentrau newydd yng Nghymru.

Others have already emphasised the importance of the portability of these qualifications. However, Scotland has shown, over many years, that it is perfectly possible for a small country to have a different qualifications system to that in operation in England, Wales and Northern Ireland, and for those qualifications to be recognised, as we have seen through the large numbers of Scottish students who used to come to English and Welsh universities—perhaps less so now with the funding arrangements being different.

Mae eraill eisoes wedi pwysleisio pwysigrwydd cymwysterau y gellir eu trosglwyddo. Fodd bynnag, mae'r Alban wedi dangos, dros nifer o flynyddoedd, ei bod yn gwbl bosibl i wlad fach gael system gymwysterau wahanol i'r un a ddefnyddir yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, ac i'r cymwysterau hynny gael eu cydnabod. Fe welwn hynny yn nifer fawr y myfyrwyr o'r Alban a oedd yn arfer dod i brifysgolion Cymru a Lloegr—efallai fod llai ohonynt erbyn hyn gan fod y trefniadau ariannu'n wahanol.

Angela Burns asked whether or not we would be making these moves if we had an education Minister of a different stripe in England. I fear that the English Minister for education has overemphasised dancing to the tune of the top universities in England, which wish to be able to differentiate between candidates with A grades at A-level rather than looking at a much broader picture with greater emphasis on the needs of all learners. We need to consider the importance not just of academic qualifications, but of vocational qualifications, which need to be given equal weight. We do not just need people who are academically bright; we need people who are capable of developing new businesses and technologies that will enable us to pay our way in the world. I look forward to hearing how Qualifications Wales is going to provide qualifications for our young people that

Gofynnodd Angela Burns a fyddem yn cymryd y camau hyn pe bai'r Gweinidog addysg yn Lloegr o liw gwahanol. Mae arnaf ofn bod Gweinidog addysg Lloegr wedi gorbwysleisio dawnsio i dôn prifysgolion mwyaf blaenllaw Lloegr, sy'n dymuno gallu gwahaniaethu rhwng ymgeiswyr â graddau A Safon Uwch yn hytrach nag edrych ar ddarlun llawer ehangach gyda mwy o bwyslais ar anghenion pob dysgwr. Mae angen inni ystyried pwysigrwydd cymwysterau galwedigaethol yn ogystal â chymwysterau academaidd; rhaid rhoi pwysau cyfartal i'r rhain. Nid dim ond pobl academaidd ddisglair sydd eu hangen arnom, mae arnom angen pobl sy'n gallu datblygu busnesau a thechnolegau newydd a fydd yn ein galluogi i dalu ein ffordd yn y byd. Edrychaf ymlaen at glywed sut y mae Cymwysterau Cymru'n mynd i ddarparu

reflect their abilities to their full extent, but that also reflect academic and vocational elements in the qualifications that they acquire. This will ensure that we have a balance of skills and qualifications in our country. It will also ensure that young people can take up the opportunities that are offered to them, whatever their interests.

cymwysterau i'n pobl ifanc sy'n adlewyrchu eu gallu'n llawn, ond sydd hefyd yn adlewyrchu elfennau academaidd a galwedigaethol ar y cymwysterau y maent yn eu caffael. Bydd hyn yn sicrhau bod gennym gydbwysedd sgiliau a chymwysterau yn ein gwlad. Bydd hefyd yn sicrhau y gall pobl ifanc fanteisio ar y cyfleoedd a gynigir iddynt, beth bynnag fo'u diddordebau.

**Leighton Andrews:** My colleague, the Member for Cardiff Central, is absolutely right to say that the consensus in the Chamber today is important and will be helpful to those involved in the creation of Qualifications Wales, because it provides them with a sound platform on which to go forward. She is also right to identify the importance of portability of qualifications and of a strong skills base for inward investors; that is very much a part of what we are looking to develop. People who invest in Wales know that we have a very skilled workforce. However, it is equally important that we maintain and modernise our qualifications so that they are genuinely up to speed for the new industries that are being developed.

**Leighton Andrews:** Mae fy nghydweithiwr, yr Aelod dros Ganol Caerdydd, yn hollol gywir i ddweud bod y consensws yn y Siambr heddiw yn bwysig ac y bydd yn ddefnyddiol i'r rheini sy'n ymwneud â chreu Cymwysterau Cymru, gan ei fod yn rhoi llwyfan cadarn iddynt ar gyfer symud ymlaen. Mae hi hefyd yn gywir i nodi pwysigrwydd cael cymwysterau y gellir eu trosglwyddo a sylfaen sgiliau gref i fewnfuddsoddwyr; mae hynny'n sicr yn rhan o'r hyn yr ydym yn gobeithio ei ddatblygu. Mae pobl sy'n buddsoddi yng Nghymru'n gwybod bod gennym weithlu medrus iawn. Fodd bynnag, mae'r un mor bwysig ein bod yn cynnal ac yn moderneiddio ein cymwysterau fel eu bod yn wirioneddol gyfredol ar gyfer y diwydiannau newydd sy'n cael eu datblygu.

In respect of her comments on the Secretary of State for Education in England, I am not sure that all of the universities in England are supportive of what they have been asked, theoretically, to do in terms of developing new qualifications for the English system. Even Ofqual has raised some concerns about the development of policies such as the English baccalaureate. I think that the jury is still out on many of those proposals in England. Indeed, a court case is pending on the issue of English language GCSEs in England at present.

O ran ei sylwadau ar yr Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg yn Lloegr, nid wyf yn siŵr bod yr holl brifysgolion yn Lloegr yn gefnogol o'r hyn y gofynnwyd iddynt, yn ddamcaniaethol, ei wneud o ran datblygu cymwysterau newydd ar gyfer system Lloegr. Mae hyd yn oed Ofqual wedi codi rhai pryderon ynghylch datblygu polisïau fel bagloriaeth Lloegr. Credaf mai amser a ddengys a fydd llawer o'r cynigion hynny yn Lloegr yn llwyddiannus. Yn wir, mae achos llys yn yr arfaeth ynghylch TGAU Saesneg yn Lloegr ar hyn o bryd.

## Datganiad: Yr Ymgynghoriad ar Raglenni'r Cronfeydd Strwythurol ar gyfer 2014-20
## Statement: The Consultation on the Structural Fund Programmes 2014-20

**The Deputy Minister for Agriculture, Food, Fisheries and European Programmes (Alun Davies):** Members will be aware that, last May, I made a statement in which I set out the principles and priorities

**Y Dirprwy Weinidog Amaethyddiaeth, Bwyd, Pysgodfeydd a Rhaglenni Ewropeaidd (Alun Davies):** Bydd yr Aelodau'n ymwybodol fy mod, fis Mai diwethaf, wedi gwneud datganiad fydd yn

that will guide the development of the next round of structural funds and rural development programmes in Wales. There will be a clear focus on maximising opportunities for jobs and growth, in line with the Europe 2020 strategy and the Welsh Government's own policies for sustainable and inclusive economic growth.

gosod allan yr egwyddorion a blaenoriaethau a fydd yn arwain datblygiad y rownd nesaf o gronfeydd strwythurol a rhaglenni datblygu gwledig yng Nghymru. Bydd ffocws clir ar wneud y mwyaf o'r cyfleoedd ar gyfer swyddi a thwf, yn unol â strategaeth Ewrop 2020 a pholisïau Llywodraeth Cymru ei hun ar gyfer twf economaidd cynaliadwy a chynhwysol.

I am pleased to report today that the development of these programmes is progressing very well and is being taken forward in close consultation with our partners from across the business, public and third sectors. Next week, I will launch a full public consultation on the new programmes. This consultation will be called 'Wales and the EU: Partnership for Jobs and Growth'. It is designed so that everyone has the opportunity to feed in their views on our proposals.

Rwy'n falch o adrodd heddiw bod datblygiad y rhaglenni yn mynd rhagddo'n dda iawn ac yn cael ei ddatblygu mewn ymgynghoriad agos gyda'n partneriaid ar draws y sectorau busnes, cyhoeddus a'r trydydd sector. Yr wythnos nesaf, byddaf yn lansio ymgynghoriad cyhoeddus llawn ar y rhaglenni newydd. Bydd yr ymgynghoriad hwn yn cael ei alw'n 'Cymru a'r Undeb Ewropeaidd: Partneriaeth ar gyfer Swyddi a Thwf'. Mae wedi ei gynllunio fel bod pawb yn cael y cyfle i roi eu barn ar ein cynigion.

In line with our commitment to the closer integration of the EU common strategic framework investment programmes, we will be consulting on both the structural funds and rural development funds at the same time. The consultation on the European maritime and fisheries fund is managed at UK level and I expect consultation on this fund to begin in the spring. I will consult on the Welsh elements of this fund alongside our new fisheries strategy.

Yn unol â'n hymrwymiad i integreiddio rhaglenni buddsoddi fframwaith strategol cyffredin yr UE yn agosach, byddwn yn ymgynghori ar y cronfeydd strwythurol a chronfeydd datblygu gwledig ar yr un pryd. Mae'r ymgynghoriad ar gronfa forwrol a physgodfeydd Ewrop yn cael ei reoli ar lefel y DU, ac rwy'n disgwyl ymgynghori ar y gronfa i ddechrau yn y gwanwyn. Byddaf yn ymgynghori ar elfennau Cymru'r gronfa hon ochr yn ochr â'n strategaeth pysgodfeydd newydd.

The partnership for jobs and growth consultation will begin on 14 January with the publication of the structural funds consultation documents for west Wales and the Valleys and for east Wales. Publication of the RDP consultation document will follow later this month, linked to a parallel consultation on common agricultural policy reform. In order to stimulate and promote debate, the Welsh Government will be holding a series of events across Wales, the first of which will be held in north Wales on 31 January. The three remaining events will take place in the south-west on 21 February, in mid Wales on 7 March and in the south-east on 21 March. I am aware that our partners will also be organising their own events, and I am keen to meet and hear the

Bydd y bartneriaeth ar gyfer ymgynghori ar swyddi a thwf yn dechrau ar 14 Ionawr gyda chyhoeddi'r dogfennau ymgynghori cronfeydd strwythurol ar gyfer gorllewin Cymru a'r Cymoedd ac ar gyfer dwyrain Cymru. Bydd cyhoeddi'r ddogfen ymgynghori Cynllun Datblygu Gwledig yn dilyn yn ddiweddarach y mis hwn, yn gysylltiedig ag ymgynghoriad cyfochrog ar ddiwygio'r polisi amaethyddol cyffredin. Er mwyn ysgogi a hyrwyddo dadl, bydd Llywodraeth Cymru yn cynnal cyfres o ddigwyddiadau ledled Cymru, bydd y cyntaf o'r rhain yn cael ei gynnal yng ngogledd Cymru ar 31 Ionawr. Bydd y tri digwyddiad arall yn digwydd yn y de-orllewin ar 21 Chwefror, yng nghanolbarth Cymru ar 7 Mawrth ac yn y de-ddwyrain ar 21 Mawrth.

views of as many stakeholder organisations and groups during this consultation period as possible.

Rwy'n ymwybodol y bydd ein partneriaid hefyd yn trefnu eu digwyddiadau eu hunain, ac rwy'n awyddus i gyfarfod a chlywed barn cynifer o sefydliadau a grwpiau rhanddeiliaid yn ystod y cyfnod ymgynghori hwn ag y bo modd.

The deadline for consultation responses for both the structural funds and RDP is 23 April. This will allow us to analyse the responses and I expect to invite the Cabinet to agree the programming documents before formal negotiations begin with the European Commission in the summer. This timetable is of course dependent on EU member states reaching agreement on the multi-annual financial framework and on the progress made by the European Council and the European Parliament in finalising the legislative framework.

Y dyddiad cau ar gyfer ymatebion i'r ymgynghoriad ar gyfer y cronfeydd strwythurol a'r Cynllun Datblygu Gwledig yw 23 Ebrill. Bydd hyn yn ein galluogi i ddadansoddi'r ymatebion, ac rwy'n disgwyl gwahodd y Cabinet i gytuno ar y dogfennau rhaglennu cyn dechrau trafodaethau ffurfiol gyda'r Comisiwn Ewropeaidd yn yr haf. Mae'r amserlen wrth gwrs yn dibynnu ar aelod-wladwriaethau'r UE yn dod i gytundeb ar y fframwaith ariannol amlflwydd ac ar y camau a gymerwyd gan y Cyngor Ewropeaidd a Senedd Ewrop i gwblhau'r fframwaith deddfwriaethol.

Presiding Officer, there remains considerable uncertainty over the amount of future funding we are likely to receive in Wales. Across Europe—and within the UK—there remain differences of opinion on a number of key issues, particularly the size of the budget and the fairness of the arrangements for distributing this budget between, and within, member states.

Lywydd, erys cryn ansicrwydd ynghylch faint o arian yr ydym yn debygol o'i gael yng Nghymru yn y dyfodol. Ar draws Ewrop ac o fewn y DU erys gwahaniaethau barn ar nifer o faterion allweddol, yn enwedig maint y gyllideb a thegwch y trefniadau ar gyfer dosbarthu'r gyllideb hon rhwng, ac o fewn, aelod-wladwriaethau.

We understand that the budget proposals put forward during a special European Council meeting on the EU budget last November represent a reduction to both the CAP and structural funds budgets. Early estimates suggest that this proposal, if adopted, would mean a fall in the EU funds allocation for the convergence region of west Wales and the Valleys of around a quarter compared to current levels of investment. The east Wales allocation is more difficult to anticipate as it is subject to negotiation with the UK Government. That said, we know that east Wales will receive significantly less, as it does today, than west Wales and the Valleys.

Rydym yn deall bod y cynigion cyllideb a gyflwynwyd yn ystod cyfarfod arbennig o'r Cyngor Ewropeaidd ar gyllideb yr UE fis Tachwedd diwethaf yn cynrychioli gostyngiad yn y CAP a chyllidebau cronfeydd strwythurol. Mae amcangyfrifon cynnar yn awgrymu bod y cynnig hwn, o'i fabwysiadu, yn golygu gostyngiad yn nyraniad cronfeydd yr UE ar gyfer rhanbarth cydgyfeirio gorllewin Cymru a'r Cymoedd o tua chwarter o'i gymharu â lefelau cyfredol o fuddsoddiad. Mae dyraniad dwyrain Cymru yn fwy anodd ei ragweld gan ei fod yn amodol ar drafodaethau gyda Llywodraeth y DU. Wedi dweud hynny, gwyddom y bydd dwyrain Cymru yn derbyn cryn dipyn yn llai, fel y mae heddiw, na gorllewin Cymru a'r Cymoedd.

We hope that a decision on the EU budget can be reached in February. In the meantime, I have made clear the view and position of

Rydym yn gobeithio y gellir cyrraedd penderfyniad ar gyllideb yr UE ym mis Chwefror. Yn y cyfamser, rwyf wedi gwneud

the Welsh Government on these matters. I am pleased that, given the benefits that flow across our communities in Wales from the EU funds, Members of this Assembly sent a clear message last November that a cut in the EU budget was not in the Welsh national interest. This has been very important in helping me to make the strongest case possible to UK ministerial colleagues, the Joint Ministerial Committee on Europe and the new Irish European presidency, to ensure that Welsh needs are recognised by the UK in its EU budget negotiations.

barn a safbwynt Llywodraeth Cymru yn glir ar y materion hyn. Rwy’n falch, o ystyried y manteision sy’n llifo ar draws ein cymunedau yng Nghymru o gronfeydd yr UE, bod Aelodau’r Cynulliad hwn wedi anfon neges glir fis Tachwedd diwethaf nad yw toriad yng nghyllideb yr UE er lles cenedlaethol Cymru. Mae hyn wedi bod yn bwysig iawn i fy helpu i wneud yr achos cryfaf posibl i gyd-Weinidogion y DU, y Cydbwyllgor Gweinidogion ar Ewrop a llywyddiaeth Ewropeaidd newydd Iwerddon, er mwyn sicrhau bod anghenion Cymru yn cael eu cydnabod gan y DU yn ei thrafodaethau ar gyllideb yr UE.

Just before Christmas, I was in Strasbourg attending the European Parliament and met with MEPs to reinforce the message that priority needs to be given to the less developed regions of the EU, including those regions located in richer member states, such as west Wales and the Valleys. Many of the MEPs I met will be particularly influential in the next phase of the negotiations between the European Council, Parliament and Commission.

Ychydig cyn y Nadolig, roeddwn yn Strasbwrg yn mynychu Senedd Ewrop a chyfarfod gydag ASEau i atgyfnerthu’r neges bod angen rhoi blaenoriaeth i ranbarthau llai datblygedig yr UE, gan gynnwys y rhanbarthau hynny sydd wedi’u lleoli mewn aelod wladwriaethau cyfoethocach, fel gorllewin Cymru a’r Cymoedd. Bydd llawer o’r ASEau y gwnes i gwrdd â nhw yn arbennig o ddylanwadol yng nghyfnod nesaf y trafodaethau rhwng y Cyngor, y Senedd a’r Comisiwn Ewropeaidd.

Adequate and appropriate EU fund resources for the next seven-year funding period are critical in helping us to make a successful recovery from the recession and in continuing our transformation into a confident, ambitious and entrepreneurial Wales, with an agricultural industry that is strong, sustainable and capable of supporting vibrant rural communities across the country. Equally, we need to ensure that the resources that we receive are firmly focused on activities that can help to meet these EU and Welsh Government policies and strategies for jobs and growth.

Mae adnoddau cronfeydd UE digonol a phriodol ar gyfer y cyfnod cyllido nesaf o saith mlynedd yn hanfodol i’n helpu i wneud adferiad llwyddiannus o’r dirwasgiad, ac mewn parhau ein trawsnewidiad i Gymru hyderus, uchelgeisiol ac entrepreneuraidd, gyda diwydiant amaethyddol sy’n gryf, yn gynaliadwy ac yn gallu cynnal cymunedau gwledig bywiog ar draws y wlad. Yn yr un modd, mae angen i ni sicrhau bod yr adnoddau yr ydym yn eu derbyn yn canolbwyntio’n gadarn ar weithgareddau a all helpu i fodloni polisïau a strategaethau Llywodraeth yr UE a Chymru ar gyfer swyddi a thwf.

3.30 p.m.

The need for a stronger focus on key economic drivers is among the emerging observations of Dr Grahame Guilford’s current review of the implementation arrangements for the European structural funds programmes for 2014-20. I would like to take this opportunity to thank Dr Guilford for the progress that he has been making, and

Mae’r angen am ffocws cryfach ar sbardunau economaidd allweddol ymhlith y sylwadau sy’n dod i’r amlwg o adolygiad cyfredol Dr Grahame Guilford o’r trefniadau gweithredu ar gyfer rhaglenni cronfeydd strwythurol Ewrop ar gyfer 2014-20. Hoffwn gymryd y cyfle hwn i ddiolch i Dr Guilford am y cynnydd y mae wedi bod yn ei wneud, a

also to extend my gratitude to the partners and stakeholders who have contributed their views, time and ideas to that review. I look forward to receiving Dr Guilford's final report and recommendations in March, which will involve further research and discussions. I will ensure that his report and the supporting information are published to help inform the debate that I am announcing today.

hefyd i ddiolch i'r partneriaid a rhanddeiliaid sydd wedi cyfrannu eu barn, eu hamser a'u syniadau i'r adolygiad hwnnw. Edrychaf ymlaen at dderbyn adroddiad terfynol ac argymhellion Dr Guilford ym mis Mawrth, a fydd yn cynnwys ymchwil a thrafodaethau pellach. Byddaf yn sicrhau bod ei adroddiad a'r wybodaeth ategol yn cael eu cyhoeddi i helpu i lywio'r drafodaeth rwy'n ei chyhoeddi heddiw.

To conclude, I have previously told Members that it is my aspiration to ensure that no part of Wales should qualify for the highest level of structural funds support beyond 2020. I am pleased, therefore, that regional data that were published last month show that the gross value added for 2011 for west Wales and the Valleys, relative to the United Kingdom, is at the highest level since 1999, and that it rose between 2010 and 2011. For the common agricultural policy, my aim is to ensure that Wales continues to receive its fair share of the funding that is available under both pillars, given the challenges for Welsh agriculture and the wider rural economy.

I gloi, rwyf wedi dweud o'r blaen wrth yr Aelodau mai fy nymuniad yw sicrhau na ddylai unrhyw ran o Gymru fod yn gymwys ar gyfer y lefel uchaf o gymorth cronfeydd strwythurol y tu hwnt i 2020. Rwy'n falch, felly, bod data rhanbarthol a gyhoeddwyd fis diwethaf yn dangos bod y gwerth ychwanegol crynswth ar gyfer 2011 ar gyfer gorllewin Cymru a'r Cymoedd, o'i gymharu â'r Deyrnas Unedig, ar y lefel uchaf ers 1999, a'i fod wedi codi rhwng 2010 a 2011. Ar gyfer y polisi amaethyddol cyffredin, fy nod yw sicrhau bod Cymru yn parhau i dderbyn ei chyfran deg o'r cyllid sydd ar gael o dan y ddau biler, o ystyried yr heriau i amaethyddiaeth ac economi wledig ehangach Cymru.

Above all, my aim is to use the funds to best effect in supporting businesses and our people, and for Wales to continue to be an exemplar to other parts of the EU for the way in which we manage these EU investments. To help achieve this, I encourage everyone to engage in this public consultation on how we will invest future structural and rural development funds for jobs and growth.

Yn anad dim, fy nod yw defnyddio'r arian yn y ffordd orau mewn cefnogi busnesau a'n pobl, ac i Gymru barhau i fod yn esiampl i rannau eraill o'r UE am y ffordd yr ydym yn rheoli buddsoddiadau'r UE. Er mwyn helpu i gyflawni hyn, rwy'n annog pawb i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad cyhoeddus ar sut y byddwn yn buddsoddi arian datblygu strwythurol a gwledig yn y dyfodol ar gyfer swyddi a thwf.

**Byron Davies:** I am grateful for this statement, and I thank the Deputy Minister for it. I welcome the partnership approach that he wants to bring to the issue. I look forward to the detail about the consultation on Wales and the EU as they emerge. I strongly welcome his approach to including partners from the private and third sectors, which we have pressed for on this side of the Chamber in previous debates. Alongside the Deputy Minister, I await the decision on the EU budget. I do not wish, at this point, to reopen old debates; we do not agree on the subject of increasing the EU budget on this

**Byron Davies:** Rwy'n ddiolchgar am y datganiad hwn, a diolch i'r Dirprwy Weinidog amdano. Rwy'n croesawu'r dull partneriaeth y mae'n awyddus i'w ddefnyddio ar y mater. Rwy'n edrych ymlaen at y manylion am yr ymgynghoriad ar Gymru a'r UE wrth iddynt ymddangos. Rwy'n croesawu'n fawr ei ddull o gynnwys partneriaid o'r sectorau preifat a'r trydydd sector, yr ydym wedi pwyso amdanynt ar yr ochr hon i'r Siambr mewn dadleuon blaenorol. Ochr yn ochr â'r Dirprwy Weinidog, rwy'n aros am y penderfyniad ar gyllideb yr UE. Nid wyf yn dymuno, ar hyn

side of the Chamber, but would welcome a final agreement.

o bryd, ailagor hen ddadleuon; nid ydym yn cytuno ar y pwnc o gynyddu cyllideb yr UE ar yr ochr hon i'r Siambr, ond byddem yn croesawu cytundeb terfynol.

Before asking a few specific questions, I wish to emphasise the importance, as the Deputy Minister did, of no part of Wales qualifying for the highest level of structural funding support beyond 2020. The aspiration date for this seems to always be going backwards, but I support the Deputy Minister in this aim. We must be in do doubt as a legislature, with the new powers that we have, that there can be no more excuses. We have the tools, and we must now get on with the job, and regenerate the economies of west Wales and the Valleys.

Cyn gofyn ychydig o gwestiynau penodol, rwyf am bwysleisio pwysigrwydd, fel y gwnaeth y Dirprwy Weinidog, nad oes unrhyw ran o Gymru yn gymwys ar gyfer y lefel uchaf o gymorth cyllid strwythurol y tu hwnt i 2020. Mae'n ymddangos bod y dyddiad dyheu ar gyfer hyn bob amser yn symud yn ôl, ond rwy'n cefnogi'r Dirprwy Weinidog yn y nod hwn. Mae'n rhaid i ni fod yn sicr fel deddfwrfa, gyda'r pwerau newydd sydd gennym, na fydd unrhyw esgusodion pellach. Mae'r offer gennym, a rhaid inni bellach fwrw ymlaen â'r gwaith, ac adfywio economïau gorllewin Cymru a'r Cymoedd.

How does the Deputy Minister intend to progress the consultation in a meaningful way before agreement on the final multi-annual financial framework, as we are all unsure as to what the negotiations will draw out? It would be helpful if we could have some clarity around the process—the consultation, onto the negotiations, and then the reporting back procedure. Furthermore, what is the Deputy Minister doing to bring on board partners from the universities and the private sector?

Sut mae'r Dirprwy Weinidog yn bwriadu datblygu'r ymgynghoriad mewn ffordd ystyrlon cyn cytuno ar y fframwaith ariannol amlflwydd terfynol, gan ein bod i gyd yn ansicr ynghylch yr hyn y bydd y trafodaethau yn eu dangos? Byddai'n ddefnyddiol pe gallem gael rhywfaint o eglurder ynghylch y broses—yr ymgynghoriad, yna'r trafodaethau, ac yna'r drefn adrodd yn ôl. Ar ben hynny, beth mae'r Dirprwy Weinidog yn ei wneud i gynnwys partneriaid o'r prifysgolion a'r sector preifat?

Finally, I note that the Deputy Minister referred to the Guilford review. That is interesting in terms of the focus on key economic drivers being among the emerging observations. This will be a useful report to us, and I would urge him to distribute it on receipt, without delay.

Yn olaf, nodaf fod y Dirprwy Weinidog wedi cyfeirio at adolygiad Guilford. Mae hynny'n ddiddorol o ran bod y ffocws ar sbardunau economaidd allweddol ymhlith y sylwadau sy'n dod i'r amlwg. Bydd hwn yn adroddiad defnyddiol i ni, a byddwn yn ei annog i'w ddosbarthu ar ôl ei dderbyn, yn ddi-oed.

**Alun Davies:** I thank the Conservative spokesman for the tone and the words that he used in welcoming this statement. I think, Byron, that we share the same objective. We sometimes disagree across the Chamber on some aspects, but I believe that we share the objective of seeing Wales, and its economy and communities, succeeding and growing in the way that you have described. Like Byron, I will not seek to rehearse this afternoon some of our past—and, indeed, present—disagreements on the overall EU budget. I will simply say that the position of the Welsh

**Alun Davies:** Diolch i lefarydd y Ceidwadwyr am y cywair a'r geiriau a ddefnyddiodd wrth groesawu'r datganiad hwn. Rwy'n credu, Byron, ein bod yn rhannu'r un amcan. Rydym weithiau yn anghytuno ar draws y Siambr ar rai agweddau, ond credaf ein bod yn rhannu'r amcan o weld Cymru, a'i heconomi a'i chymunedau, yn llwyddo a thyfu yn y ffordd yr ydych wedi'i disgrifio. Fel Byron, ni fyddaf yn ceisio ymarfer y prynhawn yma rai o'n hanghytundebau yn y gorffennol—ac, yn wir, yn y presennol—ar gyllideb gyffredinol

Government is not to seek a substantial increase in the EU budget, but to ensure that we have a budget that continues funding at similar levels to today. So, the position that we have taken is one that is, in many ways, reflective of the position of many different Governments across the European Union, and one that is both realistic in terms of the wider economic situation facing Governments across the European Union and the economic and social challenges facing people, communities and businesses across that union.

yr UE. Byddaf yn dweud yn syml nad safbwynt Llywodraeth Cymru yw chwilio am gynnydd sylweddol yng nghyllideb yr UE, ond sicrhau bod gennym gyllideb sy'n parhau cyllid ar lefelau tebyg i lefelau heddiw. Felly, mae'r safbwynt a gymerwyd gennym yn un sydd, mewn sawl ffordd, yn adlewyrchu sefyllfa sawl Llywodraeth wahanol ar draws yr Undeb Ewropeaidd, ac yn un sydd yn realistig o ran y sefyllfa economaidd ehangach sy'n wynebu Llywodraethau ar draws yr Undeb Ewropeaidd a'r heriau economaidd a chymdeithasol sy'n wynebu pobl, cymunedau a busnesau ar draws yr undeb hwnnw.

In terms of how we progress the consultation without knowing the result of the MFF, you have put your finger on one of the very difficult issues that we have tussled with over the last few months. When I responded to a debate here before the Christmas recess, I said that we hoped there would be a resolution to the debates about the MFF at the end of November. That was clearly not the case although some progress was made at that council meeting. It is our hope that the discussions that are taking place at the moment, led by the Irish presidency, will bear fruit and that we will see a clear resolution of these financial issues next month. I can reassure you that we will be looking at what that means for Wales and that we will be publishing all the modelling available to us to ensure that people do appreciate and understand what these decisions mean for us in Wales. We will therefore provide as much information as we are able, to inform that debate during the consultation.

O ran sut yr ydym yn datblygu'r ymgynghoriad heb wybod canlyniad y MFF, rydych wedi rhoi eich bys ar un o'r materion anodd iawn yr ydym wedi ymlafnio ag o dros y misoedd diwethaf. Pan ymatebais i ddadl yma cyn toriad y Nadolig, dywedais ein bod yn gobeithio y byddai penderfyniad ar y dadleuon am y MFF ar ddiwedd mis Tachwedd. Roedd yn amlwg nad felly y bu er bod rhywfaint o gynnydd wedi'i wneud yn y cyfarfod hwnnw o'r cyngor. Ein gobaith yw bod y trafodaethau sy'n digwydd ar hyn o bryd, dan arweiniad llywyddiaeth Iwerddon, yn dwyn ffrwyth ac y byddwn yn gweld penderfyniad clir ar y materion ariannol y mis nesaf. Gallaf eich sicrhau y byddwn yn edrych ar beth mae hynny'n ei olygu i Gymru ac y byddwn yn cyhoeddi'r holl fodelau sydd ar gael i ni er mwyn sicrhau bod pobl yn gwerthfawrogi ac yn deall yr hyn y mae'r penderfyniadau hyn yn eu golygu i ni yng Nghymru. Byddwn felly yn darparu cymaint o wybodaeth ag y gallwn, i lywio'r ddadl yn ystod yr ymgynghoriad.

In many ways, we had a decision to take. If we want to promote the widest possible public debate on these matters, that requires time and information. Not all the information is available to us today and we do not know when it will be available to us. However, if we are to hit the ground running in January 2014 and be able to fund and deliver the programmes that we want to see delivered immediately in a year's time, we need this debate to take place now. That will ensure that we have time available to us to both develop and negotiate those programmes,

Mewn sawl ffordd, roedd gennym benderfyniad i'w wneud. Os ydym am hybu'r ddadl gyhoeddus ehangaf bosibl ar y materion hyn, mae hynny'n gofyn am amser a gwybodaeth. Nid yw'r holl wybodaeth ar gael i ni heddiw, ac nid ydym yn gwybod pryd y bydd ar gael i ni. Fodd bynnag, os ydym i ddechrau ar unwaith ym mis Ionawr 2014 a bod yn gallu ariannu a darparu'r rhaglenni yr ydym am eu gweld yn cael eu darparu ar unwaith ymhen blwyddyn, mae angen i'r ddadl hon ddigwydd yn awr. Bydd hynny'n sicrhau y bydd digon o amser ar gael

both with the United Kingdom Government and with the Commission, to ensure that we meet the deadline of the end of next year. It was very much a decision that I felt we were forced to take, notwithstanding the fact that you are absolutely correct in your assessment that we do not have all the information available to us. However, when we have it, it will certainly be published by this Government.

i ni i ddatblygu a thrafod y rhaglenni hynny, gyda Llywodraeth y Deyrnas Unedig a gyda'r Comisiwn, er mwyn sicrhau ein bod yn cyflawni'r dyddiad cau ar ddiwedd y flwyddyn nesaf. Roedd yn benderfyniad yr oeddwn yn teimlo ein bod yn gorfod ei gymryd, er gwaethaf y ffaith eich bod yn hollol gywir yn eich asesiad nad yw'r holl wybodaeth ar gael i ni. Fodd bynnag, pan fyddwn yn ei chael, bydd yn sicr yn cael ei chyhoeddi gan y Llywodraeth hon.

In terms of reporting back, I will make a further statement on these matters to the Chamber before the summer recess to ensure that you have an opportunity to question me further on these matters. Universities and the private sector have already been very closely involved in the work that has taken place within Government over the last 12 months or so, in terms of the ministerial advisory group and our work streams, developing the papers that will be published next week.

O ran adrodd yn ôl, byddaf yn gwneud datganiad pellach ar y materion hyn i'r Siambr cyn toriad yr haf i sicrhau eich bod yn cael cyfle i fy holi ymhellach ar y materion hyn. Mae prifysgolion a'r sector preifat eisoes wedi cael eu cynnwys yn agos iawn yn y gwaith sydd wedi digwydd o fewn y Llywodraeth yn ystod y 12 mis diwethaf neu, o ran y grŵp cynghori gweinidogion a'n ffrydiau gwaith, gan ddatblygu'r papurau a fydd yn cael eu cyhoeddi'r wythnos nesaf.

Finally, Presiding Officer—and thank you for your patience with my long response—

Yn olaf, Lywydd—a diolch i chi am eich amynedd gyda fy ateb hir—

**The Presiding Officer:** We have a couple more speakers yet, so you had better hurry up.

**Y Llywydd:** Mae gennym ychydig mwy o siaradwyr eto, felly, mae'n well ichi frysio.

**Alun Davies:** I will be publishing the Guilford review in full and all the supporting papers that are made available to us.

**Alun Davies:** Byddaf yn cyhoeddi adolygiad Guilford yn llawn a'r holl bapurau ategol sy'n cael eu gwneud ar gael i ni.

**Rhodri Glyn Thomas:** Croesawaf yn fawr iawn y datganiad y prynhawn yma, y bwriad i gael ymgynghoriad, a hefyd adolygiad Dr Guilford. Rydym yn edrych ymlaen yn fawr iawn at weld yr adolygiad hwnnw'n cael ei gyhoeddi, ac at weld canlyniadau'r ymgynghoriad a fydd, gobeithio, wedi annog cymaint ag sy'n bosibl o bobl i gyfrannu iddo.

**Rhodri Glyn Thomas:** I warmly welcome this afternoon's statement, the intention to carry out a consultation, and Dr Guilford's review. We very much look forward to seeing the publication of that review and look forward to seeing the outcomes of the consultation that will, we hope, have encouraged as many people as possible to contribute to it.

Roeddwn yn falch iawn i glywed y Dirprwy Weinidog yn dweud yn bendant beth oedd safbwynt y Llywodraeth hon yng nghyd-destun pa mor fuddiol yw hi i Gymru fod o fewn Ewrop, a'r modd y mae Cymru yn elwa o'r cronfeydd strwythurol ac yn gyffredinol o arian sy'n dod o Ewrop i mewn i'r economi yng Nghymru. Mae'n dda clywed hynny, a da iawn oedd clywed y Prif Weinidog yn

I was very pleased to hear the Deputy Minister saying definitely what this Government's views are in terms of how beneficial it is for Wales to be part of Europe, and how Wales benefits from structural funds and generally from the European funding that comes in to the Welsh economy. It is good to hear that, and it was very good to hear the First Minister making the same points before

gwneud yr un pwyntiau cyn y Nadolig. Yn anffodus, nid yw eich Aelodau Seneddol chi yn cytuno â'r farn honno, ac nid ydynt yn pleidleisio yn unol â'r farn honno. Byddwn yn falch o glywed eich barn ynglŷn â'r ffaith bod Aelodau Seneddol o Gymru, ac Aelodau Seneddol Llafur yn gyffredinol, wedi pleidleisio dros leihau'r gyllideb Ewropeaidd. Fel yr ydych yn ei ddweud, mae goblygiadau mawr i Gymru, nid yn unig i orllewin Cymru a'r Cymoedd, ond i Gymru gyfan. Byddai'n cael effaith andwyol ar yr economi.

Christmas. Unfortunately, your Members of Parliament do not seem to agree with that view, and they do not vote in accordance with that view. I would be grateful if you could tell us your views about the fact that Welsh MPs, and Labour MPs in general, voted for a reduction in the European budget. As you say, there are huge implications for Wales in that, not only for west Wales and the Valleys, but the whole of Wales. It would have a very detrimental effect on the economy.

Rydych hefyd yn sôn yn eich datganiad am y math o fwriadau sy'n cael eu mynegi o ran Ewrop 2020 a bwriadau'r Undeb Ewropeaidd yng nghyd-destun yr hyn sy'n digwydd yn y gwledydd a rhanbarthau o fewn yr aelod-wladwriaethau. Rydych yn gwybod, Ddirprwy Weinidog, oherwydd fy mod wedi anfon copi atoch, fy mod wedi gwneud datganiad yn Ewrop ar synergeddau rhwng y gyllideb Ewropeaidd, cyllidebau aelod-wladwriaethau a chyllidebau'r is-wladwriaeth yn ymwneud â'r gwledydd a'r rhanbarthau hynny. Sut y byddwch yn sicrhau bod yr hyn sy'n digwydd ar lawr gwlad yng Nghymru yn adlewyrchu'r hyn y mae'r Undeb Ewropeaidd yn ceisio ei gyflawni drwy Ewrop? Wrth reswm, bydd pwysau i ymateb i rai o'r argyfyngau sy'n wynebu pobl ar lawr gwlad ac i ddefnyddio'r arian i ateb problemau tymor byr yn hytrach na cheisio cyflawni'r nod tymor hir.

You also mention in your statement the aspirations that are being expressed in terms of Europe 2020 and the aspirations of the European Union in the context of what is happening in the nations and regions within member states. You know, Deputy Minister, because I have sent you a copy, that I made a statement in Europe on the synergies between the European budget, the budgets of the member states and the budgets at a sub-member-state level related to nations and regions. How will you ensure that what happens at grass roots level in Wales reflects what the European Union is trying to achieve throughout Europe? Naturally, there will be pressure to respond to some of the crises facing people at ground level and to use the funding as a solution to short-term problems rather than seeking to meet longer term aims.

Rydych yn dweud—ac, unwaith eto, nid oes modd anghytuno â chi—mai eich bwriad yw sicrhau nad yw Cymru yn gymwys i dderbyn arian strwythurol ar ôl 2020, ac rydych yn cyfeirio at yr hyn sydd wedi cael ei gyflawni hyd at 2011. Mae'n fawrfrydig ohonoch, Ddirprwy Weinidog, i gydnabod gwaith eich rhagflaenydd, a oedd yn ei swydd rhwng 2007 a 2011 ac a gyflawnodd y gwaith a arweiniodd at y cynnydd hynny. Rydym yn ddiolchgar, fel aelodau o Lywodraeth Cymru'n Un, eich bod chi'n cydnabod gwaith y Dirprwy Brif Weinidog ar y pryd o ran sicrhau hynny. Rydych hefyd yn cyfeirio at GVA fel mesurydd o'r economi. Mae hwn yn gam diddorol o ran y Blaid Lafur, oherwydd yn y 13 blynedd rwyf wedi bod yn y lle hwn, rwyf wedi clywed y Llywodraeth Lafur yn dweud yn gyson nad yw GVA yn fesurydd dibynadwy ac mai GDP yw'r unig

You say—and, once again, I cannot disagree with you—that it is your intention to ensure that Wales does not qualify for another round of structural funds post 2020, and you referred to what was achieved prior to 2011. I am grateful to you, Deputy Minister, for recognising the work of your predecessor, who was in post between 2007 and 2011, who did the work that led to that progress. We are grateful, as members of the One Wales Government, that you do acknowledge the work of the Deputy First Minister at the time in ensuring that. You also referred to GVA as a measure of the economy. This is an interesting step for the Labour Party because in the 13 years that I have been here, I have heard the Labour Government regularly and consistently telling us that GVA is not a reliable indicator and that GDP is the only indicator that we should use. Does this mean

fesurydd y dylwn ei ddefnyddio. A yw hyn yn golygu bod newid bellach a'ch bod yn derbyn bod GVA yn adlewyrchu'r hyn sy'n digwydd yn yr economi ac o ran swyddi?

that there has been a change and that you do accept that GVA reflects what is happening within the economy and in terms of jobs?

Rwy'n hapus iawn, Ddirprwy Weinidog, i fod yn gadarnhaol ac yn gefnogol ar hyn o bryd. Byddwn yn edrych, ar ddiwedd y broses ymgynghori, ar y casgliadau a'r ymateb i adolygiad Dr Guilford, ond yr hyn sy'n bwysig yw ein bod yn manteisio ar ein safle yn Ewrop i wneud Cymru, sy'n wlad fach, yn wlad sy'n gallu chwarae ei rhan yn Ewrop ac sy'n gallu datblygu yn llewyrchus yn economaidd ac yn gymunedol o ganlyniad i'w haelodaeth o'r Undeb Ewropeaidd.

I am pleased, Deputy Minister, to be positive and supportive at the moment. We will look, at the end of the consultation process, at the outcomes and the response to Dr Guilford's review, but what is important is that we take advantage of our position within Europe in order to make Wales, which is a small nation, a nation that can play its part in Europe and that can develop prosperously in terms of its economy and communities as a result of its membership of the European Union.

**Alun Davies:** Diolch yn fawr ichi am eich geiriau. Mae'n rhaid i mi hefyd gymryd y cyfle y prynhawn yma i groesawu eich gwaith fel rhan o Bwyllgor y Rhanbarthau. Rwy'n gwybod bod eich gwaith yn cael ei barchu gan y pwyllgor a bod gwaith y pwyllgor yn adlewyrchu eich cyfraniad chi. Rwy'n gwybod bod hynny yn rhywbeth sy'n hynod o bwysig i ni fel Cymry.

**Alun Davies:** Thank you very much for your contribution. I must also take this opportunity this afternoon to welcome your work as a member of the Committee of the Regions. I know that your work is respected by the committee and that the work of the committee reflects your contribution. I know that that is something that is very important to us as Welsh people.

Rwy'n cytuno gyda'r dadansoddiad yr ydych wedi ei wneud y prynhawn yma. Mae'n glir bod y berthynas rhwng Cymru a'r Undeb Ewropeaidd yn bwysig. Rwyf wedi trio pwysleisio hynny yn y dogfennau, yn eu tôn, ac yn y ffordd yr wyf wedi eu cyflwyno. Rwyf wedi trafod y ffordd rydym yn hyrwyddo'r drafodaeth hon yng Nghymru, ac rwyf wedi defnyddio'r geiriau 'partneriaeth rhwng Cymru a'r Undeb Ewropeaidd' a 'phartneriaeth er mwyn sicrhau twf economaidd a chreu swyddi ledled y wlad'. Mae hynny'n bwysig oherwydd ei fod yn adlewyrchu'r fath o berthynas yr ydym am ei gweld rhwng Cymru a'r Undeb Ewropeaidd. Credaf ein bod yn cytuno ar y mater o gyllideb yr Undeb Ewropeaidd. Byddaf yn ailadrodd yr hyn a ddywedais yn fy nghyfraniad agoriadol y prynhawn yma: byddwn yn cyhoeddi'r wybodaeth a fydd gennym pan fyddwn yn gwybod beth fydd cyllideb newydd yr Undeb Ewropeaidd, a byddwn yn cyhoeddi'r effaith y bydd hynny yn ei gael ar Gymru ac ar gymunedau ar draws y wlad.

I agree with the analysis that you have put forward this afternoon. It is clear that the relationship between Wales and the European Union is important. I have tried to emphasise that in the documents, in their tone, and in the way that I have presented them. I have discussed the way in which we are promoting this discussion in Wales, and I have used the words 'partnership between Wales and the European Union' and 'a partnership in order to ensure economic growth and to create jobs across the country'. That is important because it reflects the type of relationship that we want to see between Wales and the European Union. I think that we are agreed on the matter of the European Union budget. I will repeat what I said in my opening contribution this afternoon: we will publish the information that we have when we know what the European Union's new budget will be, and we will publish the effect that that will have on Wales and on communities across the country.

3.45 p.m.

Rydych yn cwestiynu sut yr ydym yn mynd i sicrhau bod y rhaglenni'n adlewyrchu strategaeth Ewrop 2020. Byddem yn sichrau bod pennod Cymru yng nghytundeb partneriaeth y Deyrnas Unedig a fydd yn adlewyrchu ein rôl fel Llywodraeth a sefyllfa gyfansoddiadol y Deyrnas Unedig. Felly, byddem yn gobeithio, drwy hynny, sicrhau bod gennym raglenni fydd yn adlewyrchu rhaglen ac athroniaeth y Llywodraeth hon yng Nghymru fel rhan o gytundeb a rhaglen y Deyrnas Unedig. Byddaf, i ail-adrodd eto, yn sicrhau bod adolygiad Guilford yn cael ei gyhoeddi'n llawn. Gobeithiaf y bydd hynny yn cael ei wneud ar ddechrau mis Mawrth. Mawr obeithiaf y bydd hynny wedyn nid yn unig yn helpu cynnig gwybodaeth ar gyfer y drafodaeth fydd yn digwydd bryd hynny ond hefyd yn helpu pobl i ddod i gasgliadau ar sut i weithredu'r rhaglenni a fydd gennym yr amser hwn flwyddyn nesaf.

You question how we are going to ensure that the programmes reflect the Europe 2020 strategy. We will ensure that there is a Wales chapter in the United Kingdom partnership document that reflects our role as a Government and the constitutional position of the United Kingdom. Therefore, I would hope, through that, to ensure that we have programmes that reflect the programme and philosophy of this Government in Wales as part of the agreement and programme of the UK. I will, to reiterate, ensure that the Guilford review will be published in full. I hope that that will be at the beginning of March. I very much hope that that then will not only help to provide information for the discussion that will be going on at that time but also help people to come to conclusions about how to implement the programmes that we will have this time next year.

**Mark Drakeford:** Minister, the programme monitoring committee that oversees the current round of European funding has been strongly supportive of your determination to ensure that we are able to begin the next round of funding in January next year. However, Members were sufficiently concerned at our meeting in December to ask me to write to you on two matters that lie beyond the control of the Welsh Government. You have dealt this afternoon with issues to do with the budget, and, in your answer to Rhodri Glyn Thomas, you referred to the UK partnership agreement. Can you confirm that the Welsh programmes cannot be formally approved by the European Commission until that UK partnership agreement is reached? Are you concerned that the timetable for concluding that agreement appears to be slipping, and what steps are you able to take to impress on the UK Government the necessity to deploy the necessary pace and pressure to ensure that Welsh programmes are not delayed by the time taken at UK level, which would stand in the way of our implementing programmes in January next year?

**Mark Drakeford:** Weinidog, mae'r pwyllgor monitro rhaglenni sy'n goruchwylio'r rownd bresennol o gyllid Ewropeaidd wedi bod yn gefnogol iawn i'ch penderfyniad i sicrhau ein bod yn gallu cychwyn y rownd nesaf o gyllid ym mis Ionawr y flwyddyn nesaf. Fodd bynnag, roedd yr Aelodau'n pryderu digon yn ein cyfarfod ym mis Rhagfyr i ofyn i mi ysgrifennu atoch ar ddau fater sydd y tu hwnt i reolaeth Llywodraeth Cymru. Rydych wedi delio'r prynhawn yma â materion sy'n ymwneud â'r gyllideb, ac, yn eich ateb i Rhodri Glyn Thomas, cyfeiriasoch at gytundeb partneriaeth y DU. A allwch chi gadarnhau na all y Comisiwn Ewropeaidd gymeradwyo rhaglenni Cymru tan fydd cytundeb partneriaeth y DU yn cael ei wneud? A ydych chi'n pryderu bod yr amserlen ar gyfer terfynu'r cytundeb yn ymddangos i fod yn llithro, a pha gamau allwch chi eu cymryd i bwysleisio ar Lywodraeth y DU yr angen i ddefnyddio'r cyflymder a'r pwysau angenrheidiol i sicrhau nad yw rhaglenni Cymru'n cael eu hoedi gan yr amser a gymerir ar lefel y DU, a fyddai'n ein rhwystro rhag gweithredu rhaglenni ym mis Ionawr y flwyddyn nesaf?

**Alun Davies:** I hope that that will not be the case. I have received your letter and I will be responding formally to you and the PMC. I am grateful to the PMC for the work it did

**Alun Davies:** Rwy'n gobeithio na fydd hynny'n digwydd. Rwyf wedi derbyn eich llythyr, a byddaf yn ymateb yn ffurfiol i chi a Phwyllgor Monitro'r Rhaglen. Rwy'n

and does. The debate that it had in December was certainly useful to us in developing our position. On the budget, we have communicated clearly our concerns to the United Kingdom Government about its current negotiating position. We have also communicated very clearly to the United Kingdom Government that it is possible for it to achieve its negotiating objectives while, at the same time, not damaging the financing and funds that are available to Wales. I have spoken at length to UK Government departments about that and I have communicated to the Foreign Office and, for that matter, to the Foreign Secretary that it is possible for the UK Government to pursue its own negotiating position while, at the same time, protecting the interests of Wales. We will continue to do that and to work closely with the United Kingdom Government to ensure that, as these negotiations are pursued over the coming weeks and months, the Welsh position is acknowledged and protected.

ddiolchgar i'r PMC am y gwaith a wnaeth ac y mae yn ei wneud. Mae'r ddadl a gafodd ym mis Rhagfyr yn sicr yn ddefnyddiol i ni i ddatblygu ein sefyllfa. O ran y gyllideb, rydym wedi cyfleu yn glir ein pryderon i Lywodraeth y Deyrnas Unedig am ei sefyllfa negodi ar hyn o bryd. Rydym wedi cyfleu yn glir iawn i Lywodraeth y Deyrnas Unedig hefyd ei bod yn bosibl iddi gyflawni ei hamcanion negodi tra, ar yr un pryd, yn peidio â gwneud drwg i'r ariannu a'r cyllid sydd ar gael i Gymru. Rwyf wedi siarad yn helaeth ag adrannau Llywodraeth y DU ynghylch hynny ac rwyf wedi cyfleu i'r Swyddfa Dramor ac, o ran hynny, i'r Ysgrifennydd Tramor ei bod yn bosibl i Lywodraeth y DU ddilyn ei sefyllfa negodi ei hun, ac ar yr un pryd, ddiogelu buddiannau Cymru. Byddwn yn parhau i wneud hynny ac i weithio'n agos gyda Llywodraeth y Deyrnas Unedig i sicrhau, tra bod y trafodaethau'n mynd ymlaen yn ystod yr wythnosau a'r misoedd nesaf, bod sefyllfa Cymru'n cael ei chydnabod a'i diogelu.

In terms of the wider issues about the development of the programmes, in response to Byron Davies's comments earlier I referred to the discussion that we had within Government about the timing of this consultation. We are anxious to both ensure that there is a wide and informed public debate on these matters while, at the same time, ensuring that we have sufficient time following that public debate to deliver and develop the programmes as a consequence. Our programmes will form part of the overall UK programme itself. As I indicated to Rhodri Glyn Thomas, my expectation is that Wales and the other devolved administrations will have their own chapters in that partnership document and that we will have the opportunity in that chapter to outline how we see the programmes developing in Wales. We are working hard to deliver and develop those programmes according to the timetables that we have available to us. I can only hope and trust that the United Kingdom Government is doing so for England and that it will be able to meet the deadlines that we have set ourselves. The relationship with the UK Government on these matters is very good and very positive, and we are working very closely together to ensure that we are both able to meet our objectives of having

O ran y materion ehangach am ddatblygiad y rhaglenni, mewn ymateb i sylwadau cynharach Byron Davies cyfeiriais at y drafodaeth a gawsom o fewn y Llywodraeth am amseriad yr ymgynghoriad hwn. Rydym yn awyddus ill dau i sicrhau bod trafodaeth eang a gwybodus gyhoeddus ar y materion hyn, ac ar yr un pryd, sicrhau bod gennym ddigon o amser yn dilyn y ddadl gyhoeddus honno i gyflwyno a datblygu'r rhaglenni o ganlyniad. Bydd ein rhaglenni yn ffurfio rhan o raglen gyffredinol y DU ei hun. Fel y dywedais wrth Rhodri Glyn Thomas, rwy'n disgwyl y bydd Cymru a'r gweinyddiaethau datganoledig eraill yn cael eu penodau eu hunain yn y ddogfen bartneriaeth ac y bydd gennym y cyfle yn y bennod honno i amlinellu sut yr ydym yn gweld y rhaglenni'n datblygu yng Nghymru. Rydym yn gweithio'n galed i ddarparu a datblygu'r rhaglenni hynny yn ôl yr amserlenni sydd ar gael i ni. Ni allaf ond gobeithio a hyderu bod Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn gwneud hynny ar gyfer Lloegr ac y bydd yn gallu bodloni'r terfynau amser a osodwyd gennym ni ein hunain. Mae'r berthynas gyda Llywodraeth y DU ar y materion hyn yn dda iawn ac yn gadarnhaol iawn, ac rydym yn gweithio'n agos iawn gyda'n gilydd i sicrhau ein bod yn gallu cyflawni ein hamcanion o

programmes up and running in January 2014.

gael rhaglenni wedi'u sefydlu ac ar waith ym mis Ionawr 2014.

**Eluned Parrott:** I thank the Minister for his statement and also for this afternoon's briefing with his staff. You note in your statement the benefit of working together to make the best possible case for Wales's needs. I recognise that, and I hope that we will be able to work constructively across parties not only to represent Wales's interests to UK and EU colleagues, but also in developing a viable set of proposals for the next round of funding so that we can have some sense of agreement here about what we are trying to achieve. I think that there is a lot of agreement on what we are trying to achieve—it is just a question of arguing over the details of how we get there.

**Eluned Parrott:** Diolch i'r Gweinidog am ei ddatganiad a hefyd am y briffio'r prynhawn yma gyda'i staff. Nodwch yn eich datganiad y fantais o weithio gyda'n gilydd i wneud yr achos gorau posibl ar gyfer anghenion Cymru. Rwy'n cydnabod hynny, ac rwy'n gobeithio y byddwn yn gallu gweithio'n adeiladol ar draws y pleidiau, nid yn unig i gynrychioli buddiannau Cymru i gydweithwyr y DU a'r UE, ond hefyd i ddatblygu set hyfyw o gynigion ar gyfer y rownd nesaf o gyllid fel y gallwn gael rhywfaint o syniad o gytundeb yma am yr hyn yr ydym yn ceisio ei gyflawni. Credaf fod llawer o gytundeb ar yr hyn yr ydym yn ceisio ei gyflawni—mae'n fater o ddadlau ynghylch manylion sut i gyrraedd yno.

I have a couple of specific questions with regards to the consultation itself. We will be very happy to engage with that consultation as you requested, and we will encourage others to do so. However, I would like to query the detail a little, because the effectiveness of that process is very dependent upon how well the consultation is framed and led. Can you clarify whether the consultation papers will present options to compare and discuss different ways forward, or will it be more open than that? Will you be inviting ideas to the table? Either approach has its merits, but, if it is the latter, can you clarify whether there will be an opportunity for partners and the public, and specifically for this Assembly, to discuss the outline proposals that are developed before they go to Brussels for negotiation? While I can understand why you would not want to open up another massive piece of work for a second round of consultation, gaining the full support of this Assembly for your proposals will surely strengthen your hand in any negotiations that you have with others.

Mae gennyf ychydig o gwestiynau penodol mewn perthynas â'r ymgynghoriad ei hun. Byddwn yn hapus iawn i ymgysylltu â'r ymgynghoriad hwnnw fel y gwnaethoch ofyn, a byddwn yn annog eraill i wneud hynny. Fodd bynnag, hoffwn holi ychydig am y manylion, oherwydd bod effeithiolrwydd y broses yn ddibynnol iawn ar ba mor dda y mae'r ymgynghoriad yn cael ei fframio a'i arwain. A allwch chi egluro a fydd y papurau ymgynghori yn cyflwyno opsiynau i gymharu a thrafod gwahanol ffyrdd ymlaen, neu a fydd yn fwy agored na hynny? A fyddwch chi'n gwahodd syniadau i gael eu cyflwyno? Mae gan y ddau ddull eu rhinweddau, ond, os mai'r olaf a ddefnyddir, a allwch chi egluro a fydd cyfle i bartneriaid a'r cyhoedd, ac yn benodol i'r Cynulliad hwn, i drafod y cynigion amlinellol sy'n cael eu datblygu cyn iddynt fynd i Frwsel ar gyfer negodi? Er y gallaf ddeall pam na fyddech am ddechrau darn arall enfawr o waith ar gyfer ail rownd o ymgynghori, bydd ennill cefnogaeth lawn y Cynulliad hwn ar gyfer eich cynigion yn sicr o gryfhau eich llaw mewn unrhyw drafodaethau a gewch gydag eraill.

I look forward to seeing the Guilford review and to having the opportunity to discuss how different funding streams could be used more effectively in tandem. I hope that we can find a way of doing that collaboratively, because I think that there are some really exciting

Edrychaf ymlaen at weld adolygiad Guilford, ac i gael y cyfle i drafod sut y gellid defnyddio gwahanol ffrydiau cyllid yn fwy effeithiol ar y cyd. Rwy'n gobeithio y gallwn ddod o hyd i ffordd o wneud hynny ar y cyd, oherwydd credaf fod rhai cyfleoedd cyffrous

opportunities to use Wales's existing research excellence. I would be interested to see what examples are being looked at for inspiration in terms of places that are using such things as EU research funding more successfully.

iawn i ddefnyddio rhagoriaeth ymchwil Cymru sy'n bodoli eisoes. Byddai gennyf ddiddordeb i weld pa enghreifftiau sy'n cael eu hystyried am ysbrydoliaeth o ran mannau sy'n defnyddio pethau fel cyllid ymchwil yr UE yn fwy llwyddiannus.

Finally, congratulations on the improvement in relative gross value added per capita. I have always thought that that was an important measure, Deputy Minister, and, while time will tell whether or not this is the start of spring, I would rather see one swallow than none.

Yn olaf, llongyfarchiadau ar y gwelliant mewn gwerth ychwanegol crynswth cymharol y pen. Rwyf wedi meddwl erioed bod hynny'n fesur pwysig, Ddirprwy Weinidog, ac, er mai amser a ddengys ai dyma yw dechrau'r gwanwyn, byddai'n well gennyf weld un wennol na dim un.

**Alun Davies:** I suppose that that is as close as it comes to a positive endorsement of our work as we will ever have, and I am grateful to you for it. In terms of taking all these matters forward, Eluned, I do seek the cross-party agreement and consensus across this Chamber that you describe in your questions. It is important, clearly, not to paper over disagreements—there is no value to that—but it is also important for us to recognise the objectives that we share, as I outlined to our Conservative colleagues earlier, and that we want to achieve very similar things for the communities that we represent.

**Alun Davies:** Mae'n debyg mai dyna cyn agosed ag y daw byth at gael cefnogaeth gadarnhaol i'n gwaith, ac rwy'n ddiolchgar i chi am hynny. O ran datblygu'r holl faterion hyn, Eluned, rwy'n ceisio'r cytundeb a'r consensws trawsbleidiol ar draws y Siambr hon yr ydych yn ei ddisgrifio yn eich cwestiynau. Mae'n bwysig, yn amlwg, i beidio â chuddio anghytundebau—nid oes unrhyw werth yn hynny—ond mae hefyd yn bwysig i ni gydnabod yr amcanion yr ydym yn eu rhannu, fel yr amlinellais i'n cydweithwyr Ceidwadol yn gynharach, a'n bod am gyflawni pethau tebyg ar gyfer y cymunedau yr ydym yn eu cynrychioli.

*Daeth y Dirprwy Lywydd (David Melding) i'r Gadair am 3.53p.m.*
*The Deputy Presiding Officer (David Melding) took the Chair at 3.53 p.m.*

In terms of doing so, you are right that we do not want to extend consultation in a way that means that it is all talk and no action; we need to ensure that we have consultation that is structured and informed and that then enables us to move forward with decision making following that consultation. I give you an undertaking that the results of the consultation will be published, and that I will come here to make a further oral statement following the end of that consultation and prior to our officials negotiating with the UK Government and the European Commission on these matters. So, we will have a further opportunity to discuss the conclusions of the consultations and the decisions that I will take following that consultation. That will certainly be in place.

O ran gwneud hynny, rydych yn iawn nad ydym am ymestyn yr ymgynghori mewn modd sy'n golygu mai dim ond siarad a geir a dim gweithredu; mae angen inni sicrhau bod gennym ymgynghoriad sy'n cael ei strwythuro a'i lywio a'i fod wedyn yn ein galluogi i symud ymlaen gyda gwneud penderfyniadau yn dilyn yr ymgynghoriad hwnnw. Rwyf yn rhoi addewid ichi y bydd canlyniadau'r ymgynghoriad yn cael eu cyhoeddi, ac y byddaf yn dod yma i wneud datganiad llafar pellach yn dilyn diwedd yr ymgynghori hwnnw a chyn i'n swyddogion negodi gyda Llywodraeth y DU a'r Comisiwn Ewropeaidd ar y materion hyn . Felly, bydd gennym gyfle pellach i drafod casgliadau'r ymgynghoriadau a'r penderfyniadau y byddaf yn eu cymryd yn dilyn yr ymgynghoriad hwnnw. Bydd hynny yn bendant ar waith.

In terms of the nature of the consultation itself, I referred at the beginning of my statement this afternoon to the statement that I made last May, which I made in order to outline the principles and priorities that would underpin and drive both the structural funds and rural development programmes. So, we were very clear about the philosophical structure that we wanted for these programmes, but also about the policy objectives that we have for all of the strategic framework programmes. So, we will ask people to develop and design programmes that fulfil those objectives and are underpinned by those principles.

O ran natur yr ymgynghoriad ei hun, cyfeiriais ar ddechrau fy natganiad y prynhawn yma at y datganiad a wneuthum fis Mai diwethaf, a wnes er mwyn amlinellu'r egwyddorion a'r blaenoriaethau a fyddai'n ategu ac yn sbarduno'r cronfeydd strwythurol a'r rhaglenni datblygu gwledig. Felly, roeddem yn glir iawn ynghylch y strwythur athronyddol yr oeddem ei eisiau ar gyfer y rhaglenni hyn, ond hefyd ynglŷn â'r amcanion polisi sydd gennym ar gyfer yr holl raglenni fframwaith strategol. Felly, byddwn yn gofyn i bobl i ddatblygu a dylunio rhaglenni sy'n cyflawni'r amcanion hynny ac sy'n cael eu tanategu gan yr egwyddorion hynny.

In closing, you asked whether we will be looking at other places in the EU where these programmes have been used successfully. Eluned, Wales is one of those places. I know that we have often disagreed on that, but if you look at the evidence given by the European Commission to a number of different groups and committees here, it has been consistent in its praise of the way in which European programmes and funding streams have been developed and delivered in Wales. It has also been consistent in holding Wales up as an exemplar territory for others to follow. I hope that in 2014 and 2020, we will not only maintain that reputation in Europe but also achieve the policy objectives that we have set ourselves.

Wrth gloi, gofynasoch a fyddwn yn edrych ar fannau eraill yn yr UE lle mae'r rhaglenni wedi cael eu defnyddio'n llwyddiannus. Eluned, mae Cymru yn un o'r mannau hynny. Gwn ein bod wedi anghytuno yn aml ar hynny, ond os edrychwch ar y dystiolaeth a roddwyd gan y Comisiwn Ewropeaidd i nifer o wahanol grwpiau a phwyllgorau yma, mae wedi bod yn gyson yn ei ganmoliaeth i'r ffordd y mae rhaglenni Ewropeaidd a ffrydiau ariannu yn cael eu datblygu a'u darparu yng Nghymru. Mae hefyd wedi bod yn gyson yn dal Cymru fel tiriogaeth batrwm i eraill ei dilyn. Gobeithio yn 2014 a 2020, y byddwn nid yn unig yn cynnal yr enw da hwnnw yn Ewrop, ond hefyd yn cyflawni'r amcanion polisi yr ydym wedi'u gosod inni'n hunain.

**Mark Isherwood:** I have just one question. You refer in your statement to uncertainty over funding in eastern Wales. Last June, when we had discussions in Brussels, we were advised that, at that point, the European Commission was considering having an intermediate structural funding eligibility—up to 90% of average European GDP per capita—but that eastern Wales, as a sub-region, would include Wrexham and Flintshire and go down to Cardiff and the Vale. Cardiff and the Vale have above average GDP per capita, but north-east Wales has slipped down into percentages in the 80s. What discussions have you had to protect the north-east from the averaging impact of being lumped in with the south-east?

**Mark Isherwood:** Mae gennyf un cwestiwn. Cyfeiriwch yn eich datganiad at ansicrwydd ynghylch cyllid yn nwyrain Cymru. Fis Mehefin diwethaf, pan gawsom drafodaethau ym Mrwsel, cawsom wybod, ar yr adeg honno, bod y Comisiwn Ewropeaidd yn ystyried cael cymhwyster cyllid strwythurol canolradd—i fyny at 90% o gyfartaledd CMC Ewrop y pen—ond y byddai dwyrain Cymru, fel is-ranbarth, yn cynnwys Wrecsam a Sir y Fflint ac yn mynd i lawr at Gaerdydd a'r Fro. Mae gan Gaerdydd a'r Fro CMC cyfartalog uwch y pen, ond mae gogledd-ddwyrain Cymru wedi llithro i lawr i ganrannau yn yr 80au. Pa drafodaethau ydych chi wedi'u cael i amddiffyn y gogledd-ddwyrain rhag yr effaith cyfartalog o gael eu trin gyda'i gilydd â'r de-ddwyrain?

**Alun Davies:** I could ask you what discussions you have had with your colleagues in the UK Government to protect Wales from the budget negotiations that it has been leading. I have to say to you, Mark, that we have been very clear in our objectives in terms of budget negotiations—the multiannual financial framework—and the way in which those budgets are then allocated subject to the overall allocations.

**Alun Davies:** Gallwn ofyn i chi pa drafodaethau yr ydych wedi'u cael gyda'ch cydweithwyr yn Llywodraeth y DU i amddiffyn Cymru rhag y trafodaethau ar y gyllideb y mae wedi bod yn eu harwain. Rhaid i mi ddweud wrthych, Mark, ein bod wedi bod yn glir iawn yn ein hamcanion o ran trafodaethau cyllideb—y fframwaith ariannol amlflwydd—a'r ffordd y mae'r cyllidebau hynny yn cael eu dyrannu wedyn yn amodol ar y dyraniadau cyffredinol.

There is a very real threat to the sort of funding levels that we have received in Wales over the last few years. As I said in my statement, we could see cuts of up to a quarter to structural funds programmes and up to 10% in CAP receipts. That would be a substantial reduction in our ability to invest across some of the poorest and most vulnerable communities up and down Wales. I hope, Mark, that you will join us and support our negotiating position and write to the UK Government to ask it to support the Welsh national interest in its negotiations with Brussels and the way in which it delivers those negotiations.

Mae bygythiad go iawn i'r math o lefelau cyllid yr ydym wedi eu derbyn yng Nghymru dros y blynyddoedd diwethaf. Fel y dywedais yn fy natganiad, gallem weld toriadau o hyd at chwarter i raglenni cronfeydd strwythurol a hyd at 10% mewn derbyniadau CAP. Byddai hynny'n ostyngiad sylweddol yn ein gallu i fuddsoddi ar draws rhai o'r cymunedau tlotaf a mwyaf agored i niwed ar hyd a lled Cymru. Rwy'n gobeithio, Mark, y byddwch yn ymuno â ni ac yn cefnogi ein sefyllfa negodi ac yn ysgrifennu at Lywodraeth y DU i ofyn iddi gefnogi budd cenedlaethol Cymru yn ei thrafodaethau â Brwsel a'r ffordd y mae'n darparu'r trafodaethau hynny.

**Yr Arglwydd Elis-Thomas:** Mae'r Gweinidog yn hollol gywir: mae canmoliaeth, yn enwedig gan swyddogion Comisiwn yr Undeb Ewropeaidd, am y ffordd mae Llywodraeth Cymru yn gwario'r cyllid.

**Lord Elis-Thomas:** The Minister is quite right: there is praise, particularly from European Union Commission officials, for the way that the Welsh Government spends the funds.

Fodd bynnag, mewn sefyllfa o wasgfa ar gyllidebau, mae cyfle inni wneud yn well. A fyddai'r Dirprwy Weinidog yn cytuno felly ei bod yn allweddol bwysig bod y cronfeydd hyn sydd yn cael eu cynnig i ni yn cael eu trafod gyda'i gilydd a bod cydgynllunio gwell ar eu gwario? Cyfeiriaf nid dim ond at y cronfeydd strwythurol, ond at y gronfa datblygu wledig ac at y cronfeydd nad ydynt yn dod yn uniongyrchol trwyddo fe, sef y cronfeydd morol a physgodfeydd. Buaswn yn pwyso ar y Dirprwy Weinidog i drafod gyda Llywodraeth y DU i sicrhau ein bod yn cael gafael ar y dosbarthiad yn y fan honno hefyd er mwyn gwneud y gwariant yn fwy effeithiol.

However, in a situation of budgetary pressure, there is an opportunity for us to do better. Would the Deputy Minister therefore agree that is it is crucial that these funds that are provided to us are discussed as a whole and that there should be better joint planning of their expenditure? I refer not only to the structural funds, but the rural development fund and the other funds that do not come directly through him, namely the marine and fisheries funds. I would urge the Deputy Minister to discuss with the UK Government to ensure that we get to grips with allocation there too in order to make the expenditure more effective.

I ymateb i'w her, cyn belled ag yr wyf fi ac

To respond to his challenge, as far as I,

aelodau fy mhlaid ac aelodau'r ddau bwyllgor rwy'n ymwneud â hwy yn y cwestiwn, rydym yn ymateb yn bositif iawn i'w wahoddiad i gymryd rhan yn y broses.

members of my party and members of the two committees that I am involved with are in the question, we respond very positively to his invitation to take part in the process.

**Alun Davies:** Diolch yn fawr, Dafydd. Rwy'n falch iawn o glywed y sylwadau hynny.

**Alun Davies:** Thank you, Dafydd. I am very pleased to hear those comments.

Mae'n bwysig ein bod yn trafod y cronfeydd gwahanol gyda'n gilydd. Dyna pam rydym yn datgan heddiw ein bod yn cynnal proses o ymgynghori ar y cronfeydd strwythurol ac ar y gronfa datblygu gwledig ar yr un pryd. Dyma'r tro cyntaf i hynny ddigwydd. Rydym wedi bod yn trafod mewn pwyllgorau a mannau eraill—fel rydych yn gwybod—integreiddio'r gwahanol gronfeydd. Dyna pam rydym yn ymgynghori ar y cronfeydd gyda'i gilydd ar hyn o bryd a dyna'r hyn rydym eisiau ei weld a diben ein gwaith yn ystod y blynyddoedd nesaf. Rydym wedi bod yn trafod a chydweithio â Llywodraeth y DU a'r Comisiwn i sicrhau bod y rheolau sy'n cael eu cytuno cyn diwedd y chwe mis nesaf, gobeithio, yn ein galluogi i wneud hynny. Ar hyn o bryd, mae'r ffordd mae'r ddeddfwriaeth wedi'i hysgrifennu yn golygu bod cydweithio ac integreiddio'r rhaglenni gwahanol yn anodd iawn. Rydym yn mawr obeithio fod y gwaith rydym wedi'i wneud wedi symleiddio hynny ac wedi galluogi'r broses o integreiddio i ddigwydd. Mae hynny'n rhan o'n diben ni, ond rwy'n gobeithio y bydd yn rhan o ganlyniadau'r trafodaethau Ewropeaidd sy'n digwydd ar hyn o bryd.

It is important that we discuss the various funds together. That is why we are stating today that we are carrying out a consultation process on the structural funds and the rural development fund at the same time. That is the first time for that to happen. We have been discussing in committees and elsewhere—as you know—integrating the various funds. That is why we are consulting on the funds together at the moment and that is what we want to see and the aim of our work over the next few years. We have been discussing and collaborating with the UK Government to ensure that the rules that are agreed before the end of the next six months, hopefully, enable us to do so. At present, the way that the legislation has been drawn up means that it is very difficult to work together and to integrate the various programmes. We greatly hope that the work that we have undertaken has simplified that and has facilitated the process of integration. That is part of our aim, but I hope that it will be part of the outcomes of the discussions that are happening at a European level at the moment.

4.00 p.m.

Nid oes gennym y grym yn y fan hon i wneud y penderfyniadau rydych wedi'u trafod ar y gronfa forol. Dyna pam y byddwn yn ymgynghori ar hynny nes ymlaen yn y flwyddyn. Rwy'n gobeithio gwneud datganiad yn y fan hon o gwmpas y Pasg ar y strategaeth pysgodfeydd, ac wedyn cawn y fath o drafodaeth a awgrymwyd gennych y prynhawn yma. Fodd bynnag, rydym yn bendant eisiau gweld y rhaglenni datblygu gwledig a'r cronfeydd strwythurol yn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau'r effaith mwyaf posibl ar yr economi ac ar gymunedau ar draws y wlad.

We do not have the power here to take the decisions that you have mentioned on the marine fund. That is why we will consult on that later on in the year. I hope that I will be able to make a statement here around Easter time in relation to the fisheries strategy, and then we will have the type of discussion that you have mentioned this afternoon. However, we would certainly like to see the rural development programmes and the structural funds working together to secure the greatest possible impact on the economy and communities across the country.

## Datganiad: Ailddechrau Defnyddio Eiddo Gwag: Cynllun Troi Tai'n Gartrefi
## Statement: Bringing Empty Properties Back into Use: the Houses into Homes Initiative

**The Minister for Housing, Regeneration and Heritage (Huw Lewis):** I have mentioned on many occasions my commitment to tackling the problem of empty properties and I know that this issue is regarded as being important by many Members. We know that increasing the supply of housing is becoming increasingly challenging. Despite our investment over the last two years, the impact of the UK Government's fiscal policies on the economy, the cuts to public spending and the changes to housing benefit will all place an even greater strain on our ability to match supply with demand.

**Y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth (Huw Lewis):** Rwyf wedi sôn ar sawl achlysur am fy ymrwymiad i fynd i'r afael â'r broblem o eiddo gwag a gwn fod nifer o Aelodau yn ystyried y mater hwn yn bwysig. Rydym yn gwybod bod cynyddu'r cyflenwad o dai yn dod yn fwyfwy heriol. Er gwaethaf ein buddsoddiad dros y ddwy flynedd diwethaf, bydd effaith polisïau ariannol Llywodraeth y DU ar yr economi, y toriadau mewn gwariant cyhoeddus a'r newidiadau i fudd-dal tai i gyd yn rhoi mwy o straen hyd yn oed ar ein gallu i gyfateb cyflenwad â'r galw.

In that context, I told the Chamber last year that we could not ignore the 23,000 homes that were standing empty across Wales. Those homes are needed to house Welsh families and they need to be brought back into use to improve the communities in which they exist. That is why, last year, I introduced the Welsh Government's new recyclable loan fund, Houses into Homes, and I thought that the start of the new year would be a good opportunity to tell everyone how well the initiative is progressing.

Yn y cyd-destun hwnnw, dywedais wrth y Siambr y llynedd nad oeddem yn gallu anwybyddu'r 23,000 o gartrefi a oedd yn sefyll yn wag ledled Cymru. Mae angen y cartrefi hyn i gartrefu teuluoedd yng Nghymru ac mae angen iddynt gael eu dwyn yn ôl i ddefnydd i wella'r cymunedau lle maent yn bodoli. Dyna pam, y llynedd, y cyflwynais gronfa benthyciadau ailgylchadwy newydd Llywodraeth Cymru, Troi Tai'n Gartrefi, ac rwy'n meddwl y byddai dechrau'r flwyddyn newydd yn gyfle da i ddweud wrth bawb pa mor dda y mae'r fenter yn mynd yn ei blaen.

This innovative scheme was set up with £10 million of new capital funding for local authorities to provide loans to owners of empty properties to bring them back into use for sale or rent. Our scheme was the first national scheme of its kind in the UK and is matched with significantly greater per capita funding than similar schemes that have followed ours in England and Scotland. The scheme focuses on those properties that have been empty for more than six months for no valid reason. Our figures exclude, therefore, homes that are empty for any reason of probate, because of someone going into care or those that are owned by people serving abroad in the armed forces, for example. The purpose behind the initiative is to place a strategic focus on maximising the number of privately owned empty properties that are

Sefydlwyd y cynllun arloesol hwn gyda £10 miliwn o arian cyfalaf newydd ar gyfer awdurdodau lleol i ddarparu benthyciadau i berchnogion eiddo gwag i ddod â nhw yn ôl i ddefnydd ar werth neu rent. Ein cynllun oedd y cynllun cenedlaethol cyntaf o'i fath yn y DU ac mae llawer mwy o arian cyfatebol y pen na chynlluniau tebyg sydd wedi dilyn ein cynlluniau ni yn Lloegr a'r Alban. Mae'r cynllun yn canolbwyntio ar yr adeiladau sydd wedi bod yn wag am fwy na chwe mis am unrhyw reswm dilys. Mae ein ffigurau'n cynnwys, felly, cartrefi sy'n wag am unrhyw reswm profiant, oherwydd bod rhywun wedi mynd i dderbyn gofal neu rai sy'n eiddo i bobl sy'n gwasanaethu dramor yn y lluoedd arfog, er enghraifft. Pwrpas sylfaenol y fenter yw rhoi ffocws strategol ar uchafu nifer yr adeiladau gwag sy'n eiddo preifat sy'n cael

brought back into use. It complements and enhances local authority day-to-day action to tackle the problem of long-term empty homes.

eu dwyn yn ôl i ddefnydd. Mae'n ategu ac yn gwella camau gweithredu awdurdodau lleol o ddydd i ddydd i fynd i'r afael â'r broblem o gartrefi gwag hirdymor.

The Houses into Homes programme is organised on a collaborative regional area basis, with local authorities within six regions working together. It is helping to overcome one of the barriers to bringing an empty property back into use, namely a lack of money. Access to the loan fund has already enabled some owners to begin to renovate properties in order to rent them out. Almost every local authority in Wales is in the process of approving loans under the scheme.

Mae'r rhaglen Troi Tai'n Gartrefi yn cael ei threfnu ar sail ardal ranbarthol ar y cyd, gydag awdurdodau lleol o fewn chwe rhanbarth yn gweithio gyda'i gilydd. Mae'n helpu i oresgyn un o'r rhwystrau i ddod ag eiddo gwag yn ôl i ddefnydd, sef diffyg arian. Mae mynediad at y gronfa benthyciadau eisoes wedi galluogi rhai perchenogion i ddechrau adnewyddu eiddo er mwyn eu gosod ar rent. Mae bron pob awdurdod lleol yng Nghymru yn y broses o gymeradwyo benthyciadau o dan y cynllun.

Over and above making a vital contribution to increasing the supply of affordable homes, long-term empty properties cast a social and environmental blight on communities. Bringing empty properties back into use significantly reduces the opportunities for vandalism, fly-tipping and other forms of anti-social behaviour. Unsightly homes can have an adverse effect on neighbouring house prices and reduce confidence and pride in communities, as well as having a direct impact on adjoining homes through dampness and structural problems.

Uwchlaw gwneud cyfraniad hanfodol i gynyddu'r cyflenwad o gartrefi fforddiadwy, mae eiddo gwag hirdymor yn felltith gymdeithasol ac amgylcheddol ar gymunedau. Mae dod ag eiddo gwag yn ôl i ddefnydd yn lleihau'n sylweddol y cyfleoedd ar gyfer fandaliaeth, tipio anghyfreithlon a mathau eraill o ymddygiad gwrthgymdeithasol. Gall cartrefi hyll gael effaith andwyol ar brisiau tai cyfagos a lleihau hyder a balchder mewn cymunedau, yn ogystal â chael effaith uniongyrchol ar dai cyfagos trwy leithder a phroblemau strwythurol.

Dealing with problematic empty homes is a programme for government commitment, therefore I am pleased that the initiative is progressing so well. There has been a significant level of interest from owners of empty properties in participating in the initiative, and at least 150 properties are in the process of being brought back into use. This is a real example of a service being delivered to people across the whole of Wales. Around 80% of these properties will be brought back into use as rented accommodation, which is very good news for people in housing need in the current financial climate.

Mae delio â chartrefi gwag problemus yn rhaglen ar gyfer ymrwymiad y llywodraeth, felly rwy'n falch bod y fenter yn mynd ei blaen mor dda. Bu lefel sylweddol o ddiddordeb gan berchnogion eiddo gwag mewn cymryd rhan yn y fenter, ac mae o leiaf 150 o adeiladau yn y broses o gael eu dwyn yn ôl i ddefnydd. Mae hyn yn enghraifft go iawn o wasanaeth yn cael ei gyflwyno i bobl ar draws Cymru gyfan. Bydd tua 80% o'r adeiladau hyn yn cael eu defnyddio unwaith eto fel llety ar rent, sy'n newyddion da iawn i bobl mewn angen am dai yn yr hinsawdd ariannol bresennol.

More than £3 million has already been drawn down by local authorities to provide loans, and authorities have told me that the budget of £10 million will be fully utilised by the end of March. Indeed, it is possible that some areas may end up with a waiting list of

Mae mwy na £3 miliwn eisoes wedi ei dynnu gan awdurdodau lleol i ddarparu benthyciadau, ac mae awdurdodau wedi dweud wrthyf y bydd y gyllideb o £10 miliwn yn cael ei defnyddio'n llawn erbyn diwedd mis Mawrth. Yn wir, mae'n bosibl y

interested property owners. This is testimony to the hard work that has been put in to ensure the success of the initiative.

bydd rhai ardaloedd yn y diwedd gyda rhestr aros o berchnogion eiddo sydd â diddordeb. Mae hyn yn dyst i'r gwaith caled sydd wedi cael ei wneud i sicrhau llwyddiant y fenter.

Setting up the initiative and formalising the collaborative working arrangements was a challenge for all concerned. A new way of working has had to be adopted by local authorities, and they have risen to the challenge. I pay tribute to all of the local authorities that have put so much effort into delivering the initiative across the country. The hard work is recognised and appreciated. This innovative programme is emerging as a model of regional collaboration, with authorities sharing resources and expertise and ensuring that assistance is available to owners of empty properties in all areas. I would like to thank the Welsh Local Government Association for its support in delivering the initiative. Its success is based on partnership working and a great deal of hard work by a large number of people.

Roedd sefydlu'r fenter a ffurfioli'r trefniadau gweithio ar y cyd yn her i bawb dan sylw. Bu raid i awdurdodau lleol fabwysiadu ffordd newydd o weithio, ac maent wedi ymateb i'r her. Hoffwn dalu teyrnged i bob un o'r awdurdodau lleol sydd wedi gwneud cymaint o ymdrech i gyflwyno'r fenter ar draws y wlad. Mae'r gwaith caled yn cael ei gydnabod a'i werthfawrogi. Mae'r rhaglen arloesol hon yn dod i'r amlwg fel model o gydweithredu rhanbarthol, gydag awdurdodau'n rhannu adnoddau ac arbenigedd a sicrhau bod cymorth ar gael i berchenogion eiddo gwag ym mhob ardal. Hoffwn ddiolch i Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru am ei chefnogaeth wrth gyflwyno'r fenter. Mae ei llwyddiant yn seiliedig ar weithio mewn partneriaeth a llawer iawn o waith caled gan nifer fawr o bobl.

I visited one of the first projects that has benefited from Houses into Homes funding, in Ebbw Vale, in November of last year, and I was impressed with the work that was being done. I intend to visit another project, in Flint, at the end of this month, where a complete row of terraced properties is being brought back into use after standing empty for a number of years. When you have the opportunity to see the work that Houses into Homes does by providing badly needed accommodation and by improving the physical character of previously run-down areas, it is really impressive and reinforces how valuable this initiative is.

Ymwelais ag un o'r prosiectau cyntaf sydd wedi elwa o arian Troi Tai'n Gartrefi, yng Nglyn Ebwy, ym mis Tachwedd y llynedd, ac roeddwn yn llawn edmygedd o'r gwaith oedd yn cael ei wneud. Rwy'n bwriadu ymweld â phrosiect arall, yn y Fflint, ar ddiwedd y mis hwn, lle mae rhes gyflawn o dai teras yn cael ei dwyn yn ôl i ddefnydd ar ôl sefyll yn wag am nifer o flynyddoedd. Pan gewch gyfle i weld y gwaith a wna Troi Tai'n Gartrefi drwy ddarparu llety mawr ei angen a thrwy wella cymeriad ffisegol ardaloedd a oedd gynt wedi mynd yn adfeiliedig, mae'n drawiadol iawn ac yn atgyfnerthu pa mor werthfawr yw'r fenter hon.

The Welsh Government is fully committed to doing as much as possible to address the empty property problem, and I am pleased with the way in which Houses into Homes is progressing. As Members will know, I have set a challenging target of 5,000 long-term empty properties being brought back into use by the end of this Government's term. The innovative Houses into Homes programme is making a significant contribution to action to meet that target. The collaboration arrangements established around the

Mae Llywodraeth Cymru yn gwbl ymrwymedig i wneud cymaint â phosibl i fynd i'r afael â'r broblem o eiddo gwag, ac rwy'n falch o'r ffordd y mae'r rhaglen Troi Tai'n Gartrefi yn mynd yn ei blaen. Fel y gŵyr yr Aelodau, rwyf wedi gosod targed heriol o 5,000 eiddo gwag hir-dymor yn dod yn ôl i ddefnydd erbyn diwedd tymor y Llywodraeth hon. Mae'r rhaglen arloesol Troi Tai'n Gartrefi yn gwneud cyfraniad sylweddol i weithredu i gyrraedd y targed hwnnw. Mae'r trefniadau cydweithredu a

programme, and the increased profile given to the subject, has galvanised the broader efforts of local authorities to tackle empty properties. Already, just over 2,000 properties have been brought back into use during this Assembly, and the Houses into Homes programme is adding to that week by week. Action to tackle empty properties is relevant to each and every one of our constituencies; so, too, is the need to do as much as possible to increase the number of affordable homes. The innovative Houses into Homes programme is doing both, and I commend it to the Chamber.

sefydlwyd o amgylch y rhaglen, a'r proffil uwch a roddir i'r pwnc, wedi symbylu ymdrechion ehangach awdurdodau lleol i fynd i'r afael ag eiddo gwag. Eisoes, mae ychydig dros 2,000 o adeiladau wedi cael eu dwyn yn ôl i ddefnydd yn ystod y Cynulliad hwn, ac mae'r rhaglen Troi Tai'n Gartrefi yn ychwanegu at hynny o wythnos i wythnos. Mae gweithredu i fynd i'r afael ag eiddo gwag yn berthnasol i bob un o'n hetholaethau; felly, hefyd, y mae'r angen i wneud cymaint â phosibl i gynyddu nifer y tai fforddiadwy. Mae'r rhaglen arloesol Troi Tai'n Gartrefi yn gwneud y ddau, ac fe'i cymeradwyaf i'r Siambr.

**Mark Isherwood:** Minister, I thank you very much for your statement regarding a scheme that we fully support. Clearly, the impact of the biggest peacetime deficit in a century—larger even than that of Greece—inherited by the current Government, along with the problems in the eurozone, and the problems in the US economy that we heard about in the run-up to the new year precipice, placed a huge strain on the ability to meet the housing demand with supply, requiring a wholly flexible, whole-market approach.

**Mark Isherwood:** Weinidog, diolch yn fawr iawn am eich datganiad ynglŷn â chynllun yr ydym yn ei gefnogi'n llwyr. Yn amlwg, mae effaith y diffyg mwyaf mewn cyfnod o heddwch mewn canrif—mwy hyd yn oed na diffyg Gwlad Groeg—a etifeddwyd gan y Llywodraeth bresennol, ynghyd â'r problemau yn ardal yr ewro, a'r problemau yn economi'r Unol Daleithiau y clywsom amdanynt yn y cyfnod sy'n arwain at y dibyn flwyddyn newydd, wedi rhoi straen aruthrol ar y gallu i ddiwallu'r galw am dai gyda chyflenwad, sy'n gofyn am ddull marchnad gyflawn gwbl hyblyg.

Minister, in your statement, your referred to 23,000 homes standing empty across Wales. How do you respond to the news today from BBC Wales, which has contacted all local authorities in Wales and has stated that there are at least 33,789 empty properties in Wales, or at least there were in March 2012, with the number having risen by 10% since 2010? That report was based on only 17 of the 22 local authorities responding with comparable figures. Also, how do you respond to today's statement by the Royal Institution of Chartered Surveyors, which said that many owners are put off because of complicated regulations?

Weinidog, yn eich datganiad, roeddech yn cyfeirio at 23,000 o gartrefi yn sefyll yn wag ledled Cymru. Sut ydych chi'n ymateb i'r newyddion heddiw gan BBC Cymru, sydd wedi cysylltu â phob awdurdod lleol yng Nghymru ac wedi dweud bod o leiaf 33,789 eiddo gwag yng Nghymru, neu o leiaf yr oedd ym mis Mawrth 2012, gyda'r nifer wedi codi o 10% ers 2010? Roedd yr adroddiad hwnnw yn seiliedig ar ddim ond 17 o'r 22 awdurdod lleol yn ymateb â ffigurau cymharol. Hefyd, sut ydych chi'n ymateb i ddatganiad heddiw gan Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig, a oedd yn dweud bod llawer o berchnogion yn cael eu digalonni oherwydd rheoliadau cymhleth?

Your statement states that your scheme was the first national scheme of its kind in the UK. Will you therefore finally recognise that, as part of its comprehensive spending review in October 2010, the UK coalition Government announced a £100 million fund

Mae eich datganiad yn dweud mai eich cynllun oedd y cynllun cenedlaethol cyntaf o'i fath yn y DU. A wnewch chi felly gydnabod o'r diwedd, fel rhan o'i hadolygiad cynhwysfawr o wariant ym mis Hydref 2010, bod Llywodraeth glymblaid y DU wedi

to bring more empty homes back into use, and followed this up by publishing its housing strategy in November 2011, of which an important part is its strategy for tackling empty properties? You, in fact, announced your welcome initiative, Houses into Homes, three months later, in February 2012.

cyhoeddi cronfa o £100 miliwn i ddod â mwy o gartrefi gwag yn ôl i ddefnydd, ac wedi dilyn hyn drwy gyhoeddi ei strategaeth dai ym mis Tachwedd 2011, ac yn rhan bwysig o hwn mae ei strategaeth ar gyfer delio ag eiddo gwag? Cyhoeddoch chi, mewn gwirionedd, eich menter i'w chroesawu Troi Tai'n Gartrefi, dri mis yn ddiweddarach, ym mis Chwefror 2012.

In England, at a UK level, 70% of the funding will go into its Homes and Communities Agency, which regulates social housing providers in England—of course, we do not have an equivalent now in Wales—but 30% will be made available to community and voluntary groups via a separate funding programme. Given the potential of that for wider community ownership, empowerment and regeneration, have you given any consideration to providing, now or in the future, some funding through this scheme in that sort of innovative way?

Yn Lloegr, ar lefel y DU, bydd 70% o'r arian yn mynd i mewn i'w Asiantaeth Cartrefi a Chymunedau, sy'n rheoleiddio darparwyr tai cymdeithasol yn Lloegr—wrth gwrs, nid oes gennym ddim byd cyfatebol yng Nghymru yn awr—ond bydd 30% yn cael ei roi ar gael i grwpiau cymunedol a gwirfoddol drwy raglen ariannu ar wahân. O ystyried y potensial ar gyfer perchnogaeth gymunedol ehangach, grymuso ac adfywio, a ydych chi wedi rhoi unrhyw ystyriaeth i ddarparu, nawr neu yn y dyfodol, rywfaint o gyllid drwy'r cynllun hwn mewn ffordd arloesol o'r fath?

Although it is not mentioned in your statement, you also propose a potential council tax premium penalty for properties left empty for more than one year. The UK Government launched a consultation somewhat earlier than the Welsh Government, in November 2011, calling for an empty homes council tax premium for properties left vacant for more than two years. Have you given any consideration to varying the proposed one-year term in Wales to take account of often sensitive issues, such as those relating to bereaved owners—to whom you refer in a different context—or owners with complex issues, which, if supported, can be addressed? I previously referred to the Denbighshire County Council empty homes officer who said that every empty home has its own story and that the key is to understand why it is empty, and to work closely with the owner to bring it back into use.

Er nad yw'n cael ei grybwyll yn eich datganiad, rydych hefyd yn cynnig cosb premiwm y dreth gyngor posibl ar gyfer eiddo sy'n cael ei adael yn wag am fwy na blwyddyn. Lansiodd Llywodraeth y DU ymgynghoriad ychydig yn gynharach na Llywodraeth Cymru, ym mis Tachwedd 2011, yn galw am bremiwm y dreth gyngor ar eiddo gwag ar gyfer eiddo sy'n cael ei adael yn wag am fwy na dwy flynedd. A ydych chi wedi rhoi unrhyw ystyriaeth i amrywio'r tymor o un flwyddyn arfaethedig yng Nghymru i ystyried materion sy'n aml yn sensitif, megis y rhai sy'n ymwneud â pherchnogion sydd wedi cael profedigaeth—yr ydych yn cyfeirio atynt mewn cyd-destun gwahanol—neu berchnogion â materion cymhleth, y gellir rhoi sylw iddynt, os cânt gefnogaeth? Cyfeiriais eisoes at swyddog cartrefi gwag Cyngor Sir Ddinbych a ddywedodd bod gan bob cartref gwag ei stori ei hun ac mai'r allwedd yw deall pam ei fod yn wag, a gweithio'n agos gyda'r perchennog i ddod ag ef yn ôl i ddefnydd.

I welcome the fact that your statement refers to local authorities within six regions working together. Over the Christmas break, I heard the UK BBC radio referring to Denbighshire County Council as the best

Croesawaf y ffaith bod eich datganiad yn cyfeirio at awdurdodau lleol o fewn chwe rhanbarth yn gweithio gyda'i gilydd. Dros wyliau'r Nadolig, clywais radio BBC y DU yn cyfeirio at Gyngor Sir Ddinbych fel yr un

deliverer of bringing empty homes back into use in the whole of the UK. What actions have you taken to share the good practice established there to increase good practice in councils in other parts of Wales, in those six regions, that have not been quite so effective or proactive, perhaps, in addressing this issue?

sy'n cyflawni orau o ran dod â chartrefi gwag yn ôl i ddefnydd yn y DU gyfan. Pa gamau ydych chi wedi'u cymryd i rannu'r arfer da a sefydlwyd yno i gynyddu arfer da mewn cynghorau mewn rhannau eraill o Gymru, yn y chwe rhanbarth, nad ydynt wedi bod mor effeithiol neu ragweithiol, efallai, wrth fynd i'r afael â'r mater hwn?

Finally, on those rare occasions when local authorities have to wave the big stick and apply empty dwelling management orders, which were introduced under the Housing Act 2004 and implemented under secondary legislation in Wales, what action have you taken to support local authorities that have said over the years that they have been reluctant to use those powers because of what they perceive to be a high cost of so doing?

Yn olaf, ar yr achlysuron prin pan fydd awdurdodau lleol yn gorfod bygwth defnyddio gorchmynion rheoli anheddau gwag, a gyflwynwyd o dan Ddeddf Tai 2004 ac a weithredwyd o dan ddeddfwriaeth eilaidd yng Nghymru, pa gamau a gymerwyd gennych i gefnogi awdurdodau lleol sydd wedi dweud dros y blynyddoedd eu bod wedi bod yn gyndyn i ddefnyddio'r pwerau hynny oherwydd yr hyn y maent yn ei ystyried i fod yn gost uchel gwneud hynny?

**Huw Lewis:** I thank Mark Isherwood for those comments; however, I ask him to remember and to bear in mind at all times that it is the UK Government's fiscal policies, primarily, that are leading to many of our difficulties and to many of the difficulties faced by owners of properties that they may wish to renovate for sale or for rent. Those policies are depressing the economy, and they are slashing housing benefit and reducing the Welsh Government's ability to intervene in the housing market through public spending cuts. It is those difficulties, primarily, that I see as the primary obstacle to us getting on with doing even more to bring empty properties back into use.

**Huw Lewis:** Diolch i Mark Isherwood am y sylwadau hynny, fodd bynnag, gofynnaf iddo gofio ac i gadw mewn cof bob amser mai polisïau ariannol Llywodraeth y DU, yn bennaf, sy'n arwain at lawer o'n hanawsterau ac at lawer o'r anawsterau a wynebir gan berchnogion eiddo y maent efallai yn dymuno eu hadnewyddu ar gyfer eu rhoi ar werth neu ar rent. Mae'r polisïau hynny'n dirwasgu'r economi, ac maent yn torri budd-dal tai a lleihau gallu Llywodraeth Cymru i ymyrryd yn y farchnad dai drwy doriadau mewn gwariant cyhoeddus. Yr anawsterau hynny, yn bennaf, yr wyf yn eu hystyried i fod y rhwystr sylfaenol i ni fwrw ymlaen â gwneud hyd yn oed mwy i ddod ag eiddo gwag yn ôl i ddefnydd.

I am somewhat bemused by the content of today's story on the BBC Wales website, which quotes various so-called facts and figures from the Royal Institute of Chartered Surveyors Wales. The story is riddled with inaccuracies and does not even seem to acknowledge that we have a scheme for bringing empty properties back into use in Wales. The authors of the piece and the comments from the RICS seem to be unaware of the fact that we have an interest-free loans scheme, Houses into Homes, at all. As regards the 33,000 properties that they quote, I have no idea where they have pulled this figure from, and they do not attempt

Rwyf wedi synnu braidd gan gynnwys stori heddiw ar wefan BBC Cymru, sy'n dyfynnu gwahanol ffeithiau a ffigurau bondigrybwyll gan Sefydliad Brenhinol Syrfewyr Siartredig Cymru. Mae'r stori yn frith o gamgymeriadau ac nid yw hyd yn oed yn ymddangos i gydnabod bod gennym gynllun ar gyfer dod ag eiddo gwag yn ôl i ddefnydd yng Nghymru. Mae awduron y darn a'r sylwadau gan y RICS yn ymddangos i fod yn anymwybodol o'r ffaith bod gennym gynllun benthyciadau di-log, Troi Tai'n Gartrefi, o gwbl. O ran y 33,000 eiddo y maent yn dyfynnu, nid oes gennyf unrhyw syniad o ble maent wedi cael y ffigur hwn, ac nid ydynt

within the article to give a source, so I really cannot say. You might surmise that they are perhaps including those properties that have been empty for less than six months, or properties that are empty for very good reason, such as that the owner has recently passed away, or it could be that we are dealing with properties that are owned by people who are serving overseas with the armed forces and so on. Other than that, it is for them to defend that figure. I know that the Welsh Government figures are backed up by organisations such as Shelter Cymru.

yn ceisio rhoi ffynhonnell yn yr erthygl, felly ni allaf ddweud. Efallai y byddwch yn dod i'r casgliad eu bod efallai yn cynnwys yr adeiladau hynny sydd wedi bod yn wag am lai na chwe mis, neu eiddo sy'n wag am reswm da iawn, fel bod y perchennog wedi marw'n ddiweddar, neu efallai ein bod yn sôn am eiddo sy'n eiddo i bobl sy'n gwasanaethu dramor gyda'r lluoedd arfog ac yn y blaen. Heblaw hynny, mater iddynt hwy yw amddiffyn y ffigur hwnnw. Gwn fod ffigurau Llywodraeth Cymru yn cael eu hategu gan sefydliadau fel Shelter Cymru.

4.15 p.m.

Yes, there have been announcements over the border of £100 million being allocated to empty property initiatives in England. Proportionally speaking, that is around half the investment and effort that we are making here in Wales. We are making double the investment available per capita, and five times the investment per capita being made available in Scotland. We were the first, and we were certainly the most intensive when it came to our empty homes initiative. As far as I am aware, it is still unclear across the border in England quite what that £100 million means—whether it is going to be made up of interest-free loans or not, and it is still not operational in large part in England. The £100 million has been described as a set of incentives, whatever that means, for bringing empty properties back into use. So, I am certainly not embarrassed in any way, shape or form by a comparison between what is going on in Wales and England to bring these properties back into use.

Mae'n wir y bu cyhoeddiadau dros y ffin o £100 miliwn yn cael ei ddyrannu i fentrau eiddo gwag yn Lloegr. Ar gyfartaledd, mae hynny tua hanner y buddsoddiad a'r ymdrech yr ydym yn ei wneud yma yng Nghymru. Rydym yn gwneud dwywaith cymaint o fuddsoddiad ar gael fesul pen, a phum gwaith yn fwy na'r buddsoddiad y pen a wneir yn yr Alban. Ni oedd y cyntaf, a ni yn sicr oedd y mwyaf dwys pan oedd yn ymwneud â'n menter cartrefi gwag. Cyn belled ag y gwn i, mae'n dal yn aneglur ar draws y ffin yn Lloegr beth yn union y mae'r £100 miliwn yn ei olygu—a yw'n mynd i gael ei ffurfio o fenthyciadau di-log ai peidio, ac nid yw'n dal yn weithredol mewn rhannau helaeth yn Lloegr. Mae'r £100 miliwn wedi cael ei ddisgrifio fel set o gymhellion, beth bynnag y mae hynny'n ei olygu, am ddod ag eiddo gwag yn ôl i ddefnydd. Felly, nid os gennyf gywilydd yn sicr mewn unrhyw ffordd o gwbl gan gymhariaeth rhwng yr hyn sy'n digwydd yng Nghymru a Lloegr i ddod â'r eiddo yn ôl i ddefnydd.

Mark mentioned various ways in which the scheme could be developed over time, and I will remain open-minded with regard to how we could further develop the scheme if resources allow. There are various ways in which the scheme could be enlarged to encompass more properties left empty for longer than six months, and, indeed, there are other avenues that we could pursue, particularly in terms of town-centre regeneration schemes and so on, which might be very interesting and give us a focused effort in certain communities. I am very open-minded as regards those developments.

Soniodd Mark am wahanol ffyrdd y gallai'r cynllun gael ei datblygu dros amser, a byddaf yn parhau i fod â meddwl agored ynglŷn â sut y gallem ddatblygu'r cynllun ymhellach os yw adnoddau'n caniatáu. Mae sawl ffordd y gallai'r cynllun gael ei ehangu i gynnwys mwy o eiddo a adawyd yn wag am fwy na chwe mis, ac, yn wir, mae ffyrdd eraill y gallem eu mabwysiadu, yn enwedig o ran cynlluniau adfywio canol y dref ac yn y blaen, a allai fod yn ddiddorol iawn a rhoi ymdrech wedi'i chanolbwyntio inni mewn cymunedau penodol. Mae gennyf feddwl agored iawn o ran y datblygiadau hynny.

On council tax variation, there will be announcements in the spring with regard to the Welsh Government's proposals. Also, we are very aware of the sensitivities surrounding the reasons that properties may become empty. There are often very good reasons for properties being empty, and I must emphasise that the Houses into Homes scheme is all carrot and no stick at this point—I do not think that you can get more sensitive than that. There may come a time—and I think that there will—when we will be attempting to deal with owners who, for some reason or another, are recalcitrant when it comes to co-operating with schemes such as this, and it may be necessary to consider the stick as well as the carrot in dealing with the problems that, after all, communities as a whole are facing because of the attitude of that small minority of recalcitrant owners. However, announcements will follow in that regard.

O ran amrywiad y dreth gyngor, bydd llawer mwy o gyhoeddiadau yn y gwanwyn mewn perthynas â chynigion Llywodraeth Cymru. Hefyd, rydym yn ymwybodol iawn o'r sensitifrwydd o gwmpas y rhesymau pam y gall eiddo ddod yn wag. Yn aml mae rhesymau da iawn pam fod eiddo yn wag, a rhaid imi bwysleisio bod y cynllun Troi Tai'n Gartrefi yn addewid o wobr heb unrhyw gosb ar hyn o bryd—nid wyf yn meddwl y gallwch fod yn fwy sensitif na hynny. Mae'n bosib y daw amser—ac rwy'n credu y bydd—pan fyddwn yn ceisio delio â pherchnogion sydd, am ryw reswm neu'i gilydd, yn ystyfnig pan ddaw at gyd-weithio gyda chynlluniau fel hyn, ac efallai y bydd angen ystyried y gosb yn ogystal â'r addewid o wobr wrth ddelio â'r problemau y mae cymunedau yn eu cyfanrwydd, wedi'r cyfan, yn eu hwynebu oherwydd agwedd y lleiafrif bach o berchnogion ystyfnig. Fodd bynnag, bydd cyhoeddiadau yn dilyn yn hynny o beth.

**Rhodri Glyn Thomas:** Diolch i chi, Weinidog, am y datganiad eithriadol o bwysig hwn. Mae'r broses hon o drosglwyddo tai o fod yn wag i fod yn rhai y gellir eu defnyddio yn eithriadol o bwysig yng nghyd-destun yr angen am dai yng Nghymru, ac mae'n debygol o ddatblygu mwyfwy wrth inni weld canlyniadau'r torri yn ôl ar lwfansau a budd-daliadau tai ac yn y blaen, a fydd yn creu mwy o broblemau digartrefedd.

**Rhodri Glyn Thomas:** Thank you, Minister, for this exceptionally important statement. The whole process of transferring empty houses into homes is exceptionally important in the context of the demand for housing in Wales, and it is likely that this will continue to develop as we see the impact of the cutbacks in housing allowances and benefits and so on, which will create further problems in terms of homelessness.

Rwyf am gyfyngu fy hun i dri chwestiwn i chi. Fe'ch clywais yn cyfeirio yn gynharach at y ffaith bod 2,000 o dai gwag, os clywais yn gywir, wedi cael eu trosglwyddo yn ystod y Cynulliad hwn i fod yn dai y gellir cartrefu pobl ynddynt. Byddai'n ddiddorol cael ychydig mwy o fanylion am hynny. Mae gennych darged o 5,000 ac, yn ôl yr hyn yr ydych wedi'i ddweud, mae'n ymddangos i mi eich bod ar eich ffordd i gyflawni'r targed hwnnw, gan fod gennych dros dair blynedd arall i sicrhau'r 3,000 sy'n weddill. A ydych yn meddwl bod modd cynnal y momentwm yr ydych yn amlwg wedi'i greu erbyn hyn am y tair blynedd nesaf? A ydych yn credu bod y targed o 5,000 o dai yr ydych wedi ei osod yn un y gellir ei gyflawni o hyd?

I will limit myself to three questions. I heard your reference earlier to the fact that 2,000 houses, if I heard correctly, have been transferred during this Assembly from being vacant properties into homes where people could be housed. It would be interesting to have a little more detail on that. Your target is 5,000 and, from what you have said, it appears to me that you are on your way to achieving that target, as you have another three years to ensure that you achieve the remaining 3,000. Are you convinced that you can maintain over the next three years the momentum that you clearly have created? Do you think that the target of 5,000 houses that you have set continues to be achievable?

Hefyd, rydym yn gwybod bod amrywiaeth

Furthermore, we know that there is great

fawr o sir i sir, ac o awdurdod i awdurdod, yn y modd y maent yn ymateb i'r sialens o fynd i'r afael â thai gwag. A yw hynny'n dal i fodoli, neu a yw pawb bellach yn dilyn yr un agenda ac yn gweithredu er mwyn sicrhau bod y targed hwn yn cael ei gyrraedd? A oes cysondeb trwy Gymru? Os nad oes cysondeb, ac os oes arfer ddrwg yn ogystal ag arfer dda, a ydych yn bwriadu cyhoeddi enghreifftiau o'r arfer dda a'r arfer ddrwg er mwyn inni fod yn ymwybodol o'r awdurdodau sy'n llwyddo a'r rhai sy'n methu yn hyn o beth?

divergence from one county to another and from one authority to another, in how they respond to the challenge of tackling vacant properties. Is that still the case, or is everyone now singing from the same hymn sheet and taking action to ensure that this target is achieved? Is there consistency across Wales? If there is no consistency, and if there is bad practice as well as good practice, do you intend to publish examples of the good and bad practice so that we can be aware of those authorities that are successful and those that are failing in this regard?

Pa fesurau ychwanegol yr ydych yn bwriadu eu cyflwyno er mwyn hwyluso'r gwaith o fynd i'r afael â nifer helaeth y tai gwag sy'n dal i fodoli, er bod y 2,000 yma wedi cael eu trosglwyddo? Un awgrym yw y byddai torri 5% o'r dreth ar werth yn gyfraniad i'r cyfeiriad hwnnw, ond, wrth gwrs, nid yw cyfrifoldeb am y dreth honno wedi ei ddatganoli. Felly, a oes rhywbeth y gallwch chi fel Gweinidog ei wneud i hwyluso'r broses o sicrhau bod mwy o dai gwag yn cael eu haddasu er mwyn cael eu defnyddio gan bobl sydd ag angen dybryd am gartrefi ledled Cymru?

What additional measures do you intend to put in place to facilitate the work of addressing the very many vacant properties that still exist, even though 2,000 have already been transferred? One suggestion is that cutting 5% from value added tax would be a contribution in that regard, but, of course, responsibility from that tax is not devolved. Therefore, is there anything that you as Minister can do to facilitate the process of ensuring that more vacant properties are adapted so that they can be used by people across Wales who are in serious need of a home?

**Huw Lewis:** Rhodri Glyn Thomas is quite right to mention the central importance of the issue of empty properties when it comes to overall housing supply within Wales. Some 23,000 empty properties is a very large number indeed when we consider that we have a population of just 3 million. He is also correct to point out that, given the changes in the social security system—to housing benefit in particular, but also the bedroom tax, which will be causing a great many problems for households across Wales that may be seeking alternative rented accommodation, quite unexpectedly as far as they are concerned, and causing great difficulty in finding suitable accommodation locally—work on empty properties can only ease that situation, and we will do that as best we can.

**Huw Lewis:** Mae Rhodri Glyn Thomas yn llygad ei le i sôn am bwysigrwydd canolog y mater o eiddo gwag pan ddaw at y cyflenwad tai cyffredinol yng Nghymru. Mae tua 23,000 eiddo gwag yn nifer fawr iawn yn wir pan fyddwn yn ystyried bod gennym boblogaeth o ddim ond 3 miliwn. Mae hefyd yn gywir i nodi, o ystyried y newidiadau yn y system nawdd cymdeithasol—i fudd-dal tai yn benodol, ond hefyd y dreth ystafell wely a fydd yn achosi problemau mawr i lawer o aelwydydd ledled Cymru a allai fod yn chwilio am lety ar rent amgen, yn eithaf annisgwyl cyn belled ag y maent hwy yn y cwestiwn, ac yn achosi anhawster mawr wrth ddod o hyd i lety addas yn lleol—mai dim ond lliniaru'r sefyllfa honno fydd gwaith ar eiddo gwag, a byddwn yn gwneud hynny hyd eithaf ein gallu.

In terms of the momentum being maintained and of the target of 5,000 being achievable or not, I am confident that we will go through an initial period at least where there will be rapid take-up of this interest-free loan finance. In fact, all the feedback from local

O ran y momentwm yn cael ei gynnal a'r targed o 5,000 yn gyraeddadwy neu beidio, rwy'n hyderus y byddwn yn mynd drwy gyfnod cychwynnol o leiaf lle bydd manteisio cyflym ar y cyllid benthyciad di-log hwn. Yn wir, mae'r holl adborth gan awdurdodau lleol

authorities leads me to believe that all £10 million as a resource will be out of this building and working in communities by the end of March. In some areas where there is best practice, as Rhodri Glyn Thomas mentioned, we could have a situation where there is a developing waiting list. As soon as these loans are repaid they will be recycled back into communities to achieve more results. We could be in a situation by the late spring where people are having to wait, and that would be a great pity. If resources allow, I would like to be in a situation where people do not have to experience delay in accessing this financial help.

yn fy arwain i gredu y bydd pob £10 miliwn fel adnodd allan o'r adeilad hwn ac yn gweithio mewn cymunedau erbyn diwedd mis Mawrth. Mewn rhai ardaloedd lle ceir arfer gorau, fel y crybwyllodd Rhodri Glyn Thomas, gallem gael sefyllfa lle mae rhestr aros yn datblygu. Cyn gynted ag y bydd y benthyciadau hyn yn cael eu had-dalu byddant yn cael eu hailgylchu yn ôl i gymunedau er mwyn cyflawni canlyniadau mwy. Gallem fod mewn sefyllfa erbyn y gwanwyn hwyr lle mae pobl yn gorfod aros, a byddai hynny'n drueni mawr. Os yw adnoddau'n caniatáu, hoffwn fod mewn sefyllfa lle nad oes rhaid i bobl brofi oedi wrth gael mynediad at y cymorth ariannol hwn.

So, initially at least, I think that we will see a great deal of momentum. Realistically speaking, as time goes on, perhaps 12 months from now I will be standing here when it is becoming a little more difficult—we will first have the low-hanging fruit, if you like, in terms of co-operative owners who are aware of what is available are accessing the money, but perhaps we will then be talking about a community of property owners who are less aware, less willing, or less able to co-operate with their local authorities. In that instance, I do not anticipate that this initial surge would continue. However, although you would expect me to say this, I am absolutely confident that the target of 5,000 is well within our reach.

Felly, i ddechrau o leiaf, rwy'n meddwl y byddwn yn gweld llawer o fomentwm. Gan siarad yn realistig, wrth i amser fynd ymlaen, efallai ymhen 12 mis byddaf yn sefyll yma pan fydd yn dod ychydig yn fwy anodd—byddwn yn cael y ffrwythau isaf yn gyntaf, os mynnwch, o ran perchnogion cydweithredol sydd yn ymwybodol o'r hyn sydd ar gael yn cael mynediad at yr arian, ond efallai y byddwn wedyn yn siarad am gymuned o berchnogion eiddo sydd yn llai ymwybodol, llai parod, neu'n llai galluog i gydweithio â'u hawdurdodau lleol. Yn yr achos hwnnw, nid wyf yn rhagweld y byddai'r ymchwydd cychwynnol hwn yn parhau. Fodd bynnag, er y byddech yn disgwyl i mi ddweud hyn, rwy'n gwbl hyderus bod y targed o 5,000 o fewn ein cyrraedd yn hawdd.

You are also right to mention that there has previously been a huge divergence in the efforts that local authorities have been willing or able to put into bringing empty properties back into use. There have been, historically speaking, some local authorities that have always seen this as a priority and have done very good work in this regard. Powys, for instance, is a local authority that has had its own loan scheme running for some time, and it has been successful. Other local authorities, for one reason or another, have not politically prioritised this issue, or have not realised the armoury—even prior to the Houses into Homes scheme—of policies already available to local government to assist owners to bring

Rydych hefyd yn iawn i ddweud y bu gwahaniaeth enfawr eisoes yn yr ymdrechion y mae awdurdodau lleol wedi bod yn fodlon neu'n gallu eu gwneud i ddod ag eiddo gwag yn ôl i ddefnydd. Mae wedi bod, â siarad yn hanesyddol, rai awdurdodau lleol sydd bob amser wedi gweld hyn fel blaenoriaeth ac wedi gwneud gwaith da iawn yn hyn o beth. Mae Powys, er enghraifft, yn awdurdod lleol sydd wedi cael ei gynllun benthyg ei hun ar waith ers peth amser, ac mae wedi bod yn llwyddiannus. Mae awdurdodau lleol eraill, am ryw reswm neu'i gilydd, heb roi blaenoriaeth wleidyddol i'r mater hwn, neu heb sylweddoli y stôr—hyd yn oed cyn y cynllun Troi Tai'n Gartrefi—o bolisïau sydd

properties back into use.

eisoes ar gael i lywodraeth leol i gynorthwyo perchnogion i ddod ag eiddo yn ôl i ddefnydd.

To some extent, that divergence still exists. However, on the regional working, I am confident the six regions operating at the moment have done a great job in permeating the political consciousness of members within the local authorities where not much was happening, to the extent that, as I now understand it, of the 22 local authorities in Wales, only one has no discernible activity going on when it comes to accessing the Houses into Homes funding. I will name that local authority: it is Pembrokeshire. I encourage our colleagues in Pembrokeshire to get involved with the Houses into Homes scheme, to become active partners in their region, and to realise that theirs is the only local authority that is not accessing this resource. That is a huge change, because that list would have been much longer only six months ago. We are now down to only one local authority that needs to look at the best practice that is happening all around it, take note and become proactive.

I ryw raddau, mae'r gwahaniaeth hwnnw'n dal i fodoli. Fodd bynnag, o ran y gwaith rhanbarthol, rwy'n ffyddiog bod y chwe rhanbarth sy'n gweithredu ar hyn o bryd wedi gwneud gwaith mawr mewn treiddio i ymwybyddiaeth wleidyddol aelodau o fewn yr awdurdodau lleol lle nad oedd llawer yn digwydd, i'r graddau, fel y deallaf yn awr, o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru, mai dim ond un sydd lle nad oes gweithgaredd amlwg yn mynd ymlaen pan ddaw at gael mynediad at yr arian Troi Tai'n Gartrefi. Byddaf yn enwi'r awdurdod lleol hwnnw: Sir Benfro ydyw. Rwy'n annog ein cydweithwyr yn Sir Benfro i gymryd rhan yn y cynllun Troi Tai'n Gartrefi, i ddod yn bartneriaid gweithredol yn eu rhanbarth, ac i sylweddoli mai eu hawdurdod lleol nhw yw'r unig un nad yw'n cael mynediad at yr adnodd hwn. Mae hynny'n newid mawr, oherwydd byddai'r rhestr honno wedi bod yn llawer hirach dim ond chwe mis yn ôl. Rydym yn awr i lawr i ddim ond un awdurdod lleol y mae angen iddo edrych ar yr arferion gorau sy'n digwydd o'i gwmpas, nodi hynny a dod yn rhagweithiol.

Divergence in best practice exists, but, in order to complement this work and make sure that we evaluate it properly, Sheffield Hallam University will be working alongside us from day one. It is already at work, evaluating the scheme and checking out the various forms of practice within each local authority area. On Rhodri Glyn Thomas's comments on VAT, I can only agree. One of the most, to my mind, boneheaded policy changes that the UK Government has brought in over recent times—particularly in a downturn when construction work and renovation are so important to local communities, particularly to smaller businesses as well as to communities more broadly—has been the VAT changes as regards renovation of properties. One can only stand in bewilderment at some of the policy initiatives that flow out of the UK Government. This is a particular case in point.

Mae gwahaniaeth mewn arfer gorau yn bodoli, ond, er mwyn ategu'r gwaith a gwneud yn siŵr ein bod yn ei werthuso yn iawn, bydd Prifysgol Sheffield Hallam yn gweithio ochr yn ochr â ni o'r diwrnod cyntaf. Mae eisoes yn gweithio, yn gwerthuso'r cynllun ac yn archwilio'r gwahanol fathau o ymarfer o fewn pob ardal awdurdod lleol. O ran sylwadau Rhodri Glyn Thomas ar TAW, ni allaf ond cytuno. Un o'r newidiadau polisi mwyaf twp, yn fy marn i, y mae Llywodraeth y DU wedi eu cyflwyno'n ddiweddar—yn enwedig yn ystod dirywiad pan fo gwaith adeiladu ac adnewyddu mor bwysig i gymunedau lleol, yn enwedig i fusnesau llai yn ogystal ag i gymunedau yn fwy eang—yw'r newidiadau TAW o ran adnewyddu eiddo. Mae'n ddigon i ddrysu rhywun gweld rhai o'r mentrau polisi sy'n llifo o gyfeiriad Llywodraeth y DU. Mae hwn yn enghraifft arbennig o hyn.

**Julie Morgan:** I am pleased that the scheme is going so well. I congratulate the Minister

**Julie Morgan:** Rwyf yn falch bod y cynllun yn mynd mor dda. Hoffwn longyfarch y

on this initiative. It is a matter of huge concern in my constituency because people are waiting for homes and they see empty houses. Therefore, they constantly bring the issue to our attention. So, it is very good that this is going ahead.

Gweinidog ar y fenter hon. Mae'n fater o bryder mawr yn fy etholaeth oherwydd bod pobl yn aros am gartrefi ac maent yn gweld tai gwag. Felly, maent yn gyson yn dod â'r mater i'n sylw. Felly, mae'n dda iawn bod hyn yn mynd yn ei flaen.

One of the important points he made was about the importance of collaborative working and working in the regions. Can he give us an estimate of how that has cut down the administrative costs of implementing such a scheme? One of the barriers to doing this in the past has been the lack of local authority administrative staff to take schemes like this forward.

Un o'r pwyntiau pwysig a wnaeth oedd ynghylch pwysigrwydd cydweithio a gweithio yn y rhanbarthau. A oes modd iddo roi amcangyfrif o sut y mae hynny wedi torri costau gweinyddol gweithredu cynllun o'r fath? Un o'r rhwystrau i wneud hyn yn y gorffennol fu diffyg staff gweinyddol yr awdurdodau lleol i ddatblygu cynlluniau fel hyn.

**Huw Lewis:** I am sure that there will be administrative cost savings in some regional areas. One particular local authority has taken the lead. I think that I am right in saying that, in the south-east, Caerphilly has taken the lead within that group of local austhorities. It already had good working practices and has been able to use them to assist its neighbours and create a much slimmer administrative set-up.

**Huw Lewis:** Rwyf yn siŵr y bydd arbedion cost gweinyddol mewn rhai ardaloedd rhanbarthol. Mae un awdurdod lleol penodol wedi cymryd yr awenau. Credaf fy mod yn iawn wrth ddweud, yn y de-ddwyrain, bod Caerffili wedi cymryd yr awenau o fewn y grŵp hwnnw o awdurdodau lleol. Mae ganddo arferion gweithio da eisoes ac mae wedi gallu eu defnyddio i helpu ei gymdogion a chreu sefydliad gweinyddol llawer mwy llyfn.

I believe that Cardiff is taking the route of working alongside housing associations, which will take on the implementation and administrative burden of what will happen there. I think that we will see very soon in Cardiff a rapid increase in the amount of money being made available to people locally. I am not able to quantify that saving in administration costs as yet, but that would obviously be part of the evaluation that we will undertake jointly with Sheffield Hallam University.

Rwy'n credu bod Caerdydd yn dewis y llwybr o weithio ochr yn ochr â chymdeithasau tai, a fydd yn derbyn baich gweithredu a gweinyddu beth fydd yn digwydd yno. Credaf y byddwn yn gweld cynnydd cyflym yn fuan iawn yng Nghaerdydd yn y swm o arian sydd ar gael i bobl yn lleol. Nid wyf yn gallu mesur yr arbediad hwnnw o ran costau gweinyddol hyd yma, ond byddai hynny'n amlwg yn rhan o'r gwerthusiad y byddwn yn ei gynnal ar y cyd gyda Phrifysgol Sheffield Hallam.

4.30 p.m.

**Peter Black:** I start by thanking the Minister for his statement and by welcoming the progress that is being made in bringing empty homes back into use. This initiative is long overdue, and it has been helped in particular by the fact that the initial £5 million for the initiative was doubled to £10 million following the budget deal that the Welsh Liberal Democrats made with the Government last year; I welcome that.

**Peter Black:** Dechreuaf drwy ddiolch i'r Gweinidog am ei ddatganiad a thrwy groesawu'r cynnydd sy'n cael ei wneud wrth ddod â chartrefi gwag yn ôl i ddefnydd. Mae'n hen bryd cael y fenter hon, ac mae wedi cael cymorth yn benodol gan y ffaith bod y £5 miliwn cychwynnol ar gyfer y fenter wedi ei ddyblu i £10 miliwn yn dilyn y cytundeb cyllidebol a wnaeth Democratiaid Rhyddfrydol Cymru gyda'r Llywodraeth y

flwyddyn ddiwethaf; rwyf yn croesawu hynny.

A number of points arise from the statement, Minister. You have already referred to the need for a stick to go with the carrot. I have long been an advocate of that, and I hope that when the housing Bill or the response to the housing White Paper are published, you will adopt that stick in terms of additional council tax being charged on long-term empty properties. However, I think that a lot of local authorities need additional tools if they are to handle this issue properly. You have indicated that, at the moment, we are effectively picking the low-hanging fruit and we are going to get to the stage where those additional tools will become necessary.

Mae nifer o bwyntiau yn codi o'r datganiad, Weinidog. Rydych wedi cyfeirio eisoes at yr angen i gael cosb i gyd-fynd â'r addewid o wobr. Rwyf wedi bod yn ddadleuwr o blaid hynny ers amser, ac rwy'n gobeithio pan fydd y Mesur tai neu'r ymateb i'r Papur Gwyn ar dai yn cael eu cyhoeddi, y byddwch yn mabwysiadu'r gosb yn nhermau codi treth gyngor ychwanegol ar eiddo gwag hir-dymor. Fodd bynnag, rwy'n meddwl bod llawer o awdurdodau lleol angen offer ychwanegol os ydynt i ymdrin â'r mater hwn yn briodol. Rydych wedi dangos, ar hyn o bryd, ein bod i bob pwrpas yn dewis y ffrwythau sy'n hongian yn isel ac rydym yn mynd i gyrraedd y cam lle y bydd y dulliau ychwanegol yn dod yn angenrheidiol.

You referred to Pembrokeshire County Council as one local authority that has not engaged with this scheme. Pembrokeshire is one of four local authorities that said, in a survey that I carried out, that it had no action plan for dealing with empty homes. It is also one of 10 local authorities that still do not have an empty property officer dedicated to driving this issue forward. Although there is some regional working, I am yet to be convinced that it is effective. Will you look, therefore, at how local authorities can work better together in terms of this initiative? Will you urge local authorities to have an officer dedicated to pushing forward this work, which is important?

Cyfeiriasoch at Gyngor Sir Penfro fel un awdurdod lleol nad yw wedi ymwneud â'r cynllun hwn. Mae Sir Benfro yn un o bedwar awdurdod lleol a ddywedodd, mewn arolwg a gynhaliais, nad oedd ganddo unrhyw gynllun gweithredu ar gyfer delio â chartrefi gwag. Mae hefyd yn un o 10 awdurdod lleol nad oes ganddo swyddog eiddo gwag sy'n ymroddedig i hyrwyddo'r mater hwn. Er bod rhywfaint o weithio rhanbarthol, nid wyf eto yn argyhoeddedig ei fod yn effeithiol. A wnewch chi edrych, felly, ar sut y gall awdurdodau lleol weithio gyda'i gilydd yn well o ran y fenter hon? A fyddwch yn annog awdurdodau lleol i gael swyddog yn ymroddedig i ddatblygu'r gwaith hwn, sydd yn bwysig?

Will you also look at tools such as the empty dwelling management order, which is largely ineffectual for a number of reasons? I had an instance in my region only this week, where the local authority said that it was unable to pursue that option because the cost of renovation could not be recovered due to the length of time that it had to recover the money. Some local authorities go down the route of compulsory purchase orders, but it is expensive and some other options may be worth looking at, such as a compulsory lease of some sort, as opposed to purchasing the property, or other ways of looking at that issue.

A wnewch chi hefyd edrych ar offer fel y gorchymyn rheoli anheddau gwag, sydd i raddau helaeth yn aneffeithiol am nifer o resymau? Cefais enghraifft yn fy rhanbarth yr wythnos hon, lle dywedodd yr awdurdod lleol nad oedd yn gallu canlyn y dewis hwnnw am na ellid adennill cost yr adnewyddu oherwydd faint o amser yr oedd ganddo i adennill yr arian. Mae rhai awdurdodau lleol yn mynd i lawr y llwybr o orchmynion prynu gorfodol, ond mae'n ddrud ac efallai y bydd werth edrych ar rai opsiynau eraill, megis prydles orfodol o ryw fath, yn hytrach na phrynu eiddo, neu ffyrdd eraill o edrych ar y mater .

Minister, I am happy with the way that you are going forward, but my main question is whether you will look at the tools that local authorities have available to them. Will you try to improve those tools, so that when we get to the stage where the low-hanging fruit has been picked there are other alternatives that local authorities can use to drive this forward?

Weinidog, rwy'n fodlon â'r ffordd yr ydych yn mynd ymlaen, ond fy mhrif gwestiwn yw a fyddwch yn edrych ar yr offer sydd ar gael i awdurdodau lleol. A fyddwch yn ceisio gwella'r offer hwnnw, felly pan fyddwn yn cyrraedd y cam lle mae'r ffrwythau sy'n hongian yn isel wedi cael eu tynnu mae yna ddewisiadau eraill y gall awdurdodau lleol eu defnyddio i hyrwyddo ymlaen?

**Huw Lewis:** I thank Peter Black for those insightful comments; he is right in every regard in terms of the comments that he has just made. There are existing powers that local authorities can use—empty dwelling management orders, compulsory purchase and so on. The most powerful tool in a local authority's armoury, which has always been there, is dialogue with the owner. Constructive and positive dialogue with owners is the single most important tool in the box. As he rightly says, some local authorities have always tried to maintain that dialogue and proactively pursue it, while others have not. However, I am encouraged that one thing that regional working through the Houses into Homes programme has stimulated is the raising of the game of almost every local authority on the issue of empty properties. We will see, if we have not seen it already, activity and investment—on-the-ground investment—going on in 21 of the 22 local authorities within the next few weeks.

**Huw Lewis:** Diolch i Peter Black am y sylwadau craff; mae'n gywir ym mhob ffordd o ran y sylwadau y mae newydd eu gwneud. Mae pwerau presennol y gall awdurdodau lleol eu defnyddio—gorchmynion rheoli anheddau gwag, prynu gorfodol ac yn y blaen. Yr offeryn mwyaf pwerus yn arfogaeth awdurdod lleol, sydd wedi bod yno erioed, yw deialog â'r perchennog. Deialog adeiladol a chadarnhaol gyda pherchnogion yw'r arf mwyaf pwysig yn y blwch. Fel y dywed yn iawn, mae rhai awdurdodau lleol bob amser wedi ceisio cynnal y ddeialog ac yn rhagweithiol yn ei dilyn, ond nid yw eraill. Fodd bynnag, rwy'n cael fy nghalonogi mai un peth y mae gweithio rhanbarthol drwy'r rhaglen Troi Tai'n Gartrefi wedi ei ysgogi yw bod bron pob awdurdod lleol wedi gwneud ymdrech i wella ar y mater o eiddo gwag. Byddwn yn gweld, os nad ydym wedi gweld yn barod, gweithgarwch a buddsoddi—buddsoddiad ar lawr gwlad—yn digwydd mewn 21 o'r 22 awdurdod lleol o fewn yr wythnosau nesaf.

That is not to pretend, of course, that everything is perfect in every local authority area. As Peter Black mentioned, better co-working is critical to making this operate well. One could surmise that, within local authorities where, historically, there has been a dearth of activity with regard to empty properties, there is more low-hanging fruit to be had. There is a great deal more to be won in authorities like that in terms of results and the number of properties brought back into use.

Ni ellir honni, wrth gwrs, bod popeth yn berffaith ym mhob ardal awdurdod lleol. Fel y crybwyllodd Peter Black, mae gwell cyd-weithio yn hanfodol i sicrhau bod hyn yn gweithio yn dda. Gallai rhywun dybio, o fewn awdurdodau lleol lle, yn hanesyddol, bu prinder gweithgaredd i ddelio ag eiddo gwag, bod mwy o ffrwythau yn hongian yn isel i'w cael. Mae llawer mwy i'w ennill mewn awdurdodau tebyg o ran canlyniadau a nifer yr adeiladau a ddygwyd yn ôl i ddefnydd.

I am open-minded and willing to work with any Member who has good ideas about how we can supplement the armoury of local authorities when it comes to how they might take on this issue. As I say, we begin with a

Rwyf yn agored fy meddwl ac yn barod i weithio gydag unrhyw Aelod sydd â syniadau da am sut y gallwn ychwanegu at arfogaeth awdurdodau lleol o ran sut y byddant yn ymdrin â'r mater hwn. Fel y dywedais,

scheme that is heavy in terms of incentive: it is simple, there is no downside to it whatsoever, and I hope that that will get us a long way down the road. We will need to supplement this initiative with other imaginative ways of thinking as we progress.

rydym yn dechrau gyda chynllun sy’n drwm o ran cymhelliant: mae’n syml, nid oes unrhyw anfantais iddo o gwbl, ac rwy’n gobeithio y bydd yn ein harwain ymhell i lawr y ffordd. Bydd angen i ni ychwanegu at y fenter gyda ffyrdd dychmygus eraill o feddwl wrth i ni symud ymlaen.

**The Deputy Presiding Officer:** As we are over our allocated time, may we have succinct questions only now, please? I call Sandy Mewies.

**Y Dirprwy Lywydd:** Gan ein bod dros ein hamser penodol, a gawn ni gwestiynau cryno yn unig yn awr, os gwelwch yn dda? Rwy’n galw ar Sandy Mewies.

**Sandy Mewies:** Thank you, Deputy Presiding Officer; I will be succinct. I am delighted with this initiative and the way that it is going forward. You may remember that it was discussed by my Communities and Culture Committee a long time ago, and was welcomed then. You have made the point that Wales is leading the UK in what we are doing. I am particularly delighted to be a member of the party that is looking for homes for people rather than coming up with policies that throw them out of their homes. Can you continue the momentum? I think that you can; it is a recyclable project. I foresee that there will be difficulties in the future, so will you come back to us at some time and tell us how and to whom you intend to apply the stick? It may not be necessary; who knows? I also hope that you will meet with me in Flint when you look at the work that Flintshire County Council has done on houses in my constituency, which is a great example to other local authorities.

**Sandy Mewies:** Diolch, Ddirprwy Lywydd, byddaf yn gryno. Rwyf wrth fy modd gyda’r fenter hon a’r ffordd y mae’n mynd yn ei blaen. Efallai eich bod yn cofio iddi gael ei thrafod gan fy Mhwyllgor Cymunedau a Diwylliant amser maith yn ôl, a chafodd ei chroesawu bryd hynny. Rydych wedi gwneud y pwynt bod Cymru’n arwain y DU yn yr hyn yr ydym yn ei wneud. Rwy’n arbennig o falch i fod yn aelod o blaid sydd yn chwilio am gartrefi i bobl yn hytrach na chyflwyno polisïau sy’n eu taflu allan o’u cartrefi. Allwch chi barhau â’r momentwm? Rwyf yn meddwl y gallwch; mae’n brosiect ailgylchadwy. Rwy’n rhagweld y bydd anawsterau yn y dyfodol, felly wnewch chi ddod yn ôl atom ar ryw adeg a dweud wrthym sut ac ar bwy yr ydych yn bwriadu defnyddio’r ffon? Efallai na fydd angen; pwy a ŵyr? Rwyf hefyd yn gobeithio y byddwch yn cwrdd â mi yn y Fflint pan fyddwch yn edrych ar y gwaith y mae Cyngor Sir y Fflint wedi ei wneud ar dai yn fy etholaeth, sy’n enghraifft wych i awdurdodau lleol eraill.

**Huw Lewis:** I thank Sandy Mewies for those observations. I share her enthusiasm about the initial stages of this initiative. I am particularly looking forward to going to Flint at the end of this month to see a complete row of terraced houses that will be benefiting from the Houses into Homes scheme. That itself underlines that this is not only about bringing individual properties back into use, but the regeneration of communities that have quite often been putting up with dilapidated and empty properties in their midst for far too long. We need to maintain the momentum. As I say, this may involve something other than carrot as time goes on, but announcements will follow in that regard.

**Huw Lewis:** Diolch i Sandy Mewies am y sylwadau hynny. Rwy’n rhannu ei brwdfrydedd am gamau cychwynnol y fenter hon. Rwyf yn edrych ymlaen yn arbennig at fynd i’r Fflint ar ddiwedd y mis hwn i weld rhes gyflawn o dai teras a fydd yn elwa o’r cynllun Troi Tai’n Gartrefi. Mae hynny ynddo’i hun yn pwysleisio nad mater o ddod ag eiddo unigol yn ôl i ddefnydd yn unig yw hwn, ond adfywio cymunedau sydd yn aml wedi gorfod goddef eiddo adfeiliedig a gwag yn eu plith am lawer rhy hir. Mae angen i ni gynnal y momentwm. Fel y dywedais, gall hyn olygu rhywbeth heblaw addewid o wobr wrth i amser fynd ymlaen, ond bydd cyhoeddiadau yn dilyn yn hynny o beth.

**Joyce Watson:** Minister, can you confirm whether Pembrokeshire is the only unitary authority not engaged in the scheme as I am not sure that I caught that right the first time? I want to welcome the fact that there is now £10 million by next March that will be going into the Welsh economy. According to the Federation of Master Builders, that in itself will promote another £5 million that will be spent in the local economy, and all the jobs that go with that. I know, Minister, that you said that you are working with the carrot, but it seems that that is not sufficient in Pembrokeshire. Can you tell me how you hope to engage those people who seemingly cannot be engaged in doing anything to produce a positive outcome for their constituents?

**Joyce Watson:** Weinidog, a allwch chi gadarnhau ai Sir Benfro yw'r unig awdurdod unedol nad yw'n ymwneud â'r cynllun gan nad wyf yn siŵr fy mod wedi clywed yn iawn y tro cyntaf? Rwy'n croesawu'r ffaith bod yna bellach £10 miliwn erbyn mis Mawrth nesaf a fydd yn mynd i mewn i economi Cymru. Yn ôl Ffederasiwn y Meistr Adeiladwyr, bydd hynny ynddi'i hun yn hybu'r £5 miliwn arall fydd yn cael ei gwario yn yr economi leol, a'r holl swyddi sy'n mynd gyda hynny. Gwn, Weinidog, eich bod wedi dweud eich bod yn gweithio gyda'r addewid o wobr, ond mae'n ymddangos nad yw hynny'n ddigonol yn Sir Benfro. Allwch chi ddweud wrthyf sut yr ydych yn gobeithio denu'r bobl y mae'n ymddangos na allant gymryd rhan mewn gwneud unrhyw beth i gael canlyniad cadarnhaol i'w hetholwyr?

**Huw Lewis:** Joyce Watson is quite right to underline the importance of that money being invested in communities. I hope that £10 million in a Welsh context will mean something quite substantial, particularly for those smaller building companies that, by and large, will benefit from the jobs and investment that this scheme brings to people at the local level. This money will not, by and large, be taken up by large building conglomorates; it will be local and community companies that really benefit the most from this.

**Huw Lewis:** Mae Joyce Watson yn hollol iawn i danlinellu pwysigrwydd buddsoddi'r arian hwnnw mewn cymunedau. Gobeithiaf y bydd £10 miliwn mewn cyd-destun Cymreig yn golygu rhywbeth eithaf sylweddol, yn enwedig ar gyfer y cwmnïau adeiladu llai fydd, ar y cyfan, yn elwa o'r swyddi a'r buddsoddiad y bydd y cynllun hwn yn dod i bobl ar y lefel leol. Ni fydd yr arian hwn, ar y cyfan, yn cael ei gymryd gan gwmnïau adeiladu mawr, cwmnïau lleol a chymunedol fydd yn elwa fwyaf o hyn.

I have named Pembrokeshire in the Chamber today and in the media, and I hope that that will act as a spur for Pembrokeshire to revise its view in terms of the relative importance of empty properties in its area, and that it will join the party and take advantage of the very good work that is going on in its region. There are some very good examples of best practice not very far away from Pembrokeshire that it could benefit from adopting with very little effort on its part. I hope that will be sufficient to bring all 22 local authorities into the fold. We shall see.

Rwyf wedi enwi Sir Benfro yn y Siambr heddiw ac yn y cyfryngau, a gobeithiaf y bydd yn gweithredu fel sbardun i Sir Benfro i adolygu ei barn o ran pwysigrwydd cymharol eiddo gwag yn ei hardal, ac y bydd yn ymuno yn y parti ac yn manteisio ar y gwaith da iawn sy'n mynd ymlaen yn ei rhanbarth. Mae rhai enghreifftiau da iawn o arferion gorau heb fod yn bell iawn i ffwrdd o Sir Benfro y gallai gael budd o'u mabwysiadu heb fawr o ymdrech ar ei rhan. Rwy'n gobeithio y bydd hynny'n ddigonol i ddod â phob un o'r 22 awdurdod lleol i mewn i'r gorlan. Fe gawn ni weld.

**Mike Hedges:** Empty homes and buildings are an important resource and one that needs to be used. I have three very simple questions. The first is: can you give us an

**Mike Hedges:** Mae cartrefi ac adeiladau gwag yn adnodd pwysig ac yn un y mae angen ei ddefnyddio. Mae gennyf dri chwestiwn syml iawn. Y cyntaf yw: a allwch

update on any progress made on using this fund to convert empty chapels into homes? Secondly, will you produce a list, after March, of how many in each local authority have been converted? Thirdly, will you consider using a council tax escalator for homes that have been empty for a certain period of time?

chi roi'r wybodaeth ddiweddaraf inni am unrhyw gynnydd a wnaed ar ddefnyddio'r gronfa hon i drosi capeli gwag yn gartrefi? Yn ail, a fyddwch chi'n cynhyrchu rhestr, ar ôl mis Mawrth, o sawl un ym mhob awdurdod lleol sydd wedi cael eu trosi? Yn drydydd, a wnewch chi ystyried defnyddio cymalau codi y dreth gyngor ar gyfer cartrefi sydd wedi bod yn wag am gyfnod penodol o amser?

**Huw Lewis:** The answer to the first question, very simply put is that, yes, I am considering currently whether we could diversify this scheme, should resources allow, to take a look at issues such as empty chapels and churches—perhaps with a separate initiative, because there are particular issues connected to such buildings. In terms of how many properties in each local authority are converted, I can, of course, undertake to make sure that those results are published, perhaps at regular intervals throughout the course of the scheme. I am sorry, Mike, I have forgotten the third question.

**Huw Lewis:** Yr ateb i'r cwestiwn cyntaf, yn syml iawn yw, gallaf, rwy'n ystyried ar hyn o bryd a allem arallgyfeirio'r cynllun hwn, pe byddai adnoddau yn caniatáu, i edrych ar faterion megis capeli ac eglwysi gwag—efallai gyda gwahanol fenter, oherwydd mae materion penodol yn gysylltiedig ag adeiladau o'r fath. O ran faint o adeiladau ym mhob awdurdod lleol sy'n cael eu trosi, gallaf, wrth gwrs, ymrwymo i wneud yn siŵr bod y canlyniadau hynny yn cael eu cyhoeddi, efallai yn rheolaidd drwy gydol y cynllun. Rwy'n flin, Mike, rwyf wedi anghofio'r trydydd cwestiwn.

**Mike Hedges:** It was on the use of a council tax escalator.

**Mike Hedges:** Yr oedd yn ymwneud â defnyddio cymalau codi y dreth gyngor.

**Huw Lewis:** Of course, Mike may well be aware that there already has been a consultation, implemented by Carl Sargeant and me, to look at council tax variation when it comes to long-term empty properties. Those consultation responses have been received and are being worked through at the moment. However, escalators are certainly a possibility, and announcements about this will follow very soon.

**Huw Lewis:** Wrth gwrs, mae'n debyg bod Mike yn ymwybodol y bu ymgynghori wedi'i weithredu gan Carl Sargeant a minnau, i edrych ar amrywiadau'r dreth gyngor pan ddaw'n fater o eiddo gwag hir-dymor. Mae'r ymatebion i'r ymgynghoriad wedi dod i law ac yn cael eu hastudio ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae cymalau codi yn sicr yn bosibilrwydd, a bydd cyhoeddiadau ynglŷn â hyn yn dilyn yn fuan iawn.

## Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Atal Twyll Tai Cymdeithasol
## Legislative Consent Memorandum on Prevention of Social Housing Fraud Bill

*Cynnig NDM5082 Huw Lewis*

*Motion NDM5082 Huw Lewis*

*Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried darpariaethau'r Bil Atal Twyll Tai Cymdeithasol i'r graddau y mae'r darpariaethau hynny o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.*

*To propose that the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order 29.6, agrees that provisions of the Prevention of Social Housing Fraud Bill in so far as they fall within the legislative competence of the National Assembly for Wales, should be considered by the UK Parliament.*

**The Minister for Housing, Regeneration and Heritage (Huw Lewis):** I move the motion.
I would like to begin by expressing my thanks to the Communities, Equality and Local Government Committee for considering the legislative consent memorandum and motion in relation to the UK Prevention of Social Housing Fraud Bill. I note the committee's conclusion that it has no objection to the use of an LCM as has been proposed.

**Y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth (Huw Lewis):** Cynigiaf y cynnig.

Hoffwn ddechrau drwy ddiolch i'r Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol am ystyried y memorandwm a'r cynnig cydsyniad deddfwriaethol mewn perthynas â Bil Atal Twyll Tai Cymdeithasol y DU. Nodaf gasgliad y pwyllgor nad oes ganddo wrthwynebiad i'r defnydd o LCM fel sydd wedi'i gynnig.

We are here today to consider the legislative consent issues that have arisen as a result of provisions in the Prevention of Social Housing Fraud Bill. I would like to thank you for this opportunity to explain the background to the LCM in relation to the Prevention of Social Housing Fraud Bill. We have had an active discussion with the UK Government on the contents of the Bill, which is of particular interest to Welsh Ministers. The LCM is required because several of the UK Government's amendments to the Bill's provisions fall within the Assembly's legislative competence in relation to devolved areas. I will briefly explain why this legislative provision is being sought.

Rydym yma heddiw i ystyried y materion cydsyniad deddfwriaethol sydd wedi codi o ganlyniad i ddarpariaethau yn y Bil Atal Twyll Tai Cymdeithasol. Hoffwn ddiolch i chi am y cyfle hwn i esbonio cefndir y cynnig cydsyniad deddfwriaethol mewn perthynas â'r Bil Atal Twyll Tai Cymdeithasol. Rydym wedi cael trafodaeth weithredol gyda Llywodraeth y DU ar gynnwys y Bil, sydd o ddiddordeb arbennig i Weinidogion Cymru. Mae'r cynnig cydsyniad deddfwriaethol yn angenrheidiol oherwydd nifer o ddiwygiadau Llywodraeth y DU i ddarpariaethau'r Bil o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad mewn perthynas â meysydd datganoledig. Egluraf yn fyr pam fod y ddarpariaeth ddeddfwriaethol yn cael ei cheisio.

The Prevention of Social Housing Fraud Bill creates new criminal offences of unlawful sub-letting by secure and assured social housing tenants. We estimate that around 4,400 properties in Wales may be subject to tenancy fraud. The Bill also makes provision concerning the prosecution of these offences, including prosecution powers for local authorities. It also provides for courts to make orders for the recovery from tenants of profits made from unlawful sub-letting, either following conviction or through separate civil proceedings. It provides that an assured tenant of a dwelling-house let by a social landlord who unlawfully parts with possession of, or sub-lets, the dwelling house loses their status as an assured tenant and cannot subsequently regain that status. In this respect, the Bill brings assured tenancies in line with secure tenancies, where the restoration of secure status is already excluded following parting with possession or sub-letting of the whole dwelling house by

Mae'r Bil Atal Twyll Tai Cymdeithasol yn creu troseddau newydd, sef is-osod tai cymdeithasol diogel a sicr yn anghyfreithlon gan denantiaid. Rydym yn amcangyfrif y gallai tua 4,400 eiddo yng Nghymru fod yn destun twyll tenantiaeth. Mae'r Bil hefyd yn gwneud darpariaeth ynghylch erlyn y troseddau hyn, gan gynnwys pwerau erlyn i awdurdodau lleol. Mae hefyd yn darparu ar gyfer llysoedd i wneud gorchmynion ar gyfer adfer elw a wneir o is-osod anghyfreithlon gan denantiaid, naill ai yn dilyn collfarn neu drwy achos sifil ar wahân. Mae'n darparu bod tenant sicr tŷ annedd a osodir gan landlord cymdeithasol sy'n ildio meddiant neu'n is-osod y tŷ annedd yn anghyfreithlon, yn colli ei statws fel tenant sicr ac ni all wedyn adennill y statws hwnnw. Yn hyn o beth, bydd y Bil yn dod â thenantiaethau sicr yn unol â thenantiaethau diogel, lle mae adfer statws diogel eisoes wedi'i eithrio yn dilyn ildio meddiant neu is-osod y tŷ annedd cyfan gan y tenant. Yn olaf, mae'r Mesur hefyd yn

the tenant. Finally, the Bill also provides powers for the Secretary of State and Welsh Ministers to make regulations in relation to social housing fraud investigations.

rhoi pwerau i'r Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau mewn perthynas ag ymchwiliadau twyll tai cymdeithasol.

4.45 p.m.

The policy rationale for the new provisions is to ensure that social housing is occupied by those to whom it was allocated, and that local authorities have access to more information in order to be able to detect fraud in the social housing stock. While the current law provides that a secure tenant who has sub-let or parted with possession of the whole dwelling house ceases to be a secure tenant, which enables the landlord to gain possession of that dwelling house more easily, this has not proved to be an adequate deterrent as the tenant, in reality, only risks losing the tenancy of a property in which he or she does not live. The new provisions are intended to create additional deterrents to unlawful sub-letting in the form of the new offences, orders for the recovery of profits and loss of assured tenancy status.

Sail resymegol y polisi ar gyfer y darpariaethau newydd yw sicrhau bod tai cymdeithasol yn cael eu meddiannu gan y rhai y cawsant eu neilltuo iddynt, a bod awdurdodau lleol yn cael mynediad i fwy o wybodaeth er mwyn gallu canfod twyll yn y stoc dai cymdeithasol. Er bod y gyfraith bresennol yn darparu bod tenant diogel sydd wedi is-osod neu ildio meddiannaeth y tŷ annedd cyfan yn peidio â bod yn denant diogel, sy'n galluogi'r landlord i gael meddiant y tŷ annedd hwnnw yn haws, nid yw hyn wedi profi i fod yn ddigon o ataliad gan nad yw'r tenant, mewn gwirionedd, ond mewn perygl o golli tenantiaeth eiddo lle nad yw ef neu hi yn byw. Bwriedir y bydd y darpariaethau newydd yn creu rhwystrau ychwanegol i is-osod anghyfreithlon ar ffurf troseddau newydd, gorchmynion ar gyfer adennill elw a cholli statws tenantiaeth sicr.

The consultation exercise in Wales in 2012 showed support for the Bill. There was general support for the introduction of powers to tackle fraud in social housing and the definition as outlined in the consultation document. Many of the respondents felt that the penalties for social housing fraud should either be as outlined in the consultation document or be similar to those for housing benefit fraud, 95% of respondents agreed with the introduction of restitutionary payments, and many believed this would incentivise landlords to tackle social housing fraud in the first place.

Mae'r ymarfer ymgynghori yng Nghymru yn 2012 yn dangos cefnogaeth i'r Bil. Roedd cefnogaeth gyffredinol ar gyfer cyflwyno pwerau i fynd i'r afael â thwyll mewn tai cymdeithasol a'r diffiniad fel yr amlinellir yn y ddogfen ymgynghori. Mae llawer o'r ymatebwyr yn teimlo y dylai'r cosbau am dwyll tai cymdeithasol naill ai fod fel y maent wedi'u hamlinellu yn y ddogfen ymgynghori neu fod yn debyg i'r rhai ar gyfer twyll budd-dal tai, roedd 95% o ymatebwyr yn cytuno â chyflwyno taliadau iawndal, ac mae llawer yn credu y byddai hyn yn cymell landlordiaid i fynd i'r afael â thwyll tai cymdeithasol yn y lle cyntaf.

**Ann Jones:** I welcome the opportunity to say a few short words in this debate. The legislative consent memorandum was considered at a meeting of the Communities, Equality and Local Government Committee in November last year. The committee has no objections to the use of a legislative consent memorandum as proposed by the Welsh Government to ensure that these vital provisions apply in Wales at the earliest

**Ann Jones:** Croesawaf y cyfle i ddweud ychydig o eiriau byr yn y ddadl hon. Cafodd y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol ei ystyried mewn cyfarfod o'r Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol ym mis Tachwedd y llynedd. Nid oes gan y pwyllgor unrhyw wrthwynebiadau i'r defnydd o femorandwm cydsyniad deddfwriaethol fel y cynigiwyd gan Lywodraeth Cymru i sicrhau bod y

opportunity.

darpariaethau hanfodol yn berthnasol yng Nghymru ar y cyfle cyntaf.

It is vital that we ensure that social housing is occupied by those in the greatest housing need and not by those seeking to profit from any poverty. I welcome, therefore, the decisive action taken by the Welsh Government to tackle the scurrilous abuse of social housing by a mindless minority. The provisions of the Bill that apply to Wales were as a result of a conscious decision by the Welsh Labour Government. These are intended to counter the abuse of social housing, as the Minister has said, by strengthening the power of social landlords to tackle tenants who do not play by the rules.

Mae'n hanfodol ein bod yn sicrhau bod tai cymdeithasol yn cael eu meddiannu gan y rhai sydd â'r angen mwyaf am dai ac nid gan y rhai sy'n ceisio elwa o unrhyw dlodi. Rwyf yn croesawu, felly, y camau pendant a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru i fynd i'r afael â'r cam-drin anfoesol o dai cymdeithasol gan leiafrif difeddwl. Mae darpariaethau'r Bil sy'n berthnasol i Gymru yn ganlyniad i benderfyniad ymwybodol gan Lywodraeth Lafur Cymru. Bwriad y rhain yw brwydro yn erbyn cam-drin tai cymdeithasol, fel y dywedodd y Gweinidog, drwy gryfhau grym landlordiaid cymdeithasol i fynd i'r afael â thenantiaid nad ydynt yn dilyn y rheolau.

That fits in, if I may take a moment to say so, with the vision for housing on the benches here, which is that the people of Wales should have high-quality, warm, safe, secure and energy-efficient homes to live in. Also, from the back half of this year, 2013, we will have sprinklers fitted in all new home builds. I am sure that the Assembly would not expect me to miss an opportunity to tell people that this is the year in which sprinklers are coming in. I am grateful to the Minister for his principled action and determination to improve the quality and quantity of our housing stock, to tackle homelessness, and for his bold and ambitious commitments to housing and to tackling fraud in social housing. The committee has no objections to the legislative consent memorandum.

Mae hynny'n cyd-fynd, os caf gymryd ennyd i ddweud hynny, gyda'r weledigaeth ar gyfer tai ar y meinciau yma, sef y dylai pobl Cymru gael cartrefi o ansawdd uchel, cynnes, diogel, sicr a rhad ar ynni i fyw ynddynt. Hefyd, o ail hanner eleni, 2013, bydd gennym systemau chwistrellu wedi eu gosod ym mhob cartref a adeiladir o'r newydd. Rwy'n siŵr na fyddai'r Cynulliad yn disgwyl i mi golli cyfle i ddweud wrth bobl mai dyma'r flwyddyn pan fydd systemau chwistrellu yn cael eu cyflwyno. Rwy'n ddiolchgar i'r Gweinidog am ei weithredu egwyddorol a'i benderfyniad i wella ansawdd a maint ein stoc dai, i fynd i'r afael â digartrefedd, ac am ei ymrwymiadau beiddgar ac uchelgeisiol i dai ac i fynd i'r afael â thwyll mewn tai cymdeithasol. Nid oes gan y pwyllgor unrhyw wrthwynebiadau i'r memorandwm cydsyniad deddfwriaethol.

**Jenny Rathbone:** I very much welcome this Bill and the provisions in it to reduce unlawful sub-letting. We have 12,000 people on the housing waiting list in Cardiff, and, apart from the human misery that is described in that, there are huge temptations there, given the scarcity of the resource, in terms of individuals who are tempted to sub-let where they have for one reason or another decided to move elsewhere, and for organised crime. This is a matter, therefore, that needs to be coordinated across the UK to ensure that we know that individuals are not occupying more

**Jenny Rathbone:** Rwy'n croesawu'r Bil a'r darpariaethau sydd ynddo i leihau is-osod anghyfreithlon. Mae gennym 12,000 o bobl ar y rhestr aros am dai yng Nghaerdydd, ac, ar wahân i'r trallod dynol sydd ynghlwm â hynny, mae temtasiynau enfawr yno, o ystyried prinder yr adnodd, o ran unigolion sy'n cael eu temtio i is-osod lle maent am ryw reswm neu'i gilydd wedi penderfynu symud i rywle arall, ac ar gyfer troseddau cyfundrefnol. Mae hwn yn fater, felly, y mae angen ei gydlynu ar draws y DU i sicrhau ein bod yn gwybod nad yw unigolion yn

than one property, particularly in relation to housing benefit fraud. I would like to press the Minister to tell us how we can ensure that more social housing organisations are involved in the national fraud initiative, so that we can more easily identify people who are occupying properties in more than one authority either within Wales, or in Wales and in England or other parts of the UK. It is vital that we ensure that people are not jumping the queue or blatantly using the scarcity of social housing as a way to earn a lot of money.

meddiannu mwy nag un eiddo, yn enwedig mewn perthynas â thwyll budd-dal tai. Hoffwn bwyso ar y Gweinidog i ddweud wrthym sut y gallwn sicrhau bod mwy o sefydliadau tai cymdeithasol yn cymryd rhan yn y fenter twyll genedlaethol, fel y gallwn adnabod pobl yn haws sy’n meddiannu eiddo mewn mwy nag un awdurdod naill ai yng Nghymru neu yng Nghymru ac yn Lloegr neu rannau eraill o’r DU. Mae’n hanfodol ein bod yn sicrhau nad yw pobl yn neidio’r ciw neu’n amlwg yn defnyddio’r prinder tai cymdeithasol fel ffordd i ennill llawer o arian.

**Huw Lewis:** I am grateful to the Members who participated in the debate. I particularly thank, through Ann Jones, the members of the committee for their observations on this LCM and this initiative.

**Huw Lewis:** Rwy’n ddiolchgar i’r Aelodau a gymerodd ran yn y ddadl. Hoffwn ddiolch yn arbennig, drwy Ann Jones, i aelodau’r pwyllgor am eu sylwadau ar y cynnig cydsyniad deddfwriaethol a’r fenter hon.

Jenny Rathbone is quite right to point out that there is a proportion—a small proportion, we would assume, given UK-wide surveys about this type of fraud, but, nevertheless, a very important proportion—of out-and-out criminality, organised criminality quite often, with regard to this particular type of fraud. The Welsh Government would and does encourage all social landlords to carry out periodic inspections of their properties to ensure that they have not been illegally sub-let. We know that some landlords do carry out periodic inspections—once every two years would be frequency with which most would carry out this type of inspection. Landlords need to publicise in their newsletters and by other means how and where people can report suspected tenancy fraud. More intensive checks at the housing application stage in all places would also be of great use in this regard.

Mae Jenny Rathbone yn hollol iawn i dynnu sylw at y ffaith bod cyfran—cyfran fechan, byddem yn tybio, o ystyried arolygon ledled y DU am y math hwn o dwyll, ond, er hynny, cyfran bwysig iawn—o droseddu llwyr, troseddoldeb cyfundrefnol yn eithaf aml, o ran y math arbennig hwn o dwyll. Byddai ac mae Llywodraeth Cymru yn annog pob landlord cymdeithasol i gynnal arolygiadau cyfnodol o’u heiddo i sicrhau nad ydynt wedi cael eu his-osod yn anghyfreithlon. Rydym yn gwybod bod rhai landlordiaid yn cynnal arolygiadau cyfnodol—unwaith bob dwy flynedd yw pa mor aml y byddai’r rhan fwyaf yn cynnal y math hwn o arolygiad. Mae angen i landlordiaid roi cyhoeddusrwydd yn eu cylchlythyrau a thrwy ddulliau eraill sut a lle y gall pobl adrodd am dwyll tenantiaeth a amheuir. Byddai gwiriadau mwy dwys yn y cam gwneud cais am dai ym mhob man hefyd o ddefnydd mawr yn hyn o beth.

Hopefully, the provisions outlined in the LCM will also add to the menu of options available to local authorities and to social landlords more widely. We all have an interest in ensuring that social housing provision goes to those most in need and is not used for profit. Implementing these provisions in Wales will create a deterrent to those considering committing tenancy fraud and make it easier for local authorities to prosecute where tenancy fraud is occurring. I welcome Members’ supportive comments for

Gobeithio y bydd y darpariaethau a amlinellir yn y cynnig cydsyniad deddfwriaethol hefyd yn ychwanegu at y ddewislen o ddewisiadau sydd ar gael i awdurdodau lleol ac i landlordiaid cymdeithasol yn fwy eang. Mae gennym i gyd ddiddordeb mewn sicrhau bod y ddarpariaeth tai cymdeithasol yn mynd i’r rhai sydd fwyaf mewn angen ac na chaiff ei defnyddio i wneud elw. Bydd gweithredu’r darpariaethau hyn yng Nghymru yn creu rhwystr i’r rheiny sy’n ystyried cyflawni twyll tenantiaeth ac yn ei gwneud yn haws i

this motion.

awdurdodau lleol erlyn lle mae twyll tenantiaeth yn digwydd. Rwyf yn croesawu sylwadau cefnogol yr Aelodau i'r cynnig hwn.

**The Deputy Presiding Officer:** The proposal is to agree the motion. Does any Member object? I see that there is no objection. The motion is therefore agreed, in accordance with Standing Order No. 12.36.

**Y Dirprwy Lywydd:** Y cynnig yw cytuno ar y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Gwelaf nad oes gwrthwynebiad. Mae'r cynnig, felly, wedi'i dderbyn, yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36.

*Derbyniwyd y cynnig.*
*Motion agreed.*

## Setliad Llywodraeth Leol
## The Local Government Settlement

*Cynnig NDM5127 Jane Hutt*

*Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol ag Adran 84H o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988, yn cymeradwyo Adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol (Rhif 1) 2013-2014 (Setliad Terfynol – Cynghorau) a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 2 Ionawr 2013.*

*Motion NDM5127 Jane Hutt*

*To propose that the National Assembly for Wales in accordance with Section 84H of the Local Government Finance Act 1988, approves the Local Government Finance Report (No. 1) 2013-2014 (Final Settlement - Councils) which was laid in the Table Office on 2 January 2013.*

**The Minister for Local Government and Communities (Carl Sargeant):** I move the motion.

**Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau (Carl Sargeant):** Cynigiaf y cynnig.

I am pleased to present to the Assembly for its approval next year's local government settlement for 22 unitary authorities in Wales. This settlement delivers a cash increase in funding for 2013-14 compared with this year's settlement, and it reflects the Government's continued commitment to support local government that will see its core funding increase by 0.7% over the current spending review period. While we should be under no illusion that this is a challenging settlement, despite the difficult financial climate, it maintains the core funding for local authorities in Wales and continues to provide a comparatively better settlement than that in England.

Mae'n bleser gennyf gyflwyno setliad llywodraeth leol y flwyddyn nesaf ar gyfer y 22 awdurdod unedol yng Nghymru i'r Cynulliad i'w gymeradwyo. Mae'r setliad hwn yn darparu cynnydd ariannol yn y cyllid ar gyfer 2013-14 o'i gymharu â setliad eleni, ac mae'n adlewyrchu ymrwymiad parhaus y Llywodraeth i gefnogi llywodraeth leol a fydd yn gweld ei chyllid craidd yn cynyddu o 0.7% dros y cyfnod adolygu gwariant presennol. Er na ddylem fod dan unrhyw gamargraff bod hwn yn setliad heriol, er gwaethaf yr hinsawdd ariannol anodd, mae'n cynnal y cyllid craidd ar gyfer awdurdodau lleol yng Nghymru ac yn parhau i ddarparu setliad gwell yn gymharol nag yn Lloegr.

The Welsh Local Government Association has welcomed the settlement, particularly the protection for education and social services. Our commitment to protect funding for schools and social care over the four years to

Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi croesawu'r setliad, yn enwedig yr amddiffyniad ar gyfer gwasanaethau addysg a chymdeithasol. Mae ein hymrwymiad i ddiogelu cyllid ar gyfer ysgolion a gofal

2014-15 means that we are making an additional £80 million available for schools and £35 million for social services.

cymdeithasol dros y pedair blynedd hyd at 2014-15 yn golygu ein bod yn sicrhau bod swm ychwanegol o £80 miliwn ar gael i ysgolion a £35 miliwn ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol.

The details about specific grants that I have provided to local authorities within the settlement announcement show that authorities will receive £754 million of funding to support projects that are key to the future of Wales, such as Supporting People and the foundation phase.

Mae'r manylion am grantiau penodol yr wyf wedi'u darparu i awdurdodau lleol o fewn cyhoeddiad y setliad yn dangos y bydd awdurdodau yn derbyn £754 miliwn o gyllid i gefnogi prosiectau sy'n allweddol i ddyfodol Cymru, fel Cefnogi Pobl a'r cyfnod sylfaen.

This is a realistic settlement under current conditions, but the next spending review will be even more challenging. Local authorities must take the opportunity now to put in place delivery mechanisms that can be sustained in the face of funding challenges. I have made very clear my view that collaborative working is key to this. I am encouraged by the progress made on collaboration and many things are happening, but I do not think that these things are happening fast enough or moving far enough. The window of opportunity to change before finances become even tighter is now very narrow.

Mae hwn yn setliad realistig o dan amodau presennol, ond bydd yr adolygiad gwariant nesaf hyd yn oed yn fwy heriol. Rhaid i awdurdodau lleol gymryd y cyfle yn awr i sefydlu dulliau darparu y gellir eu cynnal yn wyneb heriau ariannu. Rwyf wedi gwneud yn glir iawn fy marn bod cydweithio yn allweddol i hyn. Rwyf wedi fy nghalonogi gan y cynnydd a wnaed ar gydweithio ac mae llawer o bethau yn digwydd, ond nid wyf yn meddwl bod y pethau hyn yn digwydd yn ddigon cyflym neu'n symud yn ddigon pell. Mae'r cyfle i newid cyn y daw cyllid hyd yn oed yn dynnach yn awr yn gyfyngedig iawn.

The regional collaboration fund offers an opportunity to accelerate and ensure the final funding for the initial start-up costs, ensuring that this is no longer a barrier. It provides £10.2 million for local authorities and other public sector partners to work together to find sustainable, cost-effective solutions to the challenges of meeting the growing demand for services in the context of a shrinking public funding stream. I have shared the criteria for funding and the process for bringing projects forward with local government. This will not be a general bidding opportunity, instead, each region must think strategically about how the fund can be best used within its region.

Mae'r gronfa cydweithio rhanbarthol yn cynnig cyfle i gyflymu a sicrhau'r cyllid terfynol ar gyfer costau dechrau cychwynnol, gan sicrhau nad yw hyn yn rhwystr bellach. Mae'n darparu £10.2 miliwn ar gyfer awdurdodau lleol a phartneriaid sector cyhoeddus eraill i weithio gyda'i gilydd i ddod o hyd i atebion cynaliadwy, cost-effeithiol i'r heriau o fodloni galw cynyddol am wasanaethau yng nghyd-destun llif arian cyhoeddus sy'n lleihau. Rwyf wedi rhannu'r meini prawf ar gyfer cyllido a'r broses ar gyfer cyflwyno prosiectau gyda llywodraeth leol. Ni fydd hwn yn gyfle bidio cyffredinol, yn hytrach, rhaid i bob rhanbarth feddwl yn strategol am y ffordd orau o ddefnyddio'r gronfa o fewn ei rhanbarth.

This is a good settlement, with overall funding on a like-for-like basis increased by 1.5% compared to the 2012-13 settlement. We have already debated the impact of the UK Government's decision to abolish the council tax benefit and to cut the funding for the new arrangements that we must establish

Mae hwn yn setliad da, gyda chyllid cyffredinol ar sail tebyg-am-debyg yn cynyddu gan 1.5% o'i gymharu â setliad 2012-13. Rydym eisoes wedi dadlau effaith penderfyniad Llywodraeth y DU i ddileu'r budd-dal treth cyngor ac i dorri cyllid ar gyfer y trefniadau newydd y mae'n rhaid i ni

in Wales. The £222 million in funding that has been provided for 2013-14 has been passported in full into the settlement, so that local authorities can manage the scheme in the most effective way and take account of the impact in setting their council tax. In addition, I have built £4.6 million into the funding this year for the new scheme to provide councils with some contingency to help with planning and demand management. We are now in a position whereby we can provide help for 330,000 Welsh households next April. Given the complexity of the system and the limited time available, this is a considerable achievement and the result of excellent collaborative working between local government officials and the Welsh Government. I am pleased that the outcome for Wales will be consistent and fair—quite different from the approach taken in England.

sefydlu yng Nghymru. Mae'r £222 miliwn mewn cyllid sydd wedi'i ddarparu ar gyfer 2013-14 wedi cael ei basio'n llawn i mewn i'r setliad, fel y gall awdurdodau lleol reoli'r cynllun yn y ffordd fwyaf effeithiol ac ystyried yr effaith wrth osod eu treth gyngor. Yn ogystal, rwyf wedi cynnwys £4.6 miliwn yng nghyllid eleni ar gyfer y cynllun newydd i roi rhywfaint wrth gefn i gynghorau i helpu gyda chynllunio a rheoli galw. Rydym bellach mewn sefyllfa lle y gallwn ddarparu cymorth i 330,000 o aelwydydd Cymru fis Ebrill nesaf. O ystyried cymhlethdod y system a'r amser cyfyngedig sydd ar gael, mae hyn yn dipyn o gamp ac yn ganlyniad i waith ardderchog ar y cyd rhwng swyddogion llywodraeth leol a Llywodraeth Cymru. Rwy'n falch y bydd y canlyniad ar gyfer Cymru yn gyson ac yn deg—yn wahanol iawn i'r ymagwedd a gymerwyd yn Lloegr.

It is no secret that the outlook for capital funding is challenging. Maintaining our capacity to invest is vital, not just to improve services, but to provide the economic stimulus when it is most needed. That is why we are working closely with local government to expand the initiative to boost borrowing over the next year to accelerate the twenty-first century schools programme and, with regard to the successful initiative for roads, the intention is to provide local government with additional revenue funding to enable it to fund borrowing over and above current plans. The revenue provided will help local authorities in Wales to borrow up to £200 million to bring forward their plans for new and improved schools.

Nid yw'n gyfrinach bod y rhagolygon ar gyfer cyllid cyfalaf yn heriol. Mae cynnal ein gallu i fuddsoddi yn hanfodol, nid yn unig i wella gwasanaethau, ond i ddarparu ysgogiad economaidd pan mae ei angen fwyaf. Dyna pam yr ydym yn gweithio'n agos gyda llywodraeth leol i ehangu'r fenter i roi hwb i fenthyca dros y flwyddyn nesaf i gyflymu rhaglen ysgolion yr unfed ganrif ar hugain ac, o ran y fenter lwyddiannus ar gyfer ffyrdd, y bwriad yw darparu llywodraeth leol gyda chyllid refeniw ychwanegol i'w galluogi i ariannu benthyca yn ychwanegol i'r cynlluniau presennol. Bydd y refeniw a ddarperir yn helpu awdurdodau lleol yng Nghymru i fenthyca hyd at £200 miliwn i gyflwyno eu cynlluniau ar gyfer ysgolion newydd a gwell.

It is now for local authorities to set their budgets for 2013-14. Average council tax levels in Wales remain around 20% below that of those in England, because of the proportionately greater support that the Welsh Government provides for local spending. I am prepared to use the capping powers available to me should the need arise. However, from my discussions with local government, I am confident that local authorities in Wales will continue to act responsibly when setting their council taxes for next year.

Mae'n fater bellach i awdurdodau lleol bennu eu cyllidebau ar gyfer 2013-14. Mae lefelau cyfartalog y dreth gyngor yng Nghymru yn aros yn rhyw 20% yn is na'r rhai yn Lloegr, oherwydd y gefnogaeth gymesurol uwch y mae Llywodraeth Cymru yn ei darparu ar gyfer gwariant lleol. Rwyf yn barod i ddefnyddio'r pwerau capio sydd ar gael i mi pe bai'r angen yn codi. Fodd bynnag, ar sail fy nhrafodaethau â llywodraeth leol, rwy'n hyderus y bydd awdurdodau lleol yng Nghymru yn parhau i ymddwyn yn gyfrifol wrth osod y dreth gyngor ar gyfer y flwyddyn nesaf.

However, services are not where they need to be. I will publish tomorrow a more up-to-date version of the local authority services performance document, which I first published in July 2012. The publication continues to show an unacceptable wide variation in levels of service. I see collaboration as a vital component of the reforms needed to drive-up service standards, but I also expect local members involved in scrutiny to play a full part in that, including using this publication to ask questions on behalf of the people who elected them.

Fodd bynnag, nid yw gwasanaethau yn y man mae angen iddynt fod. Byddaf yn cyhoeddi yfory fersiwn fwy diweddar o'r ddogfen perfformiad awdurdod gwasanaethau lleol, a gyhoeddais gyntaf ym mis Gorffennaf 2012. Mae'r cyhoeddiad yn parhau i ddangos amrywiad eang annerbyniol mewn lefelau gwasanaeth. Rwy'n gweld cydweithio fel elfen hanfodol o'r diwygiadau sydd eu hangen i wella safonau gwasanaethau, ond rwyf hefyd yn disgwyl i aelodau lleol sy'n ymwneud â chraffu chwarae rhan lawn yn hynny, gan gynnwys defnyddio'r cyhoeddiad hwn i ofyn cwestiynau ar ran y bobl hynny a'u hetholodd.

In conclusion, I believe this to be a fair, realistic settlement for local government in difficult times. It underlines our commitment to maintaining public services for those who need them and to continuing to invest in local government despite the funding reductions elsewhere in the UK. I commend this settlement to the Assembly.

I gloi, credaf fod hwn yn setliad teg, realistig ar gyfer llywodraeth leol mewn cyfnod anodd. Mae'n tanlinellu ein hymrwymiad i gynnal gwasanaethau cyhoeddus ar gyfer y rhai sydd eu hangen ac i barhau i fuddsoddi mewn llywodraeth leol er gwaethaf y gostyngiadau arian mewn mannau arall yn y DU. Cymeradwyaf y setliad hwn i'r Cynulliad.

5.00 p.m.

**Janet Finch-Saunders:** Minister, thank you for introducing the local government settlement for 2013-14. We fully recognise the modest increase of the settlement, but in Powys, for instance, with external finance, as well as the increase in non-domestic rates, we are looking at low figures. Without the non-domestic rates, it is a 0.3% increase, and you rightly pointed out in your contribution the pressures that all local authorities in Wales now face.

**Janet Finch-Saunders:** Weinidog, diolch i chi am gyflwyno'r setliad llywodraeth leol ar gyfer 2013-14. Rydym yn llwyr gydnabod bod y cynnydd yn y setliad yn fach, ond ym Mhowys, er enghraifft, gyda chyllid allanol, yn ogystal â'r cynnydd yn y trethi annomestig, rydym yn edrych ar ffigurau isel. Heb y cyfraddau annomestig, mae'n gynnydd o 0.3%, ac roeddech yn briodol yn nodi yn eich cyfraniad y pwysau y mae pob awdurdod lleol yng Nghymru bellach yn eu hwynebu.

Additionally, however, the spending patterns contained in the settlement do not always take into account the various demographic pressures that each individual local authority will face, because we all know that Wales is a diverse country and we have to make sure that how we deliver our services seeks to help our people. I have raised concerns in the past about the settlement in terms of equality and how you can justify that a good equality thread runs through it to make sure that no local authority will feel disadvantaged. I have

Yn ogystal, fodd bynnag, nid yw'r patrymau gwario a gynhwysir yn y setliad bob amser yn ystyried y gwahanol bwysau demograffig y bydd pob awdurdod lleol unigol yn eu hwynebu, oherwydd ein bod i gyd yn gwybod fod Cymru yn wlad amrywiol ac mae'n rhaid i ni wneud yn siŵr bod y ffordd yr ydym yn cyflawni ein gwasanaethau yn ceisio helpu ein pobl. Rwyf wedi codi pryderon yn y gorffennol am y setliad o ran cydraddoldeb a sut y gallwch gyfiawnhau bod elfen gydraddoldeb dda yn rhedeg

also raised concerns numerous times, as has our group and other groups as well, about how we can monitor on behalf of the residents, without controlling or dictating, local authority spending. You have the second largest budget in the Welsh Government, and it is vital that that money is spent across all local authorities in a transparent, accountable and democratic manner.

drwyddo i wneud yn siŵr na fydd unrhyw awdurdod lleol yn teimlo dan anfantais. Rwyf hefyd wedi codi pryderon nifer o weithiau, fel y mae ein grŵp a grwpiau eraill yn ogystal, ynghylch sut y gallwn fonitro ar ran y trigolion, heb reoli neu osod amodau, gwariant awdurdodau lleol. Mae gennych y gyllideb ail fwyaf yn Llywodraeth Cymru, ac mae'n hanfodol bod yr arian yn cael ei wario ar draws yr holl awdurdodau lleol mewn modd tryloyw, atebol a democrataidd.

Given the recent news, which has left quite a few local authority workers reeling and which I raised earlier, about chief executive remuneration in local authorities, this is an opportunity for the Welsh Government to bring accountability and transparency back into local authority spending. Without going over it too much, we have seen some outrageous examples of Welsh local government waste in 2012, including reports of £37 million-worth of council tax and £23 million-worth of business rates going uncollected during 2010-11, with £84 million in council tax arrears outstanding. In Torfaen, as has been mentioned by my colleague Lindsay Whittle AM, £1.8 million-worth of IT equipment for schools is just sitting there. It is currently unused and in storage, waiting for the Welsh Government to authorise its use. Furthermore, 15 councils in 2011 spent nearly £1 million between them to distribute free newspapers and propaganda publications. When people in Wales have faced staggering council tax rises of 140% since 1997, this kind of flagrant disregard towards taxpayers' money must be addressed immediately by your Welsh Government and by you as a Minister.

O ystyried y newyddion diweddar, sydd wedi ysgwyd cryn nifer o weithwyr awdurdod lleol ac a godais yn gynharach, am daliadau prif weithredwyr mewn awdurdodau lleol, mae hyn yn gyfle i Lywodraeth Cymru ddod ag atebolrwydd a thryloywder yn ôl i mewn i wariant awdurdodau lleol. Heb fynd drosto ormod, rydym wedi gweld rhai enghreifftiau gwarthus o wastraff llywodraeth leol Cymru yn 2012, gan gynnwys adroddiadau o werth £37 miliwn o dreth gyngor a gwerth £23 miliwn o ardrethi busnes yn mynd heb eu casglu yn ystod 2010-11, gyda £84 miliwn o ôl-ddyledion treth gyngor heb eu talu. Yn Nhorfaen, fel y crybwyllodd fy nghydweithiwr Lindsay Whittle AC, mae gwerth £1.8 o offer TG ar gyfer ysgolion yn aros yno'n gwneud dim. Ar hyn o bryd mae heb ei ddefnyddio ac mewn stordy, yn aros i Lywodraeth Cymru awdurdodi ei ddefnydd. Ar ben hynny, gwariodd 15 o gynghorau yn 2011 bron i £1 miliwn rhyngddynt i ddosbarthu papurau newydd am ddim a chyhoeddiadau propaganda. Pan fo pobl yng Nghymru wedi wynebu codiadau treth gyngor syfrdanol o 140% ers 1997, mae'n rhaid mynd i'r afael â'r math hwn o ddiystyru difrifol ar arian y trethdalwyr ar unwaith gan eich Llywodraeth Cymru a gennych chi fel Gweinidog.

Why not endorse the UK Government's guidance for local government, '50 ways to save', such as merging back-office functions as in the tri-borough initiative in London, which is on track to save £40 million by 2015-16? I call on the Welsh Government to provide something similar to support local authorities on cutting waste.

Pam nad cefnogi cyfarwyddyd Llywodraeth y DU ar gyfer llywodraeth leol, '50 ffordd i arbed', megis uno swyddogaethau cefn swyddfa fel yn y fenter tair-bwrdeistref yn Llundain, sydd ar y trywydd iawn i arbed £40 miliwn erbyn 2015-16? Rwy'n galw ar Lywodraeth Cymru i ddarparu rhywbeth tebyg i gefnogi awdurdodau lleol mewn lleihau gwastraff.

On supporting our most vulnerable, although, quite rightly, the service areas covered by the

O ran cefnogi ein mwyaf agored i niwed, er, yn gwbl briodol, mae'r meysydd gwasanaeth

settlement are more focused on the younger population of Wales, I still have major concerns about the lack of focus on those aged between 65 and 85; those demographics really apply pressures in Aberconwy. The 2011 census has shown that one in five residents in Wales is over the age of 65, and with long-term illnesses and rising diagnoses of dementia—12,000 people in north Wales alone have dementia, and that figure is set to rise to 15,000 in the next 10 years—I am concerned that not enough consideration is being set aside for complex care packages. Therefore, I am disappointed by the lack of consideration for older people in Wales in this particular settlement.

a gwmpesir gan y setliad yn canolbwyntio mwy ar boblogaeth iau Cymru, rwy'n dal yn pryderu'n fawr am y diffyg ffocws ar y rhai rhwng 65 a 85; mae'r ddemograffeg hon yn rhoi pwysau gwirioneddol yn Aberconwy. Mae cyfrifiad 2011 wedi dangos bod un o bob pump o'r trigolion yng Nghymru dros 65 oed, a gyda salwch tymor hir a diagnosis cynyddol o dementia—mae 12, 000 o bobl yng ngogledd Cymru yn unig yn dioddef o ddementia, a bydd y ffigur hwnnw yn codi i 15,000 yn y 10 mlynedd nesaf—rwy'n pryderu nad oes digon o ystyriaeth yn cael ei neilltuo ar gyfer pecynnau gofal cymhleth. Felly, rwy'n siomedig gan y diffyg ystyriaeth ar gyfer pobl hŷn yng Nghymru yn y setliad penodol hwn.

Furthermore, rural communities face significant pressures, including the cutting of vital transport links. I was disappointed, therefore, by reports in December that you, as Minister, were considering a potential 25% cut to rural transport in west Wales in April, as well as an overall reduction of money for bus and community transport in Wales. There was a recent announcement that English local authorities are being given the opportunity to have control of 70% of council income raised locally. From April 2013, councils in England will also be able to take advantage of a new business rate retention incentive, which is a reward for growth. This is the start of a new year, and a chance for you to make some dramatic changes to local government across Wales. I urge you to take that opportunity.

Ar ben hynny, mae cymunedau gwledig yn wynebu pwysau sylweddol, gan gynnwys torri cysylltiadau trafnidiaeth hanfodol. Roeddwn yn siomedig, felly, gan adroddiadau ym mis Rhagfyr eich bod chi, fel Gweinidog, yn ystyried toriad posibl o 25% i drafnidiaeth wledig yng ngorllewin Cymru ym mis Ebrill, yn ogystal â gostyngiad cyffredinol o arian ar gyfer bysiau a thrafnidiaeth gymunedol yng Nghymru. Roedd cyhoeddiad diweddar fod awdurdodau lleol yn Lloegr yn cael y cyfle i gael rheolaeth o 70% o incwm cyngor a godir yn lleol. O fis Ebrill 2013, bydd cynghorau yn Lloegr hefyd yn gallu manteisio ar gymhelliad cadw ardrethi busnes newydd, sydd yn wobr ar gyfer twf. Dyma ddechrau blwyddyn newydd, a chyfle i chi wneud rhai newidiadau dramatig i lywodraeth leol ledled Cymru. Rwyf yn eich annog i gymryd y cyfle hwnnw.

**Rhodri Glyn Thomas:** Weinidog, ar ôl gwrando ar lefarydd y Ceidwadwyr yn eich annog i ddilyn arweiniad y glymblaid yn San Steffan, hoffwn innau eich annog yn gryf iawn i beidio â gwneud hynny. Hoffwn eich sicrhau hefyd, pe byddech yn gofyn i bob awdurdod lleol yng Nghymru lle byddent yn dymuno bod ar hyn o bryd, byddai'n llawer iawn gwell ganddynt fod yng Nghymru nag yn Lloegr, lle byddent yn wynebu toriadau dwfn i'w cyllidebau. Mae'r toriadau hynny'n mynd i gael effaith andwyol iawn ar wasanaethau.

**Rhodri Glyn Thomas:** Minister, having listened to the Conservative spokesperson encouraging you to follow the lead of the coalition in Westminster, I would like to strongly encourage you not to do so. I would also like to assure you that if you were to ask every local authority in Wales where they would like to be at present, they would much rather be in Wales than in England, where they would face deep cuts to their budgets. Those cuts are going to have a very detrimental effect on services.

Rwyf yn derbyn yr hyn a ddywedoch ar y dechrau, Weinidog: mae cynnydd bach iawn wedi bod yn y setliad hwn yng Nghymru. Yn sicr, bydd hynny'n golygu na fydd yn rhaid i awdurdodau yng Nghymru wynebu'r math o doriadau y bydd yn rhaid i awdurdodau yn Lloegr eu cyflwyno. Serch hynny, bydd y sefyllfa hon yn un anodd iawn i lywodraeth leol yng Nghymru. Yn y ddadl hon, credaf y dylem dalu teyrnged i swyddogion a gweithwyr awdurdodau lleol ledled Cymru, sy'n sicrhau bod gwasanaethau sylfaenol hanfodol yn cyrraedd pobl Cymru, er gwaethaf y pwysau ariannol enfawr sy'n wynebu'r awdurdodau hyn.

I accept what you said at the beginning, Minister: there has been a slight increase in this settlement in Wales. Certainly, that will mean that authorities in Wales will not have to face the type of cuts that authorities in England will have to introduce. Despite that, this situation will be a very difficult one for local government in Wales. In this debate, I think that we should pay tribute to local authority officers and workers throughout Wales, who ensure that vital fundamental services reach the people of Wales, despite the huge financial pressures that face these authorities.

Weinidog, rydym yn derbyn eich bod wedi gwneud yr hyn a allwch, o fewn y cyfyngiadau a osodwyd ar Lywodraeth Cymru ac ar eich adran chi, i ddiogelu'r setliad. Serch hynny, fel y gwyddoch, rydym yn anghytuno ar nifer o bynciau—nid wyf am fynd dros y dadleuon hynny; cawsom gyfle dros y misoedd diwethaf i wneud hynny—ac mae'n weddol glir lle rydym yn sefyll o ran lwfansau'r dreth gyngor. Gwyddoch fy mod wedi dadlau'n gyson, ers mis Ebrill diwethaf, y dylai'r Llywodraeth geisio sicrhau bod y bwlch cyllido a osodwyd arnom gan y glymblaid yn San Steffan yn cael ei gau i ryw raddau, os nad yn gyfan gwbl, er mwyn sicrhau nad yw'r bobl fwyaf bregus yn ein cymunedau'n dioddef. Gan eich bod chi, fel Llywodraeth, wedi penderfynu peidio â gwneud hynny a pheidio â dilyn yr hyn a wnaed yn yr Alban, mae'n rhaid imi eich rhybuddio bod awdurdodau lleol ledled Cymru yn awr yn wynebu problem enfawr yng nghyd-destun casglu'r hyn a fydd yn ddyledus iddynt. Ni fydd y bobl sydd wedi arfer derbyn lwfansau'r dreth gyngor yn disgwyl hyn.

Minister, we accept that you have done what you can, within the limits placed upon the Welsh Government and on your department, to protect the settlement. Despite that, as you know, we disagree on a number of subjects—I will not go back over those arguments; we had the opportunity to do so over the past few months—and it is quite clear where we stand in terms of council tax benefits. You know that we have argued consistently, since last April, that the Government should try to ensure that the funding gap imposed upon us by the coalition Government is closed to some extent, if not entirely, in order to ensure that the most vulnerable people in our communities do not suffer. Given that you, as a Government, have decided not to do that and not to follow what has been done in Scotland, I have to warn you that local authorities throughout Wales will now face a serious problem in terms of collecting what will be owed to them. The people who are used to receiving council tax benefits will not expect this.

Er gwaethaf y ffaith ein bod ni wedi cael y drafodaeth hon droeon a thro ar lawr y Siambr, ni fydd pobl ar lawr gwlad yn disgwyl i'r newidiadau hyn gael yr effaith y byddant yn eu cael. Ni fyddant yn disgwyl y toriadau hyn, ni fyddant yn paratoi ar eu cyfer, ac ni fyddant mewn sefyllfa i dalu'r dreth ychwanegol a fydd yn ofynnol. Yna, bydd awdurdodau lleol ledled Cymru yn ceisio cael yr arian hwn yn ôl. Bydd yn rhaid iddynt fynd i'r llysoedd, a fydd yn gostus iddynt. Bydd yn costio llawer mwy iddynt

Despite the fact that we have had this discussion over and over again on the floor of the Chamber, people across the country will not expect these changes to have the effect that they will. They will not be expecting these cuts, they will not be preparing for them, and they will not be in a position to pay the additional tax that will be required. Then, local authorities throughout Wales will try to get this money back. They will have to go to the courts, and that will be costly for them. It will cost them far more to try to collect the

geisio casglu'r arian hwn drwy'r broses honno na'r arian a fydd yn ddyledus iddynt. Yn ogystal â hyn, Weinidog, mae'n rhaid ichi dderbyn y byddwn, mewn rhai sefyllfaoedd, yn gweld beilïaid yn mynd i mewn i dai pobl ac yn cymryd eu heiddo oddi arnynt, gan na fyddant mewn sefyllfa i dalu'r arian ychwanegol hwn. Os ydych chi, fel Llywodraeth, yn glynu wrth eich penderfyniad i beidio â cheisio mynd i'r afael â'r bwlch hwn ac i beidio â cheisio diogelu'r bobl fregus hyn yn ein cymunedau, hoffem wybod y prynhawn yma sut y byddwch yn cynorthwyo llywodraeth leol o ran ymdrin â'r anawsterau enfawr hyn a fydd yn codi.

money through that process than they will be owed. In addition, Minister, you must accept that we will, in some situations, see bailiffs going into people's homes and taking their property, as they will not be in a position to pay this additional money. If you, as a Government, stick to your decision not to try to get to grips with this gap and not to try to protect these most vulnerable people in our communities, I would like to know this afternoon how you are going to assist local government to deal with the huge difficulties that will arise.

Rydych wedi cyfeirio at gydweithio rhanbarthol. Rydych yn gweld hyn fel proses sy'n esblygu. Hoffwn ddweud wrthych nad yw awdurdodau lleol yng Nghymru yn gweld pethau yn y modd hwnnw. Maent yn gweld hyn fel proses a orfodir arnynt, a hynny heb drafodaeth nac unrhyw fath o ddealltwriaeth o amgylchiadau lleol. Maent yn ei gweld fel rhywbeth sy'n cael ei wneud fel rhyw fath o ymarfer academaidd yma yng Nghaerdydd, a hynny heb roi unrhyw ystyriaeth i anghenion lleol. Mae'r ffaith eich bod wedi creu'r gronfa cydweithio rhanbarthol ac wedi rhoi swm sylweddol o arian i mewn iddo, heb drafod y camau hyn gyda'r awdurdodau lleol, yn golygu y byddant yn wynebu problemau gwirioneddol a fydd yn golygu y bydd gwasanaethau'n cael eu torri. Dyna'r dystiolaeth yr wyf wedi'i derbyn. Os ydych chi, Weinidog, yn dweud wrthyf eich bod wedi cael y trafodaethau hyn, yna rwy'n falch iawn o glywed hynny.

You have referred to regional collaboration. You see this as an evolving process. I would like to tell you that local authorities do not see it in that way. They see this as a process that is being forced upon them, without any discussion or any kind of understanding of local circumstances. They see it as something that is being done as a kind of academic exercise here in Cardiff, without any consideration being given to local needs. The fact that you have created this regional collaboration fund and have put a substantial amount of money into it, without discussing these steps with the local authorities, means that they will be facing real problems that will mean that services will be cut. That is the evidence that I have received. If you, Minister, are telling me that you have had these discussions, then I would be pleased to hear that.

Mae'r pwynt olaf yr hoffwn ei godi â chi yn ymwneud â'r sefyllfa o ran gwasanaethau bysiau. Codais y mater hwn gyda'r Prif Weinidog yn gynharach, ac nid oes amheuaeth y bydd problemau difrifol yn codi yn y maes hwn.

The final point that I would like to raise with you relates to the situation in terms of bus services. I raised this issue with the First Minister earlier, and there is no doubt that serious problems will arise in this area.

**Peter Black:** One of the benefits of devolution is that we can do things differently, which is why I welcome the fact that this local government settlement is seeking to protect schools and social services. However, I regret the fact that the initiative, in terms of the pupil deprivation grant, is not being taken forward substantially and even though we are carrying forward the same

**Peter Black:** Un o fanteision datganoli yw y gallwn wneud pethau'n wahanol, a dyna pam rwy'n croesawu'r ffaith bod y setliad llywodraeth leol yn ceisio amddiffyn ysgolion a gwasanaethau cymdeithasol. Fodd bynnag, rwy'n gresynu at y ffaith nad yw'r cynllun, o ran y grant amddifadedd disgyblion, yn cael ei weithredu'n sylweddol ac er ein bod yn dwyn ymlaen yr un faint o

amount of money, I believe that we have fallen behind England by failing to increase that amount this year. However, I suppose that that is down to the realities of the budget process and the negotiations that take place around that.

arian, rwy'n credu ein bod wedi syrthio tu ôl i Loegr drwy fethu â chynyddu'r swm honno eleni. Fodd bynnag, mae'n debyg bod hynny oherwydd realiti'r broses gyllideb a'r trafodaethau sy'n digwydd o gwmpas hynny.

Rhodri Glyn Thomas mentioned council tax benefits in his contribution and I noted that, like him, I regret the situation in which we are being placed. I was slightly puzzled as to why there was no precondition in relation to this issue as part of Plaid Cymru's budget negotiations; it certainly did not seem to have been raised by Plaid Cymru during those negotiations. Clearly, it was in a position whereby its Members could have made some difference on that particular issue.

Soniodd Rhodri Glyn Thomas am fudd-daliadau'r dreth gyngor yn ei gyfraniad a nodais, fel yntau, fy mod yn gresynu at y sefyllfa yr ydym yn cael ein rhoi ynddi. Roeddwn wedi fy synnu braidd ynghylch pam nad oedd rhagamod mewn perthynas â'r mater hwn fel rhan o drafodaethau cyllideb Plaid Cymru; yn sicr nid oedd yn ymddangos ei fod wedi cael ei godi gan Blaid Cymru yn ystod y trafodaethau hynny. Yn amlwg, roedd mewn sefyllfa lle gallai ei aelodau fod wedi gwneud gwahaniaeth ar y mater penodol hwnnw.

**Rhodri Glyn Thomas:** We have explained to the Government of Wales how that money can be found. The money is there in terms of the consequentials, which have been assured to this Assembly by your Minister in the coalition Government in Westminster. He has told us quite clearly that the money is there. That money could be used, and we have told the Government that it should use that money.

**Rhodri Glyn Thomas:** Rydym wedi egluro i Lywodraeth Cymru sut y gellir canfod yr arian hwnnw. Mae'r arian yno o ran y symiau canlyniadol, sydd wedi cael eu sicrhau i'r Cynulliad hwn gan eich Gweinidog yn y Llywodraeth glymblaid yn San Steffan. Mae wedi dweud wrthym yn eithaf clir bod yr arian yno. Gellid defnyddio'r arian hwnnw, ac rydym wedi dweud wrth y Llywodraeth y dylai ddefnyddio'r arian hwnnw.

**Peter Black:** When we made our budget deal last year, we made it a condition that we had a say in how the consequentials would be spent. Clearly, that has not happened in your case, which is why I think we are in that situation.

**Peter Black:** Pan oeddem yn gwneud ein cytundeb cyllideb y llynedd, fe'i gwnaethom yn amod ein bod yn cael llais yn y ffordd y byddai symiau canlyniadol yn cael eu gwario. Yn amlwg, nid yw hynny wedi digwydd yn eich achos chi, a dyna pam rwy'n meddwl ein bod yn y sefyllfa honno.

It is not the job of this Assembly to run local councils for them. That is one of the reasons why I had many issues with what Janet Finch-Saunders said. Although she raised some legitimate matters regarding how local authorities are run around Wales, they are issues that need to be taken up at the local council level, with those local councils that are accountable for them. However, there are issues around local government that need to be addressed by the Minister.

Nid gwaith y Cynulliad hwn yw rhedeg cynghorau lleol ar eu rhan. Dyna un o'r rhesymau pam yr wyf wedi cael llawer o broblemau gyda'r hyn a ddywedodd Janet Finch-Saunders. Er ei bod yn codi rhai materion dilys o ran sut mae awdurdodau lleol yn cael eu rhedeg o amgylch Cymru, maent yn faterion y mae angen eu trafod ar lefel y cyngor lleol, gyda'r cynghorau lleol hynny sy'n atebol ar eu cyfer. Fodd bynnag, mae materion yn ymwneud â llywodraeth leol y mae angen i'r Gweinidog fynd i'r afael â nhw.

One of the main problems that I have with this settlement is the fact that there are some vagaries in terms of distribution, which has left some councils, such as Powys County Council, very badly off in terms of how much money they have received. Perhaps that needs to be reconsidered as part of the distribution sub-group. Please do not include me in those discussions because when I was on that group they were all very technical. However, we need to look at how the money is distributed because, clearly, some councils have lost out as a result of that. However, just because we do not have local council elections this year, as we did last year, I hope that that is not a reason for local councils to get carried away in terms of the council tax increases that they impose.

Un o’r prif broblemau sydd gennyf gyda’r setliad hwn yw’r ffaith bod rhai mympwyon o ran dosbarthu, sydd wedi gadael rhai cynghorau, megis Cyngor Sir Powys, mewn sefyllfa wael iawn o ran faint o arian y maent wedi’i dderbyn. Efallai bod angen ailystyried hynny fel rhan o’r is-grŵp dosbarthu. Peidiwch â fy nghynnwys i yn y trafodaethau hynny oherwydd pan oeddwn i ar y grŵp hwnnw roedd pawb yn dechnegol iawn. Fodd bynnag, mae angen i ni edrych ar sut y mae’r arian yn cael ei ddosbarthu oherwydd, yn amlwg, mae rhai cynghorau ar eu colled o ganlyniad i hynny. Fodd bynnag, dim ond oherwydd nad oes gennym etholiadau cyngor lleol eleni, fel yr oedd gennym y llynedd, rwy’n gobeithio nad yw hynny’n rheswm i gynghorau lleol fynd dros ben llestri o ran y cynnydd yn y dreth gyngor y maent yn ei osod.

I understand what the Minister said in terms of the potential capping and, like the Minister, I am sure, I do not expect councils to impose a 5% increase, but I do feel that, last year, a lot of self-discipline was imposed by local councils in terms of how they levied council tax rises and, as a result, that council tax rise was kept very low. We are in difficult times, and I accept that councils have a lot of problems in terms of managing their budgets and making them balance, but the people who pay council tax are also having difficult times. Councils need to have regard to that as part of their considerations in relation to their budgets.

Rwy’n deall yr hyn a ddywedodd y Gweinidog o ran y potensial capio ac, fel y Gweinidog, rwy’n siŵr, nid wyf yn disgwyl i gynghorau osod cynnydd o 5%, ond rwy’n teimlo, y llynedd, bod llawer o hunanddisgyblaeth gan gynghorau lleol o ran sut y maent yn gosod cynnydd yn y dreth gyngor ac, o ganlyniad, roedd y cynnydd hwnnw yn y dreth gyngor yn cael ei gadw yn isel iawn. Rydym yn byw mewn cyfnod anodd, ac rwy’n derbyn bod cynghorau yn cael llawer o broblemau o ran rheoli eu cyllidebau a’u mantoli, ond mae’r bobl sy’n talu’r dreth gyngor hefyd yn cael amser anodd. Mae angen i gynghorau ystyried hynny fel rhan o’u hystyriaethau mewn perthynas â’u cyllidebau.

Another main issue of mine with this settlement is around the regional collaboration fund. The Minister told us that he has now set the criteria for local councils. Presumably, they now know how they should bid for it, and what they need to do with that money. I do not think that he has actually said that to us, as Members—if he has, I missed it—but I am sure that he will give that undertaking. If you were going to have a regional collaboration fund, there needed to be some more thought and consultation with local councils before it came into being. I am not entirely sure what that fund is for, and why we have taken £10 million out of the council tax pot to put aside for that when

Mae problem fawr arall i mi gyda’r setliad hwn ynghylch y gronfa cydweithio rhanbarthol. Dywedodd y Gweinidog wrthym ei fod bellach wedi gosod y meini prawf ar gyfer cynghorau lleol. Yn ôl pob tebyg, maent yn awr yn gwybod sut y dylent wneud cynnig amdano, a beth sydd angen iddynt ei wneud â’r arian hwnnw. Nid wyf yn meddwl ei fod mewn gwirionedd wedi dweud hynny wrthym, fel Aelodau—os ydyw, wnes i ddim ei glywed—ond rwy’n sicr y bydd yn rhoi’r ymrwymiad hwnnw. Os ydych yn mynd i gael cronfa cydweithio rhanbarthol, roedd angen mwy o feddwl ac ymgynghoriad gyda chynghorau lleol cyn iddi ddod i fodolaeth. Nid wyf yn hollol siŵr ar gyfer beth y mae’r

there is an invest-to-save fund, which local councils are able to access for regional collaboration. I am not sure what criteria the Minister is applying in terms of measuring the success of that fund, and I am not sure what councils need to do to access that fund and to prove what the outcomes of that collaboration will be. Is the Minister looking for councils to show a saving in money terms and is he looking for councils to show better collaboration on particular issues? The whole thing is slightly vague in how the Minister is putting it forward. So, I would hope for more clarity in that. However, in this settlement, the sudden appearance of this fund suggests it is very much a gimmick to try to advance the Minister's own agenda on collaboration, and while it is one that we all share, unless we have some clarity as to how he will advance that agenda and improve collaboration, we are in the situation of voting in the dark on this particular issue.

gronfa hon, a pham yr ydym wedi tynnu £10 miliwn allan o bot y dreth gyngor i'w roi o'r neilltu ar gyfer hynny pan fo cronfa buddsoddi-i-arbed ar gael, y mae cynghorau lleol yn gallu cael mynediad ati ar gyfer cydweithio rhanbarthol. Nid wyf yn siŵr pa feini prawf y mae'r Gweinidog yn eu defnyddio o ran mesur llwyddiant y gronfa, ac nid wyf yn siŵr beth mae angen i gynghorau ei wneud i gael mynediad at y gronfa honno ac i brofi beth fydd canlyniadau'r cydweithredu hwnnw. A yw'r Gweinidog yn disgwyl i gynghorau ddangos arbediad o ran arian ac a yw'n disgwyl i gynghorau ddangos gwell cydweithio ar faterion penodol? Mae'r holl beth ychydig yn amwys yn y modd y mae'r Gweinidog yn ei gyflwyno. Felly, byddwn yn gobeithio am fwy o eglurder yn hynny. Fodd bynnag, yn y setliad hwn, mae ymddangosiad sydyn y gronfa hon yn awgrymu nad yw'n ddim ond gimig i geisio hybu agenda'r Gweinidog ei hun ar gydweithio, ac er ei bod yn un yr ydym i gyd yn ei rhannu, onid ydym i gyd yn cael rhywfaint o eglurder o ran sut y bydd yn datblygu'r agenda a gwella cydweithio, rydym yn y sefyllfa o bleidleisio yn y tywyllwch ar y mater penodol hwn.

5.15 p.m.

**Mike Hedges:** Surprisingly, I support the local government settlement, but realise that it will create problems for councils with their budgets. Councils are in difficult times, as cuts at Westminster permeate right through, with local authorities at the end of that.

**Mike Hedges:** Yn rhyfedd iawn, rwy'n cefnogi'r setliad llywodraeth leol, ond yn sylweddoli y bydd yn creu problemau i gynghorau gyda'u cyllidebau. Mae cynghorau'n byw mewn cyfnod anodd, wrth i doriadau yn San Steffan dreiddio drwodd, gydag awdurdodau lleol ar ddiwedd hynny.

Having said that, next year, after accounting for transfers, local authorities in Wales will receive an increase of 1.5% on the previous year's revenue settlement, as it was in the provisional settlement. We have heard suggestions of easy savings, of sharing services et cetera, but let me tell you about when we went through local government reorganisation, when there was a forced sharing of services. You know these easy savings? A lot of them were very expensive. Costs were involved, contracts had to be brought to an end, and they were bringing everything into the same format, and it became a lot more expensive than the claim, 'Oh, you can make savings on this'.

Wedi dweud hynny, y flwyddyn nesaf, ar ôl addasu ar gyfer trosglwyddiadau, bydd awdurdodau lleol yng Nghymru yn derbyn cynnydd o 1.5% ar setliad refeniw y flwyddyn flaenorol, fel yr oedd yn y setliad dros dro. Rydym wedi clywed awgrymiadau o arbedion hawdd, o rannu gwasanaethau ac ati, ond gadewch i mi ddweud wrthych am pan oeddem yn mynd drwy ad-drefnu llywodraeth leol, pan oedd rhannu gorfodol ar wasanaethau. Wyddoch chi, yr arbedion hawdd hyn? Roedd llawer ohonynt yn ddrud iawn. Roedd costau ynghlwm, roedd yn rhaid dod â chontractau i ben, ac roeddent yn dod â phopeth i'r un fformat, a daeth yn llawer mwy drud na'r honiad, 'O, gallwch wneud

arbedion ar hyn'.

The other thing is that we should not be here to micromanage local authorities; they have a democratic mandate. You might not like the political shape of a council and, up until May, I disliked the political shape of most of them, but the reality is that they have a democratic mandate to do things, because people have voted for them.

Y peth arall yw na ddylem fod yma i ficroreoli awdurdodau lleol; mae ganddynt fandad democrataidd. Efallai na fyddwch yn hoffi siâp gwleidyddol cyngor a, tan fis Mai, rwy'n casáu'r siâp gwleidyddol y rhan fwyaf ohonynt, ond y gwir amdani yw bod ganddynt fandad democrataidd i wneud pethau, oherwydd bod pobl wedi pleidleisio drostynt.

There is the problem of the council tax benefit system, with additional money being made available to help local authorities to introduce it. It is going to cause problems. Of course, the Welsh Government could have cheated; it could have taken £24 million or £30 million out of the amount of money going to local authorities and said, 'Ah, here we are; we are going to produce this'. One of the great strengths of this Welsh Labour Government is its honesty about the amount of money going out. It has not hidden things or said, 'You have the money for this or that, but we have actually top-sliced it'.

Ceir problem y system budd-dal treth gyngor, gydag arian ychwanegol ar gael i helpu awdurdodau lleol i'w chyflwyno. Mae'n mynd i achosi problemau. Wrth gwrs, gallai Llywodraeth Cymru fod wedi twyllo; gallai fod wedi cymryd £24 miliwn neu £30 miliwn allan o'r swm o arian sy'n mynd i awdurdodau lleol a dweud, 'A, dyma ni, rydym yn mynd i gynhyrchu hyn'. Un o gryfderau mawr Llywodraeth Lafur Cymru yw ei gonestrwydd am y swm o arian sy'n mynd allan. Nid yw wedi cuddio pethau neu ddweud, 'Mae gennych yr arian ar gyfer hyn neu'r llall, ond mewn gwirionedd rydym wedi ei frigdorri'.

Peter Black is right; the formula is complicated. Back in the old Welsh Office days, I served on a formula working group, and it made a simple change. It used to be 52% population and 48% road lengths. All of a sudden, they made it 50-50, and just as suddenly, they took £1.5 million out of Cardiff and just under £1 million out of Swansea, and they gave almost £1 million to Powys. There are unforeseen outcomes to making such changes, so you have to be very careful.

Mae Peter Black yn iawn, mae'r fformiwla yn gymhleth. Yn ôl yn hen ddyddiau'r Swyddfa Gymreig, roeddwn yn gwasanaethu ar weithgor fformiwla, ac fe wnaeth newid syml. Roedd yn arfer bod yn 52% o boblogaeth a 48% hyd ffordd Yn sydyn, maent yn ei wneud yn 50-50, ac yr un mor sydyn, cymeron nhw £1.5 miliwn allan o Gaerdydd ac ychydig llai nag £1 miliwn o Abertawe, ac maent yn rhoi bron £1 miliwn i Bowys. Mae canlyniadau annisgwyl i wneud newidiadau o'r fath, felly mae'n rhaid i chi fod yn ofalus iawn.

**Janet Finch-Saunders:** Thank you for taking this intervention. You were in local government a long time. How do you feel the collaboration agenda is working? Do you know whether there have been any efficiencies or shared posts, and are you actually in favour of the collaboration agenda?

**Janet Finch-Saunders:** Diolch i chi am gymryd yr ymyriad hwn. Roeddech mewn llywodraeth leol am amser maith. Sut ydych chi'n teimlo y mae'r agenda gydweithio yn gweithio? A ydych chi'n gwybod a fu unrhyw effeithlonrwydd neu swyddi a rennir, ac a ydych mewn gwirionedd o blaid yr agenda gydweithredu?

**Mike Hedges:** I will tell you. Had you waited a few more seconds you would have heard the next thing I was going to say,

**Mike Hedges:** Dywedaf wrthych chi. Pe baech wedi aros ychydig eiliadau byddech wedi clywed y peth nesaf yr oeddwn yn

which is that £10 million has also been put into a regional collaborative fund. There is a need for collaboration. One of the worst things to have happened to local government in Wales was local government reorganisation—22 local authorities with 22 directors of social services and 22 directors of education. When you had most of the senior directors of education and social services taking early retirement or leaving, it created absolute chaos. That is where we have our problems. There is a need for collaboration. I have certain views, and I am not sure that they are shared by everybody, but I think that we need to have more joint working on a more formal basis, creating joint boards between local authorities for dealing with the key services of education and social services. I think that the collaboration agenda needs to be taken that step further. I am not convinced that you need a collaborative agenda for local sports pitches, but I am absolutely certain that you need it for the big, key former county council services.

mynd i'w ddweud, sef bod £10 miliwn hefyd wedi cael ei roi mewn cronfa gydweithredol ranbarthol. Mae angen cydweithio. Un o'r pethau gwaethaf i ddigwydd i lywodraeth leol yng Nghymru oedd ad-drefnu llywodraeth leol—22 awdurdod lleol gyda 22 cyfarwyddwyr gwasanaethau cymdeithasol a 22 cyfarwyddwr addysg. Pan oedd y rhan fwyaf o'r uwch gyfarwyddwyr addysg a gwasanaethau cymdeithasol yn ymddeol yn gynnar neu'n gadael, roedd yn creu anhrefn llwyr. Dyna lle mae gennym ein problemau. Mae angen cydweithio. Mae gen i farn benodol, ac nid wyf yn siŵr ei bod yn cael ei rhannu gan bawb, ond credaf fod angen i ni gael mwy o gydweithio ar sail fwy ffurfiol, gan greu byrddau ar y cyd rhwng awdurdodau lleol ar gyfer ymdrin â gwasanaethau allweddol addysg a gwasanaethau cymdeithasol. Credaf fod angen mynd â'r agenda gydweithredu gam ymhellach. Nid wyf yn argyhoeddedig eich bod angen agenda gydweithredol ar gyfer meysydd chwaraeon lleol, ond rwy'n hollol sicr eich bod ei hangen ar gyfer gwasanaethau mawr, allweddol y cyn cynghorau sir.

The Government has been very fair to local government. It increased the grant 1.5%; the Welsh Government's has gone up 1.1%. I remember last year's budget discussions, when we heard suggestions of additional money for health, additional money for education and additional money for the economy, but the only thing that the additional money for those three things could have come from was local government.

Mae'r Llywodraeth wedi bod yn deg iawn â llywodraeth leol. Cynyddodd y grant 1.5%; mae un Llywodraeth Cymru wedi cynyddu 1.1%. Rwyf yn cofio trafodaethau ar y gyllideb y llynedd, pan glywsom awgrymiadau o arian ychwanegol ar gyfer iechyd, arian ychwanegol ar gyfer addysg ac arian ychwanegol ar gyfer yr economi, ond yr unig beth o lle gallai'r arian ychwanegol ar gyfer y tri pheth fod wedi dod oedd llywodraeth leol.

Local authorities will also see a substantial amount of specific grants. I know that there are people who do not like these specific grants, but if you put all the specific grants into the formula, you will have substantial winners and losers, and you will not be able to predict who those winners and losers are going to be.

Bydd awdurdodau lleol hefyd yn gweld swm sylweddol o grantiau penodol. Gwn fod pobl nad ydynt yn hoffi'r grantiau penodol hyn, ond os ydych yn rhoi'r holl grantiau penodol i mewn i'r fformiwla, bydd gennych enillwyr a chollwyr sylweddol, ac ni fyddwch yn gallu rhagweld pwy fydd yr enillwyr a'r collwyr.

If we make a comparison with England, the Welsh revenue support settlement is significantly better than the settlement for England thanks to the leadership of Welsh Labour. The Welsh Labour Government is

Os byddwn yn gwneud cymhariaeth â Lloegr, mae setliad cymorth refeniw Cymru yn sylweddol well na'r setliad ar gyfer Lloegr diolch i arweinyddiaeth Llafur Cymru. Mae Llywodraeth Lafur Cymru yn darparu mwy o

providing more funding for Wales from 2011-12 to 2014-15 than the UK Government is providing to councils in England. Expenditure in Wales is higher over that period than in England. Cuts to local government expenditure have been significantly larger in England. Local government spending in Wales is higher than in all the regions of England except London. Finally, remember that local authorities provide the very basis of civilisation in many cases—[*Laughter.*]. They provide the basis of civilisation, and we need to support them.

gyllid ar gyfer Cymru o 2011-12 i 2014-15 nac mae Llywodraeth y DU yn ei ddarparu i gynghorau yn Lloegr. Mae gwariant yng Nghymru yn uwch dros y cyfnod hwnnw nag yn Lloegr. Mae toriadau i wariant llywodraeth leol wedi bod yn sylweddol uwch yn Lloegr. Mae gwariant llywodraeth leol yng Nghymru yn uwch nag yn holl ranbarthau Lloegr ac eithrio Llundain. Yn olaf, cofiwch mai awdurdodau lleol sy'n darparu holl sail gwareiddiad mewn llawer achos—*[Chwerthin.]* Maent yn darparu sail gwareiddiad, ac mae angen eu cefnogi.

**The Deputy Presiding Officer:** Order. The Member is concluding on a most important point, but he is concluding. In fact, he has concluded.

**Y Dirprwy Lywydd:** Trefn. Mae'r Aelod yn cloi ar bwynt mwyaf pwysig, ond mae o'n cloi. Yn wir, mae wedi dod i ben.

**Russell George:** I do not know how to follow that. I welcome the opportunity to take part in this debate, and I agree with much of what my colleague, Janet Finch-Saunders, has already said. I understand, as do local authorities, that the difficult financial circumstances that we find ourselves in will be with us for the foreseeable future. It is quite clear from work carried out by the Welsh Local Government Association that Welsh local authorities will need to deliver services in 2020 with the same level of funding they had in 2000. Local authorities are capable of rising to that challenge, but there needs to be a strong imperative for local authorities to do what they can to keep their costs down—to weed out wasteful spending, to seek efficiencies and partnerships, and collaboration with neighbouring authorities, and to find new ways of doing business. In recent years, some local authorities—Monmouthshire, for example—have been finding new ways of delivering services, and in releasing those efficiencies they are in a position where they can plough money back into the front line. We need to see best practice rolled out throughout Wales.

**Russell George:** Nid wyf yn gwybod sut i ddilyn hynny. Rwy'n croesawu'r cyfle i gymryd rhan yn y ddadl hon, ac rwy'n cytuno â llawer o'r hyn y mae fy nghydweithiwr, Janet Finch-Saunders, wedi ei ddweud eisoes. Rwy'n deall, fel y mae awdurdodau lleol, y bydd yr amgylchiadau ariannol anodd yr ydym yn canfod ein hunain ynddynt gyda ni am y dyfodol rhagweladwy. Mae'n eithaf clir o'r gwaith a wnaed gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru y bydd angen i awdurdodau lleol Cymru ddarparu gwasanaethau yn 2020 gyda'r un lefel o gyllid ag oedd ganddynt yn 2000. Mae awdurdodau lleol yn gallu codi i'r her honno, ond mae angen rheidrwydd cryf ar awdurdodau lleol i wneud yr hyn a allant i gadw eu costau i lawr—i chwynnu gwariant gwastraffus, i chwilio am arbedion a phartneriaethau, a chydweithio gydag awdurdodau cyfagos, ac i ddod o hyd i ffyrdd newydd o wneud busnes. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae rhai awdurdodau lleol—Sir Fynwy, er enghraifft—wedi bod yn dod o hyd i ffyrdd newydd o ddarparu gwasanaethau, ac wrth ryddhau'r arbedion hynny maent mewn sefyllfa lle y gallant fuddsoddi arian yn y rheng flaen. Mae angen i ni weld arfer gorau yn cael ei gyflwyno ledled Cymru.

There also needs to be a degree of understanding and flexibility from the Welsh Government. I just wanted to highlight the difficulties that Powys County Council is

Mae angen hefyd i gael rhywfaint o ddealltwriaeth a hyblygrwydd gan Lywodraeth Cymru. Roeddwn am dynnu sylw at yr anawsterau y mae Cyngor Sir

experiencing, and I am grateful to Janet Finch-Saunders and Peter Black for raising the plight of Powys. Budgets in Powys are under greater pressure than they have ever been before, and the strain is starting to tell. The county has been in the unfortunate position of having the lowest budget settlement in Wales for more than six years.

Powys yn eu profi, ac rwy'n ddiolchgar i Janet Finch-Saunders a Peter Black am sôn am gyflwr Powys. Mae cyllidebau ym Mhowys o dan fwy o bwysau nag y buont erioed o'r blaen, ac mae'r straen yn dechrau dweud. Mae'r sir wedi bod yn y sefyllfa anffodus o gael y setliad cyllideb isaf yng Nghymru am fwy na chwe blynedd.

**Mike Hedges:** Is it not also true that Powys has more per head of the population than any other council in Wales?

**Mike Hedges:** Onid yw'n wir hefyd fod gan Bowys fwy y pen o'r boblogaeth nag unrhyw gyngor arall yng Nghymru?

**Russell George:** I can tell you that the rural factors in Powys make it unique in Wales. It really is—although that is another discussion. This year, Powys received a 0.28% increase compared with the Welsh average increase of 1.5%. Savings of £5 million will need to be made this coming financial year, and the council is likely to have to carry on finding that kind of level of savings for the foreseeable future. On top of that, the authority has been badly affected by changes to how learning disability resettlement grants are distributed, and falling pupil numbers in Powys continue to have a significant impact on the budget. Powys and another three Welsh local councils had expected you to announce, Minister, special help for those councils most adversely affected by the changes, and that has not yet happened. It is the lack of that sort of action that is hugely disappointing and unfair, because it fails to take into account our specific local need. That is not forgetting that Powys County Council has to set aside £2.8 million in legal costs to contest a major public inquiry into five windfarm applications this year. The Welsh Government does not seem to want to support the council with those costs. The council has found itself in that position as a result of Welsh Government renewable energy planning policy.

**Russell George:** Gallaf ddweud wrthych fod y ffactorau gwledig ym Mhowys yn ei gwneud yn unigryw yng Nghymru. Mae hynny'n wir—er mai trafodaeth arall yw honno. Eleni, derbyniodd Powys gynnydd o 0.28% o'i gymharu â chynnydd cyfartalog Cymru o 1.5%. Bydd angen gwneud arbedion o £5 miliwn y flwyddyn ariannol sydd i ddod, ac mae'r cyngor yn debygol o orfod parhau i ddod o hyd i'r math hwnnw o lefel o arbedion ar gyfer y dyfodol rhagweladwy. Ar ben hynny, mae'r awdurdod wedi cael ei effeithio'n wael gan newidiadau i sut y mae'r grantiau adsefydlu anabledd dysgu yn cael eu dosbarthu, ac mae niferoedd disgyblion yn gostwng ym Mhowys yn parhau i gael effaith sylweddol ar y gyllideb. Roedd Powys a thri chyngor lleol arall yng Nghymru wedi disgwyl i chi gyhoeddi, Weinidog, gymorth arbennig ar gyfer y cynghorau hynny sy'n cael eu heffeithio fwyaf gan y newidiadau, ac nid yw hynny wedi digwydd eto. Diffyg y math hwnnw o weithredu sy'n siomedig ac yn annheg iawn, oherwydd ei fod yn methu ag ystyried ein hangen lleol penodol. Nid yw hynny'n anghofio bod Cyngor Sir Powys wedi neilltuo £2.8 miliwn mewn costau cyfreithiol i herio'r ymchwiliad cyhoeddus mawr i geisiadau am bum fferm wynt eleni. Nid yw'n ymddangos bod Llywodraeth Cymru eisiau cynorthwyo'r cyngor gyda'r costau hynny. Mae'r cyngor wedi cael ei hun yn y sefyllfa honno o ganlyniad i bolisi cynllunio ynni adnewyddadwy Llywodraeth Cymru.

Minister, councils and the WLGA are prepared to work with you to find fair solutions for the coming years. However, the current working relationship needs to be

Weinidog, mae cynghorau a CLlLC yn barod i weithio gyda chi i ddod o hyd i atebion teg ar gyfer y blynyddoedd i ddod. Fodd bynnag, mae angen ailddiffinio'r berthynas waith

redefined to respect the democratic rights and responsibilities of local government by ensuring that it has more flexibility to deliver services according to local need.

bresennol i barchu hawliau democrataidd a chyfrifoldebau llywodraeth leol drwy sicrhau bod ganddi fwy o hyblygrwydd i ddarparu gwasanaethau yn unol ag anghenion lleol.

**William Powell:** It is a privilege to take part in this important debate. We have heard from previous speakers about the plight of Powys County Council. Those comments are well made. For six consecutive years, Powys County Council has received a disastrous level of funding from the Welsh Government and this year is no exception. A rise of 0.3%, compared with a Wales average of 1.5%, will put that local authority under enormous pressure, and we have heard some examples of that. It clearly demonstrates that this Government fails to understand the differing needs of rural areas. It is not just an issue about the number of heads; it is about how far apart people live and the difficulty of delivering services to an acceptable level. That is what we need to remember.

**William Powell:** Mae’n fraint i gymryd rhan yn y ddadl bwysig hon. Rydym wedi clywed gan siaradwyr blaenorol am sefyllfa Cyngor Sir Powys. Mae’r sylwadau hynny wedi cael eu gwneud yn dda. Am chwe blynedd yn olynol, mae Cyngor Sir Powys wedi derbyn lefel drychinebus o gyllid gan Lywodraeth Cymru, ac nid yw eleni’n eithriad. Bydd cynnydd o 0.3%, o’i gymharu â chyfartaledd Cymru o 1.5%, yn rhoi’r awdurdod lleol o dan bwysau aruthrol, ac rydym wedi clywed rhai enghreifftiau o hynny. Mae’n dangos yn glir bod y Llywodraeth hon yn methu â deall gwahanol anghenion ardaloedd gwledig. Nid dim ond mater ynghylch nifer y pennau ydyw; mae’n ymwneud â pha mor bell mae pobl yn byw ar wahân a’r anhawster o ddarparu gwasanaethau i lefel dderbyniol. Dyna beth mae angen i ni gofio.

In fact, back in 2010, the Joseph Rowntree Foundation reported that the cost of living in rural areas is sometimes more than 20% higher than in urban areas. With an ageing demographic, a sparse population and poor infrastructure, difficult decisions have to be made. This year, more than anything else, we can see that the Welsh Government is failing to give Powys County Council the settlement it so badly needs to deliver those front-line services.

Yn wir, yn ôl yn 2010, adroddodd Sefydliad Joseph Rowntree fod y gost o fyw mewn ardaloedd gwledig weithiau fwy nag 20% yn uwch nag mewn ardaloedd trefol. Gyda demograffig sy’n heneiddio, poblogaeth wasgarog a seilwaith gwael, rhaid gwneud penderfyniadau anodd. Eleni, yn fwy na dim arall, gallwn weld bod Llywodraeth Cymru yn methu rhoi i Gyngor Sir Powys y setliad y mae ei angen yn fawr i ddarparu’r gwasanaethau rheng flaen hynny.

In 2009, the One Wales Government announced the creation of the distribution sub-group. Its purpose was to examine the formula for calculating local government settlements, as we have heard, to ensure that, each year, local authorities receive funding appropriate to their needs, reflecting the differing characteristics of each area and the particular local circumstances. In the DSG meeting in November, one recommendation made was to consider the use of a floor mechanism to provide those authorities defined as being in an unmanageable situation for the 2013-14 settlement. I would be grateful if the Minister could clarify whether this recommendation was adopted and outline the measures taken to implement

Yn 2009, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru’n Un greu’r is-grŵp dosbarthu. Ei ddiben oedd edrych ar y fformiwla ar gyfer cyfrifo setliadau llywodraeth leol, fel y clywsom, i sicrhau, bob blwyddyn, bod awdurdodau lleol yn derbyn cyllid sy’n briodol i’w hanghenion, gan adlewyrchu gwahanol nodweddion pob ardal ac amgylchiadau lleol penodol. Yn y cyfarfod DSG ym mis Tachwedd, un argymhelliad a wnaed oedd ystyried y defnydd o fecanwaith gwaelodol i ddarparu’r awdurdodau hynny a ddiffinnir fel rhai sydd mewn sefyllfa na ellir ei rheoli ar gyfer setliad 2013-14. Byddwn yn ddiolchgar pe gallai’r Gweinidog egluro a fabwysiadwyd yr argymhelliad hwn ac amlinellu’r mesurau a gymerwyd i wneud gwaith gwerthfawr y

the valuable work of the DSG to improve the funding formula so that it is more sensitive to rural areas and their needs, since it was created some three years ago?

DSG i wella'r fformiwla ariannu fel ei fod yn fwy sensitif i ardaloedd gwledig a'u hanghenion, ers ei chreu rhyw dair blynedd yn ôl?

Year on year, the Government continues to penalise Powys and other similar rural authorities with a poor allowance in comparison with the rest of Wales. Year on year, the Welsh Liberal Democrats have come to the Chamber to join the fight for a funding floor and a better settlement deal for our rural areas.

Flwyddyn ar ôl blwyddyn, mae'r Llywodraeth yn parhau i gosbi Powys ac awdurdodau gwledig eraill tebyg gyda lwfans gwael o'i gymharu â gweddill Cymru. Flwyddyn ar ôl blwyddyn, mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru wedi dod i'r Siambr i ymuno â'r frwydr am arian gwaelodol a bargen setliad gwell ar gyfer ein hardaloedd gwledig.

Clearly, the current funding formula is top heavy in demographic considerations and fails to recognise the additional costs associated with the delivery of services. It also fails to reflect the nucleated nature of rural deprivation. Rural areas such as Powys lose out. For that reason, the Welsh Liberal Democrat group will not be able to accept and support the motion today. It delivers a raw deal for Powys and other rural areas, and that is something that we cannot tolerate.

Yn amlwg, mae'r fformiwla cyllido cyfredol yn bendrwm mewn ystyriaethau demograffig ac yn methu â chydnabod y costau ychwanegol sy'n gysylltiedig â darparu gwasanaethau. Nid yw ychwaith yn adlewyrchu natur gnewyllol amddifadedd gwledig. Mae ardaloedd gwledig megis Powys ar eu colled. Am y rheswm hwnnw, ni fydd grŵp Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn gallu derbyn a chefnogi'r cynnig heddiw. Mae'n gwneud cam â Phowys ac ardaloedd gwledig eraill, ac mae hynny'n rhywbeth na allwn ei oddef.

**Ann Jones:** Labour committed to a cash increase in local authority funding, and I believe that that is what Labour has delivered. Nationally, Welsh councils have received £4.3 billion to spend in 2013. Denbighshire will receive 1.1% of the additional cash. We have shown that we are determined to support local authorities across Wales in making sure that residents get the best services possible. Whether it is road improvement, refuse collection or maintaining high standards in schools, it is crucial that Welsh councils have the funds to deliver those services.

**Ann Jones:** Ymrwymodd Llafur i gynnydd mewn arian parod yng nghyllid awdurdodau lleol, a chredaf mai dyna beth y mae Llafur wedi'i gyflawni. Yn genedlaethol, mae cynghorau Cymru wedi derbyn £4.3 biliwn i'w wario yn 2013. Bydd Sir Ddinbych yn derbyn 1.1% o'r arian ychwanegol. Rydym wedi dangos ein bod yn benderfynol o gefnogi awdurdodau lleol ledled Cymru i wneud yn siŵr bod preswylwyr yn cael y gwasanaethau gorau posibl. P'un a yw'n welliannau i'r ffyrdd, casglu sbwriel neu gynnal safonau uchel mewn ysgolion, mae'n hanfodol bod cynghorau Cymru yn cael yr arian i ddarparu'r gwasanaethau hynny.

This is a significantly better settlement than was expected and it is much fairer than what local authorities are getting in England. That is because the Minister for local government, Carl Sargeant, is determined to see that our policies will be joined up and that we will stand up for residents across Wales who are struggling through these tough economic times. It is important that councils now work

Mae hwn yn setliad sylweddol well na'r disgwyl ac mae'n llawer tecach na'r hyn y mae awdurdodau lleol yn ei gael yn Lloegr. Mae hynny oherwydd bod y Gweinidog llywodraeth leol, Carl Sargeant, yn benderfynol o weld y bydd ein polisïau yn gydgysylltiedig ac y byddwn yn sefyll i fyny dros drigolion ar draws Cymru sy'n cael trafferth drwy'r cyfnod economaidd anodd

together in collaboration to deliver the most effective services to the best of their ability. There are still some tough times ahead of us, and Denbighshire and other councils will have to join together to be more equipped to weather the financial storms.

hwn. Mae'n bwysig bod cynghorau yn awr yn gweithio gyda'i gilydd i ddarparu'r gwasanaethau mwyaf effeithiol hyd eithaf eu gallu. Mae rhai adegau anodd o'n blaenau o hyd, a bydd raid i Sir Ddinbych a chynghorau eraill ymuno gyda'i gilydd i fod yn fwy parod i ddod drwy'r storm ariannol.

5.30 p.m

While Labour stands by its constituencies, the Tories and Lib Dems in Westminster are abandoning those most in need. Members of those parties here can groan, but it is true. The Prime Minister says that we are all in this together. However, his local authority of West Oxfordshire District Council, one of the least deprived areas in the country, loses only £34 per head, compared to Hackney, the most deprived area in Great Britain, which is facing a massive cut of £266 per head. Spending per head in Wales—Members have to be patient here—is £294 higher than in England. Expenditure in Wales is 51% higher now than in 2001-02 as compared to England, where it is 15% lower. Local authorities must carefully consider the balance between maintaining vital valued services and the need to limit additional financial burdens on families. However, we should recognise the fact that council tax is already lower in Wales than it is in England.

Tra bod Llafur yn cefnogi ei hetholaethau, mae'r Torïaid a'r Democratiaid Rhyddfrydol yn San Steffan yn cefnu ar y rhai sydd fwyaf mewn angen. Gall aelodau'r pleidiau hynny yma ochneidio, ond mae'n wir. Mae'r Prif Weinidog yn dweud ein bod i gyd yn yr un cwch. Fodd bynnag, nid yw ei awdurdod lleol sef Cyngor Dosbarth Gorllewin Swydd Rydychen, un o'r ardaloedd lleiaf difreintiedig yn y wlad, ond yn colli £34 y pen, o'i gymharu â Hackney, yr ardal fwyaf difreintiedig ym Mhrydain Fawr, sydd yn wynebu toriad enfawr o £266 y pen. Mae gwariant y pen yng Nghymru—rhaid i Aelodau fod yn amyneddgar yma—yn £294 yn uwch nag yn Lloegr. Mae gwariant yng Nghymru 51% yn uwch yn awr nag yn 2001-02 o'i gymharu â Lloegr, lle mae 15% yn is. Rhaid i awdurdodau lleol ystyried yn ofalus y cydbwysedd rhwng cynnal gwasanaethau gwerthfawr hanfodol a'r angen i gyfyngu ar feichiau ariannol ychwanegol ar deuluoedd. Fodd bynnag, dylem gydnabod y ffaith bod y dreth gyngor eisoes yn is yng Nghymru nag ydyw yn Lloegr.

To me and my constituents, it is crystal clear that the Welsh Minister for Local Government and Communities has delivered on his pledge to increase local authority cash funding over the four-year spending review. We know that he has done this because it has been welcomed by the WLGA. So, what I will say to you is: where Carwyn and Carl make a commitment and deliver on it, Cameron and Clegg flounder and perform u-turns.

I mi ac i fy etholwyr, mae'n hollol amlwg bod y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau wedi cyflawni ei addewid i gynyddu cyllid parod arian awdurdodau lleol dros yr adolygiad gwariant pedair blynedd. Rydym yn gwybod ei fod wedi gwneud hyn oherwydd ei fod wedi cael ei groesawu gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Felly, beth a ddywedaf wrthych yw: lle mae Carwyn a Carl yn gwneud ymrwymiad ac yn ei gyflawni, mae Cameron a Clegg yn colli'u trywydd ac yn troi yn eu hunfan.

**The Minister for Local Government and Communities (Carl Sargeant):** I thank the Deputy Presiding Officer for the opportunity to respond to this important debate. I will pick up on the points that Members have raised this afternoon. I start by thanking Mike

**Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau (Carl Sargeant):** Diolch i'r Dirprwy Lywydd am y cyfle i ymateb i'r ddadl bwysig hon. Byddaf yn cyfeirio at y pwyntiau a godwyd gan Aelodau y prynhawn yma. Hoffwn ddechrau drwy ddiolch i Mike

Hedges and Ann Jones for their welcome contributions. I also thank Peter Black for his broadly helpful contribution to that process. I want to pick up on some of the issues that he raised regarding the collaboration fund, which Rhodri Glyn also mentioned.

Hedges ac Ann Jones am eu cyfraniadau derbyniol. Hoffwn ddiolch hefyd i Peter Black am ei gyfraniad defnyddiol at ei gilydd i'r broses honno. Rwyf am i fynd ar drywydd rhai o'r materion a gododd ynghylch y gronfa gydweithio y soniodd Rhodri Glyn amdani hefyd.

I have had many discussions with local authority leaders and chief executives over the past month regarding the collaboration funding pot: £10 million is a relatively small amount of money when compared to the £4 billion overall settlement to local authorities. However, the clear message that we were receiving before the collaboration fund was that the challenges that authorities were facing, with regard to the ability to collaborate, were often based on the lack of affordability of delivery. The collaboration fund will now open up the opportunity for a strategic look on a regional basis to attract additional funding for collaboration. Regions are already establishing a programme for collaboration whereby they can unlock the £10 million available. It did not come as a surprise to Members, as Members alluded to. As soon as the newly elected councils were brought about in May, I invited all councillors to events across Wales. At every event, I said that there would be consideration of a regional funding stream for future delivery. I am surprised that Members here, including the councillors already serving, were surprised at this development.

Rwyf wedi cael nifer o drafodaethau gydag arweinwyr awdurdodau lleol a phrif weithredwyr dros y mis diwethaf ynghylch y pot cyllid cydweithio: mae £10 miliwn yn swm cymharol fach o arian o'i gymharu â setliad cyffredinol i awdurdodau lleol o £4 biliwn. Fodd bynnag, y neges glir yr oeddem yn ei chael cyn y gronfa gydweithio oedd bod yr heriau y mae awdurdodau yn eu hwynebu, o ran y gallu i gydweithio, yn aml yn seiliedig ar ddiffyg fforddiadwyedd darparu. Bydd y gronfa gydweithio nawr yn rhoi cyfle i edrych yn strategol ar sail ranbarthol i ddenu cyllid ychwanegol ar gyfer cydweithio. Mae rhanbarthau eisoes yn sefydlu rhaglen ar gyfer cydweithio lle gallant ddatgloi'r £10 miliwn sydd ar gael. Nid oedd yn syndod i Aelodau, fel y cyfeiriodd Aelodau ato. Cyn gynted ag yr oedd y cynghorau newydd eu hethol wedi'u sefydlu ym mis Mai, estynnais wahoddiad i bob cynghorydd i ddigwyddiadau ar draws Cymru. Ym mhob digwyddiad, dywedais y byddai ystyriaeth o ffrwd ariannu rhanbarthol ar gyfer darparu yn y dyfodol. Rwyf yn synnu bod Aelodau yma, gan gynnwys y cynghorwyr oedd eisoes yn gwasanaethu, wedi cael eu synnu gan y datblygiad hwn.

Picking up on the issues that Rhodri Glyn Thomas raised, I know that he and his party have some issues with the council tax benefit, which are well rehearsed. Of course, Peter Black made an interesting point in that regard. My view, and that of this Government, is that it should be about protecting public services and how we ensure that the most vulnerable people in our communities are protected by the support mechanisms that we can deliver. That is why we are protecting funding for social services and supporting education services across Wales, which will ensure that young people will have a future-proofed education system.

Gan ystyried y materion a gododd Rhodri Glyn Thomas, rwy'n gwybod bod ganddo ef a'i blaid rai problemau gyda'r budd-dal treth gyngor, sy'n wedi cael eu hymarfer yn dda. Wrth gwrs, gwnaeth Peter Black bwynt diddorol yn hynny o beth. Fy marn i, a barn y Llywodraeth hon, yw y dylai fod yn ymwneud â gwarchod gwasanaethau cyhoeddus a sut yr ydym yn sicrhau bod y bobl fwyaf agored i niwed yn ein cymunedau yn cael eu diogelu gan y mecanweithiau cymorth y gallwn eu darparu. Dyna pam ein bod yn diogelu cyllid ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol a chefnogi gwasanaethau addysg ledled Cymru, a fydd yn sicrhau y bydd pobl ifanc yn cael system addysg wedi'i diogelu i'r dyfodol.

The other area of concern to several Members—Bill Powell being one of them—was around the funding stream for the authority of Powys. This is not my formula at all. This is the formula owned by local authorities: the 22 authorities come together, working through the distribution sub-group, to look at what the formula can deliver and how that is assessed. I do not have an input into it. They ask me to consider the formula that they deliver. By voting against this today, you are voting against the local authorities and not against me personally on the formula. This is devised by them and for them, and I support the local determination made by the local authorities in that process.

Roedd y maes arall sy'n peri pryder i nifer o Aelodau—mae Bill Powell yn un ohonynt—yn ymwneud â'r ffrwd ariannu ar gyfer awdurdod Powys. Nid fy fformiwla i yw hon o gwbl. Dyma'r fformiwla sy'n eiddo i awdurdodau lleol: daeth y 22 awdurdod at ei gilydd, gan weithio drwy'r is-grŵp dosbarthu, i edrych ar yr hyn y gall y fformiwla ei gyflawni a sut yr asesir hynny. Nid oes gennyf fewnbwn iddo. Maent yn gofyn i mi ystyried y fformiwla a ddarperir ganddynt. Drwy bleidleisio yn erbyn hyn heddiw, rydych yn pleidleisio yn erbyn yr awdurdodau lleol ac nid yn fy erbyn i yn bersonol ar y fformiwla. Cafodd hon ei dyfeisio ganddynt ac ar eu cyfer, ac rwy'n cefnogi'r penderfyniad lleol a wnaed gan yr awdurdodau lleol yn y broses honno.

Powys, as Russell George said, is unique: it is one of 22. It has challenges, as do all local authorities in Wales. This settlement is an increase, which is in marked contrast to what is happening in England. Powys also has local challenges that it has to face up to. I understand that there are still three separate types of refuse collection in the authority. I have been asking authorities to collaborate with each other, but in Powys they have three of their own. These are things that we have to address and we need to make sure that we can get good value for money on a limited budget.

Mae Powys, fel y dywedodd Russell George, yn unigryw: mae'n un o 22. Mae ganddi heriau, fel sydd gan yr holl awdurdodau lleol yng Nghymru. Mae'r setliad hwn yn gynnydd, sydd yn wahanol iawn i'r hyn sy'n digwydd yn Lloegr. Mae gan Bowys hefyd heriau lleol y mae'n rhaid iddi eu hwynebu. Deallaf fod tri math gwahanol o gasglu sbwriel yn yr awdurdod yn dal i fod. Rwyf wedi bod yn gofyn i awdurdodau i gydweithio â'i gilydd, ond ym Mhowys mae ganddynt dri eu hunain. Mae'r rhain yn bethau y mae'n rhaid inni fynd i'r afael â nhw ac mae angen i ni wneud yn siŵr ein bod yn gallu cael gwerth da am arian ar gyllideb gyfyngedig.

**Peter Black:** To go back to your point on the distribution sub-group, which, as you say, belongs to the local authorities. They are the ones who asked for the floor to be put in to protect areas such as Powys. So, actually, if we voted against this—we will actually be abstaining—we would be voting to support their recommendation.

**Peter Black:** I fynd yn ôl at eich pwynt am yr is-grŵp dosbarthu, sydd, fel y dywedwch, yn perthyn i'r awdurdodau lleol. Nhw yw'r rhai a ofynnodd am gael arian gwaelodol i ddiogelu ardaloedd fel Powys. Felly, mewn gwirionedd, os ydym yn pleidleisio yn erbyn hyn—byddwn mewn gwirionedd yn ymatal—byddem yn pleidleisio i gefnogi eu hargymhelliad.

**Carl Sargeant:** I will address the issue around the floor. I will check, but I am not aware that any formal request for a floor mechanism came from the WLGA or the distribution sub-group. It may have been mooted by individual authorities during that process, but I am not aware of any formal

**Carl Sargeant:** Byddaf yn mynd i'r afael â'r mater ynghylch yr arian gwaelodol. Byddaf yn cadarnhau, ond nid wyf yn ymwybodol bod unrhyw gais ffurfiol am fecanwaith gwaelodol wedi dod gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru neu'r is-grŵp dosbarthu. Efallai ei bod wedi ei grybwyll

request that came to me regarding a floor mechanism. I would not want to take an individual authority out of that process; this is a collective decision made by the 22 authorities around the formula decision-making process. If Members feel that it is not appropriate that local determination affects the way that the distribution formula is set up, I would be interested in their views.

gan awdurdodau unigol yn ystod y broses honno, ond nid wyf yn ymwybodol o unrhyw gais ffurfiol a ddaeth i mi ynglŷn â mecanwaith gwaelodol. Ni fyddwn am gymryd awdurdod unigol allan o'r broses; penderfyniad ar y cyd yw hwn a wnaed gan y 22 awdurdod am y broses gwneud penderfyniadau am y fformiwla. Os yw Aelodau'n teimlo nad yw'n briodol bod penderfyniad lleol yn effeithio ar y ffordd y mae'r fformiwla ddosbarthu yn cael ei sefydlu, byddai gennyf ddiddordeb clywed eu barn.

Finally, I would like to pick up on the points that Janet Finch-Saunders and Russell George made regarding the local government settlement. I have tried to be non-partisan in the way that we operate in the delivery of this settlement, but I will not take any lectures from the opposition party with regard to the funding of local authorities anywhere in the UK and particularly not in Wales. We have seen the savage attack on local authorities, public services and the public sector in England by the party supported by the Members opposite. If they had watched the television last night, they would have seen what is happening in Birmingham as a result of the local government settlement by their colleagues in Westminster. There is £2.1 billion less coming into the Welsh economy because of Janet Finch-Saunders's colleagues in Westminster not delivering a budget for Wales.

Yn olaf, hoffwn sôn am y pwyntiau a wnaeth Janet Finch-Saunders a Russell George ynghylch y setliad llywodraeth leol. Rwyf wedi ceisio bod yn amhleidiol yn y ffordd yr ydym yn gweithredu wrth gyflwyno'r setliad hwn, ond ni chymeraf unrhyw bregeth gan yr wrthblaid mewn perthynas ag ariannu awdurdodau lleol yn unrhyw le yn y DU ac yn arbennig nid yng Nghymru. Rydym wedi gweld yr ymosodiad ffyrnig ar awdurdodau lleol, gwasanaethau cyhoeddus a'r sector cyhoeddus yn Lloegr gan y blaid a gefnogir gan yr Aelodau gyferbyn. Pe byddent wedi gwylio'r teledu neithiwr, byddent wedi gweld yr hyn sy'n digwydd yn Birmingham o ganlyniad i'r setliad llywodraeth leol gan eu cydweithwyr yn San Steffan. Mae £2.1 biliwn yn llai yn dod i mewn i economi Cymru oherwydd nad yw cydweithwyr Janet Finch-Saunders yn San Steffan wedi darparu cyllideb ar gyfer Cymru.

The Member also makes reference to local government being able to make their own decisions. I am often criticised by many Members in the Chamber regarding the micromanagement of local authorities. I am allowing local authorities to make their own determination regarding the formula and about what they wish to spend their money on. I am not getting involved in that process, yet the Member wishes me to get involved in some of the issues that local authorities make determinations on. The Member seems a little mixed up today.

Mae'r Aelod hefyd yn cyfeirio at lywodraeth leol yn gallu gwneud eu penderfyniadau eu hunain. Rwyf yn aml yn cael fy meirniadu gan nifer o Aelodau yn y Siambr ynglŷn â microreoli awdurdodau lleol. Rwyf yn caniatáu i awdurdodau lleol i wneud eu penderfyniadau eu hunain ynghylch y fformiwla ac am yr hyn y maent yn dymuno gwario eu harian arno. Nid wyf yn cymryd rhan yn y broses honno, ac eto mae'r Aelod yn dymuno i mi gymryd rhan yn rhai o'r materion y mae awdurdodau lleol yn gwneud penderfyniadau arnynt. Mae'r Aelod yn ymddangos braidd yn gymysglyd heddiw.

**Andrew R.T. Davies:** Will you not recognise that, over the term of this comprehensive spending review, the Welsh Government has

**Andrew R.T. Davies:** Wnewch chi ddim cydnabod, dros dymor yr adolygiad cynhwysfawr hwn o wariant, bod

enjoyed an extra £670 million more than it was anticipating at the start of the review and that, frankly, Ministers on the front bench here have shown little or no imagination in using that extra money that has been made available to them?

Llywodraeth Cymru wedi mwynhau £670 miliwn ychwanegol yn fwy nag yr oedd yn ei ragweld ar ddechrau'r adolygiad ac, a bod yn onest, nid yw Gweinidogion ar y fainc flaen yma wedi dangos fawr ddim dychymyg wrth ddefnyddio'r arian ychwanegol sydd wedi cael ei roi ar gael iddynt?

**Carl Sargeant:** The Member, by calling me frankly, does not help at all. The fact of the matter today is that we know that people out there will be losing their homes and benefits because of you and the opposition parties not supporting the right amount of money for the people of Wales. This is an important debate; it is about the delivery of public services at the very front end. This is an important process and I bring this to the Chamber annually. I commend this budget to the Chamber.

**Carl Sargeant:** Nid yw'r Aelod, drwy fy ngalw a dweud y gwir, yn helpu o gwbl. Y ffaith amdani heddiw yw ein bod yn gwybod y bydd pobl allan yna yn colli eu cartrefi a budd-daliadau oherwydd chi a'r gwrthbleidiau yn peidio â chefnogi'r swm cywir o arian ar gyfer pobl Cymru. Mae hon yn ddadl bwysig, mae a wnelo â darparu gwasanaethau cyhoeddus ar y pen blaen union. Mae hon yn broses bwysig a dwi'n dod â hyn gerbron y Siambr bob blwyddyn. Rwyf yn cymeradwyo'r cynnig hwn i'r Siambr.

**The Deputy Presiding Officer:** I see that Simon Thomas wishes to raise a point of order.

**Y Dirprwy Lywydd:** Gwelaf fod Simon Thomas yn dymuno codi pwynt o drefn.

**Simon Thomas:** Hoffwn godi pwynt o drefn ar y ddadl yr ydym newydd ei chael er mwyn darparu canllaw ar gyfer dadleuon yn y dyfodol. Yn y ddadl, soniodd Russell George a Bill Powell yn glir iawn am yr angen am arian ychwanegol i Gyngor Sir Powys. Rwy'n siŵr bod rhinwedd yn eu dadleuon. Serch hynny, mae Russell a Bill yn datgan eu bod yn aelodau o Gyngor Sir Powys, ond ni wnaethant ddatgan hynny fel rhan o'r ddadl. Rwy'n meddwl ei fod yn fwy priodol i ddatgan fel rhan o'r ddadl bod gennych ddiddordeb yn y pwnc dan sylw. Er mwyn y dyfodol, hoffwn glywed eich barn chi ar y mater hwnnw, Ddirprwy Lywydd.

**Simon Thomas:** I wish to raise a point of order on the debate that we have just had in order to provide guidance for future debates. In the debate, Russell George and Bill Powell spoke very clearly about the need for additional funding for Powys County Council. I am sure that there is merit to their arguments. However, Russell and Bill are both declared members of Powys County Council, but they did not state that during the debate. I think that it would be more appropriate to make that declaration of interest as part of the debate. For future practice, I would like to hear your opinion on that matter, Deputy Presiding Officer.

**The Deputy Presiding Officer:** You do not need to hear my opinion. Standing Order No. 2.6 is perfectly clear on when a Member must make an oral declaration in relation to a financial interest that has a personal aspect, either to the Member, to a Member's partner, or any dependent child of a Member. It is a very clear Standing Order and it does relate to personal financial interests. That Standing Order has in no way been contravened this afternoon.

**Y Dirprwy Lywydd:** Nid oes angen i chi glywed fy marn i. Mae Rheol Sefydlog Rhif 2.6 yn gwbl glir ynghylch pryd y mae'n rhaid i Aelod wneud datganiad llafar mewn perthynas â buddiant ariannol sydd ag agwedd bersonol, naill ai i'r Aelod, i bartner Aelod, neu unrhyw blentyn dibynnol Aelod. Mae'n Rheol Sefydlog glir iawn, ac nid yw'n ymwneud â buddiannau ariannol personol. Nid yw'r Rheol Sefydlog honno wedi cael ei thorri mewn unrhyw ffordd y prynhawn yma.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn y cynnig. A oes unrhyw wrthwynebiad? Gwelaf fod. Felly, gohiriaf y bleidlais ar yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

The proposal is to agree the motion. Are there any objections? I see that there are. Therefore, I defer voting on this item until voting time.

We will now proceed to vote, unless three Members wish the bell to be rung. I see that no Member does.

Byddwn yn awr yn mynd ati i bleidleisio, oni bai bod tri Aelod yn dymuno i'r gloch gael ei chanu. Gwelaf nad oes.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.*
*Voting deferred until voting time.*

## Cyfnod Pleidleisio
## Voting Time

*Cynnig NDM5127: O blaid 34, Ymatal 5, Yn erbyn 11.*
*Motion NDM5127: For 34, Abstain 5, Against 11.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Andrews, Leighton
Antoniw, Mick
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Alun
Davies, Jocelyn
Drakeford, Mark
Elis-Thomas, Yr Arglwydd/Lord
Evans, Rebecca
Gething, Vaughan
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Hart, Edwina
Hedges, Mike
Hutt, Jane
Jones, Alun Ffred
Jones, Ann
Jones, Elin
Lewis, Huw
Mewies, Sandy
Morgan, Julie
Neagle, Lynne
Price, Gwyn R.
Rathbone, Jenny
Rees, David
Sargeant, Carl
Skates, Kenneth
Thomas, Gwenda
Thomas, Rhodri Glyn
Thomas, Simon
Watson, Joyce
Whittle, Lindsay
Wood, Leanne

Ymataliodd yr Aelodau canlynol:
The following Members abstained:

Black, Peter
Parrott, Eluned

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Asghar, Mohammad
Burns, Angela
Davies, Andrew R.T.
Davies, Byron
Davies, Paul
Finch-Saunders, Janet
George, Russell
Graham, William
Isherwood, Mark
Millar, Darren
Ramsay, Nick

Powell, William
Roberts, Aled
Williams, Kirsty

*Derbyniwyd y cynnig.*
*Motion agreed.*

## Dadl Fer a Ohiriwyd o 21 Tachwedd 2012
## Short Debate Postponed from 21 November 2012

### A yw Cynlluniau Datblygu Lleol yn Addas i'r Diben?
### Are Local Development Plans Fit for Purpose?

**Andrew R.T. Davies:** I welcome the opportunity to bring forward this debate on local development plans in Plenary this afternoon. Janet Finch-Saunders, Will Powell, Mike Hedges and Mark Drakeford have all requested a minute of the time allocated for the short debate, and I am very pleased to give them a minute each on this very important subject.

**Andrew R.T. Davies:** Croesawaf y cyfle i gyflwyno'r ddadl hon ar gynlluniau datblygu lleol yn y Cyfarfod Llawn y prynhawn yma. Mae Janet Finch-Saunders, Will Powell, Mike Hedges a Mark Drakeford i gyd wedi gofyn am funud o'r amser a neilltuwyd ar gyfer y ddadl fer, ac rwy'n falch iawn i roi munud yr un ar y pwnc pwysig iawn hwn.

Are local development plans fit for purpose? To my mind, the system needs fundamental reform if it is to deliver effective long-term guidance for planning and development in Wales. I will open this debate by making it clear that I am not calling on the Welsh Government to abolish local development plans in Wales. However, it is clear that the system is in need of fundamental reform if it is to deliver effective long-term guidance for planning and development in Wales. There are a number of measures that the Welsh Government can take independently of the LDP process to improve cohesion in the planning system, but we cannot afford to allow uncertainty to deter investment and progress in Wales.

A yw cynlluniau datblygu lleol yn addas i'r diben? Yn fy marn i, mae angen diwygio sylfaenol ar y system os yw i ddarparu canllawiau effeithiol yn y tymor hir ar gyfer cynllunio a datblygu yng Nghymru. Byddaf yn agor y ddadl hon drwy ei gwneud yn glir nad wyf yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddileu cynlluniau datblygu lleol yng Nghymru. Fodd bynnag, mae'n amlwg bod angen diwygio sylfaenol ar y system os yw am ddarparu canllawiau effeithiol yn y tymor hir ar gyfer cynllunio a datblygu yng Nghymru. Mae nifer o fesurau y gall Llywodraeth Cymru eu cymryd yn annibynnol o broses y CDLl er mwyn gwella cydlyniad yn y system gynllunio, ond ni allwn fforddio gadael i ansicrwydd atal buddsoddiad a chynnydd yng Nghymru.

Our local councils need to develop coherent long-term plans that can ensure that demographic changes in housing demand are met. They are vital in identifying and planning for needed improvements in infrastructure and other development issues. With a strong local mandate, they should be best placed to identify appropriate local sites for development, but this must be done in conjunction with residents, planning experts and industry stakeholders.

Mae angen i'n cynghorau lleol ddatblygu cynlluniau tymor hir cydlynol a all sicrhau bod newidiadau demograffig yn y galw am dai yn cael eu bodloni. Maent yn hanfodol wrth nodi a chynllunio ar gyfer gwelliannau sydd eu hangen mewn seilwaith a materion datblygu eraill. Gyda mandad lleol cryf, dylent fod yn y sefyllfa orau i nodi safleoedd lleol priodol ar gyfer datblygu, ond mae'n rhaid i hyn gael ei wneud mewn cydweithrediad â thrigolion, arbenigwyr cynllunio a rhanddeiliaid y diwydiant.

5.45 p.m.

Unfortunately, it is my experience that the system lacks public confidence and transparency, as well as credibility in the eyes of developers. With just seven active local development plans out of 25 in place across the whole of Wales, it is clear that something is amiss in the system. In many cases, robust and well-drilled local opposition to plans are borne out of frustration and a sense that local views are not heard. This needs to be tackled constructively and residents and businesses need to have an effective voice in identifying the type and scale of development that their communities are exposed to. Not only that, people feel that the system is far too complicated, especially in terms of lodging formal responses to the plans in their formative stages. The process can give the impression of being all too often officer-led, bureaucratic and jargon heavy. More worryingly still, it often seems to have little or no local buy-in. My experience is that residents often worry that their views will not materially affect the shape of the plan at its next stage. This has a huge detrimental impact on public confidence in the system. We need to look at how the consultation and engagement aspects of the process can be improved in order to get buy-in from residents and stakeholders. This must happen at every stage of the process.

Yn anffodus, fy mhrofiad i yw bod diffyg hyder y cyhoedd a thryloywder yn y system, yn ogystal â hygrededd yng ngolwg datblygwyr. Gyda dim ond saith cynllun datblygu lleol yn weithredol allan o 25 ar waith ar draws Cymru gyfan, mae'n amlwg bod rhywbeth o'i le yn y system. Mewn llawer o achosion, mae gwrthwynebiad lleol cadarn a threfnus i gynlluniau yn deillio o rwystredigaeth ac ymdeimlad nad yw barn leol yn cael ei chlywed. Mae angen mynd i'r afael â hyn yn adeiladol ac mae angen i drigolion a busnesau gael llais effeithiol o ran nodi math a graddfa'r datblygiad y mae eu cymunedau yn agored iddo. Nid yn unig hynny, mae pobl yn teimlo bod y system yn llawer rhy gymhleth, yn enwedig o ran cyflwyno ymatebion ffurfiol i'r cynlluniau yn eu camau ffurfiannol. Gall y broses roi'r argraff ei bod yn cael ei harwain gan swyddogion yn rhy aml, ei bod yn rhy fiwrocrataidd a llawn jargon. Mae'n peri mwy o bryder fyth, ei bod yn ymddangos yn aml nad oes fawr ddim derbyniad lleol. Fy mhrofiad i yw bod trigolion yn aml yn poeni na fydd eu barn yn effeithio'n sylweddol ar ffurf y cynllun yn ei gam nesaf. Mae hyn yn cael effaith niweidiol sylweddol ar hyder y cyhoedd yn y system. Mae angen i ni edrych ar sut y gellir gwella agwedd ymgynghori ac ymgysylltu'r broses er mwyn cael derbyniad gan drigolion a rhanddeiliaid. Mae'n rhaid i hyn ddigwydd ar bob cam o'r broses.

I am currently undertaking a process of surveying residents in my South Wales Central region about their views on the LDP system. I have been alarmed to find that 70% of respondents to date feel that they are not consulted sufficiently before the publication of a draft LDP. Of those who submitted feedback at that stage, almost all felt that it was an empty gesture and that the proposed development to which they were objecting would end up being carried out regardless, according to the will of the authority. Perception is just as important as reality, especially when a system relies heavily on public confidence to underpin its legitimacy. This is why we need to consider ways in which to isolate the most controversial aspects of a plan without necessarily being forced to discard the whole document. One

Ar hyn o bryd, rwy'n ymgymryd â phroses o gynnal arolwg preswylwyr yn fy rhanbarth Canol De Cymru am eu barn ar y system CDLl. Rwyf wedi brawychu i ganfod bod 70% o ymatebwyr yn teimlo hyd yn hyn nad oes digon o ymgynghori gyda nhw cyn cyhoeddi'r CDLl drafft. O'r rhai a gyflwynodd adborth ar y cam hwnnw, roedd bron pob un yn teimlo ei fod yn weithred ddiystyr ac y byddai'r datblygiad arfaethedig y maent yn ei wrthwynebu yn cael ei wneud yn y pen draw beth bynnag, yn unol ag ewyllys yr awdurdod. Mae canfyddiad yr un mor bwysig â realiti, yn enwedig pan fydd system yn dibynnu'n helaeth ar hyder y cyhoedd i ategu ei chyfreithlondeb. Dyma pam mae angen i ni ystyried ffyrdd o ynysu agweddau mwyaf dadleuol cynllun heb o reidrwydd orfodi taflu'r ddogfen gyfan. Un

possible solution outlined in the report by the independent advisory group, 'Towards a Welsh Planning Act: Ensuring the planning system delivers' was to consider removing the requirement for complete plan coverage. If, for example, only certain aspects of a plan are contentious or controversial it seems inefficient for the whole plan to be delayed. However, there must be consistency in this regard.

ateb posibl a amlinellwyd yn yr adroddiad gan y grŵp cynghori annibynnol, 'Tuag at Ddeddf Gynllunio i Gymru: Sicrhau system gynllunio effeithiol' oedd ystyried cael gwared ar y gofyniad ar gyfer darpariaeth cynllun cyflawn. Os, er enghraifft, mai dim ond rhai elfennau o gynllun sy'n gynhennus neu'n ddadleuol mae'n ymddangos i fod yn aneffeithlon i'r cynllun cyfan gael ei oedi. Fodd bynnag, rhaid cael cysondeb yn hyn o beth.

It is widely accepted that the time it takes to develop an LDP can be excessive and that the process is not cheap. The recently suspended Vale of Glamorgan LDP—I use the word 'suspended' because at the moment there is a debate over whether the Labour-led Vale of Glamorgan council has scrapped the LDP, as the party said it would do in its manifesto for the local government elections back in May—has cost a staggering £1.3 million to reach stage 4 of a seven-stage process before final implementation. In theory, local councils have the power to research and develop their own housing and infrastructure projections, which then underpin their local development plans. The reality in most cases, however, is that they do not have adequate resources to compete with central Government departments and often cannot afford the process or the potential threat of legal action from the Welsh Government if the targets are not deemed adequate by the Minister. In this sense the Minister is able to play a canny game of preaching independence for local authorities and protecting himself from accountability for unpopular developments, while having councils over a barrel if their proposals do not meet his or her exacting requirements. This is a huge problem. People are not fully aware of where the accountability lies. In almost all cases, the Welsh Government, either through its guidance or through technical advice notes, shapes the working environment in which the planning inspectorate operates. Therefore, by default, the Welsh Government imposes its own target for housing development on local councils, which they are then forced to implement.

Mae'n cael ei dderbyn yn eang y gall yr amser y mae'n ei gymryd i ddatblygu Cynllun Datblygu Lleol fod yn ormodol ac nad yw'r broses yn rhad. Mae CDLl Bro Morgannwg gafodd ei ohirio yn ddiweddar—rwy'n defnyddio'r gair 'gohirio' oherwydd ar hyn o bryd mae dadl ynghylch a yw Cyngor Bro Morgannwg dan arweiniad Llafur wedi rhoi'r gorau i'r CDLl, fel y dywedodd y blaid y byddai'n ei wneud yn ei maniffesto ar gyfer yr etholiadau llywodraeth leol ym mis Mai—wedi costio swm anhygoel o £1.3 miliwn i gyrraedd cam 4 o broses saith cam cyn gweithredu terfynol. Mewn theori, mae gan gynghorau lleol y pŵer i ymchwilio a datblygu eu hamcanestyniad tai a seilwaith eu hunain, sydd wedyn yn sail i'w cynlluniau datblygu lleol. Y realiti yn y rhan fwyaf o achosion, fodd bynnag, yw nad oes ganddynt adnoddau digonol i gystadlu ag adrannau Llywodraeth ganolog ac yn aml maent yn methu â fforddio'r broses neu'r bygythiad posibl o weithredu cyfreithiol gan Lywodraeth Cymru os nad yw'r targedau yn cael eu hystyried yn ddigonol gan y Gweinidog. Yn yr ystyr hwn mae'r Gweinidog yn gallu chwarae gêm gyfrwys o bregethu annibyniaeth ar gyfer awdurdodau lleol a diogelu ei hun rhag atebolrwydd ar gyfer datblygiadau amhoblogaidd, tra eu bod ar ei drugaredd os nad yw eu cynigion yn bodloni ei ofynion manwl ef neu hi. Mae hon yn broblem enfawr. Nid yw pobl yn gwbl ymwybodol o ble mae'r atebolrwydd yn gorwedd. Ym mhob achos bron, Llywodraeth Cymru, naill ai drwy ei harweiniad neu drwy nodiadau cyngor technegol, sy'n llunio'r amgylchedd gwaith y mae'r arolygiaeth gynllunio yn gweithredu ynddo. Felly, yn ddiofyn, mae Llywodraeth Cymru yn gosod ei tharged ei hun ar gyfer datblygu tai ar gynghorau lleol, y maent yn cael eu gorfodi

wedyn i'w gweithredu.

As we saw recently with the suspended Vale LDP, it can be a hugely difficult task keeping residents happy while you try to cram thousands of new houses into popular green spaces or tack them on to the end of small villages. This is particularly difficult when your housing targets are constantly being increased, for example, from 7,500 initially in the Vale of Glamorgan to 10,000 at the moment—and there is consideration of that figure being increased to 12,500.

Fel y gwelsom yn ddiweddar gyda CDLl y Fro wedi'i ohirio, gall fod yn dasg hynod anodd cadw trigolion yn hapus wrth i chi geisio gwasgu miloedd o dai newydd i mewn i fannau gwyrdd poblogaidd neu eu hychwanegu at gyrion pentrefi bach. Mae hyn yn arbennig o anodd pan fydd eich targedau tai yn gyson yn cael ei gynyddu, er enghraifft, o 7,500 i ddechrau ym Mro Morgannwg i 10,000 ar hyn o bryd—ac mae ystyriaeth y bydd y ffigur hwnnw yn cael ei gynyddu i 12,500.

It is clear that the process for identifying housing targets needs to be better understood. I have touched on the fact that it is local authorities that are best placed to identify sites for development in their area, but the system currently leads councils to work in silos with the requirement to develop a plan for their own areas with their sometimes arbitrary borders. We could ask whether this lack of proper co-operation and flexibility is hindering the process.

Mae'n amlwg bod angen deall y broses ar gyfer nodi targedau tai yn well. Rwyf wedi crybwyll y ffaith mai awdurdodau lleol sydd yn y sefyllfa orau i nodi safleoedd ar gyfer datblygiad yn eu hardal, ond mae'r system ar hyn o bryd yn arwain cynghorau i weithio mewn seilos gyda'r gofyniad i ddatblygu cynllun ar gyfer eu hardaloedd eu hunain gyda'u ffiniau weithiau yn fympwyol. Gallem ofyn a yw'r diffyg cydweithrediad a hyblygrwydd priodol yn rhwystro'r broses.

Many residents fear that Cardiff and other cities can pose a threat to the surrounding areas. However, there is definitely a case for considering, in some cases, a cross-border approach that would allay some of these concerns. An excellent example of this would be the south Wales Valleys. Could adequate investment in improving transport infrastructure mean that new developments in Valleys areas could be more viable as commuter hubs for Cardiff? If roads and public transport were sufficiently developed, that would be a viable and attractive alternative to further large-scale development in the capital, easing pressure on an already overcrowded city, and bringing jobs and growth to an area of relative economic disadvantage.

Mae llawer o drigolion yn ofni y gall Caerdydd a dinasoedd eraill beri bygythiad i ardaloedd cyfagos. Fodd bynnag, yn bendant, mae achos dros ystyried, mewn rhai achosion, ymagwedd draws-ffiniol a fyddai'n tawelu rhai o'r pryderon hyn. Enghraifft ardderchog o hyn fyddai Cymoedd De Cymru. A allai buddsoddiad digonol mewn gwella seilwaith trafnidiaeth olygu y gallai datblygiadau newydd mewn ardaloedd y Cymoedd fod yn fwy hyfyw fel canolfannau cymudo i Gaerdydd? Os yw ffyrdd a thrafnidiaeth gyhoeddus yn cael eu datblygu'n ddigonol, byddai hynny'n ddewis amgen ymarferol a deniadol i ddatblygu ar raddfa eang yn y brifddinas, gan leihau'r pwysau ar ddinas sydd eisoes yn orlawn, a dod â swyddi a thwf i ardal o anfantais economaidd gymharol.

Some have called for a statutory framework to enable the introduction of strategic planning at a regional level. In a joint submission to the draft LDP by Cardiff West's Labour AM and MP, it was suggested that the Welsh Government may seek to introduce powers to force councils to work

Mae rhai wedi galw am fframwaith statudol i alluogi cyflwyno cynllunio strategol ar lefel ranbarthol. Mewn cyflwyniad ar y cyd i'r CDLl drafft gan AC ac AS Llafur Gorllewin Caerdydd, awgrymwyd y gall Llywodraeth Cymru geisio cyflwyno pwerau i orfodi cynghorau i weithio ar y cyd ar eu cynlluniau

collaboratively on their local development plans. I am not sure that the Welsh Conservative group would push for that kind of initiative, as it rather undermines the voluntary nature of co-operation in mutual self-interest.

datblygu lleol. Nid wyf yn siŵr y byddai'r grŵp Ceidwadwyr Cymru yn gwthio am y math hwnnw o fenter, gan ei bod yn tanseilio natur wirfoddol cydweithredu braidd mewn hunan-les cydfuddiannol.

However, there are precedents where local councils have worked together constructively and considered long-term planning and development through a shared approach. In north Wales, for example, Gwynedd and Anglesey councils are to prepare a joint development plan. Closer to home, there is a very strong case to be made for greater partnership between Rhondda Cynon Taf and Cardiff councils.

Fodd bynnag, mae cynsail lle mae cynghorau lleol wedi gweithio gyda'i gilydd yn adeiladol ac wedi ystyried cynllunio a datblygu tymor hir drwy ymagwedd a rennir. Yng ngogledd Cymru, er enghraifft, mae cynghorau Gwynedd ac Ynys Môn yn mynd i baratoi cynllun datblygu ar y cyd. Yn nes at adref, mae achos cryf iawn i'w wneud ar gyfer mwy o bartneriaeth rhwng cynghorau Rhondda Cynon Taf a Chaerdydd.

We all understand that the projections indicate a growing population and a need for development to keep up with that change, but does such a large proportion of that development need to be in Cardiff? South Wales is more than just its capital city, and, by introducing a degree of regional co-ordination, could we see a planning system that better reflects the needs of the region as a whole?

Rydym i gyd yn deall bod yr amcanestyniadau yn dangos poblogaeth sy'n tyfu ac angen am ddatblygiad i gadw i fyny gyda'r newid hwnnw, ond a oes raid i gyfran mor fawr o'r datblygiad hwnnw fod yng Nghaerdydd? Mae De Cymru yn fwy na dim ond ei phrifddinas, a, thrwy gyflwyno rhywfaint o gydlynu rhanbarthol, a allem weld system gynllunio sy'n adlewyrchu'n well anghenion y rhanbarth yn gyffredinol?

Many Members from the third Assembly will remember my namesake, Andrew Davies, talking at great length about the spatial planning system. I am not quite sure whether we want unlimited statements on spatial planning, but it is an interesting footnote to understanding regional planning and the way in which we can cut across local authority areas.

Bydd llawer o Aelodau o'r trydydd Cynulliad yn cofio un o'r un enw â mi, Andrew Davies, yn siarad yn helaeth iawn am y system gynllunio gofodol. Nid wyf yn hollol siŵr a ydym yn dymuno cael datganiadau diderfyn ar gynllunio gofodol, ond mae'n droednodyn diddorol i ddeall cynllunio rhanbarthol a'r ffordd y gallwn dorri ar draws ardaloedd awdurdodau lleol.

The UK Government's decision to invest heavily in the electrification of the Valleys lines and the Great Western main line to Swansea means that we are already on the right track in improving infrastructure. It is the single most significant investment in the Welsh rail system since 1886 and the opening of the Severn tunnel. The enhanced connectivity will help the entire south Wales economy.

Mae penderfyniad Llywodraeth y DU i fuddsoddi'n drwm mewn trydaneiddio rheilffyrdd y Cymoedd a'r brif lein Great Western i Abertawe yn golygu ein bod eisoes ar y trywydd cywir o ran gwella seilwaith. Dyma'r buddsoddiad unigol mwyaf arwyddocaol yn system rheilffyrdd Cymru ers 1886 ac agor twnnel Hafren. Bydd y cysylltedd gwell helpu economi de Cymru gyfan.

However, it is not just a question of investment. There are systemic blockages that make progress very difficult. The UK Government has simplified the planning

Fodd bynnag, nid dim ond mater o fuddsoddi yn unig ydyw. Mae rhwystrau systemig sy'n gwneud cynnydd yn anodd iawn. Mae Llywodraeth y DU wedi symleiddio'r system

system to help the construction industry to get moving, reducing a document of over 1,000 pages to just 55 pages. Meanwhile, the Welsh Government is promising to deliver its own reforms, but these are still being kicked around, with no definitive deadline or outcome known. Planning reforms are arguably just as important as the provision of mortgage funding to boosting a depressed housing market. The planning Bill represents an excellent opportunity to evaluate aspects of planning that do not work, and close attention should be paid to the local development plan system.

gynllunio i helpu'r diwydiant adeiladu i symud, gan leihau dogfen o dros 1,000 o dudalennau i ddim ond 55 tudalen. Yn y cyfamser, mae Llywodraeth Cymru yn addo cyflawni ei diwygiadau ei hun, ond mae'r rhain yn dal i gael eu trafod, gyda dim dyddiad cau terfynol a'r canlyniad yn dal yn anhysbys. Gellir dadlau bod diwygiadau cynllunio yr un mor bwysig â darparu cyllid morgais i roi hwb i farchnad dai ddirwasgedig. Mae'r Bil cynllunio yn gyfle gwych i werthuso agweddau ar gynllunio nad ydynt yn gweithio, a dylid rhoi sylw manwl i'r system cynlluniau datblygu lleol.

We have a great opportunity, with the planning Bill coming before us, to address many of these concerns. I very much hope that the Minister in his response will address the points that I have raised today.

Mae gennym gyfle gwych, gyda'r Bil cynllunio yn dod gerbron, i fynd i'r afael â llawer o'r pryderon hyn. Gobeithiaf yn fawr y bydd y Gweinidog yn ei ymateb yn mynd i'r afael â'r pwyntiau yr wyf wedi'u codi heddiw.

**Janet Finch-Saunders:** I thank my friend and colleague, Andrew Davies AM, for bringing forward this important debate today. He has mentioned seven active LDPs. I cannot begin to describe the heartache and frustration in my constituency of Aberconwy while this process was taking place. Many residents, councillors and developers felt completely disenfranchised from the whole process—they felt bullied when Welsh Labour Government officials dictated and imposed the figures on the authority, and 20,000 objections were completely ignored. Although it is a necessary part of the planning system, it is fair to say that the LDP process in Wales has not gained any friends. I have mentioned town halls, county council chambers, developers and not least the communities themselves, but if I could quickly focus on a few specific areas—

**Janet Finch-Saunders:** Hoffwn ddiolch i fy ffrind a'm cydweithiwr, Andrew Davies AC, am gyflwyno'r ddadl bwysig hon heddiw. Mae wedi crybwyll saith CDLl gweithredol. Ni allaf ddechrau disgrifio'r gofid a'r rhwystredigaeth yn fy etholaeth Aberconwy tra bod y broses yn mynd rhagddi. Mae llawer o drigolion, cynghorwyr a datblygwyr yn teimlo'r ddadfreiniedig hollol o'r holl broses—roeddent yn teimlo eu bod yn cael eu bwlio pan oedd swyddogion Llywodraeth Lafur Cymru yn pennu ac yn gosod y ffigurau ar yr awdurdod, a chafodd 20,000 o wrthwynebiadau eu hanwybyddu'n llwyr. Er ei bod yn rhan angenrheidiol o'r system gynllunio, mae'n deg dweud nad yw'r broses Cynllun Datblygu Lleol yng Nghymru wedi ennill unrhyw ffrindiau. Rwyf wedi sôn am neuaddau tref, siambrau cynghorau sir, datblygwyr ac nid y lleiaf o'r rhain, y cymunedau eu hunain, ond os alla i ganolbwyntio'n gyflym ar ychydig feysydd penodol—

**Deputy Presiding Officer:** Order. You have had a minute.

**Y Dirprwy Lywydd:** Trefn. Rydych wedi cael munud.

**Janet Finch-Saunders:** Good grief. Okay.

**Janet Finch-Saunders:** Mawredd annwyl. Iawn.

**William Powell:** As we all know, planning is one of the most important of topics, but also,

**William Powell:** Fel y gwyddom i gyd, cynllunio yw un o'r pynciau mwyaf pwysig,

on occasion, one of the most divisive. Yet it is absolutely essential that we get it right, as Andrew R.T. Davies has said. The planning Bill presents us with a major opportunity to reform the whole LDP process, which is important. It is important that we have effective engagement, because there is a sense of fatigue with regard to all forms of consultation, and with planning consultation probably more than any other. It is really important that we find the right mechanisms for engagement. Certainly, there is merit in a more regional and joined-up approach on occasion. There is nowhere where that is more relevant than in some of our national parks, where special purpose authorities work in tandem with the local authorities that are responsible for delivering those key services. We need to promote that agenda. We also need to ensure that deliverability is at the heart of the planning process.

ond hefyd, ar adegau, un o'r rhai mwyaf rhwygol. Eto, mae'n gwbl hanfodol ein bod yn ei gael yn iawn, fel y mae Andrew R.T. Davies wedi ei ddweud. Mae'r Bil yn rhoi cyfle mawr i ni i ddiwygio'r broses CDLl gyfan, sy'n bwysig. Mae'n bwysig ein bod yn cael ymgysylltu effeithiol, oherwydd mae ymdeimlad o flinder mewn perthynas â phob math o ymgynghoriad, a gydag ymgynghori cynllunio yn ôl pob tebyg yn fwy nag unrhyw un arall. Mae'n bwysig iawn ein bod yn dod o hyd i'r mecanweithiau cywir ar gyfer ymgysylltu. Yn sicr, mae rhinwedd mewn dull mwy rhanbarthol a chydgysylltiedig ar adegau. Nid oes unman lle mae hynny'n fwy perthnasol nag yn rhai o'n parciau cenedlaethol, lle mae awdurdodau diben arbennig yn gweithio ar y cyd â'r awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am ddarparu'r gwasanaethau allweddol hynny. Mae angen i ni hyrwyddo'r agenda honno. Mae angen hefyd i ni sicrhau bod modd cyflawni wrth galon y broses gynllunio.

**Mark Drakeford:** The previous debate was dominated by discussion of collaboration between local authorities and it seems to me that, in the LDP process, no local authority is an island. In south-east Wales, we have electrification of the Valleys lines, city regions and a regional footprint for some planning matters, and yet persuading local authorities to work together for LDP purposes seems increasingly more difficult, rather than less difficult. I look forward to hearing what the Minister has to say about how we can ensure that collaboration in the future.

**Mark Drakeford:** Cafodd y ddadl flaenorol ei dominyddu gan drafodaeth o gydweithio rhwng awdurdodau lleol ac mae'n ymddangos i mi, yn y broses CDLl, nad oes unrhyw awdurdod lleol yn ynys. Yn ne-ddwyrain Cymru, mae gennym drydaneiddio rheilffyrdd y Cymoedd, rhanbarthau dinesig ac ôl troed rhanbarthol ar gyfer rhai materion cynllunio, ac eto mae'n ymddangos bod perswadio awdurdodau lleol i weithio gyda'i gilydd i ddibenion y CDLl yn fwyfwy anodd, yn hytrach nag yn llai anodd. Edrychaf ymlaen at glywed beth sydd gan y Gweinidog i'w ddweud am sut y gallwn sicrhau cydweithio yn y dyfodol.

**Mike Hedges:** I thank Andrew R.T. Davies, as this is an interesting and useful topic to discuss. We used to have eight county structure plans. We now have gone to 22 local development plans, all produced in isolation by each authority without any co-ordination. In urban south Wales, the communities run into each other. I would challenge anyone to know, in going from Swansea to Neath Port Talbot, when they have crossed the boundary without seeing the sign. We need developments to take place. For that to work effectively, we must work on a city region basis, rather than each local authority working in isolation, so that

**Mike Hedges:** Hoffwn ddiolch i Andrew R.T. Davies, gan fod hwn yn bwnc diddorol a defnyddiol i'w drafod. Roedden ni'n arfer cael wyth cynllun strwythur sirol. Rydym bellach wedi mynd i 22 cynllun datblygu lleol, a gynhyrchwyd i gyd gan bob awdurdod ar ei ben ei hun heb unrhyw gydlynu. Yn ardaloedd trefol de Cymru, mae'r cymunedau'n rhedeg i mewn i'w gilydd. Byddwn yn herio unrhyw un i wybod, wrth fynd o Abertawe i Gastell-nedd Port Talbot, pan fyddant wedi croesi'r ffin heb weld yr arwydd. Rydym angen datblygiadau i ddigwydd. Er mwyn i hynny weithio'n effeithiol, rhaid inni weithio ar sail rhanbarth

housing and facilities can be put in the right place. Sometimes, things that happen on the border of one authority will have more effect on the neighbouring authority than on that authority itself.

dinas, yn hytrach na bod pob awdurdod lleol yn gweithio ar wahân, fel y gellir rhoi tai a chyfleusterau yn y lle iawn. Weithiau, bydd pethau sy'n digwydd ar ffin un awdurdod yn cael mwy o effaith ar yr awdurdod cyfagos nag ar yr awdurdod hwnnw ei hun.

**The Minister for Environment and Sustainable Development (John Griffiths):** I welcome this opportunity to address these important issues and to reinforce the importance of having adopted local development plans in place. It is the case that those local development plans are the very bedrock—the basic building block—for planning decisions and planning policy at the local level. As a Government focused on delivery, we want to see local development plans in place as soon as possible. They do, as has been said, provide certainty for communities and potential developers. They set out the scope and framework for each local planning authority area and they are about strategic, long-term thinking and policy.

**Y Gweinidog Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy (John Griffiths):** Croesawaf y cyfle hwn i fynd i'r afael â'r materion pwysig ac i atgyfnerthu pwysigrwydd o gael cynlluniau datblygu lleol wedi'u mabwysiadu ar waith. Mae'n wir mai'r cynlluniau datblygu yw'r sylfaen—y bloc adeiladu sylfaenol—ar gyfer penderfyniadau cynllunio a pholisïau cynllunio ar y lefel leol. Fel Llywodraeth yn canolbwyntio ar gyflawni, rydym am weld cynlluniau datblygu lleol ar waith cyn gynted ag y bo modd. Maen nhw fel y dywedwyd, yn darparu sicrwydd i gymunedau a datblygwyr posibl. Maent yn nodi cwmpas a fframwaith ar gyfer pob ardal awdurdod cynllunio lleol ac maent yn ymwneud â meddwl a pholisi strategol, tymor hir.

A number of Members have mentioned the importance of authorities working with adjacent authorities on cross-border authority issues. That is part of our current local development plan process. Anything that covers what we call 'greater than local' issues requires this approach, whether that is transport infrastructure, strategic employment, housing or Gypsy/Traveller sites. Joint discussion and collaboration is the only way that we can secure robust plans in each of these areas. I know that stakeholders are having these discussions. They are taking place and we do consider them to be very important. One example is the work that Cardiff local authority has done with adjacent authorities to consider the housing issues that have been mentioned and, in fact, I know that John Davies, the former chief planning inspector in Wales, was engaged by Cardiff Council to have those discussions to look at those connections

Mae nifer o Aelodau wedi sôn am bwysigrwydd awdurdodau yn gweithio gydag awdurdodau cyfagos ar faterion traws-ffiniol awdurdodau. Mae hynny'n rhan o'n proses cynlluniau datblygu lleol cyfredol. Mae unrhyw beth sy'n sôn am yr hyn yr ydym yn alw'n faterion 'mwy na lleol' yn gofyn am y dull hwn o weithredu, boed hynny yn seilwaith trafnidiaeth, cyflogaeth strategol, tai neu safleoedd Sipsiwn/Teithwyr. Trafodaeth ar y cyd a chydweithio yw'r unig ffordd y gallwn sicrhau cynlluniau cadarn ym mhob un o'r meysydd hyn. Rwy'n gwybod bod rhanddeiliaid yn cael y trafodaethau hyn. Maent yn digwydd ac rydym yn eu hystyried i fod yn bwysig iawn. Un enghraifft yw'r gwaith y mae awdurdod lleol Caerdydd wedi ei wneud gydag awdurdodau cyfagos i ystyried y materion tai sydd wedi cael eu crybwyll ac, yn wir, rwy'n gwybod fod John Davies, y cyn brif arolygydd cynllunio yng Nghymru, wedi cael ei gyflogi gan Gyngor Caerdydd i gael y trafodaethau i edrych ar y cysylltiadau

6.00 p.m.

Therefore, it would not be true to say that that cross-border view or approach is not a feature

Felly, ni fyddai'n wir dweud nad yw'r farn neu'r dull trawsffiniol yn nodwedd o'n

of our current system. However, I very much accept that we need to make it a much stronger feature as we go forward. We have the opportunity offered by the planning legislation, as Members have mentioned, to take forward that regional approach and to make sure that mechanisms are in place to ensure that the integration takes place and that, if it does not, the Welsh Government is in a position to ensure that it does. Therefore, we will look at those issues as we take our legislation on planning forward.

system bresennol. Fodd bynnag, rwy'n derbyn bod angen i ni ei gwneud yn nodwedd lawer cryfach wrth inni symud ymlaen. Mae gennym y cyfle a gynigir gan y ddeddfwriaeth gynllunio, fel y mae'r Aelodau wedi sôn, i symud ymlaen â'r dull rhanbarthol ac i wneud yn siŵr bod mecanweithiau wedi'u sefydlu i sicrhau bod yr integreiddio yn digwydd, ac os nad ydyw, mae Llywodraeth Cymru mewn sefyllfa i sicrhau ei fod yn digwydd. Felly, byddwn yn edrych ar y materion hynny wrth i ni ddatblygu ein deddfwriaeth ar gynllunio.

Six adopted plans are in place to date: Pembrokeshire coast and Snowdonia national park authorities and Caerphilly, Rhondda Cynon Taf, Merthyr Tydfil and Blaenau Gwent county borough councils. Therefore, we have those as examples of what can be achieved, but we need to have much better coverage. We hope very much and, indeed, expect that, by the end of this year, we will have over 50% coverage across Wales. Those that are further behind obviously need to demonstrate greater urgency.

Mae chwe chynllun a fabwysiadwyd ar waith hyd yn hyn: Arfordir Sir Benfro ac awdurdodau parciau cenedlaethol Eryri a chynghorau bwrdeistref sirol Caerffili, Rhondda Cynon Taf, Merthyr Tudful a Blaenau Gwent. Felly, mae gennym y rhain fel enghreifftiau o'r hyn y gellir ei gyflawni, ond mae angen i ni gael cwmpas llawer mwy. Rydym yn gobeithio yn fawr iawn ac, yn wir, yn disgwyl, erbyn diwedd y flwyddyn hon, y bydd gennym gwmpas dros 50% ar draws Cymru. Bydd angen i'r rhai sydd ymhellach yn ôl ddangos mwy o frys yn amlwg.

The independent advisory group was mentioned earlier and was chaired by John Davies, former director of the Planning Inspectorate in Wales. What the independent advisory group said about local development plans was that it did not believe that the system was in need of fundamental reform and that it should be retained, but there was a need to reduce delay and simplify the process. We are now working through improvements that might be made to achieve that greater simplification and timeliness. We are grateful to the stakeholders who have taken part in the relevant discussions, and I will be announcing more details on that as we carry forward our work on reforming the planning system.

Soniwyd am y grŵp cynghori annibynnol yn gynharach ac roedd yn cael ei gadeirio gan John Davies, cyn gyfarwyddwr yr Arolygiaeth Gynllunio yng Nghymru. Beth ddywedodd y grŵp cynghori annibynnol am gynlluniau datblygu lleol oedd nad oedd yn credu bod angen diwygio sylfaenol ar y system ac y dylid ei chadw, ond roedd angen lleihau oedi a symleiddio'r broses. Rydym bellach yn gweithio drwy welliannau y gellid eu gwneud i gyflawni symleiddio mwy ac amseroldeb. Rydym yn ddiolchgar i'r rhanddeiliaid sydd wedi cymryd rhan yn y trafodaethau perthnasol, a byddaf yn cyhoeddi rhagor o fanylion ar hynny wrth inni ddatblygu ein gwaith ar ddiwygio'r system gynllunio.

To return to housing figures and targets, I have said on many occasions, and Andrew R.T. Davies referred to some of those statements in his opening speech, that it is very much up to local planning authorities to put their figures in place. The Welsh Government provides data and methodology on household and population projections,

I ddychwelyd at ffigurau tai a thargedau, rwyf wedi dweud ar sawl achlysur, a chyfeiriodd Andrew R.T. Davies at rai o'r datganiadau hynny yn ei araith agoriadol, mai mater i awdurdodau cynllunio lleol yw sefydlu eu ffigurau. Mae Llywodraeth Cymru yn darparu data a methodoleg ar amcanestyniadau aelwydydd a phoblogaeth,

which are about trends: birth, death and migration rates, as well as assumptions on household formation. However, it is very much up to local planning authorities to look at these trend-based figures and then to decide whether they think that they are applicable to their areas with regard to their policy decisions, which need to be taken into account. If they want to, they can carry out their own work to produce their own figures. The responsibility lies at the local level—we assist, we help and we support, but it is up to local planning authorities to put their own figures in place. Ultimately, evidence will be tested by an appointed independent inspector, and that is a transparent and open examination process.

sydd yn ymwneud â thueddiadau: cyfraddau geni, marwolaeth a mudo, yn ogystal â rhagdybiaethau ar ffurf aelwydydd. Fodd bynnag, mater i awdurdodau cynllunio lleol yw edrych ar y ffigurau hyn sy’n seiliedig ar dueddiadau ac yna i benderfynu a ydynt yn ystyried eu bod yn berthnasol i’w hardaloedd o ran eu penderfyniadau polisi, sydd angen eu hystyried. Os ydyn nhw eisiau, gallan nhw wneud eu gwaith eu hunain i gynhyrchu eu ffigurau eu hunain. Mae’r cyfrifoldeb yn gorwedd ar y lefel leol—rydym yn cynorthwyo, rydym yn helpu ac rydym yn cefnogi, ond mater i’r awdurdodau cynllunio lleol yw sefydlu eu ffigurau eu hunain. Yn y pen draw, bydd tystiolaeth yn cael ei phrofi gan arolygydd annibynnol a benodir, ac mae honno’n broses archwilio dryloyw ac agored.

With regard to withdrawn plans, which were mentioned by Andrew R.T. Davies, although two plans have been withdrawn as a result of the scrutiny process, I am pleased that the authorities concerned have indicated their intention to take forward robust plans at the earliest opportunity. A further eight authorities’ plans are with the Planning Inspectorate at the moment, and that is why I am confident that we will get up to over 50% coverage by the end of this calendar year.

O ran cynlluniau a dynnwyd yn ôl, a grybwyllwyd gan Andrew R.T. Davies, er bod dau gynllun wedi cael eu tynnu’n ôl o ganlyniad i’r broses graffu, rwy’n falch bod yr awdurdodau dan sylw wedi nodi eu bwriad i fwrw ymlaen â chynlluniau cadarn ar y cyfle cyntaf. Mae cynlluniau wyth awdurdod arall gyda’r Arolygiaeth Gynllunio ar hyn o bryd, a dyna pam rwy’n hyderus y byddwn yn cael cwmpas  dros 50% erbyn diwedd y flwyddyn galendr hon.

Other authorities have adopted unitary development plans, which provide the strategic framework for communities, although they need to move on to adopt LDPs as quickly as possible.

Mae awdurdodau eraill wedi mabwysiadu cynlluniau datblygu unedol, sy’n darparu fframwaith strategol ar gyfer cymunedau, er bod angen iddynt symud ymlaen i fabwysiadu CDLl cyn gynted ag y bo modd.

To conclude, I think that there is agreement and consensus in the Chamber as to the importance of local development plans—the importance of having robust plans, putting them in place in a timely way, and fulfilling the basic responsibility of local planning authorities. We know that the Planning and Compulsory Purchase Act 2004 places the local plan-making responsibility on local planning authorities, and we, as the Welsh Government, then have responsibility for regulation and guidance. That is the balance to which Members—and certainly Andrew R.T. Davies—referred. There is a balance between the national and the local. We have always had that approach, and we consider that it is the correct one.

I gloi, credaf fod cytundeb a chonsensws yn y Siambr ynglŷn â phwysigrwydd cynlluniau datblygu lleol—pwysigrwydd cael cynlluniau cadarn, eu rhoi ar waith mewn modd amserol, a chyflawni cyfrifoldeb sylfaenol awdurdodau cynllunio lleol. Rydym yn gwybod bod Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 yn gosod y cyfrifoldeb gwneud cynllun lleol ar awdurdodau cynllunio lleol, ac mae gennym ni, fel Llywodraeth Cymru, gyfrifoldeb am reoliadau a chanllawiau. Dyna’r cydbwysedd yr oedd Aelodau—ac Andrew R.T. Davies yn sicr—yn cyfeirio ato. Ceir cydbwysedd rhwng y cenedlaethol a’r lleol. Rydym wastad wedi cael yr ymagwedd honno, ac rydym o’r farn ei bod yn un gywir.

In moving forward, we will ensure that our system is fit for purpose. We will reduce delay, and we will simplify. We will work with all stakeholders to provide a long-term, sustainable framework for our local communities, providing long-term certainty and leading to a more joined-up and integrated approach across Wales. I would very much like to thank all Members who have taken part in this short debate, and I would like to congratulate Andrew R.T. Davies for bringing these matters forward.

Wrth symud ymlaen, byddwn yn sicrhau bod ein system yn addas at y diben. Byddwn yn lleihau oedi, a byddwn yn symleiddio. Byddwn yn gweithio gyda'r holl randdeiliaid i ddarparu fframwaith hirdymor, cynaliadwy ar gyfer ein cymunedau lleol, gan ddarparu sicrwydd hirdymor ac arwain at ymagwedd fwy cydgysylltiedig ac integredig ar draws Cymru. Hoffwn yn fawr iawn ddiolch i'r holl Aelodau sydd wedi cymryd rhan yn y ddadl fer, a hoffwn longyfarch Andrew R.T. Davies am gyflwyno'r materion hyn.

**The Deputy Presiding Officer:** On that consensual note, today's proceedings are brought to a close.

**Y Dirprwy Lywydd:** Ar y nodyn cydsyniol hwnnw, mae materion heddiw yn cael eu dwyn i ben.

*Daeth y cyfarfod i ben am 6.06 p.m.*
*The meeting ended at 6.06 p.m.*

**Aelodau a'u Pleidiau**
**Members and their Parties**

Andrews, Leighton (Llafur – Labour)
Antoniw, Mick (Llafur – Labour)
Asghar, Mohammad (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Black, Peter (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Burns, Angela (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Butler, Rosemary (Llafur – Labour)
Chapman, Christine (Llafur – Labour)
Cuthbert, Jeff (Llafur – Labour)
Davies, Alun (Llafur – Labour)
Davies, Andrew R.T. (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Davies, Byron (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Davies, Jocelyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Davies, Keith (Llafur – Labour)
Davies, Paul (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Davies, Suzy (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Drakeford, Mark (Llafur – Labour)
Elis-Thomas, yr Arglwydd/Lord (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Evans, Rebecca (Llafur – Labour)
Finch-Saunders, Janet (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
George, Russell (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Gething, Vaughan (Llafur – Labour)
Graham, William (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Gregory, Janice (Llafur – Labour)
Griffiths, John (Llafur – Labour)
Griffiths, Lesley (Llafur – Labour)
Gruffydd, Llyr Huws (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Hart, Edwina (Llafur – Labour)
Hedges, Mike (Llafur – Labour)
Hutt, Jane (Llafur – Labour)
Isherwood, Mark (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
James, Julie (Llafur – Labour)
Jenkins, Bethan (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Jones, Alun Ffred (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Jones, Ann (Llafur – Labour)
Jones, Carwyn (Llafur – Labour)
Jones, Elin (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Jones, Ieuan Wyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Lewis, Huw (Llafur – Labour)

Melding, David (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Mewies, Sandy (Llafur – Labour)
Millar, Darren (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Morgan, Julie (Llafur – Labour)
Neagle, Lynne (Llafur – Labour)
Parrott, Eluned (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Powell, William (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Price, Gwyn R. (Llafur – Labour)
Ramsay, Nick (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Rathbone, Jenny (Llafur – Labour)
Rees, David (Llafur – Labour)
Roberts, Aled (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Sandbach, Antoinette (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Sargeant, Carl (Llafur – Labour)
Skates, Kenneth (Llafur – Labour)
Thomas, Gwenda (Llafur – Labour)
Thomas, Rhodri Glyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Thomas, Simon (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Watson, Joyce (Llafur – Labour)
Whittle, Lindsay (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Williams, Kirsty (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Wood, Leanne (Plaid Cymru – The Party of Wales)